Pure

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

# Dylanwad diwygiadaeth Charles Finney ar ddiwygiad 1858-60 yng Nghymru

Roberts, Dyfed Wyn

*Award date:*
2005

*Awarding institution:*
University of Wales, Bangor

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 04. Apr. 2025

# Dylanwad diwygiadaeth Charles Finney ar ddiwygiad 1858-60 yng Nghymru.

---

I'W DDEFNYDDIO YN Y LLYFRGELL YN UNIG

TO BE CONSULTED IN THE LIBRARY ONLY

**Dyfed Wyn Roberts**

**2005**

U.W.B LIBRARY
LLYFRGELL P.C.B

# Dylanwad diwygiadaeth Charles Finney ar ddiwygiad 1858-60 yng Nghymru.

---

Cyflwynir y gwaith ymchwil hwn
ar gyfer gradd PhD
ym Mhrifysgol Cymru Bangor.

Dyfed Wyn Roberts
2005

P.C.B LLYFRGELL
U.W.B LIBRARY

## Crynodeb

Cynhyrfwyd Cymru gyfan gan ddiwygiad crefyddol grymus yn 1858-60, ac amcangyfrifir i 100,000 o bobl gael eu dychwelyd at grefydd drwyddo. Mewn oedfaon ar hyd a lled y wlad daeth pobl i sylweddoli eu hangen ysbrydol a chyflwynasant eu bywyd i Iesu Grist. Rhoddodd hyn gyfeiriad newydd i unigolion, nerth newydd i eglwysi, a chyfnewidiad moesol i gymdeithas.

Yn greiddiol i'r symudiad hwn oedd syniadau'r efengylydd Americanaidd Charles Finney. Datblygwyd dulliau newydd o hybu adfywiadau crefyddol o dan ei weinidogaeth yn hanner cyntaf y bedarwedd ganrif ar bymtheg a daethant yn boblogaidd yng Nghymru wrth i'w ddarlithiau gael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Ond er mwyn i'r syniadau hyn gael derbyniad gwresog roedd yn rhaid i Ymneilltuwyr Cymru newid eu pwyslais diwinyddol yn gyntaf. Dyna ddigwyddodd dan arweinaid pobl fel John Roberts, Llanbrynmair, a chymedrolwyd yr hen system Galfnaidd draddodiadol.

O dan arweiniad gweiniodgion fel Thomas Aubrey croesawodd eglwysi Cymru y moddion diwygiadol newydd, a phrofwyd cryn lwyddiant wrth eu hymarfer. Pan ddychwelodd Humphrey Jones adref o America yn haf 1858 roedd yr eglwysi yn ysu am adfywiad newydd, a defnyddiwyd ef i danio'r diwygiad hwn. Ymunodd Dafydd Morgan, Ysbyty Ystwyth, ag ef, a than arweiniad y ddau'n defnyddio'r moddion diwygiadol ymledodd yr adfywiad drwy'r wlad. Gwreiddiodd diwygiadaeth yn ddyfn yn naear ymneilltuol Cymru, ac er bod ambell un yn amheus o'r dulliau, gwelir bod y system newydd yn parhau i fod yn rhan o fywyd yr eglwysi erbyn canol yr 1880au.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth. | | |
| Datganiad. | | |
| Rhagymadrodd. | | 1 - 24 |
| Pennod 1: | Dehongli'r diwygiad. | 25 - 46 |
| Pennod 2: | Dylanwad Charles Finney a'r cefndir diwinyddol. | 47 - 86 |
| Pennod 3: | Argyfwng ysbrydol a'r angen am ddiwygiad. | 87 - 135 |
| Pennod 4: | Dyheu, paratoi, a blaenffrwyth y diwygiad. | 136 - 173 |
| Pennod 5: | Dylanwad diwygiadaeth ar Humphrey Jones a Dafydd Morgan. | 174 - 210 |
| Pennod 6: | Diwygiad 1858-60. | 211 - 243 |
| Pennod 7: | Diwygiad Richard Owen a pharhad y traddodiad diwygiadol. | 244 - 265 |
| Pennod 8: | Casgliadau. | 266 – 275 |
| Llyfryddiaeth. | | 276 - 288 |

## Cydnabyddiaeth

Ni fyddai cwblhau'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth llawer o bobl a hoffwn eu cydnabod a diolch iddynt amdano.

Yn flaenaf ar y rhestr y mae'r Athro D.Densil Morgan, fy arolygydd. O fy nyddiau cynnar ar gwrs y B.D. hyd at yn awr, bu'n dysgu a goruchwylio, ysgogi ac ysbrydoli. Os oes ymchwilydd ynof, yna i Densil mae'r diolch. Bu ei gyd-weithwyr yn Adran Diwinyddiaeth Prifysgol Cymru Bangor hefyd o gymorth pwysig.

Anhepgor oedd cymorth staff Llyfrgell ac Archifdy Prifysgol Cymru Bangor, ac yn enwedig fy nghyfeillion yn Llyfrgell y Normal. Bu staff y Llyfrgell Genedlaethol hefyd o fudd mawr. Cefais beth gymorth ariannol gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen a phrin y byddai'r ffioedd o fewn fy ngafael heb hwn.

Mae llu o gyfeillion a theulu, gan gynnwys fy rhieni, wedi rhoi eu cymorth ar hyd y daith. Bu'r holi ynghylch datblygiad y gwaith yn ddigon sawl tro i f'ysgogi i ddyfalbarhau.

Yn olaf, rhaid diolch i Bethan. Beth bynnag a ddaeth rhyngom, hebddi hi ni fyddai'r gwaith wedi ei gychwyn o gwbl.

*Cyflwynaf y gwaith hwn i bawb a gariodd y baich, pan aeth y baich yn rhy drwm i'w gario.*

## Rhagymadrodd.

Yn gynnar yn haf 1858 dychwelodd Cymro ieuanc i'w bentref genedigol nid nepell o Aberystwyth ac yntau'n llawn angerdd a thân adfywiadol. Roedd wedi treulio pedair blynedd yn gweinidogaethu ymhlith ei gyd-Gymry yn America ac yno y profodd o danbeidrwydd ei ddiwygiad crefyddol cyntaf. Yno yr enillodd iddo'i hun y teitl 'Diwygiwr', a dod gartref a wnaeth efo'r bwriad o gychwyn adfywiad tebyg ymhlith ei bobl ei hun yn yr hen wlad. I'r perwyl, trefnodd gyfres o gyfarfodydd diwygiadol yn y capel y magwyd ef ynddo ym mhentref Tre'r Ddôl, ac o'r fan honno y taniwyd y wlad gan un o'r diwygiadau crefyddol mwyaf a welodd hi erioed.

Nid oes amheuaeth mai Humphrey Jones oedd cychwynnydd y diwygiad grymus hwnnw. Bwriad y traethawd hwn yw olrhain peth o hanes y diwygiad ac ystyried ei ystyr a'i arwyddocâd. Gwelwn fel yr oedd yr eglwysi Ymneilltuol wedi bod yn dyheu am adfywiad ac yn paratoi amdano ers rhai blynyddoedd, a hynny oherwydd eu pryder gwirioneddol ynghylch cyflwr ysbrydol y wlad a'r eglwysi. Yn greiddiol i'r paratoi hwn oedd dylanwad technegau diwygiadol fel y defnyddiwyd hwy gan y pregethwr Armericannaidd poblogaidd Charles Finney. Bydd y traethawd hwn yn gosod diwygiad 1858-60, felly, yng nghyd-destun y traddodiad diwygiadol hwnnw.

'Diwygiadaeth' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r technegau a ddefnyddid gyda'r fath lwyddiant yn adfywiadau America o tua 1800 ymlaen. Nid Charles Finney a gychwynnodd y traddodiad hwn, ond ef, o bosibl, a'i gwnaeth mor boblogaidd. Yn ôl yr hanesydd Americanaidd J.B.Boles gwelwyd y technegau diwygiadol ar waith gyntaf oll yn ystod y diwygiad mawr a

gychwynnodd ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif yn Kentucky.[1] Cyn hynny Calfiniaeth oedd prif draddodiad diwinyddol y wlad, gyda'i honiad fod pob adfywiad yn deillio'n uniongyrchol oddi wrth Dduw, heb fod gan ddyn ddim rhan yn y peth o gwbl. Fodd bynnag, roedd y syniad hwn ar fin cael ei ddisodli gan gred arall. Daethpwyd i gredu bod gan ddyn allu cynhenid i ymateb i Dduw, peth na dderbynnid o dan reolau'r hen gyfundrefn Galfinaidd. Arweiniodd y gred hon at y dybiaeth y gellid defnyddio technegau arbennig a fyddai'n sicrhau bendith Duw a gwneud diwygiad yn anorfod. Mewn 'cyfarfodydd gwersyll' (*camp meetings*) yn Kentucky yn 1800 yr ieuwyd y ddiwinyddiaeth hon a'r dulliau newydd hyn o sicrhau tröedigaeth ynghyd, a'u gweithredu am y tro cyntaf. Os gallai dyn fel creadur moesol a chyfrifol ymateb yn ddirwystr i alwad Duw, yna roedd angen gwneud popeth a ellid er mwyn sicrhau'r ymateb hwnnw. Defnyddiwyd y fainc i'r rhai dan wasgfa - neu'r '*anxious seat*', gyntaf oll yn ystod y cyfarfodydd hyn. Cymhellwyd y rhai oedd wedi cael eu cyffwrdd neu'u hargyhoeddi o'u hangen i ddod ymlaen i fainc bren ym mhen blaen y man cyfarfod, ac yno eu hannog i dderbyn Crist fel eu gwaredwr. Dros gyfnod o amser datblygwyd y technegau hyn, a daeth Charles Finney yn un o brif hyrwyddwyr y dull newydd hwn o gynnal diwygiad. Dyma 'ddiwygiadaeth' (*revivalism*). Yr arfer cynt oedd disgwyl i Dduw anfon diwygiad yn ei amser ei hun, yn ôl sofraniaeth ei ras, ond erbyn y 1830au daethpwyd i gredu y byddai Duw yn bendithio'r technegau hyn ac adfywio'r eglwysi yn eu sgil.

Yn naturiol, roedd y Calfiniaid traddodiadol yn hynod amheus o'r symudiad hwn ac yn dra beirniadol ohono. Gwrthodent dderbyn y deuai unrhyw

---

[1] J.B. Boles, *The Great Revival. Beginnings of the Revival Belt* (Kentucky, 1996), passim.

fendith ohono, a phan honwyd fod diwygiad wedi cychwyn trwy'r dulliau hyn, amheuwyd ei ddilysrwydd. Cymaint oedd effaith Calfiniaeth ar y meddwl hanesyddol nes i rai ysgolheigion diweddarach wadu mai ffrwyth diwygiadaeth oedd adfywiad mawr 1858-60. Fodd bynnag, bydd y traethawd hwn yn dadlau nad dyna'r gwir, a bod dylanwad diwygiadaeth America yn gyffredinol a gwaith Charles Finney yn arbennig wedi bod yn allweddol i lwybr a llwyddiant yr adfywiad mawr hwnnw. Ni chredwn fod hynny yn gwneud y ffenomen yn llai dilys fel gwaith Duw, nac yn tynnu dim oddi wrth ei werth. Er mwyn darganfod ai ffenomen dros dro oedd diwygiadaeth ynteu a fu iddo ddylanwad mwy parhaol astudiwyd ychydig ar ddiwygiad 1882-85 yng ngogledd Cymru, neu 'Ddiwygiad Richard Owen' fel y'i gelwyd. Credwn fod y patrwm diwygiadol yn cael ei ailadrodd yn yr adfywiad hwn a cheisiwn ddangos hynny.

*i. Y cynseiliau diwinyddol.*

Gellid diffinio diwygiad neu adfywiad crefyddol fel achlysur pan mae Duw trwy ei Ysbryd Glân yn ymyrryd yn amlwg ym mywyd un neu fwy o eglwysi a hynny er mwyn adnewyddu bywyd ysbrydol yr aelodau ac ennill y di-gred at Grist. Yn ôl Dr R.Tudur Jones, mae'r peth hwn i'w 'gyferbynnu a rhediad llyfn bywyd beunyddiol'.[2] Wrth i fywyd unigolion gael ei effeithio fel hyn, daw bywyd newydd i'r eglwysi. Ffrwyth y newid ysbrydol hwn ym mywyd pobl yw'r newid moesol a welir ynddynt, a bydd hynny yn ei dro yn effeithio ar gyflwr y gymdeithas letach. Yn greiddiol i'r symudiad hwn y mae gwaith Duw trwy ei Ysbryd. Ef sydd yn gyfrifol am anfon adfywiad i blith ei bobl.

---

[2] R Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl. Cristnogaeth a diwylliant yng Nghymru 1890-1914. Cyfrol II. Dryswch a Diwygiad* (Abertawe, 1982) t.122.

Fel cynsail ddiwinyddol i'r traethawd hwn, credwn mewn Duw sy'n gweithredu mewn byd amser ac oddi mewn i batrymau hanes. Gwrthodwn y ddeuoliaeth sy'n mynnu bod Duw yn sefyll yn gwbl ar wahân i'w fyd. Yn hytrach, gwelwn yn yr ymgnawdoliad fod Duw wedi torri i mewn i'w greadigaeth a hynny er mwyn adfer y greadigaeth honno. Deallwn oddi wrth y Beibl fod Iesu yn Dduw-ddyn, yn gwbl ddynol ar un llaw, ond hefyd yn gwbl ddwyfol ar y llaw arall. Mae'r Mab yn rhannu'r un sylwedd â'r Tad. Yng Nghyngor Nicea yn 325 defnyddiwyd y gair Groeg '*homousios*' i ddiffinio natur ddwyfol Iesu, ac er nad yw'n air beiblaidd, credodd y tadau cynnar ei fod yn cyfleu i'r dim y darlun ysgrythurol o ddwyfoldeb Iesu.[3] I Athanasiws, Iesu oedd y disgleirdeb a ddeilliai o oleuni'r Tad.[4] Yng Nghristnogaeth uniongred, felly, nid dyn yn ymddangos fel Duw oedd Iesu o Nasareth, ond Duw wedi ymgnawdoli ym mherson dyn. Yn Iesu roedd Duw wedi ei uniaethu ei hunan â'i fyd i'r eithaf, a thrwy gyfres o ddigwyddiadau hanesyddol, megis y croeshoeliad a'r atgyfodiad, gweithredodd Duw er mwyn adfer dynoliaeth. Trwy'r Ysbryd Glân, trydydd person y Drindod sanctaidd, ac un eto sy'n rhannu'r un sylwedd â'r Tad, mae Duw yn parhau i fod yn weithredol yn ei fyd.[5] Credwn fod adfywiadau crefyddol yn y traddodiad Cristnogol yn digwydd yn unol â'r cynsail hwn.

Cyn derbyn syniadau Finney bu'n rhaid i ymneilltuaeth Galfinaidd Cymru ddatblygu'n bur helaeth. Olrheinir y datblygiadau hyn yng nghorff y traethawd a gwelwn fel y bu symudiad oddi wrth y pwyslais Calfinaidd

---

[3] Gw. R.Tudur Jones (Gol.), *Ffynonellau Hanes yr Eglwys: y cyfnod cynnar* (Caerdydd, 1979), tt.125-7.

[4] Athanasiws, *Contra Arianos 2.29*, dyfynwyd yn J.N.D.Kelly, *Early Christian Doctrines* (London, 1977), t.245; cf. idem, *De incarnatione: Ymgnawdoliad y Gair,* cyf. Gan Euros Bowen (Caernarfon, 1976), passim.

[5] Yr ymdriniaeth gyflawnaf o hyn yn Gymraeg yw R.S.Thomas (Abercynon), *Undod Personol y Duw-ddyn* (Merthyr Tudful, 1900), passim.

traddodiadol ar Dduw fel unig offeryn achubiaeth dyn, at farn a ganiatâi i ddyn yntau ran allweddol yn y gwaith hwnnw. Yn wir, mae'r syniad Finneyaidd am ddiwygiad yn dibynnu ar y cynsail fod gan ddyn ei swyddogaeth lawn i'w chwarae ym mhroses yr iachawdwriaeth. Gwelodd y diwinydd Diwygiedig cyfoes Thomas F.Torrance berygl yn y ddau bwyslais fel ei gilydd. Ar y naill law mae perygl tanseilio rhyddid ewyllys ac urddas personoliaeth dyn trwy roi'r pwyslais yn llwyr ar Dduw yn nhrefn y cadw, ac ar y llaw arall mae perygl caniatáu gormod o allu iddo wrth leihau'r pwyslais ar Dduw yn y drefn. Yn yr ymgnawdoliad gwelodd Torrance gytgord perffaith rhwng dyn a Duw. Ym mherson Iesu daw'r dynol a'r dwyfol ynghyd. Nid rhannol ddynol mo Iesu, nac ymddangos fel petai'n ddwyfol. Mae'n rhannu'r un sylwedd dwyfol â'r Tad ac ar yr un pryd yn rhannu'r un sylwedd dynol â dyn. Ym mherson Iesu mae Duw wedi dod atom yn null dyn, ond ef hefyd yw'r dyn sydd wedi ymateb yn berffaith gyflawn i alwad Duw a rhodio mewn perffaith ufudd-dod iddo. Yn ôl Torrance nid yw'r pwyslais ysgrythurol sy'n datgan bod trefn y cadw yn dibynnu'n llwyr ar ras Duw yn lleihau dim ar ymateb dyn yn y drefn honno.[6] Er bod gwrtheb amlwg yn y fan hyn, mae'n cadw'n agosach at y pwyslais beiblaidd na Chalfiniaeth ar y naill law a Finneyaeth ar y llaw arall, a fynnant roddi'r pwyslais ar un ochr ar draul y llall. Safbwynt y traethawd hwn yw nad yw'r Calfiniaid na'r Arminiaid wedi gwneud llwyr gyfiawnder â chymesuredd y dystiolaeth feiblaidd.

---

[6] Gw. J.B.Torrance, 'The vicarious humanity of Christ' yn T.F.Torrance (gol.), *The Incarnation: ecumenical studies in the Nicene Creed* (Edinburgh, 1981), tt. 127-147; Elmer M.Colyer, *How to Read T.F.Torrance. understanding his trinitarian and scientific theology* (Downers Grove, 2001), t.119.

*ii. Dehongliadau seciwlaraidd a'r ymateb iddynt.*

Fel y gellid disgwyl, nid pawb a fyddai'n cytuno â'r cynseiliau diwinyddol hyn. Mae digon o ysgolheigion wedi dadlau mai cynnyrch pwysau cymdeithasol yn unig ydyw adfywiadau. Un a roddodd sylw i le diwygiadau yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif a'r bymtheg yw'r hanesydd E.P.Thompson. Yn ei gyfrol glasurol ar ddatblygiad y dosbarth gweithiol, *The Making of the English Working Class,* mae Thompson yn hynod feirniadol o grefydd arallfydol na rydd bwyslais ar ddioddefaint dyn na cheisio cyfiawnder yn y byd hwn. Sylwodd fel y denwyd y dosbarth gweithiol gan Fethodistiaeth yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a hynny'n benodol oherwydd diwygiadau'r cyfnod. I Thompson nid oedd cyffro ac emosiwn mawr yr adfywiadau hynny yn ddim amgenach na 'mass hysteria'.[7] Yn ei dyb ef, gweithredu fel ffenomen gwrthchwyldro yn ystod y rhyfeloedd Napoleonaidd a wnaeth Methodistiaeth ddiwygiadol, ac wrth i bobl gyffredin golli eu gobaith am welliant cymdeithasol darganfuasant mewn crefydd obaith arallfydol, a throi at hwnnw a wnaethant wrth golli unrhyw obaith arall. Yn ôl Thompson, 'There is a sense in which any religion which places great emphasis on the after-life is the chiliasm of the defeated and the hopeless'.[8] Dadl Thompson yw bod pobl gyffredin wedi cydio yn y gobaith nefolaidd hwn wrth iddynt golli gobaith am unrhyw ddiwygiad cymdeithasol. Wrth i wahanol ymgeisiau tuag at wella cymdeithas y bobl gyffredin fethu, megis chwyldro gwleidyddol, undebaeth lafur, neu siartiaeth, trodd y bobl at grefydd. Dadleuodd fod diwygiadau crefyddol yn dilyn methiant wrth ddiwygio cymdeithasol. 'In this sense,' meddai, 'the great Methodist recruitment between 1790 and 1830 may be seen

[7] E.P.Thompson, *The Making of the English Working Class* (Penguin, 1991), t.418.
[8] Ibid. t.419.

as the chiliasm of despair'.[9] Dyma'r patrwm y credodd Thompson iddo'i weld: wrth i obaith bydol leihau cododd diwygiad, ac wrth i'r gobaith godi, cefnwyd ar grefydd. Meddai Thompson drachefn, 'It is possible that religious revivalism took over just at the point where "political" or temporal aspirations met with defeat'.[10]

Fel secwlarydd o argyhoeddiad, nid oes lle i Dduw yng ngwaith Thompson, a chan ei fod mor feirniadol o grefydd, nid rhyfedd iddo geisio profi mai ymateb i sefyllfaoedd cymdeithasol yn unig oedd diwygiadau. Yn ei astudiaeth yntau o Fethodistiaeth Wesleaidd yng Nghymru a Lloegr yn oes Victoria, dadleuodd R.B.Walker nad oedd gan Wesleaeth ddiddordeb mewn gobaith milflwyddol ac felly nad ymatebion i fethiannau diwygio cymdeithasol oedd y diwygiadau crefyddol. Cyfeiriodd at flwyddyn o dwf aruthrol yn eglwysi Methodistaidd Lloegr rhwng Mawrth 1832 a Mawrth 1833: cyfnod sy'n cyd-fynd â llwyddiant diwygio democratiaeth ym Mhrydain dan Ddeddf Diwygio 1832. Wrth gyfeirio at hyn ac at y dybiaeth bod diwygiadau yn dilyn yn anorfod gyfnod o ddirwasgiad economaidd, meddai Walker: 'No clear pattern of relationship between religious revivals and economic changes emerges'.[11]

Credwn mai dadl wan yw'r un sy'n mynnu mai fel ymateb i bwysau cymdeithasol *yn unig* y mae diwygiad yn codi. Ni wadwn nad oes unrhyw ddylanwad cymdeithasol, fodd bynnag. Yn y mynych gyfeiriadau at ddiwygiad 1857 yn America, er enghraifft, cawn sylwebyddion y cyfnod yn nodi pwysigrwydd y cwymp ariannol ar y pryd fel un o'r pethau a arweiniodd at

---

[9] Ibid. t.427.
[10] Ibid. t.428.
[11] R.B.Walker, 'The Growth of Wesleyan Methodism in Victorian England and Wales' yn *Journal of Ecclesiastical History*. 24 (1973), t.270.

adfywiad. Creodd y caledi economaidd wasgfa ysbrydol, a cheisiodd pobl a effeithiwyd gan y cwymp atebion a chysur mewn crefydd. Fel y sylwebyddion hynny, credwn fod modd dadlau i'r cwymp ariannol fod yn erfyn yn llaw Duw i bigo cydwybod pobl. Os yw Duw yn gallu gweithio oddi fewn i fyd amser a hanes credwn hefyd y gall ddefnyddio digwyddiadau hanesyddol er budd ei bwrpas ei hun. Credwn fod dehongliad felly ar y cwymp yn America yn adlewyrchu'r dystiolaeth feiblaidd am Dduw. Roedd cyni a thlodi yn gyffredinol yng Ngymru ac ni allwn lai na derbyn bod pwysau cymdeithasol o'r fath yn dylanwadu ar bobl gyffredin, a bod neges yr eglwysi am fyd gwell y tu hwnt i'r byd hwn yn gallu gafael yn rhyfeddol. Nid pwysau economaidd yn unig a arweiniodd at dwf crefydd, ond salwch a heintiau o wahanol fath, a chawn gipolwg ar yr effaith a gafodd haint y colera yn nes ymlaen.

*iii. Nodweddion y ffydd efengylaidd.*

Os oedd pwysau cymdeithasol yn gallu effeithio agwedd pobl at grefydd, yna roedd pwyslais diwinyddol yr eglwysi yn bwysig hefyd. Yn ei astudiaeth ddylanwadol *Evangelicalsim in Modern Britain: 1730s - 1980s*, disgrifiodd yr hanesydd o Sais David Bebbington y pedair nodwedd sy'n creu efengylyddiaeth. Yn gyntaf, y pwyslais ar safle canolog y groes. Nid oedd dim yn bwysicach i'r efengyleiddwyr nag athrawiaeth yr Iawn, a gwaith achubol Iesu ar groes Calfaria. Credid bod Iesu wedi marw fel dirprwy i ddynolryw, a bod y gosb roedd dyn yn ei haeddu am ei bechod wedi ei gosod ar Iesu. Gwelwyd pwysigrwydd yr athrawiaeth hon yng Nghymru ym merw dadleuon diwinyddol mawr a gododd yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ynghylch helaethrwydd yr Iawn. Roedd y dadleuon hyn yn allweddol wrth

fraenaru'r tir ar gyfer diwygiad 1858-60 yng Nghymru, fel y cawn weld. Yr ail bwyslais sy'n greiddiol i'r ffydd efengylaidd yw'r Beibl. Gan fod y gwirioneddau achubol yn cael eu darganfod yn y Beibl roedd rhaid ymgyfarwyddo'n fanwl â'i gynnwys. Credid bod y Beibl wedi ei ysbrydoli gan Dduw a'i fod yn anffaeledig. Er i'r gred honno ddod dan gryn straen yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn y cyfnod dan sylw yn yr astudiaeth hon prin iawn oedd yr amheuon ynghylch cywirdeb y Beibl yng Nghymru. Y trydydd pwyslais, yn ôl Bebbington, oedd ar weithredu (*activisim*), ac yn benodol ar weithredu i achub eraill wrth genhadu neu efengylu. Nododd Bebbington fel yr oedd disgwyl i weinidog fod yn hynod brysur yn ei waith, gan roi enghraifft o Adam Clarke a roes i fyny'r arfer o yfed te a choffi er mwyn arbed amser. Roedd gan yr enwad Wesleaidd gronfa o'r enw 'Worn-out minister's Fund'.[12] Tra oedd rhai yn brysur yn cenhadu, roedd eraill yn brysur yn diwygio cymdeithas.

Efallai mai nodwedd bwysicaf y ffydd efengylaidd oedd yr angen am dröedigaeth bersonol. Roedd yr alwad ar i bobl gael eu troi yn ganolog i'r pregethu efengylaidd, wrth i'r pregethwr annog ei wrandawyr i droi oddi wrth bechod mewn edifeirwch ac ymddiried yng Nghrist trwy ffydd. Gallai'r broses fod yn boenus ac yn emosiynol, gan ddechrau efo'r teimlad o euogrwydd mawr, ac yna'r ymdeimlad o ollyngdod a rhyddhad wrth i'r dychweledig brofi maddeuant Duw. 'The great crisis of life,' meddai Bebbington, 'could stir deep emotion.'[13] Pregethu'r newydd da am Iesu a'i groes oedd y ffordd i sicrhau tröedigaeth, ac roedd pwyslais ar uffern fel cosb dragwyddol yn cael lle pwysig

[12] D.W.Bebbington, *Evangelicalsim in Modern Britain. 1730s – 1980s* (Llundain, 1989,) t.11.
[13] Ibid. t.5.

oddi fewn i'r pregethu hwn yn ogystal.[14] Er bod ofn yn cael ei ddefnyddio i geisio denu pobl i droi, roedd y pwyslais ar ras a chariad Duw yn Iesu yn bwysicach. Credai rhai y gallai tröedigaeth fod yn rhywbeth graddol a allai gymryd amser, ond roedd y Methodistiaid yn neilltuol yn credu mewn tröedigaethau sydyn y gellid eu dyddio i un amser penodol mewn bywyd. Wrth i'r bedwaredd ganrif a'r bymtheg fynd yn ei blaen gwelwyd newid pwysig yn y syniad ynghylch sut yr oedd dyn yn cael tröedigaeth. Yn y blynyddoedd cynnar credid ei fod yn broses a ddibynnai'n llwyr ar Dduw, ond wrth i Galfiniaeth ddatblygu daeth swyddogaeth dyn yn bwysicach. I'r hen do o bregethwyr ni allai dyn wneud dim I'w gynorthwyo ei hun oherwydd bod pechod yn ei atal. Ond i'r to ieuengach, ac i'r Wesleaid yn arbennig, roedd y gallu naturiol gan ddyn i ymateb yn gadarnhaol i alwad a chymhelliad Duw. Aeth y pwyslais hwn mor bell gan naw o fyfyrwyr Academi Cynulleidfaol Glasgow yn 1844 nes iddynt gael eu diarddel oherwydd iddynt gredu mewn 'hunan-droedigaeth', rhywbeth nad oedd gan Dduw fawr ddim rhan yn y broses o gwbl.[15]

Roedd y pedwar nodwedd uchod yn gyffredin oddi fewn i'r eglwysi anghydffurfiol Cymraeg.[16] Roedd y pwyslais ar dröedigaeth yn neilltuol bwysig, yn enwedig mewn diwygiad crefyddol. Wrth i'r Wesleaid eu sefydlu eu hunain ym mlynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac wrth i Galfiniaeth hithau gymedroli, newidiodd pwyslais y pregethu anghydffurfiol o fod yn athrawiaethol eu cynnwys i fod yn gymhellion ymarferol i'r gwrandawyr droi at Grist. Daeth y pregethu hwn yn neilltuol boblogaidd ac yn allweddol i

---

[14] Am enghreifftiau dramatig o bregethu barn, gw. J.J.Roberts, *Cofiant Owen Thomas, D.D., Liverpool* (Caernarfon, 1913), tt. 468-9, 501-2.
[15] Bebbington, *Evangelicalism,* t.8.
[16] Ceir ymgais i gymhwyso thesis Bebbington at y dystiolaeth Gymreig yn R.Tudur Jones, 'Awr anterth efengylyddiaeth yng Nghymru, 1800-50', yn D.Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam Ffydd* (Bangor, 1998), tt.285-309.

lwyddiant y diwygiad. Nododd Bebbington ddwyster yr emosiwn a deimlid wrth brofi tröedigaeth. Profwyd yr emosiwn hwn y tu allan i gyfnod o ddiwygiad ond yn ystod adfywiadau roedd yr emosiwn yn gymaint mwy. Nodweddwyd sawl diwygiad yng Nghymru gan olygfeydd emosiynol iawn, er bod ambell i ddiwygiad tawel wedi digwydd hefyd. Nodweddid diwygiad 1858-60 yn neilltuol gan yr emosiwn hwn, gydag enghreifftiau mynych o bobl yn wylo, chwerthin, dawnsio, a disgyn ar y llawr fel cyrff marw. Nid bwriad y traethawd hwn yw ceisio egluro'r emosiwn a'r ffenomenâu hyn, dim ond nodi eu bod wedi digwydd, a bod sylwebyddion y cyfnod yn eu gweld fel arwydd o ddilysrwydd yr adfywiad, ac fel prawf o ymyrraeth Duw.

*iv. Y dychweledigion.*

Efallai mai nodwedd amlycaf a phwysicaf unrhyw ddiwygiad yw'r dychweledigion, sef y rhai a brofodd dröedigaeth ac a ddaeth yn gredinwyr ac yn aelodau o'r eglwys trwyddo. Er i rai sylwebyddion weld yr emosiwn yn un arwydd o ddilysrwydd y diwygiad, credwn mai prawf gwell o hynny yw'r ffrwyth a ddeilliodd ohono mewn dychweledigion. Enillwyd at eglwysi Cymru rhwng 90,000 a 100,000 o aelodau yn ystod diwygiad 1858-60.[17] Yn eu plith yr oedd lliaws a ddaeth yn arweinwyr pwysig yn eu heglwysi a'u cymdeithas. Daeth rhai yn arweinwyr cenedlaethol, gan ddylanwadu yn drwm ar fywyd Cymru a thu hwnt. Ganed Timothy Richard yn Ffaldybrenin, Sir Gaerfyrddin, yn 1845. Wedi ei dröedigaeth yn 1859 cafodd ei fedyddio ac ymuno yn eglwys y Bedyddwyr yn Caeo. Wedi cyfnod fel athro ysgol aeth i Goleg Hwlffordd yn 1865, ac anfonwyd ef yn genhadwr i China gan Gymdeithas Genhadol y

[17] J.Venn, *The Revival in Wales* (Hereford, 1860), t.16.

Bedyddwyr yn 1869. Bu yno hyd 1915. Daeth yn ŵr hynod o ddylanwadol yn y wlad honno, gan gael ei ddyrchafu i fod yn gynghorwr i lywodraethwyr y wlad. O bosib mai ef oedd 'un o'r cenhadon mwyaf a anfonwyd gan unrhyw ran o'r Eglwys Gristionogol i China.'[18]

Yr ail i'w nodi gennym yw Thomas Charles Edwards. Ganed ef yn 1837 i linach o Fethodistiaid nodedig: ei dad oedd Lewis Edwards, diwinydd a sylfaenydd coleg y Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala, a'i nain yn ferch i Thomas Charles. Fel myfyriwr yn y coleg y cafodd y mab ei gyffwrdd yn ystod y diwygiad. Er ei fod wedi dechrau pregethu cyn hynny, credid mai yn y cyfnod hwnnw y cafodd dröedigaeth, a brofodd i fod yn gymaint sbardun iddo weddill ei oes. Daeth Thomas Charles Edwards yn arweinydd dylanwadol mewn cyfnod o ddeffroad cenedlaethol yng Nghymru. Ordeiniwyd ef yn weinidog gyda'r Methodistiaid ac yr oedd yn bregethwr hynod boblogaidd. Ef oedd pennaeth cyntaf Coleg y Brifysgol, Aberystwyth yn 1872, ac yn 1891 olynodd ei dad fel pennaeth coleg yr enwad yn y Bala.[19]

Dim ond dau ymhlith degau o filoedd o ddychweledigion oedd y rhain. Ond newidiwyd eu bywyd gan y diwygiad, a rhoddwyd iddynt gyfeiriad newydd a nerth i ddilyn llwybr Crist. Profodd nifer helaeth o gredinwyr o rym yr adfywiad, gyda gweinidogion yn eu plith. Sylwn ar y newid fu ar Dafydd Morgan, un o arweinwyr y diwygiad, yn nes ymlaen, ond cyffyrddwyd a newidiwyd gweinidogaeth nifer fawr o rai eraill yn ogystal. Er enghraifft, yn y cofiant i bregethwr lled ddisylw, sef Thomas Edwards, Cwmystwyth, dywedir,

---

[18] R.T.Jenkins (Gol.), *Y Bywgraffiadur Cymreig at 1945* (Llundain, 1953) tt.798-9; am yrfa Richard gw. Andrew Wallis, 'The multiple conversions of Timothy Richard: a paradigm of missionary experience', yn D.W.Bebbington (Gol.), *The Gospel in the World: international Baptist studies* (Carlisle, 2002), tt.271-94.

[19] Gw. D.D.Williams, *Thomas Charles Edwards* (Llundain, 1922); cf. Y *Bywgraffiadur,* tt.184-5.

'Nid oedd llawer gwell yn y pulpud nag yn y cyfarfodydd a nodasom, hyd ddiwygiad 1858 a 1859, pryd y cafodd ysbryd newydd, a symudiad ymlaen'.[20] Er yn frawd i Lewis Edwards ac yn ewythr i Thomas Charles Edwards, digon cyffredin oedd cyfraniad yr Edwards hwn. Serch hynny rhoddodd yr adfywiad nerth newydd i'w weinidogaeth, a chynhyrchodd hwn ffrwyth am flynyddoedd wedi hynny. Credwn mai'r ffrwyth hwn sydd yn profi dilysrwydd y diwygiad.

*v. Y diwygiad yn Iwerddon a'r Alban.*

Nid Cymru yn unig a brofodd o'r adfywiad grymus hwn. Yn ei chyfrol *Religious Revivals in Britain and Ireland, 1859-1905*[21] mae Janice Holmes yn adrodd hanes y diwygiad yn Ulster yn benodol, ac yn astudio'r ymateb a fu iddo yn Lloegr a'r Alban. Astudiaeth fanwl o effaith y diwygiad yng ngogledd ddwyrain yr Alban yw gwaith Kenneth S. Jeffrey, dan y teitl *When the Lord Walked the Land.*[22] Rhoddir cipolwg byr ar effaith y diwygiad yng Nghymru gan Holmes, ond oherwydd ei bod yn dibynnu ar ffynonellau eilradd, Saesneg ei hiaith, nid yw wedi llwyddo i bortreadu'n gwbl gywir yr hyn a ddigwyddodd yma. Fodd bynnag, gan mai drwy'r Saesneg y cynhaliwyd yr adfywiad yn Ulster a Lloegr gallwn ddibynnu ar yr hanes a'r dadansoddi a gynigir ganddi. Y mae Holmes hithau yn gosod y diwygiad yn Ulster yn ei gyd-destun diwygiadol Americanaidd. Gan mai cyfnod o drai ysbrydol oedd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yno, crëwyd awydd dwfn am dywalltiad o'r Ysbryd Glân yn Ulster hefyd. Trwy'r diwygiad yno dychwelwyd nifer fawr o bobl, daeth lleygwyr i

---

[20] J Evans, *Cofiant y Parch Thomas Edwards, Cwmystwyth* (Dolgellau, dim dyddiad) t.48.
[21] J Holmes, *Religious Revivals in Britain and Ireland. 1859-1905* (Dublin, 2000).
[22] K.S.Jeffrey, *When the Lord Walked the Land. The 1858-62 Revival in the North East of Scotland* (Carlisle, 2002).

amlygrwydd fel arweinwyr, profwyd ffenomenâu corfforol rhyfeddol, a thrawsnewidiwyd cyflwr moesol y gymdeithas dros dro.

Fel yng Nghymru, codwyd awydd cryfach am adfywiad yn Ulster wrth i'r trigolion glywed hanes y diwygiad a fu yn America yn 1857. Yn wir, un o'r dulliau o gynyddu'r tân adfywiadol yng ngogledd Iwerddon oedd trwy gynnal darlithiau cyhoeddus ar ddigwyddiadau America. Cychwynnodd adfywiad Ulster yn Swydd Antrim, mewn pentrefi megis Kells, Connor ac Ahoghill. Cyfarfodydd gweddi oedd y gwreichion a gynheuodd y tân, ac roedd y cyfarfodydd gweddi hynny wedi eu cynnal ers rhai blynyddoedd er mwyn ymbil am adnewyddiad ysbrydol. Cafodd rhai o bobl isaf y gymdeithas eu dychwelwyd yno, a chawsant gyfle mynych i gyfrannu mewn oedfaon diwygiadol. Er nad oedd hynny ddim bob amser wrth fodd y gweinidogion, cafwyd enghreifftiau lu o bobl gyffredin yn gwaeddi ar draws oedfaon. Nodwyd y cyfarfodydd hyn gan ffenomenâu corfforol rhyfeddol. Meddai Holmes:

> The emotional intensity of these crowded meetings caused many people to give in to their spiritual anguish in physical ways - from moaning and hysterical sobbing, to fits and shakings and to even more ecstatic phenomena such as visions, clairvoyance, trances and the appearance of stigmata-like markings.[23]

Credai rhai iddynt gael gweledigaethau o'r nefoedd ac uffern, eu bod yn gweld Iesu ar ei orsedd a'i fod wedi siarad â hwy. Roedd merched yn arbennig yn honni'r profiadau hyn, a thrwy hynny yn cael parch uwch oddi fewn i'r eglwysi, ac yn derbyn lle, swyddogaeth a grym o'u herwydd. Meddai Holmes, 'In the economy of revivalism notoriety conferred power, even on the otherwise powerless'.[24] Sylwodd Holmes fel yr oedd tensiwn yn codi oddi fewn i'r eglwys trwy ddatblygiadau fel hyn. Ar un llaw, trwy ddod â phrofiadau

[23] Ibid. t.3.
[24] Ibid. t.12.

cyffredin i bawb, roedd y diwygiad yn gwneud pobl yn fwy cyfartal. Ond ar y llaw arall roedd trefn cymdeithas ac enwad yn pwysleisio parchusrwydd, trefn a rheolaeth. Wrth i'r ddau ddod benben â'i gilydd, gwelwyd y straen yn cynyddu.

Un achos am y straen oedd bod pobl leyg yn gynyddol yn anwybyddu'r gweinidogion ar faterion fel dilysrwydd y ffenomenâu rhyfedd, hyd y cyfarfodydd, a'r egwyddor o ganiatáu i leygwyr bregethu. Roedd y lleygwyr am weld eu swyddogaeth yn cynyddu, tra bo'r gweinidogion am weld y drefn arferol yn parhau. Roedd cefnogwyr y diwygiad yn mesur ei lwyddiant wrth allu'r lleygwyr di-addysg hyn fel arweinwyr. Er bod consýrn ynghylch cywirdeb eu hathrawiaeth - pregethu eu profiad oeddent yn amlach na pheidio - roedd y llwyddiant a ddilynodd y pregethu yn brawf i lawer bod Duw yn bendithio'r gwaith. Teithiodd John Venn, prebendari Anglicanaidd Henffordd, i Ulster ddwywaith er mwyn profi dilysrwydd y diwygiad a gweld ei effaith drosto'i hun. Wrth ganfod bod y mwyafrif llethol o'r dychweledigion wedi dal at gyffes eu ffydd, credodd fod y diwygiad yn waith Duw, ac yn brawf o lwyddiant gweinidogaeth y lleygwyr.

Nodwedd hynod ddiddorol a gwerthfawr yng ngwaith Holmes yw ei hastudiaeth o'r ymateb a fu yn Lloegr i'r diwygiad yn Ulster. Cariodd papurau dyddiol megis y *Times* yr hanes yn gyson ar eu tudalennau. Fodd bynnag, er gwaethaf y gweddïo mawr gan eglwysi Lloegr, ni phrofwyd adfywiad cenedlaethol yno. Rhannau yn unig o'r wlad a gyffyrddwyd, sef Cernyw a rhai o'r dinasoedd mawr. Fel yng Nghymru, roedd dylanwad Charles Finney a diwygiadaeth Americanaidd yn drwm ar rai o eglwysi anghydffurfiol Lloegr. Roedd diwygiad 1857 yn America yn apelio'n fawr at y Saeson gyda'r pwyslais

ar adfywiad tawel a threfnus. Nid oedd ffenomenâu ac anhrefn tybiedig Ulster wrth eu bodd, a chododd ofnau ac amheuaeth ynddynt o'r herwydd.

Teithiodd nifer o arweinwyr o Loegr i ogledd Iwerddon i brofi'r adfywiad drostynt eu hunain. Yn wir, daeth yr ymweliadau hyn o Loegr yn un o nodweddion y diwygiad yn Ulster. Ymwelodd 121 gweinidog i gyd, hanner cant ohonynt o Loegr, deugain o'r Alban, a'r gweddill o Gymru, gogledd America a de Iwerddon. Ar y cyfan argraff dda a chadarnhaol a adawyd ar yr arweinwyr hyn. Roedd y Saeson yn credu bod cyflwr ysbrydol Lloegr mor isel ag ydoedd yn Ulster cyn y diwygiad ac felly bod angen adfywiad arnynt. Fodd bynnag, roedd rhai yn credu bod cyflwr ysbrydol Lloegr cystal y byddai'r adfywiad yn siŵr o groesi, gan awgrymu bod Lloegr yn haeddu diwygiad oherwydd ei daioni! A chredai rhai y caed adfywiad oherwydd grym yr Ymerodraeth Brydeinig. Mewn erthygl yn y *British Standard* meddai un sylwebydd:

> That the arm of the Lord is being made bare in Ireland, Scotland, and Wales, is now clear beyond all rational contradiction. We do trust that the blessing will not be denied to the seat of theEmpire, England. There lies the head, the heart, the moral might of the Evangelical world. Everything short of this will in its nature and position be introductory. Revival here will be revival everywhere.[25]

Ond er gwaethaf yr hunanhyder a'r hunan-dyb hwn, ni welwyd diwygiad cyffredinol a chenedlaethol yn Lloegr. Mae'n bosibl fod eu hamheuon ynghylch y ffenomenâu rhyfedd yn eu hatal rhag ceisio amdano yn ddigonol. Dywed Holmes i'r gred bod soffistigeiddrwydd Lloegr yn atalfa ar deimladrwydd eithafol yn gyffredin yn y cyfnod. Roedd parchusrwydd oes Victoria'n dechrau brathu ym mysg Cristnogion y wlad, ac amheuid y pethau hyn yn fawr gan rai.

[25] Ibid. tt.26-7.

Dangosodd barn Lloegr ar y diwygiad yn Ulster hefyd sut yr ystyrid natur y Gwyddelod yn gyffredinol. Tueddid i edrych arnynt yn genedl israddol. Roedd 'ethnoleg', sef egluro nodweddion cenedlaethol ar sail hil, wedi datblygu yn fath o wyddoniaeth yn ystod y ganrif. Dywed Holmes fod ethnoleg gynnar wedi cefnogi'r syniad bod y Gwyddelod yn bobl farbaraidd, ddigyfraith a diog. Roedd Thomas Carlyle ac A.C.Swinbourne o'r farn y byddai perygl i'r Gwyddelod dynnu'r Saeson i lawr i'r un lefel â hwy. Meddai Holmes, 'They promoted the belief that Irish inferiority was a permanent result of biological forces; Irish mental and physical traits were responsible for creating an inferior race'.[26] Oherwydd y meddylfryd uchod, synnwyd llawer yn Lloegr bod diwygiad grymus wedi cyffwrdd Iwerddon o gwbl. Disgwylient y byddai adfywiad o'r fath wedi eu cyffwrdd hwy yn gyntaf yn rhinwedd eu huchafiaeth genedlaethol. Erbyn Tachwedd 1859, fodd bynnag, dechreuodd y Saeson sylweddoli na fyddai adfywiad cenedlaethol yn cyrraedd Lloegr wedi'r cwbl.

Ceir astudiaeth hynod fanwl a diddorol gan Kenneth S. Jeffrey o effaith y diwygiad ar ogledd ddwyrain yr Alban. Fel Holmes ni allodd Jeffrey wneud defnydd o'r ffynonellau Cymraeg ar gyfer astudio'r adfywiad yng Nghymru, a cheir camgymeriad yn ei waith o'r herwydd. Myn mai yn Aberdeen y cychwynnodd y diwygiad ym Mhrydain. Meddai, 'Aberdeen was the birthplace of the 1859 revival in Britain', gan honni fod yr adfywiad wedi cychwyn yno ym mis Tachwedd 1858.[27] Mewn gwirionedd roedd Humphrey Jones wrth ei waith diwygiadol fisoedd ynghynt, sef yn yr haf y flwyddyn honno.

Er gwaethaf y nam hwnnw, ceir gan Jeffrey astudiaeth dreiddgar o'r modd yr effeithiwyd tair cymuned yn yr Alban gan yr adfywiad. Sylwodd ar

---

[26] Ibid. t.44.
[27] Jeffrey, *When the Lord Walked the Land*, t.49.

amrywiaeth fawr rhwng y cymunedau hynny a dadleuodd fel yr effeithiodd yr amrywiaethau hyn ar natur y diwygiad yn y cymunedau. Sylwodd fod cymeriad y diwygiad wedi bod yn bur wahanol yn y tair ardal. Yn ninas Aberdeen sylwodd mai adfywiad ar batrwm Finneyaidd a gafwyd, gyda gwŷr busnes y dref yn gyfrifol am arwain diwygiad hynod drefnus a phroffesiynol. Yn yr ardal wledig, amaethyddol o amgylch y dref cafwyd adfywiad ar batrwm Presbyteraidd yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Ac yn y pentrefi pysgota arfordirol sylwodd mai patrwm Methodistaidd y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ydoedd yno.

Dadleuodd Jeffrey fel y bu gweithgarwch ysbrydol eglwysi Aberdeen yn allweddol i sicrhau adfywiad yno. Yn y blynyddoedd yn arwain at 1858 bu pwyslais cynyddol ar genhadu yn y ddinas, gyda llawer o eglwysi yn adeiladu neuaddau cenhadol pwrpasol. Roedd yno hefyd dwf yn nifer y cyfarfodydd gweddi, a phan ddaeth y newydd o America fod diwygiad grymus yn cerdded drwy'r wlad yna daeth y trigolion i ddisgwyl digwyddiad tebyg yno. Ar ôl oedfa arbennig ar 1 Medi 1858 daeth ton newydd o weddi am ddiwygiad, a dechreuodd rhai o ddynion ieuanc y dref gynnal cwrdd gweddi undebol rhwng dau a thri'r prynhawn yn oruwchystafell y 'Mechanics' Institute'. Wedi gweddïo bob dydd am wythnos roedd y nifer a fynychai wedi cynyddu at 600 a bu rhaid chwilio am adeilad mwy. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd cenhadol yn ogystal a gwahoddwyd sawl efengylydd proffesiynol, megis Grattan Guiness, i arwain. Meddai Jeffrey am y gweithgarwch hwn, 'Without doubt, the religious climate in Aberdeen in 1858 was the chief factor in determining the timing of this revival'.[28] Cychwynnodd y diwygiad yn un o gyfarfodydd Reginald

[28] Ibid. t.57.

Radcliffe, cyfreithiwr o Lerpwl a ddaeth yn efengylydd, mewn ystafell genhadol fechan yn Stryd Albion.

Diwygiad hynod drefnus ydoedd hwn yn Aberdeen. Lleygwyr oedd yr arweinwyr a'r rheini yn wŷr busnes dylanwadol yn y lle. Daethant â'u trefn a'u proffesiynoldeb gyda hwy i'r gwaith ysbrydol a threfnasant gyfarfodydd ar amserau a oedd yn gweddu i amser hamdden gwahanol aelodau o'r gymdeithas. Barn Jeffrey am y cyfarfodydd hyn yw eu bod yn 'carefully organised' ac yn 'meticulously planned'.[29] 'This was an organised revival,' meddai, 'that was conducted in a highly ordered fashion'.[30] Roedd nifer o dechnegau Finney ar waith yno, er eu bod wedi eu newid i raddau. Er enghraifft, yn hytrach na defnyddio mainc yn nhu blaen y mannau cyfarfod ar gyfer y rhai oedd dan wasgfa ysbrydol, gwahoddwyd hwy i ystafell arall ar ddiwedd yr oedfa lle yr anerchwyd hwy'r ail waith gan yr efengylydd. Yn ganlyniad i hyn ni phrofwyd yr un golygfeydd emosiynol ag a welwyd yn Ulster a Chymru yn Aberdeen. Yn wir, roedd arweinwyr adfywiad y ddinas yn benderfynol na fyddai unrhyw emosiwn amrwd i'w weld yn yr oedfaon. Yn hytrach, roedd popeth i'w wneud mewn trefn. Gosododd Jeffrey'r adfywiad hwn yn y patrwm diwygiadol.

Gwahanol oedd y gwaith yn yr ardal wledig, amaethyddol o amgylch y ddinas. Roedd yn ddiwygiad llawer mwy digymell ac yn dibynnu llai ar efengylyddion teithiol. Sylwodd Jeffrey fel yr oedd consýrn yr eglwysi am y di-gred yn allweddol i gychwyniad yr adfywiad. Ceisiodd yr eglwysi efengylu yn yr ardal ac yn neilltuol ymhlith y bobl ieuanc. Ymddangosodd nifer o erthyglau yn y wasg grefyddol yn hybu'r syniad fod angen diwygiad a daeth y newydd o America ac Ulster i gynhyrfu mwy ar y dyfroedd. Roedd yno ddisgwyliad

[29] Ibid. t.61.
[30] Ibid. t.63.

mawr a galwodd yr arweinwyr ar i bobl weddïo am ddiwygiad. Dibynnodd llwyddiant y diwygiad ar waith pobl gyffredin, wrth iddynt gymell eraill i'r cyfarfodydd. Yn wahanol i Aberdeen, roedd swyddogaeth bwysig gan y gweinidogion hefyd. Nid cadw ar gyrion y gwaith a wnaethant ond eu bwrw eu hunain i'w ganol. Un o'r gwahaniaethau mwyaf rhwng diwygiad y wlad a diwygiad y ddinas oedd y modd y disgwylid i bobl brofi tröedigaeth. Yn Aberdeen rhoddid apêl ar ddiwedd oedfa, ac mewn ail gyfarfod roedd y rhai a ymatebodd dan bwysau i dderbyn Crist fel Gwaredwr yn y fan a'r lle. Ond ni ddisgwylid tröedigaethau sydyn yn y wlad. Gallai'r rhai a ddaeth i dderbyn Crist yno fod mewn gwewyr ysbrydol am wythnosau cyn dod i fwlch yr argyhoeddiad. Meddai Jeffrey am hyn, 'The nature of conversion in the rural revival reflected not only the character of the people amongst whom it was felt, but also the theological persuasion of the minister who led and controled the movement'.[31]

Gwahanol eto oedd y diwygiad yn y pentrefi pysgota ar hyd yr arfordir. Rhoddid lle i fynegi emosiwn a theimlad yn gwbl agored ynddo. Trawsffurfiwyd y cymunedau hynny a oedd yn bell o fod yn foesol a da cyn yr adfywiad. Sylwodd Jeffrey ar dri pheth fyddai wedi hybu'r adfywiad yn y pentrefi hyn. Yn gyntaf, pobl ofergoelus oedd y trigolion. Er enghraifft, roeddent yn credu y bendithid yn fwy'r baban cyntaf i'w fedyddio mewn unrhyw oedfa. Gwelwyd sawl ymladdfa cyn oedfaon bedydd o'r herwydd! Credodd Jeffrey fod yr ofergoeliaeth hon yn sicrhau derbyniad mwy parod i grefydd oruwchnaturiol. Yn ail roedd natur beryglus y gwaith o bysgota ar y môr yn creu awyrgylch lle byddai pobl yn troi at grefydd am gysur a diogelwch.

[31] Ibid. t.130.

Roedd marwolaeth sydyn allan yn y môr yn rhan annatod o fywyd y cymunedau hyn ac ar adegau o drasiedi roedd crefydd yn gallu cynnig cysur iddynt. Yn drydydd roedd yr economi yn allweddol. Yn 1858 cafwyd methiant cymharol yn y ddalfa penwaig. Oherwydd y methiant hwn y cychwynnodd yr efengylydd, James Turner, ei ymgyrch genhadol yn yr ardal yn 1860, ac roedd y cyfarfodydd hynny yn allweddol i gychwyniad y diwygiad. Yn ychwanegol at yr achosion hyn sylwodd Jeffrey hefyd ar y diddordeb y creodd yr hanes am y diwygiad yn America yn ogystal â thröedigaeth pobl adnabyddus am eu hanfoesoldeb yn yr ardal. Profwyd adfywiad hynod o rymus yn y pentrefi pysgota hyn, o bosibl mai dyma'r ardal a effeithiwyd fwyaf un yn yr Alban.

Yn ychwanegol at astudio effaith y diwygiad yn y cymunedau uchod, ceisiodd Jeffrey egluro pam na chyffyrddwyd Peterhead, tref a oedd yng nghanol yr ardal hon. Roedd yn dref ffyniannus, gymharol gyfoethog yn y cyfnod ac roedd sawl peth i awgrymu pam y dylai'r diwygiad fod wedi ei chyffwrdd. Fel ymateb i'r newydd o America cynhaliwyd sawl cwrdd gweddi i alw am ddiwygiad tebyg yno. Cafodd yr hanes o Ulster hefyd wrandawiad da gan gynulleidfaoedd, a chynhaliodd Reginald Radcliffe gyfarfodydd cenhadol yn y dref. Roedd yn amlwg, felly, fod yna bobl yn Peterhead oedd am weld adfywiad yn y dref. Ond er gwaethaf hyn di-hid oedd y mwyafrif ynghylch y peth, ac er bod y dref wedi profi adfywiad o fath yn 1863 a 1864, ni chafwyd bendith y diwygiad yn 1859. Cynigiodd Jeffrey dri rheswm am hyn. Yn gyntaf roedd mwyafrif yr eglwysi yn ddi-hid. Yn ail roedd natur gymysg y boblogaeth mewn dosbarth, gwaith a chefndir, yn ei gwneud hi'n anodd i adfywiad wreiddio yno. Haws oedd i ddiwygiad ymledu mewn pentref arfordirol lle'r oedd tua chwe deg y cant yn gweithio yn y diwydiant pysgota, gan greu

cymdeithas glos, nag mewn tref lle'r oedd nifer fawr o wahanol weithfeydd a diwydiannau. Roedd y boblogaeth hefyd yn fwy soffistigedig ac yn llai ofergoelus. Ond i Jeffrey'r prif reswm i egluro pam na fu adfywiad yn Peterhead oedd nad oedd y boblogaeth yn gyffredinol yn groesawus iddo. Meddai, 'The want of a longing for a religious movement in Peterhead is the principal reason why the revival did not affect this town'.[32] Deallwn mai cyfeirio a wna Jeffrey fan hyn at bobl ddi-gred y dref yn hytrach nag at y Cristnogion. Ond a yw honni mai eu diffyg diddordeb hwy mewn diwygiad oedd y rheswm pam na ddaeth yr adfywiad i Peterhead yn asesiad teg? Ni chytunwn ei fod. Onid pwysicach oedd dihidrwydd yr eglwysi eu hunain? Os Duw sydd yn anfon diwygiad yna daw ar waethaf y di-gred ac nid oherwydd eu dymuniad i'w cael. Yn wir, gellid dadlau os yw'r digred yn awyddus i brofi adfywiad ysbrydol bod hynny ynddo'i hun yn arwydd fod adfywiad wedi cychwyn.

Gwelodd Jeffrey a Holmes fel ei gilydd fel y chwaraeodd yr hanes am yr adfywiad yn America ran bwysig wrth ysgogi eglwysi Ulster a'r Alban i geisio diwygiad eu hunain. Yn yr astudiaeth hon ar y diwygiad yng Nghymru byddwn yn sylwi ar yr un ysgogiad, a'r modd yr ymledodd yr hanes am adfywiad ar un cyfandir i gyfandir arall ac fel y bu'n fodd i sbarduno'r gwaith yng Nghymru.

Sylwyd uchod fel y dangosodd Janice Holmes gymaint o deithio a fu rhwng Lloegr ac Ulster. Ond gan mai drwy gyfrwng y Gymraeg yr hybwyd y diwygiad yng Nghymru, prin iawn o sylw a gafodd yn Lloegr ar y pryd. Ni fu'r un teithio rhwng Lloegr a Chymru ag a fu rhwng Lloegr ac Ulster. Ni chafwyd fawr o deithio rhwng Cymru ac Ulster na'r Alban ychwaith. Digwyddodd yr

---

[32] Ibid. t.245.

adfywiad yn y tair gwlad yn annibynnol ar ei gilydd, er bod llawer o'r ffenomenâu a'r canlyniadau yn ymdebygu i'w gilydd. Oddi fewn i'r datblygiadau hyn y mae gosod y diwygiad yng Nghymru. Adfywiad ymhlith nifer o adfywiadau ydoedd, ac er nad oedd cysylltiad gwirioneddol rhwng Cymru, Iwerddon, yr Alban a rhai o'r gwledydd eraill a gyffyrddwyd, roedd cysylltiad pendant yn bod rhwng Cymru ac America.

*vi. Patrwm yr astudiaeth hon.*

Ym mhennod gyntaf y traethawd byddwn yn ystyried sut y cafodd y diwygiad ei ddehongli gan haneswyr. Edrychwn ar ystod eang o astudiaethau gan gynnwys un a geisiodd ddehongli'r cwbl yng ngoleuni effaith gymdeithasol ac economaidd y dydd, ac eraill a oedd yn gwadu unrhyw ddylanwad dynol ar y diwygiad o gwbl. Yn yr ail bennod ystyriwn y cefndir diwinyddol. Byddwn yn astudio diwinyddiaeth ddiwygiadol Charles Finney gan sylwi fel y defnyddiwyd rhai o'i dechnegau yn ystod y diwygiad. Hefyd, byddwn yn astudio fel y datblygodd Calfiniaeth Cymru ym mhedwar degawd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a sut y bu i'r Galfiniaeth gymedrol a ddaeth yn norm erbyn y 1840au greu naws a sicrhaodd y byddai syniadau Finney yn cael croeso mor dwymgalon.

Dadansoddwn y teimlad o argyfwng ysbrydol a brofwyd ymhlith yr Ymneilltuwyr Cymraeg yn y drydedd bennod. Y teimlad hwn o argyfwng a barodd i gynifer ddyheu a gweddïo am adfywiad hyd at 1858. Credent mai diwygiad crefyddol oedd yr ateb i'w problemau, ac yn y bedwaredd bennod byddwn yn sylwi sut yr aethant ati i geisio'r ateb hwnnw gan Dduw. Yn y bennod honno deuwn ar draws ffigwr hynod ddylanwadol yn yr ymgais i

sicrhau adfywiad, sef Thomas Aubrey. Ni chafodd Aubrey mo'i le haeddiannol yn hanes diwygiad 1858-60 hyd yma. Ond credwn ei fod yn ffigwr allweddol wrth i'r eglwysi geisio tywalltiad o'r Ysbryd Glân.

Ym mhenod pump byddwn yn edrych ar fywyd a gwaith y ddau brif ffigwr yn y diwygiad, Humphrey Jones a Dafydd Morgan. Gwelwn fel y cafodd Jones ei ddylanwadu'n uniongyrchol gan ddiwygiadaeth America yn y cyfnod a dreuliodd yn cenhadu ym mhlith y Cymry yn America. Ceisiwn ddeall hefyd pa ddylanwad a fu arno iddo broffwydo dyfodiad y milflwydd yn Aberystwyth, a sut yr arweiniodd hynny at ei dranc fel diwygiwr. Wedi ystyried cyfnod bore Morgan byddwn yn astudio ei gyfraniad i'r diwygiad, ac yn benodol yn edrych ar y dyddiaduron a gadwodd ar y pryd. Bydd hyn yn help inni sylwi fel y defnyddiodd yntau rai o'r technegau diwygiadol er mwyn llwyddo yn y gwaith. Yna, yn y chweched bennod byddwn yn edrych yn fanwl ar fisoedd cyntaf y diwygiad. Gwelwn eto y technegau diwygiadol ar waith. Byddwn yn cywiro ambell i gamargraff a wnaethpwyd gan haneswyr eraill a fu'n awyddus i wadu y dylanwad Finneyaidd. Edrychir yn fyr ar ddiwygaid Richard Owen yn y seithfed bennod a cheisir dangos dylanwad diwygiadaeth ar yr adfywiad hwnnw. Byddwn yn cloi'r traethawd trwy gynnig nifer o gasgliadau.

Pennod 1.

## Dehongli'r Diwygiad.

Gan mai bwriad yr astudiaeth hon yw edrych ar yr hyn a arweiniodd at y diwygiad yng Nghymru a'r dylanwadau a sicrhaodd mai adfywiad yn y dull diwygiadol a Finneyaidd ydoedd, mae'n bwysig ei gosod yn ei chyd-destun. Bwriad y bennod hon, felly, yw dansoddi'n bur fanwl y dehongli a fu ar y diwygiad gan haneswyr, gan nodi yn benodol y gwahaniaeth barn a fu rhyngddynt ynghylch ei darddiad. Gwelir nad oes yr un ohonynt wedi gosod y diwygiad oddi fewn i fframwaith diwygiadaeth. Er bod rhai yn derbyn pwysigrwydd cyfraniad dyn tuag at yr adfywiad, ni chawn ynddynt asesiad teg o gyfraniad Finneyaeth a diwygiadaeth i'w gychwyniad.

Ers 1860 bu o leiaf 11 ymgais i adrodd hanes diwygiad 1858-60 yng Nghymru, ei ddehongli, ei asesu, a'i osod yn ei gyd-destun hanesyddol a daearyddol. Mae 10 o'r 11 yn gytûn mai Duw oedd ei ffynhonnell a chyfrifir ef yn un o'r diwygiadau mwyaf pwerus i gyffwrdd Cymru, os nad y mwyaf ohonynt i gyd.

Cafwyd y dehongliadau cyntaf yn fuan iawn wedi i'r diwygiad ddod i ben. Cyhoeddodd tri awdur eu gwaith yn 1860. Pregeth ar Salm 102 yn cynnwys ychydig o hanes a chefndir y diwygiad yw *Y Diwygiad Crefyddol* gan John Thomas, gweinidog Annibynnol yn Lerpwl.[1] Darlith i'r Gynghrair Efengylaidd dan y teitl *The Revival in Wales* oedd cyhoeddiad J.Venn, Prebendari Henffordd.[2] Mwy swmpus oedd gwaith Thomas Phillips, eto o Henffordd, a gyhoeddodd o dan y teitl *The Welsh Revival.*[3]

---

[1] John Thomas, *Y Diwygiad Crefyddol: Pregeth ar Salm 102:13-14* (Caernarfon, 1860).
[2] J.Venn, *The Revival in Wales* (Hereford, 1860).
[3] Thomas Phillips, *The Welsh Revival. Its Origin and Development* (Southampton, 1860).

Ar droad yr ugeinfed ganrif, pan oedd diddordeb mawr mewn diwygiadau yng Nghymru, a dyhead am ddiwygiad drachefn, cafwyd tair astudiaeth newydd. Fel rhan o hanes cyffredinol diwygiadau crefyddol a brofwyd yng Nghymru y cyhoeddwyd y cyntaf ohonynt, sef *Llawlyfr ar Hanes Diwygiadau Crefyddol yn Nghymru* gan Edward Parry yn 1898.[4] Tebyg yw gwaith Henry Hughes, *Diwygiadau Crefyddol Cymru*, a gyhoeddwyd yn 1906.[5] Cofnod manwl o rediad y diwygiad yw'r trydydd, sef *Hanes Dafydd Morgan Ysbyty a Diwygiad '59*[6] a ymddangosodd mewn fersiwn Cymraeg yn 1906 a Saesneg yn 1909, a luniwyd gan fab y diwygiwr, sef J.J.Morgan, a oedd yntau yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.

Ffrwyth yr ugeinfed ganrif yw'r pum astudiaeth nesaf, ac ar wahân i un, ceir ymgais yn y rhai hyn i ddehongli'r diwygiad mewn termau diwinyddol neu gymdeithasol. Cofiant i Humphrey Jones a'i waith fel diwygiwr yw cyfrol Evan Isaac, *Humphrey Jones a Diwygiad 1859,* a gyhoeddwyd yn 1930.[7] Darlith i ddathlu canmlwyddiant y diwygiad yw *Diwygiad '59 yng Nghymru*, a draddodwyd gan R.Geraint Gruffydd yn 1959.[8] Yn yr un flwyddyn y cyhoeddodd Eifion Evans *When He is Come*, ei astudiaeth gynharaf ar y diwygiad.[9] Traethawd PhD heb ei gyhoeddi yw gwaith C.Ben Turner, a gyflwynwyd yn 1979, dan y teitl '*Revivals and Popular Religion in Victorian and Edwardian Wales'*.[10] Yr olaf i gynnig dehongliad ar y diwygiad yw Iain Murray. Yn 1994 y cyhoeddodd ei *Revival and Revivalism*, ac er mai ar

---

[4] Edward Parry, *Llawlyfr ar Hanes Diwygiadau* (Corwen, 1898).
[5] Henry Hughes, *Diwygiadau Crefyddol Cymru: o ddechreuad Cristnogaeth yn y wlad hyd y diwygiad diwethaf* (Caernarfon, 1906).
[6] J.J.Morgan, *Dafydd Morgan Ysbyty a Diwygiad '59* (Yr Wyddgrug, 1909).
[7] Evan Isaac, *Humphrey Jones a Diwygiad 1859* (Bala,1930).
[8] R.Geraint Gruffydd, *Diwygiad '59 yng Nghymru* (Bala,1959).
[9] Eifion Evans, *When He is Come* (Denbigh, 1959); gw. hefyd idem *Revival comes to Wales: the story of the 1859 Revival in Wales* (Bridgend, 1986); ac idem *Two Welsh revivalists : Humphrey Jones, Dafydd Morgan, and the 1859 revival in Wales* (Bridgend, 1985).

ddatblygiad diwygiadau yn America y mae'n canolbwyntio, mae ei sylwadau byr ar y diwygiad yng Nghymru yn y cyd-destun hwnnw yn hynod bwysig.[11]

Ar gyfer yr astudiaeth hon bwriadwn rannu'r gweithiau uchod nid yn ôl dyddiad eu cyhoeddi ond yn hytrach yn ôl y math o ddehongli a geir ynddynt. Credwn fod posibl eu gosod yn fras mewn tri chategori. Y categori cyntaf yw'r un lle mae'r awduron yn adrodd hanes y diwygiad yn unig. Ar wahân i gredu mai gwaith Dduw oedd y diwygiad, nid oes ynddynt fawr o ddehongli. Yn y categori hwn gosodwn waith J.J.Morgan, Henry Hughes, Edward Parry, ac R.Geraint Gruffydd. Sylwer fod y tri cyntaf yn deillio o droad yr ugeinfed ganrif. Nid ydynt yn feirniadol o'r diwygiad na'i arweinwyr mewn unrhyw ffordd, ac yn hyn o beth maent yn ymdebygu i'r ugeiniau o gofiannau gweinidogion sy'n deilio o'r un cyfnod.

Yr ail gategori yw'r un lle y cynigir dehongliad o sylwedd a hwnnw'n seciwlaraidd ei naws. Yn ôl y dehongliad hwn ffrwyth y cyd-destun a'r amgylchedd cymdeithasol oedd y diwygiad yn hytrach nag ymyrraeth o eiddo Duw. Un awdur sy'n disgyn i'r categori hwn, sef C.Ben Turner.

Y categori olaf, sy'n cynnwys y nifer mwyaf o awduron, yw'r categori lle y ceir eto ddehongli sylweddol o'r diwygiad, ond yn wahanol i'r ail gategori, mae'r awduron hyn yn gosod gerbron esboniad diwinyddol amdano. Credant mai rhywbeth goruwchnaturiol yw diwygiad lle mae Duw yn ymyrryd yn rhediad y byd. Rhaid inni rannu'r categori olaf hwn yn ddwy. Er bod y pum awdur yn credu mai o Dduw y daeth y diwygiad, mae dau ohonynt yn benodol yn mynnu nad oedd gan ddyn, trwy ddulliau Finneyaidd, unrhyw ran o gwbl yn

[10] C.Ben Turner, 'Revivals and Popular Religion in Victorian and Edwardian Wales' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1979).
[11] Iain H. Murray, *Revival and Revivalism: The Making and Marring of American Evangelicalism* (Edinburgh, 1994).

y peth. Gosodwn Thomas Phillips, John Thomas, a J.Venn yn yr adran gyntaf, ac Eifion Evans ac Iain Murray yn yr ail.

*i. Y categori disgrifiadol.*

Yn bennaf, canolbwyntio ar ddweud y stori y mae'r pum awdur yn y categori cyntaf. Er nad ydynt yn datgan hynny'n glir, mae'n amlwg fod yr un sail ddiwinyddol yn gyffredin i'r pump. Credant mewn Duw sy'n gweithio oddi fewn i ffiniau byd amser a chyfyngiadau hanes. Mae'r pump hefyd yn credu yn y ffenomen a elwir yn 'ddiwygiad' - sef bod Duw, o bryd i'w gilydd, yn dewis ymweld â'i eglwys mewn modd neilltuol er mwyn ei hadnewyddu'n ddramatig ac achub nifer helaeth o anghredinwyr trwyddi. Fel y sylwyd uchod, cyhoeddodd Morgan, Hughes, a Parry eu gwaith mewn cyfnod lle'r oedd diddordeb mawr mewn diwygiadau yng Nghymru. Gellid gosod gwaith Parry, a gyhoeddodd yn 1898, yng nghanol y dyheu a'r gweddïo mawr am ddiwygiad newydd yng Nghymru yn y blynyddoedd yn arwain at 1904-05. Roedd nifer o arweinwyr Ymneilltuol yn y cyfnod hwn, fel y cyfnod yn arwain at ddiwygiad 1858-60, yn bryderus am gyflwr eu heglwysi ac yn gweld adfywiad crefyddol fel ateb i'r broblem.[12] Aethpwyd ati i geisio codi diddordeb yr aelodau trwy eu hatgoffa am y modd y bendithiodd Duw'r genedl yn y gorffennol. Wedi i ddiwygiad 1904-05 ddod i ben, roedd y diddordeb cyffredinol yng Nghymru mewn diwygiadau yn parhau, ac o bosibl mai i ateb y diddordeb hwn y cyhoeddodd Morgan a Hughes eu gweithiau hwy. Yn yr un cyfnod cafwyd nifer sylweddol o ysgrifau yn y gwahanol gyfnodolion enwadol. Hanesion ac atgofion syml ydynt, eto, heb fawr o ymgais i ddehongli'r digwyddiadau, ond ni fyddwn yn astudio'r rhai hyn.

Wrth astudio diwygiad 1858-60 yng nghyd-destun hanes diwygiadau crefyddol yng Nghymru, mae Edward Parry a Henry Hughes yn datgan mai yn y traddodiad diwygiadol clasurol Cymreig y dylid ei ddeall. Gan fod agwedd y ddau i'r diwygiad yn ddigon tebyg, edrychir ar waith Parry yn unig. Iddo ef roedd egnïon 1858-60 yn 'atgyfnerthiad enfawr i grefydd ... yn fwy felly heb eithrio un o honynt'.[13] Gwyddai Parry fod ei effaith yn parhau, gan fod nifer o weinidogion a diaconiaid ei gyfnod ef, sef diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi eu troi at grefydd yn ystod yr adfywiad mawr.

Roedd ar Gymru fawr angen am yr adfywiad hwn, meddai Parry. Roedd 'yr eglwysi wedi myned i gyflwr isel odiaeth o ran eu profiad a'u gweithgarwch' ac 'yr oedd yn sych grasboeth ar winllan yr Arglwydd.' A gwelodd yr adfywiad fel ateb Duw i weddïau'r eglwysi. Gwelodd ôl llaw Duw yn y ffaith fod Humphrey Jones, a brofodd o ddiwygiad America, wedi dychwelyd i Gymru. Roedd Jones yn 'offeryn' yn llaw rhagluniaeth Duw.[14] Pwysleisiodd ba mor syml a dirodres oedd Jones a'i gyd-ddiwygiwr, Dafydd Morgan, nad oedd dim yn sefyll allan ynddynt fel pregethwyr nac arweinwyr, ac nad oedd ganddynt addysg werth sôn amdani. Dim ond Duw allai fod wedi gallu eu codi i'r fath safle yn y wlad, gan wneud y cwbl 'ym mhell uwchlaw y dynol'.[15] Un o ffrwythau pwysig y diwygiad, yn ôl Parry, oedd y ffaith fod y ddyletswydd deuluaidd wedi dod i fri o'r newydd. Ond pwysicach iddo oedd y ffaith i'r diwygiad effeithio dirwest mewn ffordd hynod gadarnhaol. Sylwodd fel y bu i wyth o dafarndai Aberystwyth gael eu cau yn y cyfnod. Roedd hyn yn ffrwyth hynod dderbyniol gan Parry, gan y credai mai meddwdod oedd 'y

[12] R.Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristnogaeth a diwylliant yng Nghymru 1890-1914. Cyfrol 2: Dryswch a diwygiad,* (Abertawe, 1982) t.123.
[13] E Parry, *Llawlyfr ar Hanes Diwygiadau Cymru*, t.131.
[14] Ibid. t.133.
[15] Ibid. t.138.

pechod oedd yn creu yr hafoc mwyaf mewn cymdeithas' ar y pryd. Gallai honni bod meddwdod wedi 'diflannu o'r wlad' am y cyfnod hwn.[16] Gwelai Parry adfywiadau crefyddol fel ffordd o ddiwygio cymdeithas er gwell. Meddai, 'Pe ceid diwygiadau crefyddol grymus yn amlach, fe gauid holl dafarnau y wlad cyn hir'.[17] Roedd effeithiau'r diwygiad hwn yn neilltuol rymus gan effeithio anghredinwyr oedd yn gyndyn iawn i adael eu pechod ar ôl.

> Chwythai y gwynt nefol mor gryf nes diwreiddio hen dderwydd pechod, a phawb yn rhyfeddu wrth eu gweled yn cwympo mor ddisymwth ... uffern mewn dychryn a gofid ... y llanw crefyddol yn codi mor uchel – gymaint yn uwch nag arfer, fel y gwelid hen lestri oeddynt wedi suddo mor ddwfn ar draethell pechod a cholledigaeth, a'r eglwys mewn anobaith wedi eu rhoddi i fyny er's blynyddoedd, yn nofio yn ddiogel i borthladd iachawdwriaeth, a'r eglwys mewn llawn gorfoledd yn eu cyfarch wrth eu gweled yn dyfod i mewn ac wedi lledu hwyliau edifeirwch i'r deheuwynt nefol.[18]

Cyfrolau digon tebyg yn eu harddull a gyhoeddwyd gan J.J.Morgan ac Evan Isaac - y ddau ohonynt yn adrodd hanes y diwygiad trwy lygaid gwrthrychau eu cofiannau, Dafydd Morgan a Humphrey Jones. Ysgrifennu cofiant i'w dad a wnaeth J.J.Morgan. Gwnaeth y ddau ymdrech lwyddiannus i fod yn wrthrychol yn eu hymdriniaeth. Cawn Morgan, er enghraifft, yn nodi bod ei dad yn rhagfarnllyd yn erbyn y diwygiad ar y cychwyn.[19] Ac y mae Isaac yn fodlon rhoi adroddiad manwl o broblemau dyrys Jones tra oedd yn Aberystwyth.[20] Serch hynny, nid oes ynddynt ymgais i bwyso a mesur cyfraniad y ddau mewn unrhyw ffordd feirniadol. Mae'r ddwy gyfrol yn pwysleisio bywyd ysbrydol y diwygwyr, eu cred mewn gweddi ddirgel a myfyrio'r ysgrythurau. Mae'r ddwy yn mynnu mai offerynnau yn llaw Duw oedd y ddau, ac nad oeddent yn haeddu unrhyw glod personol am yr hyn a

---

[16] Ibid.t153.
[17] Ibid.t139.
[18] Ibid.t151.
[19] J.J.Morgan, *Dafydd Morgan Ysbyty*, t.29.

ddigwyddodd trwy'r wlad. Eto, mae'r gred mewn Duw sy'n gweithio mewn byd amser yn argyhoeddiad gan yr awduron hyn yn ogystal.

Mae yng nghyfrol J.J.Morgan fwy o ymgais i ateb y gwrthwynebiad oedd i'r diwygiad yn y cyfnod ei hun, a'r modd yr oedd Dafydd Morgan yn gallu ateb y gwrthwynebiad hwnnw a pherswadio'r beirniaid mai Duw oedd ar waith. Cyfeiriodd at feirniadaeth John Jones, gweinidog Methodistiaid Calfinaidd Blaenannerch, a amheuai a oedd yr arferiad o dderbyn aelodau newydd i'r seiat yn syth ar ôl arwydd o dröedigaeth yn beth doeth. Mynnai y dylid aros am o leiaf mis er mwyn gosod yr ymgeisydd ar brawf a sicrhau bod ei ymhoniad o ffydd yn ddilys. Atebodd Dafydd Morgan ef fel hyn, 'Wel, wel! "heddyw" medd Ysbryd Duw; "yfory" medd y diafol; ond "fe wnaiff y tro ymhen mis," medd yr efengylydd o Flaenannerch'.[21] Ni chafodd John Jones ei berswadio'n syth, ond erbyn canol 1859 yr oedd yntau'n derbyn dilysrwydd y diwygiad. Cafwyd enghraifft arall o allu Dafydd Morgan i ateb ei feirniaid yn y cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Aberaeron ar 9 a 10 Chwefror 1859. Roedd rhai o arweinwyr parchus y Methodistiaid Calfinaidd yn y cylch wedi penderfynu herio Morgan yn y cyfarfod a cheisio rhoi stop ar ei waith. Fodd bynnag, ar y diwrnod cyntaf pregethodd Morgan a Thomas Edwards, Penllwyn, yn yr oedfa am bedwar a rhoddodd Morgan anerchiad byr i gloi'r oedfa am chwech o'r gloch. Cynyddodd y teimladau adfywiadol i'r fath raddau fel nad oedd y beirniaid yn fodlon dweud dim yn ei erbyn.

Catalog hir o gyfarfodydd diwygiadol Dafydd Morgan a gawn gan ei fab. Ymddengys i'r llyfr ddilyn patrwm dyddiadur y diwygiwr, gan ddefnyddio ffynonellau eraill i gynnwys hanesion manylach am y cyfarfodydd unigol. Rhoddodd bwyslais sylweddol ar y nifer a ddychwelwyd ym mhob cyfarfod, ac

---

[20] E. Isaac, *Humphrey Jones*, t.23.

ambell i stori ddifyr am rai a gyffyrddwyd mewn gwahanol ffyrdd gan wres y diwygiad. Hanes swyddogaeth Dafydd Morgan yn y diwygiad sydd yma, yn hytrach na hanes y diwygiad ei hun, a gwnaeth y gyfrol hon fwy nag unrhyw beth arall i sicrhau mai fel 'Diwygiad Dafydd Morgan' yr adwaenid yr adfywiad. Er bod J. J. Morgan yn cyfeirio at sawl arweinydd arall o'r cyfnod, ei dad yw ffigwr canolog yr astudiaeth.

Tebyg, hefyd, yw cyfrol Evan Isaac ar Humphrey Jones. Nid yw mor gatalogaidd ei natur â gwaith Morgan, o bosibl am nad oedd dyddiadur i'w ddilyn. Mae yma asesiad teg o swyddogaeth Jones yn nechrau'r diwygiad, ac yn bwysicach mae Isaac yn nodi'n bur fanwl ddiffygion y diwygiwr ieuanc, ei fethiannau yn Aberystwyth, a'r modd y torrodd ei iechyd meddwl. Cynhwysa nifer o lythyrau a ysgrifennodd Jones yn y cyfnod trist hwn, llythyrau sy'n dangos y modd y collodd Jones afael ar ei reswm. Mae Isaac yn cydnabod mai Dafydd Morgan a sicrhaodd ddatblygiad tymor hir y diwygiad, gan nodi fod Jones wedi gadael y llwyfan yn agored iddo drwy ganolbwyntio ar ymgyrchu yn Aberystwyth o ddiwedd 1858 ymlaen.

Darlith i ddathlu canmlwyddiant y diwygiad yw'r cyhoeddiad olaf yn y categori cyntaf ac felly'n perthyn i ganol yr ugeinfed ganrif pan oedd Ymneilltuaeth Gymreig yn dechrau ymgodymu â phroblemau seciwlariaeth. Fel y gweddill yn y categori hwn, derbyniodd R.Geraint Gruffydd mai o Dduw y daeth yr adfywiad. Dilynodd hanes y diwygiad o'i gysylltiadau yn America, i waith cynnar Humphrey Jones a theithiau pregethu Dafydd Morgan. Mae'n rhestru nifer o weinidogion eraill o wahanol enwadau a gyfrannodd i'r adfywiad. Wrth gloi ei ddarlith cynigiodd yr asesiad hwn o bwysigrwydd y diwygiad:

---

[21] J.J.Morgan, *Dafydd Morgan Ysbyty*, t.129.

> Y mae'n bosibl mai'r Diwygiad hwnnw, yn anad unpeth arall, a wnaeth Anghydffurfiaeth yn gymaint o rym ym mywyd gwleidyddol a chymdeithasol a diwylliadol y wlad yn ystod deugain mlynedd olaf y ganrif ddiwethaf.[22]

O bosibl bod cryn wirionedd i'r farn hon, ond ni chynigiodd Gruffydd dystiolaeth dros gefnogi ei honiad.

Er bod hanes y diwygiad yn cael ei fynegi'n eglur yn y gweithiau uchod eu gwendid yw'r diffyg asesu beirniadol ohono. Ni fu'r diwygiad yn dda digymysg, ond prin y byddech yn credu hynny wrth ddarllen y cyfrolau hyn.

*ii. Y categori seciwlaraidd.*

Gwelwyd fel yr oedd awduron y categori cyntaf yn credu y dylid egluro'r diwygiad mewn termau goruwchnaturiol yn unig, a bod Duw yn dewis gweithio'n rymus mewn byd amser a hanes. Fodd bynnag, pwysleisio'r amgylchedd cymdeithasol ac economaidd a wnaeth C.Ben Turner, yr unig awdur i fod yn yr ail gategori. Tra sylwodd fod arweinwyr crefyddol y cyfnod yn pwysleisio llaw Duw ar y cwbl, gwelodd Turner resymau gwahanol dros ddigwyddiadau'r cyfnod yn wahanol. 'Their reasons,' meddai, 'were more likely to have been social in origin'.[23] Pwysleisiodd gyflwr tlawd y mwyngloddwyr plwm yng ngogledd sir Aberteifi, er enghraifft, a thynnodd sylw at y ffaith bod perchnogion y mwyngloddiau hyn yn gefnogol i'r diwygiad oherwydd bod y gweithwyr a gyffyrddwyd ganddo yn fwy cydwybodol yn eu gwaith.[24]

Canolbwyntiodd Turner ei astudiaeth ar ddiwygiad 1858-60 ar ddwy ardal yng Nghymru, dwy ardal bur wahanol i'w gilydd, sef ardal wledig y Bala, ac ardal ddiwydiannol a threfol Aberdâr. I Turner gellid egluro llwyddiant y

---

[22] R Geraint Gruffydd, *Diwygiad '59,* t.16.
[23] C.Ben Turner, *Revivals and Popular Religion*, tt.212-3.

diwygiad yn yr ardaloedd hyn wrth edrych ar gyflwr y gymdeithas ar y pryd. Cynigiodd sawl rheswm pam fod y Bala wedi derbyn dylanwadau'r diwygiad. Yn gyntaf, roedd hanes hir o ddiwygiadau a thwf crefyddol yn yr ardal. Dyma un o ganolfannau mawr y Methodistiaid Calfinaidd, lle'r oedd cyfarfodydd torfol yr enwad hwnnw yn y dref yn rhan hollbwysig o hanes y corff. Mynnodd Turner fod teimlad cryf yn eglwysi'r Bala fod ganddynt swyddogaeth allweddol i'w chwarae yn unrhyw fudiad diwygiadol. 'It had to live up to its reputation as a revival centre', meddai.[25] Felly pan gyrhaeddodd y newydd fod diwygiad grymus wedi torri allan yn sir Aberteifi, roedd yn rhaid ymgeisio at yr un peth i ddigwydd ar lannau Llyn Tegid. Fodd bynnag, er i arweinwyr eglwysig y Bala geisio'r diwygiad yn eu hardal eu hunain, nid oes fymryn o dystiolaeth i brofi mai pryderu am eu henw da oedd eu cymhelliad. I'r gwrthwyneb, fel pawb arall, dyhead dwfn am weld newid ysbrydol yn eu cylch oedd ganddynt.

Fel ail reswm dros dderbyniad y diwygiad yn y Bala, mae Turner yn cynnwys adran hir ar y cysylltiad a fodolai rhwng gwleidyddiaeth a chrefydd yn y cylch. Yn y 1850au roedd tŵf radicaliaeth Ryddfrydol wedi dechrau effeithio'r ardal, gyda galwadau am ehangu'r hawl i bleidleisio i fwy o bobl, ac i ofalu mai ymgeiswyr o'r blaid Ryddfrydol fyddai'r cynrychiolydd yn y Senedd. Yn etholiad cyffredinol 1859 pleidleisiodd nifer o denantiaid Syr Watcyn Williams Wynne, yr ymgeisydd Toriaidd, yn ei erbyn ac o blaid y Rhyddfrydwyr, a chollasant denantiaeth eu ffermydd o'r herwydd. Ychwanegodd hyn at y tensiwn gwleidyddol yn yr ardal. Ar yr un pryd roedd yr Ymneilltuwyr yn cysylltu uchel-eglwysyddiaeth Puseyaidd Eglwys Loegr efo'r Blaid Geidwadol, ac felly'n cynhyrfu'r dyfroedd gwleidyddol fwyfwy. I ganol y berw gwleidyddol hwn y daeth y diwygiad. Sylwodd Turner fel yr oedd

---

[24] Ibid. t.243.

ambell i arweinydd eglwysig o radical o'r farn bod y diwygiad wedi ei gychwyn er mwyn tynnu sylw pobl oddi wrth yr etholiad. Nid oes amheuaeth nad oedd tensiynau yn bodoli oddi fewn i Anghydffurfiaeth y cyfnod ynghylch a ddylai'r Cristion ymhél â gwleidyddiaeth ai peidio. Fodd bynnag nid oes tystiolaeth i brofi bod y rhai oedd yn erbyn ymhél â gwleidyddiaeth wedi defnyddio'r diwygiad mewn unrhyw ffordd i dynnu sylw pobl yn y modd a awgrymwyd. Yn wir, wedi dadansoddi'r dystiolaeth gorfu i Turner yntau dymheru ei farn, 'In Wales ... it appears that this confluence of religion and politics was largely coincidental as far as the revival is concerned'.[26]

Yn ei astudiaeth o ardal Aberdâr, canolbwyntiodd Turner yn helaeth ar gyflwr tlawd a thruenus y dosbarth gweithiol. Sylwodd ar y nifer o ddamweiniau yn y gweithfeydd glo ac fel yr oedd y glowyr mewn perygl am eu bywyd yn feunyddiol. Sylwodd ar yr effaith a gâi gwahanol glefydau, yn enwedig colera, a'r modd y gallai achos o'r fath ymledu'n sydyn drwy'r gymdeithas a lladd llawer. Tafolodd streic 1857-58 yn y gwaith dur, ac fel yr achosodd hyn hyd yn oed fwy o dlodi i'r gweithwyr. Nid oes amheuaeth nad oedd bywyd y gweithwyr cyffredin yn hynod anodd a bod crefydd yn cynnig diogelwch ysbrydol i'r bobl hyn mewn dyddiau anodd.

Yn ogystal â'r caledi hwn, roedd ffactorau eraill ar waith yn y cyfnod sydd, yn ôl Turner, yn ddigon i egluro'r diwygiad. Yn gyntaf, roedd rhai o'r meistri gwaith o blaid crefyddoli eu gweithwyr, ac yn gweld gwerth mawr i'r diwygiad yn y broses hon. Un enghraifft oedd David Davis, Maesyffynnon, perchennog pyllau glo Blaengwawr ac Aberaman. Roedd Davis yn aelod dylanwadol gyda'r Wesleaid, a chyfrannodd yn hael tuag at godi capeli newydd yn yr ardal. Trefnodd nifer o gyrddau gweddi tan ddaear i'w weithwyr yn y

---

[25] Ibid. t.257.

cyfnod hwn. Yn ail, awgrymodd Turner bod arweinwyr eglwysig wedi ceisio dylanwadu ar farn y dosbarth gweithiol trwy roi pwysau ar agwedd arallfydol Cristnogaeth, a phwysleisio pwysigrwydd dirwest, a hynny er mwyn rheoli'r dosbarth er sicrhau nad oeddent yn gwrthdystio yn erbyn eu meistri a'r drefn gymdeithasol ar y pryd. Yn drydydd, dehonglodd Turner y ffaith fod cyfle i'r aelodau cyffredin gymryd rhan mewn cyfarfodydd diwygiadol fel eu hymgais i wrth-droi dylanwad y dosbarth canol oedd bellach yn cymryd y swyddi arweiniol oddi fewn i'r capeli.[27] Er bod peth consýrn yn codi ynghylch rhai o'r bobl a etholwyd i'r sêt fawr yn y cyfnod, yr argraff bendant a geir o ddarllen gwaith Turner yw ei awydd i ddewis ei dystiolaeth yn ôl gofynion ei gynseiliau seciwlaraidd ei hun.

O ddod â'r holl ffactorau uchod at ei gilydd, credodd Turner y gallai egluro pam bod dosbarth o bobl wedi troi at grefydd yn y fath ffordd mewn diwygiad. Mewn paragraff sy'n crisialu ei farn, meddai:

> The religious revival had appeared in Aberdare during a period of depression and it was this very fact that had contributed to the intensity of the scenes during 1859. Local nonconformists had prayed for a revival because certain social changes and tensions, which were almost inherent in an industrial community, had reduced the numbers of the potentially faithful ... The lower classes were attracted to the awakening by the emotionalism and spiritual comfort which was offered.[28]

Mae'r dadleuon hyn yn gryf, ac ni allwn mo'u hanwybyddu. Roedd Cymru canol y bedwaredd ganrif a'r bymtheg yn wlad dlawd, a bywyd yn galed i'r mwyafrif o bobl. Ond os oedd dirwasgiad economaidd mewn un ardal yn adeg y diwygiad, gwelwn mewn pennod isod fod ardal arall yn mwynhau cyfnod cymharol lewyrchus. Nid unffurf mo'r darlun economaidd drwy Gymru gyfan yn y cyfnod hwn. Gwellodd bywyd economaidd Aberdâr yn y cyfnod ar

---

[26] Ibid. t.264.
[27] Ibid. tt.258-279.

ôl y diwygiad a dadleuodd Turner fod pobl wedi troi cefn ar grefydd oherwydd hynny, ond prin ei fod wedi gwella i raddau helaeth iawn. Tlawd oedd eu cyflwr hyd yn oed wedyn. Yn ôl Turner troi at grefydd a wnaeth y bobl hyn er mwyn profi cysur arallfydol, ac er mwyn dianc rhag peth o galedi bywyd. Ond efallai mai cywirach fyddai dweud mai derbyn cysur yn eu crefydd a wnaethant, a phrin fod dim o'i le ar hynny. Darganfuent rywbeth mwy na chysur yn eu perthynas ag Iesu, ond yn y peth hwnnw cawsant gysur heb ei ail hefyd.

Prin fod gan Turner reswm digonol, ychwaith, dros ddarlunio arweinwyr eglwysig y dydd fel pobl oedd yn camddefnyddio crefydd er mwyn rheoli cymdeithas. Pryder diffuant am gyflwr ysbrydol eu pobl oedd gan y mwyafrif llethol ohonynt. Sinigaidd, braidd, yw ei farn ac mae awgrymu eu bod yn defnyddio crefydd ysbrydol i ddim arall yn gwneud cam mawr â hwy.

Ideolegol yn hytrach na diwinyddol yw gwaith Turner ar ei hyd, ac mae gwrthrychedd yn cael ei aberthu'n gyson ar allor ei gynseiliau seciwlaraidd.

*iii. Y categori gwrth-Arminaidd.*

Yn y trydydd categori ceir pum awdur. Yr hyn sy'n gyffredin i'r pump yw eu bod yn credu mai o Dduw y daeth y diwygiad, ac nad oedd gwaith dyn ynddo o gwbl. Ceir awgrym bod rhai yn y cyfnod yn feirniadol o'r diwygiad oherwydd iddynt weld ôl llaw dyn ar yr hyn oedd yn digwydd, hynny yw nid da ganddynt y dulliau diwygiadol, Finneyaidd. Gwrthod y feirniadaeth hon a wna'r pum astudiaeth hyn. Fel y crybwyllwyd eisoes, credwn y dylid rhannu'r categori hwn i ddwy adran. Yr hyn sy'n eu gwahaniaethu yw'r ffaith fod awduron yr ail adran yn dadlau'n gryf na fu dylanwadau Finneyaidd ar y diwygiad o gwbl, ac

---

[28] Ibid. t.261.

mai gwaith Duw oedd y cwbl. Mae awduron yr adran gyntaf yn dadlau o blaid lle Duw yn y cwbl, heb fod yn or-ddogmatig ynghylch diwygiadaeth fel y cyfryw. Credwn fod y gwahaniaeth hwn yn bwysig os ydym am ddeall y diwygiad yn gywir.

Yn yr adran gyntaf rhown y tri awdur canlynol: Thomas Phillips, John Thomas, a J Venn - y tri ohonynt yn gyfoes â'r diwygiad ac wedi cyhoeddi eu gwaith tua'i ddiwedd. Pwysigrwydd yr astudiaethau hyn yw eu bod yn deillio mor agos at y digwyddiadau. Roedd Phillips a Thomas yn llygaid dystion i'r hyn a ddigwyddodd, a Venn, fel un di-Gymraeg, yn sylwebydd ar yr hyn a glywodd gan eraill.

Bu Thomas Phillips yn ysgrifennydd dros Gymru i Gymdeithas y Beibl er 1836, a chyn hynny yn genhadwr efo'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Gelli Gandryll, sir Frycheiniog. Dylanwadwyd arno ef pan yn fachgen ieuanc gan ddiwygiad 1816. Roedd yn drefnydd medrus, ac esgynnodd i lywyddiaeth ei enwad. Dyfynnodd Phillips o lythyr a anfonwyd ato gan weinidog Wesle yn ystod y diwygiad. Roedd y llythyrwr am weld diwygiad a oedd yn ffrwyth uniongyrchol Ysbryd Duw yn hytrach nag yn ffenomen o greadigaeth dyn. 'I dread,' meddai, 'experiments to get up a revival, and anything that tends to supercede the ordinances of God'.[29] Roedd Phillips yn cytuno â hyn, meddai, a chredai fod y diwygiad presennol yn deillio yn gyfan gwbl o Dduw. Gwelai Dduw ar waith ar hyd a lled Cymru, ac roedd effeithiau'r adfywiad yn dangos ei fod yn un go iawn. Er bod lliaws o wrandawyr bucheddol yn tyrru i'r cyfarfodydd, roedd ymhlith y dychweledigion hefyd gymeriadau go dywyll. 'In almost every neighbourhood,' meddai, 'some of the vilest and worst characters have been reclaimed. Swearers, drunkards, Sabbath-breakers, adulterers,

[29] T Phillips, *The Welsh Revival,* t.139.

thieves, are found amongst the penitents'.[30] Sylwodd mai nodweddion pwysicaf yr adfywiad oedd diffyg 'enwau mawr' ymhlith yr arweinwyr, ond yn hytrach gwŷr distadl a gwylaidd. Rhestrodd bwysigrwydd y cwrdd gweddi; bod safon y pulpud wedi gwella'n sylweddol, gyda phregethu apeliadol a chlir; a bod cyfle bellach i bobl leyg gymryd rhan. Sylwodd, yn ogystal, ar yr amlygiadau allanol, nad oedd yn beth hawdd i'w egluro – 'it must be seen to be understood' meddai amdanynt.[31] Roedd y pethau hyn yn cynnwys wylo uchel, pobl yn gwaeddi am drugaredd ac yn llamu a chanu mewn gorfoledd. Yn amlwg roedd peth beirniadu ar hyn, ond cyngor Phillips oedd iddynt gael llonydd, gan fod yr efengyl yn siŵr o gael effaith emosiynol ar y bobl a gyffyrddwyd ganddi.[32] Credai Phillips y dylid mesur llwyddiant diwygiad wrth ei 'moral results'.[33] Ymhlith y rhain oedd cynnydd yn achos dirwest a chynnydd mewn cynnal y ddyletswydd deuluaidd. Nid oedd amheuaeth mai gwaith Duw oedd y cwbl. 'He works out His own purposes, in His own way, and by His own instruments', meddai.[34]

Gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Lerpwl oedd John Thomas, ac er na chyhoeddwyd ei bregeth hyd 1860, credwn iddo ei phregethu ryw dro tua diwedd 1858 neu ddechrau 1859. Hoelen yn unig er mwyn crogi sylwadau ar y diwygiad yw'r testun o lyfr y Salmau ganddo, ac y mae yma fwy o ddyhead nag o adrodd hanes. Serch hynny, mae'n amlwg iddo wybod digon am y diwygiad yng Nghymru i allu gwneud sylwadau praff arno. Wedi rhestru rhai o'r diwygiadau a brofwyd gan yr eglwys dros y canrifoedd, â ati i egluro mai Duw sy'n bendithio ei eglwys â'r fath adfywiadau. Ni all dyn gynhyrchu'r fath

[30] Ibid. t.89.
[31] Ibid. t.128.
[32] Ibid. t.129.
[33] Ibid. t.80.
[34] Ibid. t.1.

bethau. Er hynny mae Duw yn gweithredu trwy 'foddion' arbennig, ac y mae'n cyfeirio'n neilltuol at dri o'r moddion hyn yn neilltuol. Y modd cyntaf yw ymdrech dyn. Nid bod dyn yn ei godi ei hun i'r gwaith, ond bod Duw yn ei alw a'i alluogi i gyflawni'r alwad. Dynion felly oedd Ioan Fedyddiwr, Martin Luther a Williams Pantycelyn. Yr ail o'r moddion hyn yw bod yr eglwys yn cael ei chynhyrfu i weddïo am adfywiad. Mae gweddïau o'r math yn hynod effeithiol. 'Pe deuai yr eglwys i ymostwng gerbron Duw, ac i weddïo gyda thaerni a theimlad,' meddai, 'nid oes un ddadl na wrandewid ein gweddïau'.[35] Er mwyn ateb y ddadl bod gweddi'n ddibwrpas os yw cyfnodau o adfywiad wedi eu pennu ymlaen llaw gan Dduw, myn Thomas fod y gweddïau hyn yn rhan o'r arfaeth a'u bod wedi eu cymell a'u hysbrydoli gan Dduw. Disgyn i mewn i gynllun Duw a wna'r eglwys. Yn drydydd, mae amgylchiadau bywyd yn gyrru pobl at Dduw. Mae Duw, meddai, yn defnyddio sefyllfaoedd bob dydd i sicrhau fod dyn yn troi ato yn ei boen a'i bryder. Meddai, 'Y mae cyfnewidioldeb y "pethau a welir" yn gweithio dynion i ymserchu yn y "pethau na welir"'.[36] Mae ganddo adran fer ar y diwygiad yn sir Aberteifi, ac mae'n adrodd sylwadau Thomas Edwards, Penllwyn, a W.Evans, Neuaddlwyd, ar y math o bobl a ddychwelwyd yn yr adfywiad yn y sir.

Y trydydd awdur yn yr adran gyntaf yw J Venn. Darlith i'r Gynghrair Efengylaidd yn ei gyfarfod yn Nottingham yn 1860 ydyw'r cyhoeddiad hwn, a dibynnodd gryn dipyn ar astudiaeth Phillips. Roedd y ddau yn byw yn Henffordd ar y pryd. Nodwedd bwysig yng ngwaith Venn yw'r ffaith iddo wneud ymgais i gyfrif nifer y dychweledigion trwy Gymru yn ystod y diwygiad. Ei amcangyfrif yw bod rhwng 80,000 a 90,000 wedi eu dychwelyd yn y cyfnod, a hynny'n un o bob ugain ym mhoblogaeth y wlad. Mae hefyd yn

[35] J Thomas, *Y Diwygiad Crefyddol*, t.11.

cynnwys adroddiad gan ddau arweinydd o bwys o Gymru ar nifer y rhai a gefnodd ar eu ffydd. Ni roddodd Thomas Rees, Cenedl na David Charles, Prifathro Coleg Trefeca, rifau iddo, ond awgrymodd y ddau mai prin iawn fu'r rhai hyn. Cynigiodd Thomas Phillips y ffigyrau hyn: mewn chwe chapel yn ardal y llechi yn ymyl Bangor cafwyd 629 o ddychweledigion. Allan o'r ffigwr hwn dim ond dau ddeg wyth a gefnodd ar eu proffes. Barn Phillips yw mai oddeutu pump y cant o'r cyfanswm drwy Gymru a gefnodd. Wrth gwrs, mae'r ffigyrau hyn yn deillio o gyfnod yn fuan iawn wedi diwedd y diwygiad, cyfnod na fyddwn yn disgwyl rhyw lawer o gefnu. Mewn sylw diddorol, cynigiodd David Charles feirniadaeth ar weddïau'r diwygiad: roedd iaith y gweddiwyr yn rhy gyfarwydd, roedd yr ieuanc yn y ffydd yn dueddol o ddangos eu hunain, a bod gormod o bwyslais ar weddïo i'w gymharu â moddion eraill gras.[37]

Yn yr ail adran rhoddwn ddau awdur cyfoes (sef canol a rhan olaf yr ugeinfed ganrif), sef Eifion Evans a Iain Murray. Mae'r ddau yn gryf o blaid y syniad mai Duw yn unig oedd tarddiad y gwir ddiwygiad a bod y dylanwad Finneyaidd yn llygriad ar y peth byw. Cyhoeddwyd cyfrol Evans yn 1959 ac mae'n agor ei astudiaeth trwy olrhain rhai o ddiwygiadau hanesyddol Cymru, gan nodi cyfraniad arweinwyr y gorffennol megis Thomas Charles, John Elias a Christmas Evans. Cyfeiriodd, hefyd, at ddiwygiad 1839-43, a dderbyniwyd gan rai fel adfywiad a ddeilliodd yn uniongyrchol o ddysgeidiaeth Charles Finney, wedi i'w ddarlithiau ar adfywiad gael eu cyhoeddi yn y Gymraeg. Mae sylwi ar sylwadau Evans ar y diwygiad hwn yn help inni osod ei sylwadau ar ddiwygiad 1858-60 yn eu cyd-destun. Gwadodd Evans fod yr hyn a ddigwyddodd yn 1839-43 yn haeddu cael ei alw'n ddiwygiad o gwbl, a chynigiodd ddau reswm dros ddweud hynny. Yn gyntaf, roedd dylanwad Arminiaeth yn gryf arno, ac yn

---

[36] Ibid. t.16.

ail roedd diffyg emosiwn ynddo.[38] I Evans, felly, ni all diwygiad fod yn ddiwygiad go iawn heb iddo darddu o fath arbennig o Galfiniaeth, a heb i'r rhai a effeithiwyd ganddo ddangos math arbennig o ymateb emosiynol. Prin y gellid derbyn dadleuon fel hyn. I gychwyn, nid diffyg emosiwn a gafwyd yn y diwygiad hwnnw. Nid oedd iddo'r llawenydd a'r moliannu a nodweddwyd gan ddiwygiadau'r gorffennol, mae hyn yn wir. Yn hytrach, roedd iddo ddwyster ac wylo tawel. Ai teg amau dilysrwydd diwygiad am fod yr ymateb teimladol yn wahanol i'r arferol? Barnwn ni mai annheg ydyw. Ond yn bwysicach na hynny yw'r honiad y gellid mesur diwygiad o gwbl wrth yr emosiwn a ddangosir ynddo. Gwell fyddai mesur y ffrwyth a deilliodd ohono.

Mae pwynt Evans ynghylch Arminiaeth y diwygiad hefyd yn haeddu ymateb. Daeth yr enwad Wesleaidd, Arminaidd ei gred, i blannu eglwysi yng Nghymru yn y flwyddyn 1800 a chawsant gryn lwyddiant yn eu gwaith. Er mai'r enwad efengylaidd lleiaf yng Nghymru fyddai hwn, gwnaeth ei farc, a llwyddodd i ennill nifer helaeth o ddychweledigion at grefydd. Cyfrannodd yn anrhydeddus at fywyd ysbrydol y genedl.[39] Arddelwyd Arminiaeth gan rai oddi fewn i'r enwadau eraill hefyd, yn bennaf ymhlith Bedyddwyr. Cyfeiriodd Evans at weddill Anghydffurfwyr Cymru, nad oeddent yn Arminiaid, fel rhai oedd yn 'uniongred' yn eu cred. Meddai, 'The churches of the three main denominations were, by and large, orthodox, and militantly so'.[40] Yr awgrym yw nad oedd yr Arminiaid, y tu mewn a'r tu allan i enwad y Wesleaid, yn uniongred, ac felly nad oedd eu gwaith yn ddilys. Tybiwn ni fod hyn yn gwneud cam mawr â'r bobl hynny. Yn ogystal, ni chyfeiriodd Evans at y ffaith fod Calfiniaid Cymru

---

[37] J Venn, *The Revival in Wales*, t.11.
[38] E Evans, *When He is Come*, t.18.
[39] Am gyfraniad y Wesleaid gw. L.Madden (Gol.) *Methodism in Wales: a short history of the Wesley tradition* (2003).
[40] E. Evans, *When He is Come*, t.19.

wedi treulio traean cyntaf y bedwaredd ganrif a'r bymtheg yn dadlau ynghylch eu Calfiniaeth, a'u bod wedi cymedroli cryn dipyn erbyn canol y ganrif, ac yn llawer agosach at yr Arminiaid ac yn gallu cydweithio'n glos â hwy. Byddwn yn astudio'r datblygiadau diwinyddol hyn mewn pennod arall, ac yn sylwi fel y newidiodd yr hen Galfiniaeth i'r fath raddau nes yr oedd gwaith Charles Finney, y mae gan Eifion Evans gymaint amheuaeth ohono, yn dderbyniol ddigon gan Galfiniaid Cymru yn y 1850au.

Darlun o gydweithio parod rhwng Calfin ac Armin a gawn yn niwygiad 1858-60. Yn wir, oddi fewn i'r enwad Wesleaidd y cychwynnodd y diwygiad, a Wesleaid Arminaidd yn allweddol i'r cwbl. Ond os oedd Arminiaeth yn anuniongred yn nhyb Evans yna roedd Finneyiaeth yn fwy felly. Trafodwn mewn man arall y modd y dewisodd iselhau cyfraniad diwygiadaeth i'r adfywiad yn 1858. Digon inni ddweud yma nad oedd Evans yn fodlon cydnabod cyfraniad allweddol syniadau Finney i'r diwygiad yng Nghymru. O dynnu Finney a'i ddisgyblion o'r ffrâm, gallodd fynd ati i ganmol y diwygiad fel gwaith Duw yn yr eglwysi a'r wlad, a chawn gyfraniad gwerthfawr ganddo at adrodd hanes nid yn unig y diwygiad ei hun, ond hefyd y misoedd yn arwain tuag ato, gan dynnu sylw pwysig at y dyheu a'r gweddïo am adfywiad a fu yn yr eglwysi yn y cyfnod hwn.

Mae gan Iain Murray yr un amheuon ynghylch Arminiaeth ag eiddo Evans. Yn ei gyfrol dyfynnodd hanes y gweinidog Wesleaidd o America W.W.Sweet, a ddywedodd, 'Most of the great American revival movements have come through the Presbyterians'.[41] Dyma ddyfyniad wrth fodd calon Murray oherwydd yn ei astudiaeth o ddiwygiadau America mae'n olrhain yr hyn a ddehongla ef fel dirywiad ysbrydol yn America o wir ddiwygiadau i

[41] Iain H Murray, *Revivals and Revivalism*, t.178.

'ddiwygiadaeth', nad ydyw'n cynhyrchu ffrwyth sy'n aros. Gwedd oedd y dirywiad hwn ar y cefnu ddigwyddodd ar Galfiniaeth glasurol a thwf diwinyddiaeth ryddfrydig New Haven a'r System Newydd. Roedd diwygiadau cynnar America, dan arweiniad pobl fel Jonathan Edwards, yn llwyddiannus ac yn ddilys, gan mai dibynnu ar Dduw yn unig a wnâi'r arweinwyr hynny. Nid oedd ynddynt ddim wedi ei greu gan ddyn, meddai Murray. Digwyddodd y diwygiadau hynny yn annibynnol ar ymdrechion dyn ac yn sgil sofraniaeth eithaf Duw yn tywallt ei Ysbryd adfywiadol yn ôl ei amserlen ei hun.

Yn yr ail Ddeffroad Mawr yn America o 1800 ymlaen y gwelwyd dechreuadau diwygiadaeth a hynny oherwydd dylanwad y Methodistiaid Wesleaidd yn bennaf. Dyma pan ddechreuwyd defnyddio'r fainc ar gyfer y rhai dan wasgfa, a chafwyd am y tro cyntaf bwyslais ar ymateb yn syth i alwad yr efengyl. Un o feiau mawr y cyfnod yng ngolwg Murray oedd i'r arweinwyr fethu â rheoli'r gor-emosiwn oedd ynghylch y diwygiad yn Kentucky. Yn wir roeddent yn credu fod yr ymateb brwdfrydig yn dderbyniol ac yn arwydd o ôl llaw Duw ar y gwaith. Yn ogystal â hyn roedd y Methodistiaid yn dechrau cyfrif nifer eu dychweledigion yn ofalus ym mhob cyfarfod - rhywbeth y mae Murray yn ei anghymeradwyo'n fawr. Roedd rhai o'r Presbyteriaid o blaid y dulliau newydd hefyd, a rhwygwyd yr enwad hwnnw o'r herwydd wrth i nifer o fân enwadau newydd gael eu creu yn y cyfnod. Yr un pryd roedd rhai o'r Calfinaid yn dechrau ailddiffinio eu diwinyddiaeth, Charles Finney yn eu plith. O'r ailddiffinio hwn y daeth syniadau newydd a elwir yn 'ddiwygiadaeth', a Finney, yn fwy na neb, a oedd yn gyfrifol am ddefnyddio'r holl dechnegau newydd er mwyn sicrhau diwygiad, technegau sy'n anathema i Murray.

Cynhwysodd Murray bennod gyfan ar ddiwygiad 1857 yn America yn ei gyfrol. Astudiodd y diwygiad hwn drwy lygaid un dyn, James Waddel

Alexander, yntau'n Galfinydd o'r hen ysgol ac yn gweinidogaethu yn Efrog Newydd. Roedd Alexander yn sicr yn ei feddwl fod yr adfywiad o Dduw ac felly'n ddilys. Roedd yn sicr hefyd nad oedd arlliw o 'ddiwygiadaeth' yn perthyn iddo. Meddai Murray amdano, 'It was perfectly clear to him and to many others that what was happening could not possibly be put down to revivalism nor could it be harmonised with the new views on promoting revivals'.[42] Roedd eraill yn y cyfnod yn cytuno ag Alexander, arweinwyr dylanwadol fel Samuel Prime a Heman Humphrey. Nid ein lle ni yw barnu cywirdeb hyn ynghylch America ai peidio, ond mewn adran fer ar y diwygiad yng Nghymru, mae Murray yn honni fod yr un peth yn wir yma hefyd. Dyfynna o waith John Simpson, a gyhoeddodd asesiad o'r diwygiad ym Mhrydain yn 1862:

> We have not seen, in any of these parts of the world we have named, the employment of either professional gentlemen or ladies to get up the awakening, nor anything which characterises revival meetings in general ... The awakening seems to have come upon the churches unawares, to have taken them by surprise. Hence, like the movement across the Atlantic, it was not 'got up', no revival-mongers were employed.[43]

Ni hoffwn ddefnyddio'r term 'revival-monger' am Humphrey Jones na Dafydd Morgan, ond fel y ceisiwn ddangos maes o law roedd ymdrechion y ddau yn disgyn yn ddigon destlus i'r term 'diwygiadaeth'. Defnyddiwyd dulliau Finneyaidd ganddynt ac felly mae honiad Murray yn anghywir cyn belled ag y mae'r diwygiad yng Nghymru mewn cwestiwn. Â Murray yn ei flaen i ddweud fel y gwrthododd nifer yng Nghymru syniadau Finney wedi i'w ddarlithiau gael eu cyhoeddi yma. Bu gwrthwynebiad, do - ond bu croeso mawr hefyd, rhywbeth nad yw Murray yn cyfeirio ato.

---

[42] Ibid. t.349.
[43] Ibid. t.398.

Yn y bennod hon ceisiwyd olrhain y gwahanol astudiaethau a wnaethpwyd o ddiwygiad 1858-60 yng Nghymru. Ar wahân i un, eiddo C.Ben Turner, mae'r cyfan ohonynt yn credu bod y diwygiad yn un dilys ac wedi deillio o Dduw. Pwysleisiodd dwy astudiaeth y farn fod y diwygiad yn deillio'n uniongyrchol o ewyllys sofran Duw ac nad oedd unrhyw arlliw o syniadau Finney yn perthyn iddo. Trwy wydrau Calfinaidd y dehonglodd Eifion Evans ac Iain Murray'r diwygiad ac o bosib i hynny eu dallu i'r ffaith bod, yn gyntaf, Arminiaeth Wesleaidd yn allweddol iddo, ac yn ail, bod syniadau Finneyiaeth neu 'ddiwygiadaeth' yn ffactor lawn mor bwysig yn ei gynnydd a'i barhad. Teg, hefyd, yw dweud bod y ddau awdur yn dueddol o wadu gwerth Arminiaeth a 'diwygiadaeth' fel ei gilydd, gan honni bod gwir grefydd ysbrydol yn anghydnaws â'r naill a'r llall. Byddai i'r ddau gydnabod dylanwad Arminiaeth a 'diwygiadaeth' ar yr adfywiad wedi eu gorfodi, o bosibl, i amau gwerth y diwygiad neu werth cyfundrefn ddiwinyddol wahanol i'w daliadau eu hunain.[44]

[44] Am feirniadaeth ddeifiol yr hanesydd efengylaidd Mark A.Noll ar safbwynt Murray, gw. 'How we remember revivals: the virues and vices of tribal history', *Christianity Today*, 24 Ebrill 1995, tt.31-4.

Pennod 2.

## Dylanwad Charles Finney a'r cefndir diwinyddol.

Ni ellir deall diwygiad 1858-60 heb ddeall dylanwad a diwinyddiaeth Charles Finney a'r math o ddiwygiadaeth yr oedd yn ei gynrychioli. Credwn fod ei syniadau ynghylch defnyddio moddion yn gyfan gwbl allweddol i gychwyniad y diwygiad yng Nghymru, a gellid yn hawdd gweld nifer o'r technegau Finneyaidd ar waith yn ystod datblygiad a pharhad yr adfywiad. Bwriad y bennod hon yw olrhain ychydig o hanes Charles Finney a'i weinidogaeth ac edrych ar ei ddiwinyddiaeth ddiwygiadol, ac yna gosod y syniadau hynny yn eu cyd-destun diwinyddol Cymreig. Y mae'r cyd-destun diwinyddol hwn yn allweddol os ydym am ddeall sut y daeth Ymneilltuaeth Galfinaidd Cymru i dderbyn mor rhwydd syniadau Finney, a oedd wedi crwydro'n o bell o'i wreiddiau Calfinaidd ei hun. Byddwn yn cloi'r bennod trwy osod y ddwy system ddiwinyddol yn y glorian trwy edrych ar syniadau T.F.Torrance ar swyddogaeth y dwyfol a'r dynol yn nhrefn y cadw.

### *i. Gyrfa Charles Finney.*

Cyfrifir Charles Grandison Finney fel un o ddiwygwyr mawr America - un a gafodd ddylanwad mawr nid yn unig yn ei wlad ei hun ond mewn gwledydd eraill, gan gynnwys Cymru. Parheir hyd heddiw i ddarllen ac astudio ei syniadau ar ddiwygiadau, a gyhoeddwyd dan y teitl *Lectures on Revival* yn 1835. Er nad oedd llawer o'i ddulliau yn unigryw iddo, na hyd yn oed wedi eu cychwyn ganddo, ef oedd y ffigwr amlycaf i ddefnyddio'r 'moddion,' a dadleuai eu bod yn hanfodol er sicrhau adfywiad crefyddol. Cafodd ddylanwad

neilltuol ym mhlith arweinwyr eglwysi Cymru wedi i'r darlithiau gael eu cyfieithu a'u cyhoeddi yn y Gymraeg yn 1839.[1]

Ganed Charles Finney yn 1792, yn un o saith o blant, i Sylvester a Rebecca Rice Finney, teulu o amaethwyr yn Warren, Connecticut. Oherwydd prinder tir symudodd y teulu pan oedd Charles yn blentyn ieuanc, ond erbyn 1812 dychwelodd i Warren i fod yn fyfyriwr yn yr academi yno. Bu'n athro ysgol yn Jersey Newydd am ddwy flynedd, cyn mynd i Efrog Newydd a dechrau cwrs yn y gyfraith. Er na raddiodd yn ffurfiol fel cyfreithiwr, bu yn dadlau achosion yn y llysoedd lleol. Yr hyn a dorrodd ar draws ei yrfa gyfreithiol oedd ei dröedigaeth grefyddol yn 1821, ac ymhen dwy flynedd anfonwyd ef at George Gale, Calfin ceidwadol, i dderbyn hyfforddiant diwinyddol a'i baratoi ar gyfer y weinidogaeth gyda'r enwad Presbyteraidd. Ordeiniwyd ef yn 1824 a threuliodd ei gyfnod cyntaf fel cenhadwr ymhlith gwladychwyr rhannau uchaf talaith Efrog Newydd. O dan ddylanwad ei bregethu cafwyd sawl diwygiad lleol, a ymledodd trwy drefi cyfagos. Daeth y diwygiadau hyn â Finney i amlygrwydd cenedlaethol. Defnyddiodd rhai o'r 'mesurau newydd', megis y sedd i'r rhai dan wasgfa, a'r cyfarfodydd gohiriedig. Yn ogystal, caniataodd i ferched weddïo mewn cyrddau gweddi.

Yn 1832 dioddefodd wrth y diciâu a bu rhaid i'w weinidogaeth deithiol ddod i ben. Daeth yn weinidog sefydlog mewn sawl eglwys yn nhalaith Efrog Newydd, cyn treulio 35 mlynedd yn Eglwys Gynulleidfaol Gyntaf Oberlin, Ohio. Yn 1835 daeth yn athro diwinyddol yng ngholeg newydd Oberlin, a bu'n llywydd y coleg rhwng 1851-66. Yn y cyfnod hwn fel gweinidog sefydlog y darlithiodd ar ei syniadau ar ddiwygiadau, a chyhoeddwyd y gwaith yn 1835.

[1] Charles G.Finney, *Darlithiau ar Adfywiadau Crefyddol* (Abertawe, 1839).

Cyhoeddodd ei *Lectures on Systematic Theology* yn 1847. Bu farw yn 1875 a chyhoeddwyd ei hunangofiant y flwyddyn ddilynol.[2]

Er mai Calfinydd oddi fewn i enwad Calfinaidd oedd Finney ar gychwyn ei yrfa, buan y bu newid sylweddol yn ei ddiwinyddiaeth. Yn sylfaenol i Galfiniaeth y mae'r gred mewn sofraniaeth a phenarglwyddiaeth Duw ac anallu dyn i ymgyrraedd ato oherwydd ei gyflwr llwyr lygredig. Fodd bynnag, gwelwn Finney yn cefnu ar y syniadau hyn, ac yn dod i gredu yng ngallu dyn a'i gyfrifoldeb dilyffethair i ymateb i Dduw. Yn hyn o beth roedd Finney yn rhan o'r mudiad newydd a dyfodd oddi fewn i Galfiniaeth yn America, ac yn wir yng Nghymru, yn chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif a'r bymtheg. Roedd y syniad hwn am allu dyn gerbron Duw yn greiddiol i'w syniadau ar ddiwygiadaeth hefyd, fel y cawn weld.

Daw ei syniad am allu'r pechadur i ymateb yn reddfol i Dduw yn amlwg yn ei syniadau ar dröedigaeth.[3] Er bod lle i Dduw ym mhroses yr iachawdwriaeth, meddai, mae tröedigaeth yn digwydd yn debyg i unrhyw weithred arall rhwng dau berson dynol. Ar yr un llaw fe geir y naill sydd yn cyflwyno gwirionedd yr efengyl, ac ar y llaw arall mae'r llall yn ymateb trwy dderbyn y gwirionedd ac yn ymgyrraedd tuag at Dduw a'r bendithion sy'n ymhlyg yn yr efengyl. Rhaid cael ymateb o'r fath. Nid digon yw dweud mai gwaith penarglwyddiaethol Duw yw hyn, ac os na cheir ymateb gan y pechadur yr unig beth all ei ddisgwyl yw cosb dragwyddol yn uffern. Mae'n bwysig, felly, meddai Finney, peidio â phregethu ar benarglwyddiaeth Duw, rhag camarwain pechaduriaid i gredu nad ydynt yn gyfrifol am eu hymateb i'w Air.

---

[2] C.E. Hambrick-Stowe, *Charles G.Finney and the Spirit of American Evangelicalsim* (Grand Rapids, 1996); passim.
[3] Am grynodeb o safbwynt diwinyddol Finney, gw. E.Brooks Holifield, *Theology in America: Christian thought from the age of the Puritans to the Civil War* (Yale, 2002), tt. 361-8.

Meddai am y math yma o bregethu, 'Mae hyn yn gywir y fath o bregethu ag a ewyllysia'r diafol. Ac nid all dynion wneud gwaith y diafol yn fwy effeithiol, na thrwy bregethu penarglwyddiaeth Duw'.[4] Prin y gallai fod wedi ei wneud ei hun yn fwy clir! Er na chaeir Duw allan o'r broses, mae'r pwyslais yn sicr ar waith a chyfrifoldeb dyn. Rhestra Finney bedwar peth y mae angen i'r pechadur ei wneud er mwyn derbyn iachawdwriaeth: yn gyntaf, dylai edifarhau. Diffiniodd edifeirwch fel casineb at bechod ac awydd cryf i droi oddi wrtho ac i droi at Dduw. Yn ail, mae angen credu'r newydd da am Iesu. Gellir gwybod yn sicr a yw person yn credu wrth iddo deimlo'n wahanol am ei gyflwr, oherwydd 'y dyn na theimla ddim ... nid yw yn credu dim.'[5] Yn drydydd, rhaid i'r pechadur roi ei galon i Dduw, yn union fel mae gŵr yn rhoi ei galon i'w wraig. Ac yn olaf, mae angen plygu i Dduw a bod yn ufudd iddo. Ar yr wyneb byddai Calfiniaid cymedrol yn ei chael hi'n anodd dadlau yn erbyn datganiadau fel hyn. Fodd bynnag, y tu ôl iddynt yr oedd y gred yng ngallu naturiol dyn i ymateb i Dduw, barn yr oedd y Calfiniaid yn ymwrthod yn llwyr â hi. Iddynt hwy nid oedd gallu naturiol yn perthyn i ddyn o gwbl. Roedd ei bechod yn sicrhau bod y gallu hwnnw wedi ei golli, ac felly roedd yn dibynnu'n llwyr ar Dduw i oruwchlywodraethu yn y broses o gael ei achub. Mae'r pwynt hwn am allu naturiol dyn yn greiddiol i ddadl Finney. Iddo ef roedd gan ddyn y gallu i ymateb i alwad yr efengyl yn y lle cyntaf, ac i hybu diwygiadaeth yn yr ail le.

Ond fel diwygiwr ac nid fel diwinydd yr adnabyddwn Charles Finney orau, ac felly trown yn awr at ei syniadau ar y mater hwn. I Finney roedd adfywiad crefyddol yn gyfan gwbl allweddol i fywyd yr eglwys. Trwy adfywiadau o'r fath roedd posibl ennill niferoedd mawr o bechaduriaid at Grist.

---

[4] Charles G.Finney, *Darlithiau,* t.16.
[5] Ibid. t.342.

Roedd hi'n bwysig felly fod pob eglwys yn derbyn adfywiad fel cysyniad ac yn gweithredu er mwyn ei sicrhau. Roedd dau reswm ganddo am hyn. Yn gyntaf, petai eglwysi'n gweithredu yn unol â'i ddymuniad yna roedd Finney yn grediniol y byddai pechaduriaid yn dychwelyd at Dduw ar raddfa syfrdanol. Yn wir, honnodd yn ei ddarlithiau yn 1835 petai pob eglwys yn America wedi ceisio adfywiad ddeng mlynedd ynghynt na fyddai'r un anghredadun ar ôl yn y wlad. Ac aeth ymhellach trwy ddweud:

> Buasai'r mil blynyddau wedi dyfod i mewn yn yr Unol Daleithiau cyn heddyw ... Os saif adfywiadau yn y wlad hon, bydd y gweinidogion a'r eglwysi yn euog o holl waed yr eneidiau a ânt i uffern o herwydd hynny.[6]

Dyma honiad gwbl syfrdanol a chwbl afresymol hefyd. Ond mae'n dangos i'r dim natur ei ddiwinyddiaeth. Mae swyddogaeth dyn yn y broses o dröedigaeth wedi mynd yn fawr iawn, a swyddogaeth Duw wedi lleihau. Mae hefyd yn gosod diwygiadau fel prif erfyn yr eglwys yn ei gwaith o genhadu'r newydd da. Gwelwn hefyd fel y cysylltodd Finney, ynghyd â nifer o weinidogion eraill yn America, ddiwygiadau crefyddol efo dyfodiad y milflwyddiant. Roedd swyddogaeth dyn yn allweddol i'r broses. Gwelwn ddilyniant yn ei syniadau yma: os oedd cyfrifoldeb a gallu gan ddyn i sicrhau ei dröedigaeth ei hun, yna roedd swyddogaeth ganddo oddi fewn i'r eglwys i sicrhau adfywiad cyffredinol, a byddai hynny yn ei dro yn arwain at sicrhau dyfodiad y milflwyddiant. Cafodd Duw ei wthio ymhell i'r ymylon gan ddiwinyddiaeth fel hyn. Ac yntau'n Bresbyteriad, teg fyddai gofyn pa mor Galfinaidd ydoedd o gwbl?

Yr ail reswm dros sicrhau adfywio eglwys oedd er mwyn iddi dderbyn nerth i wrthsefyll dylanwadau'r byd a fyddai'n niweidiol iddi. Meddai:

---

6 Ibid. t.282.

> Mae y cyffroadau gwladol mawrion ag sydd yn aflonyddu y byd Cristionogol, oll yn anffafriol i grefydd, ac yn tynnu y meddwl oddiwrth achos yr enaid. Yn awr trwy gyffroadau crefyddol yn unig y gellir llonyddu y cyffroadau hyn.[7]

Naturiol oedd iddo gredu fel hyn, oherwydd ei ddisgwyliad y byddai miloedd o bechaduriaid yn cael eu hachub trwy ddiwygiadau crefyddol.

Mae'n amlwg wrth ei sylwadau fod gan Finney syniad hynod o uchel yng ngallu diwygiadau crefyddol. Yr hyn sy'n syndod wrth feddwl am hyn oedd ei gred nad rhywbeth gwyrthiol mo diwygiad ond yn hytrach iddo fod yn 'ganlyniad naturiol yr arferiad priodol o'r moddion gosodedig.'[8] Edrychwn yn fwy manwl ar y moddion yn nes ymlaen, ond priodol inni ddweud yma mai gwaith dyn yw'r moddion hyn, ac er mai bendith Duw ar y gwaith sy'n sicrhau diwygiad, gan ddyn y mae'r swyddogaeth ganolog unwaith eto. Yn wir, aeth mor bell â dweud nad yw adfywiad yn rhywbeth 'na feddem ni un reolaeth arno.'[9] Nid rhyfedd i Galfiniaid ceidwadol yr oes fod mor amheus o Finney.

Mewn adfywiad, meddai Finney, gellid disgwyl pum peth. Yn gyntaf, bydd yr eglwys ei hun yn cael ei hargyhoeddi o bechod. Yn ail, bydd y credinwyr sydd wedi gwrthgilio yn edifarhau ac yn dychwelyd. Yn drydydd, bydd ffydd y credinwyr yn cael ei hadnewyddu. Roedd hyn yn bwynt hynod o bwysig i Finney, a chredai y dylai credinwyr gael eu hail-droi yn rheolaidd. Credai fod perygl i'w calonnau galedu ac felly dylasent gael eu 'hargyhoeddi a'u darostwng, eu dryllio o flaen Duw, a'u hail-droi.'[10] Gan fod perygl i enaid y crediniwr ei hun, a pherygl i barhad yr adfywiad pe na ddigwyddai hyn, roedd Finney o'r farn y dylid mynd trwy'r fath brofiad 'bob ychydig o ddyddiau.'[11]

---

[7] Ibid. t.7.
[8] Ibid. t.8.
[9] Ibid. t.293.
[10] Ibid. t.263.
[11] Ibid.

Yn bedwerydd, torrir awdurdod y byd a phechod ym mywyd credinwyr. Ac yn olaf, byddai pechaduriaid yn cael eu dychwelyd. Nid rhyfedd i Finney roddi cymaint o bwys ar sicrhau diwygiad mewn eglwys. Pe gwelid y pwyntiau hyn yn helaeth yna gweddnewidiai eglwys yn llwyr.

Cysylltir enw Finney fwyaf efo defnyddio'r 'moddion' pwrpasol er mwyn sicrhau diwygiad. Barn Finney oedd bod y moddion wedi eu gorchymyn gan Dduw, ac er bod angen ei fendith ef arnynt er mwyn llwyddiant, o'u defnyddio'n iawn, byddai bendith yn dilyn yn ddi-ffael. Mae'n cymharu defnyddio'r moddion efo hau had mewn maes. Mae deddfau naturiol Duw yn cael eu gweithredu wrth i'r had ddisgyn i'r tir, meddai, a gellid disgwyl cynhaeaf oherwydd hynny. Mae deddf debyg ar waith wrth i weinidog hau had yr efengyl – gellid disgwyl diwygiad a chynhaeaf toreithiog. Meddai Finney, 'Ac mae y canlyniad yr un mor athronyddol yn y naill amgylchiad ag yw yn y llall'.[12] Mae ei hyder yn y 'ddeddf' hon yn syfrdanol! Mae'n bosibl iddo anghofio ei ddyddiau fel plentyn i amaethwr ac fel y gallai'r cynhaeaf fethu ambell i flwyddyn - neu efallai bod ei dad cystal amaethwr na fethodd erioed gynhaeaf ar ei fferm! Fel y gellid disgwyl, roedd Finney'n chwyrn efo'r Calfiniaid hynny oedd yn dirmygu'r defnydd o foddion. Roedd canlyniadau difrifol i'w diwinyddiaeth, meddai, gan fod 'cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth wedi syrthio i uffern' o'i herwydd.[13]

*ii. Defnydd o'r moddion.*

Edrychwn yn awr ar rai o'r moddion yr oedd Finney am eu defnyddio. Yn eu plith roedd y syniad o gynnal cyfarfodydd arbennig i bechaduriaid dan wasgfa.

[12] Ibid. t.9.
[13] Ibid.

Yn y cyfarfodydd hyn roedd gofyn siarad efo pob un ar wahân er mwyn deall ychydig am ei deimladau. Yna dylid annerch y dorf a phwyso am ymateb cadarnhaol gan bawb. Moddion arall oedd y cyfarfodydd estynedig (*protracted meetings*), sef math o genhadaeth estynedig mewn ardal. Ei gred oedd y dylid cynnal y rhain am nifer o ddyddiau mewn man arbennig ac roedd ganddo restr o reolau y dylid cadw atynt. I gychwyn, roedd angen gofal wrth ddewis yr amser cyfaddas, er enghraifft dylid gofalu cadw draw o gyfnod y cynhaeaf mewn ardal wledig. Hefyd, dylid sicrhau gwasanaeth un gweinidog ar gyfer yr oll o'r cyfarfodydd er mwyn sicrhau dilyniant pwrpasol. Ni ddylid, ychwaith, cynnal gormod o gyfarfodydd cyhoeddus rhag tynnu'r credinwyr o'r ystafell ddirgel, a dylid sicrhau fod y cyfarfodydd yn fyr. Palla iechyd y bobl fel arall, meddai.

Moddion arall hynod bwysig yng ngolwg Finney oedd y sedd ar gyfer y rhai dan wasgfa. Awgrymodd y dylid cadw sedd yn rhydd yn nhu blaen yr ystafell lle cynhelid oedfa ddiwygiadol ac ar ddiwedd yr oedfa gwahoddid pechaduriaid oedd am gyflwyno eu bywyd i Grist i ddod ymlaen i eistedd ynddi. Yno roedd posibl gweddïo'n bwrpasol efo pob un a sicrhau eu dychweliad at grefydd. Roedd dau brif reswm dros wneud hyn, meddai Finney. Yn y lle cyntaf, pan fo person yn fodlon gwneud ei deimlad yn gyhoeddus gwyddom fod Duw ar waith yn ei galon. Felly, mae rhoi cyfle iddynt wneud hynny yn bwysig. Yn ail, mae sedd o'r fath yn gallu dinoethi twyll. Ni fyddai person oedd yn ffugio cael ei droi byth yn mynd ymlaen i eistedd i'r sedd honno. Efallai bod pobl hanner cyntaf y bedwaredd ganrif a'r bymtheg yn fwy gonest na phobl heddiw, ond ymddengys i ni fod sylw fel hyn yn hynod o naïf. Fodd bynnag, amddiffynnodd Finney'r arferiad. Mynnai nad rhywbeth newydd oedd y sedd hon, ond bod yr eglwys mewn gwahanol oesoedd wedi defnyddio

technegau tebyg. Dyna fwriad y bedydd yn yr oes apostolaidd, meddai, gan anwybyddu mewn modd amrwd iawn athrawiaeth sawl enwad ar wir bwrpas y bedydd.

Wrth egluro ac amddiffyn ei ddefnydd o ddulliau newydd fel hyn mae'n rhoi ambell gic i'r Presbyteriaid ceidwadol oedd yn ymosod arno. Roedd gwrthwynebu defnyddio dulliau newydd yn fath ar 'benboethni' meddai a dylid sefyll yn ei erbyn yn gryf.[14] Ym marn Finney, roedd y dulliau hyn yn gwbl allweddol i sicrhau adfywiad, a chan fod adfywiadau crefyddol mor allweddol i fywyd yr eglwys, yna roedd y moddion yn anhepgorol. 'Dichon nad gormod yw dywedyd na all Duw ei hun beri diwygiadau ond trwy fesurau newyddion', meddai.[15] Unwaith eto gwelwn fel y gwthiodd Finney Dduw i'r ymylon. Roedd gallu dyn yn ganolog i'r cyfan. Serch hynny mae yn rhybuddio nad fel rhywbeth peirianyddol y dylid defnyddio'r moddion hyn:

> Saif adfywiad pa bryd bynnag y delo crefyddwyr fel peiriannau yn eu hymdrechion i'w dwyn ymlaen. Pan fo eu ffydd yn gryf, a'u calonnau yn gynnes a thyner, a'u gweddïau yn llawn o deimlad santaidd, a'u geiriau yn nerthol, yna a y gwaith ym mlaen. Ond pan dechreuo eu gweddïau fyned yn oer a didaro, a phan ddarfyddo eu teimlad bywiog, ac y dechreuant lafurio fel peiriannau, ac arfer geiriau heb deimlad, yna derfydd yr adfywiad.[16]

Mae'r rhybudd hwn yn ddilys a gwerthfawr, ond sylwn eto mai gwres a theimlad dyn oedd yn gyfrifol am barhad adfywiad. Prin oedd y lle a roddid i Dduw.

Roedd pregethu yn gwbl allweddol i adfywiad, gan fod yn rhaid cyflwyno'r efengyl i bechaduriaid cyn iddynt allu ymateb iddi. Gwaith y pregethwr oedd hyn, ac roedd iddo swyddogaeth bwysig mewn adfywiad. Yn

---

[14] Ibid. t.255.
[15] Ibid. t.249.
[16] ibid. t.259.

ôl Finney, dylid gofalu fod y pregethu yn ymarferol bob amser. Ni wadodd y pwysigrwydd o ddysgu gwirioneddau'r ffydd Gristnogol, neu 'bregethu athrawiaethol' fel y gelwid hynny, ond dylai hefyd fod yn ymarferol. Ei obaith bob amser oedd y byddai'r gwrandawyr yn derbyn rhywbeth y gallent fynd ati i'w ymarfer yn eu bywyd bob dydd. Roedd y pregethu hefyd i fod yn gymwysiadol. Dylid pregethu i ddynion ac nid am ddynion, a phregethu at bechaduriaid, ac nid am bechodau.

Yn ei ddarlith ar bregethu y canfyddwn wrtheb ryfeddol. Sylwyd eisoes fel y bu Finney yn hynod hallt tuag at y syniad o benarglwyddiaeth Duw a phob un a'i arddelodd. Yma eto mae'n nodi pa mor beryglus y gall yr athrawiaeth fod, gan fod pechaduriaid yn gallu llochesu ynddi a darganfod esgus i beidio ag ymateb i'r efengyl, gan honni nad ydynt yn gallu gwneud hynny hyd nes i Dduw newid eu calon. Ond ar yr un gwynt dywed fod perygl hefyd, wrth roi'r holl bwyslais ar allu dyn, i'r pechadur chwilio am loches yn y fan honno. Felly, mae angen i'r pregethwr newid ei ddull o bregethu o bryd i'w gilydd, a sicrhau fod y ddwy ochr yn cael eu cyflwyno. Meddai, 'Os parhânt i sefyll ar yr un gwirioneddau, nes yr ymlecho pechaduriaid tu ôl i'w gweinidogaeth, rhaid pregethu gwirioneddau eraill. Ac os na newidiant eu dull, daw cwmwl arall ar yr eglwys'.[17] Rhaid i'r pregethwr ddymchwel esgusodion y pechadur, yn union fel mae'r cyfreithiwr yn dymchwel dadleuon dynion mewn llys barn. Daw ei gefndir cyfreithiol i'r golwg mewn sylw fel hyn, ond cawn gipolwg ar ei ddiwinyddiaeth hefyd. Mae'n amlwg iddo gredu mai gallu'r pregethwr i ddadlau ei achos oedd yn sicrhau llwyddiant yn ei waith.

[17] Ibid. t.190.

Roedd gweddi o bwys mawr i Finney er sicrhau adfywiad. Trwy weddïo mae'r crediniwr yn dangos fod ganddo wir awydd am adfywiad, ac y mae Duw yn siŵr o ymateb i weddi ddiffuant. Meddai, 'Pan weddïo Cristionogion yn daer, eu teimlad a'i gwna yn briodol i Dduw eu hateb. Ni fu erioed yn amharod i roi y fendith ar yr amod iddynt hwy deimlo yn iawn, ac offrymu y weddi iawn'.[18] Gosododd Finney sawl amod dros sicrhau llwyddiant mewn gweddi: dylid gofyn am rywbeth penodol; dylai fod yn gyson ag ewyllys Duw; dylid gweddïo gydag ymostyngiad; rhaid cael y dibenion cywir, sef sicrhau gogoniant i Dduw; rhaid dyfalbarhau; rhaid ymwrthod â phechod; a rhaid gofyn mewn ffydd. Mae gweddi ffydd yn anhepgorol, meddai Finney. Rhaid credu y derbynnir yr hyn a weddïr amdano. Mae'r ffydd honno yn cael ei chynhyrchu pan fod y gweddïwr yn meddu ar addewid gan Dduw y bydd yn bendithio mewn ffordd arbennig. Yn ôl Finney gwyddom ein bod i dderbyn bendith benodol mewn tair ffordd. Yn gyntaf, mae addewidion penodol i ni yn y Beibl, addewidion sydd ar gael i bob crediniwr ym mhob oes. Yn ail, mae rhagluniaeth yn gallu dangos i ni fod Duw yn ewyllysio ein bendithio mewn ffordd arbennig. Ac yn olaf, mae'r Ysbryd Glân yn ein harwain at addewidion penodol ar ein cyfer ein hunain. Gwyddom fod yr Ysbryd yn arwain, meddai Finney, pan fydd gennym deimlad cryf dros rywbeth, er enghraifft os byddwn yn teimlo'n gryf dros weddïo am ddychweliad person arbennig, aelod o'r teulu dyweder, yna gwyddom i sicrwydd mai'r Ysbryd Glân sydd yn rhoi'r teimlad hwn i ni, ac felly gallwn weddïo gyda hyder y bydd Duw yn ymateb. Meddai Finney, 'Os tywysa Duw ddyn i weddïo dros ryw un, y casgliad oddi wrth y

[18] Ibid. t.44.

Beibl yw, y bwriada Duw achub y dyn hwnnw'.[19] Mae peryglon amlwg yn y cyswllt hwn. Prin y gall unigolyn ddibynnu ar wrthrychedd ei deimladau, yn enwedig lle mae'r bobl agosaf ato mewn cwestiwn. Ond gan fod Finney yn ymddiried cymaint yng ngallu dyn nid rhyfedd iddo fodloni ar bwyslais o'r fath. Gan iddo roi cymaint o bwyslais ar weddi dywed fod diffyg gweddi yn rhoi eneidiau yn y fantol. Meddai, 'Diau i wŷr llawer o wragedd fyned i uffern, pan y gallasent hwy lwyddo gyda Duw mewn gweddi, a'u hachub'.[20] Roedd gweddïo dros bechaduriaid yn hollbwysig, felly, ac awgrymodd Finney y dylid mynd â phechaduriaid i gyrddau gweddi, fel y gellid gweddïo drostynt yn gyhoeddus yno er eu dychwelyd.

Roedd gan Charles Finney farn gadarn ar sawl mater a gredai fyddai'n amharu ar adfywiad mewn capel. Ni chredai y dylid canu gormod o emynau mewn oedfa;[21] nid gwiw i'r capel fod yn rhy grand rhag tynnu sylw'r pechadur oddi ar y bregeth efo 'gwychder' mewn canwyllbrennau, carpedi, a phulpud;[22] ac ni ddylai credinwyr fod yn gwastraffu eu harian ar de a choffi, lle gallasent fod yn cyfrannu mwy at y genhadaeth.[23] Ac yn sicr ni ddylid caniatáu cŵn i'r oedfa, eto rhag iddynt dynnu sylw'r anedifeiriol. 'Dichon i gi blaenor,' meddai, 'yn y ffordd hon ddistrywio mwy o eneidiau nac a achub efe byth'.[24] Nid gyda'i dafod yn ei foch y dywedodd hyn, ychwaith!

Roedd ei sylwadau ar gaethwasiaeth, fodd bynnag, yn hynod bwysig. Ystyriai'r arferiad yn un gwrthun, a mynnai y dylai'r eglwys gymryd safiad cadarn yn ei erbyn. Er nad oedd am i eglwysi fynd yn ddadleugar ynghylch y

[19] Ibid. t.84.
[20] Ibid. t.77.
[21] Ibid. t.124.
[22] Ibid. t.221.
[23] Ibid. t.389.
[24] Ibid. t.223.

mater, roedd yn fodlon gweld eglwysi yn rhannu os dyna oedd yr unig ffordd i sicrhau safbwynt cadarn yn erbyn yr arfer. Yn neilltuol, roedd am weld eglwysi yn cymryd camau disgyblaeth yn erbyn aelodau a oedd yn cadw caethion. Nid oedd lle i oddefgarwch ar y mater, meddai.[25] O dan ei arweiniad ef roedd eglwys y Broadway Tabernacle, Efrog Newydd, wedi torri aelodau allan oherwydd iddynt gadw caethion. Petai'r eglwysi yn cymryd safiad cadarn yna disgwyliai y byddai'r gymdeithas letach yn cymryd sylw ac y byddai'r arferiad yn dod i ben. Meddai:

> Yr eglwys yn bennaf sy yn cynnal y pechod hwn. Ei thystiolaeth unol hi a benderfynai y mater. Bydded i Gristionogion o bob enwad uno yn addfwyn, ond penderfynol, a chyhoeddi barn, glanhau yr eglwysi, a golchi eu dwylaw oddi wrtho, dangosent fod y ffieidd-dra hwn yn bechod! Ac mewn tair blynedd, deuai y bobl gymaint i'w erbyn, fel na byddai un caethwas mewn llyffetheiriau, nac un caeth-yrwr gwrychog a chreulon, yn y wlad hon.[26]

Dyma farn gadarn a chlir. Y tristwch oedd na wrandawyd arni, ac y cymerodd ryfel cartref genhedlaeth a mwy yn ddiweddarach i geisio datrys y broblem.

Fel y gwelwyd, roedd gan Charles Finney syniad uchel am allu a chyfrifoldeb dyn gerbron Duw. Er ei fod yn aml yn gallu pwysleisio lle Duw ym mywyd y credadun a'r eglwys, y gwir yw bod Finney'n credu fod gan ddyn swyddogaeth hynod bwysig i'w chwarae. Roedd y pwyslais hwn yn iachus o'i gymharu â safbwynt ceidwadol yr uchel Galfiniaid, dyweder, a bwysleisient anallu llwyr dyn. Ond roedd iddo, hefyd, ei wendidau. Yn ei gysylltiad â diwygiadau, un o'r gwendidau mawr y tybiwn ni sydd iddo, yw y rhoddir cymaint o bwysau ar swyddogaeth dyn i sicrhau cychwyn a pharhad adfywiad. Mae llwyddiant - neu ei ddiffyg, bron yn llwyr ddibynnol ar ddyn. Sawl gwaith

[25] Ibid. t.276.
[26] Ibid. t.279.

yn ei *Ddarlithiau* mae Finney yn mynnu fod eneidiau mewn perygl o wynebu cosb dragwyddol yn uffern oherwydd diffygion ym mywyd eglwys, ei haelodau, a'i harweinwyr. Ac os na cheir llwyddiant i'w gwaith, yna at ddyn y dylid chwilio am resymau paham. Rhaid mai ei fai ef ydyw am beidio ag ymarfer y moddion yn y ffordd gywir, oherwydd os gwneir hynny bydd Duw yn siŵr o anfon ei fendith. Heb os, rhoes hyn bwysau annerbyniol ar arweinwyr eglwysi wrth iddynt geisio mynd ymlaen a'u gwaith. Ac fel y gwelwn yn achos trist Humphrey Jones yn ystod diwygiad 1859, gallai'r siom, ac o bosibl yr euogrwydd, a deilliodd o syniadau fel hyn arwain at sefyllfa drasig iawn.

*iii. Finney yn Gymraeg.*

Yn 1839 cyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg o gyfrol Finney ar ddiwygiad, o dan y teitl *Darlithiau ar Adfywiadau Crefyddol*. Evan Griffiths, gweinidog gyda'r Annibynwyr ond a ddaeth yn berchen argraffdy yn Abertawe, oedd yn gyfrifol am y gwaith. Ef hefyd ddaeth â chyfrol o bregethau Finney allan yn 1840. Barn Richard Carwardine yw mai yng Nghymru y cafodd darlithiau Finney'r derbyniad gorau. Mae'n cynnig dau brif reswm dros hyn. Yn y lle cyntaf roedd diwinyddiaeth y gyfrol yn gweddu i'r dim i'r ddiwinyddiaeth newydd a ddatblygodd yng Nghymru yn ystod chwarter cyntaf y ganrif. Roedd Arminiaeth y Wesleaid wedi gwreiddio'n bur ddwfn erbyn diwedd y 1830au, gyda Chalfiniaeth lawer mwy cymedrol a ddatblygodd erbyn y cyfnod ym mysg y tri enwad Anghydffurfiol arall. Awgryma Carwardine mai ymhlith yr Annibynwyr y bu'r newid diwinyddol mwyaf, a hwy oedd wresocaf eu croeso i waith Finney. Yn wir, arwyddodd deg o weinidogion Annibynnol gogledd

Cymru lythyr at Finney yn 1840 i'w longyfarch ar ei waith.[27] Er bod arlliw o'r hen uchel Galfiniaeth yn dal yn y tir, ar y cyfan roedd syniadau Finney yn eithaf agos at ddiwinyddiaeth Ymneilltuaeth Cymru ar y pryd, ac wedi bod o gymorth i ddatblygu'r syniadau fwyfwy. 'His work helped to push them further along the road of moderate Calvinism', meddai.[28]

Yr ail reswm a gynigia Carwardine dros egluro'r croeso Cymreig hwn oedd bod diwygiadau crefyddol mor bwysig yn y wlad. Dywed eu bod yn 'integral part of Welsh religious life.'[29] Yn sicr, roedd adfywiadau wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd crefyddol Cymru ers cenedlaethau, ac roedd iddynt eu pwysigrwydd oddi fewn i'r enwadau ymneilltuol. Nid rhyfedd, felly, bod llawlyfr ar sut i fod yn fwy effeithiol er dwyn ymlaen adfywiadau wedi cael croeso. Roedd cysylltiad wedi bod rhwng Cymru a diwygiadaeth America cyn dyddiau Finney, a chyfeiria Carwardine at y ffaith fod Christmas Evans, yn ei gyfnod yng Nghaerffili (1826-28), wedi tynnu sylw at ddiwygiad yn America a gychwynnodd wedi i'r eglwysi fod yn gweddïo am adfywiad.[30]

Ond cafodd y *Darlithiau* fwy na chroeso yng Nghymru, cafodd effaith uniongyrchol hefyd. Awgrymodd yr awdur 'Lladmerydd', a ysgrifennai yn *Y Tyst a'r Dydd* yn 1875, iddynt wneud 'lles dirfawr mewn chwyldroi hen syniadau oedd gan lawer am ddiwygiad crefyddol.'[31] Honnodd 'Lladmerydd' mai'r gyfrol hon a arweiniodd at gychwyn diwygiad 1839-43, a effeithiodd Cymru drwyddi draw.[32] Roedd Thomas Rees o'r un farn a chredai fod effeithiau da'r diwygiad hwnnw yn arwydd o'i ddilysrwydd. Meddai, 'But the

[27] Richard Carwardine, 'The Welsh Evangelical Community and "Finney's Revival"', yn *Journal of Ecclesiastical History,* 29 (1978), t.479.
[28] Ibid. t.478.
[29] Ibid. t.472.
[30] ibid.
[31] 'Lladmerydd', *Y Tyst a'r Dydd,* 10 Medi 1875, t.2.
[32] Ibid.

good and lasting effects which have followed it, prove beyond question that the hand of the Lord was in the work'.[33] Tynnodd Carwardine ein sylw at arweinydd arall yn y cyfnod oedd o'r un farn am werth gwaith Finney yn deffro'r eglwysi i adfywiad. Mewn casgliad o ysgrifau yn canolbwyntio yn bennaf ar ddiwygiad 1859, cynhwysodd Evan Davies ysgrif gan James Lewis, Henllan, Sir Gaerfyrddin. Yn ei ysgrif mae Lewis yn egluro sut y trefnwyd cyrddau gweddi yn yr ardal i weddïo'n benodol dros bechaduriaid, a hynny yn unol â chynllun Finney. Caed anerchiadau pwrpasol rhwng y gweddïau a gwnaed popeth er sicrhau dychweledigion. Meddai:

> Care was taken in selecting suitable hymns to aid the effect of the services. All legitimate means, physical and moral, that could be thought of, were employed to arrest the attention and awaken the conscience.[34]

Cafwyd llwyddiant sylweddol wrth ddefnyddio'r dulliau hyn, a gwelwyd nifer yn eu cynnig eu hunain ar gyfer aelodaeth eglwysig. Ond dewisodd Carwardine beidio â chyfeirio at weddill ysgrif Lewis, a aeth yn ei flaen i egluro na pharhaodd yr effeithiau hyn yn hir ar yr ardal. Rhaid rhoi sylw i'r hyn oedd ganddo i'w ddweud. Meddai James Lewis:

> The excitement gradually subsided, a reaction took place; the church sank into a state of torpor; many of the new converts were dismissed - more remained like withered trees, without signs of vitality ... I found it impossible to resist the conviction that the spiritual tone of the church, on the whole, was not elevated, nor the moral character of the neighbourhood improved. The fruit bore no proportion to the blossoms.[35]

Ni welodd fai ar Finney, ac nid amheuodd fod llawer wedi eu troi a bod llaw Duw ar y diwygiad. Ond roedd llawer wedi teimlo am eu pechod, ond heb edifarhau. Mewn sylw hynod ddeifiol, meddai, 'There were a great many that

---

[33] Thomas Rees, *A History of Protestant Nonconformity in Wales* (London, 1861), t.461.
[34] E.Davies (gol), *Revivals in Wales* (London, 1859), t.21.
[35] Ibid. t.22.

did not clearly distinguish between joining the church, and coming to Christ; between inward religion and outward profession'.[36] Roedd i Finney ei feirniaid yng Nghymru. Yn eu plith roedd Morgan Howell, gweinidog amlycaf Methodistiaid Calfinaidd Morgannwg a Mynwy yn ei ddydd. Meddai 'Lladmerydd' amdano:

> Llawer erlidiodd ef ar Finney, Satan, a'r Pab; a'r rhai hyn oedd ei dri gelyn mawr, ac yr oeddynt ar ei ffordd ym mhob man. Clywais ef yn dywedyd mai bendith fuasai i'r llong ddaeth a gwaith Finney drosodd gael ei chladdu yn y Bay of Biscay, yn hytrach nag iddo ddyfod i'r wlad yma i wenwyno meddyliau.[37]

Ond ym mhlith y lleiafrif y ceid Morgan Howell, a chroeso brwd a gafodd Finney ar y cyfan. Yn wir, dywedodd 'Lladmerydd' yn yr un erthygl fod rhai o weinidogion blaenaf y Methodistiaid yn defnyddio'r un moddion yn y dyddiau hynny, bron i ddeugain mlynedd wedi ymddangosiad cyntaf y *Darlithiau.* Mae'n amlwg bod eu hapêl wedi parhau yn hir. Gwyddom fod un a fu mor allweddol i hau hadau diwygiad 1859 yng Nghymru, y gweinidog Wesleaidd Thomas Aubrey, yntau wedi ei ddylanwadu gan y gwaith, ac wedi mynd ati i geisio ymarfer rhai o'r syniadau hynny yn y gogledd yng nghanol y 1850au. Credwn i'r ymgeisiau hynny fod yn allweddol i gychwyn y diwygiad yn y wlad.

Roedd dylanwad Charles Finney, felly, yn hynod bwysig yn hanes diwygiadau Cymru o'r 1830au ymlaen a chredwn eu bod yn ganolog i gychwyniad diwygiad 1858-60. A dyna o bosibl syndod pethau, oherwydd y dybiaeth gyffredin yw mai Calfiniaeth uniongred oedd diwinyddiaeth y mwyafrif yn y wlad.[38] Enwadau Calfinaidd oedd y Bedyddwyr, yr

---

[36] Ibid. t.23.
[37] 'Lladmerydd', *Y Tyst a'r Dydd,* t.2.
[38] Soniai Ieuan Gwynedd Jones, er enghraifft, am 'the remarkable theological consensus' a nodweddai Ymneilltuwyr Cymru ganol y ganrif: 'The Unitarians apart, all were moderate

Annibynnwyr, ac wrth reswm y Methodistiaid Calfinaidd. Ar wahân i'r Undodiaid, dim ond y Methodistiaid Wesleaidd oedd yr unig gorff o unrhyw sylwedd oedd yn arddel Arminiaeth yn swyddogol, ac felly gellid dweud eu bod yn fwy tebygol o dderbyn syniadau Finney. Fodd bynnag, er mai Calfiniaeth oedd diwinyddiaeth y mwyafrif yng Nghymru, roedd y ddiwinyddiaeth yn blasu cryn dipyn yn wahanol erbyn y cyfnod hwn o'i gymharu â blynyddoedd cynnar y ganrif. Aeth trwy newidiadau sylweddol o 1800 hyd 1840. Nid pwrpas y traethawd hwn yw barnu a fu'r newid er gwell neu er gwaeth; y ffaith yw i'r newid ddigwydd. Nid Calfiniaeth yr hen dadau oedd Calfiniaeth y 1850au, a bu'r ferswin newydd yn fodd i agor eglwysi Ymneilltuol Cymru o bob enwad i ddylanwad diwygiadaeth Finneyaidd.

Fel y gwelsom, yn ganolog i syniadau Charles Finney oedd y farn bod gan ddyn ran, cyfrifoldeb, a gallu wrth sicrhau adfywiad i'r eglwys. Pwyslais yr hen Galfiniaid, wrth gwrs, oedd mai o Dduw yn unig y deuai adfywiad, ac nad oedd gan ddyn unrhyw ran yn y mater o gwbl. Rhywbeth i'w ddisgwyl amdano ydoedd diwygiad iddynt hwy,[39] ond rhywbeth i weithio amdano ydoedd i Finney. Oddi fewn i ddiwinyddiaeth ddiwygiadol, felly, roedd safle penarglwyddiaethol Duw wedi lleihau, a gallu a chyfrifoldeb dyn wedi cynyddu. Yn amlwg, roedd Wesleaid Cymru, a'u safbwynt Arminaidd, yn gyfforddus ddigon efo'r safbwynt hwn. Pwysleisiodd y Wesleaid erioed gyfrifoldeb dyn yn nhrefn ei iachawdwriaeth. Fodd bynnag, roedd y syniad hwn yn bell o fod yn dderbyniol gan y Calfiniaid. Gwaith sofran Duw yw achub dyn ac nid oes gan ddyn ran yn y gwaith. Yn wir, ni all gymryd rhan yn y gwaith,

Calvinists', *Explorations and Explanations: essays in the social history of Victorian Wales* (Llandysul, 1981), t.229.

39 Ceir amlinelliad o'r ddadl gan Owen Thomas, *Cofiant John Jones, Talsarn* (Wrecsam, 1874), tt.524-32.

oherwydd, yn ôl y Calfiniaid, mae pechod yn sicrhau nad yw'r gallu ganddo i wneud dim drosto'i hun lle mae iachawdwriaeth mewn cwestiwn.

*iv. Her y Wesleaid.*

Ond daeth tro ar fyd, a chymedrolwyd cryn dipyn ar y Galfiniaeth honno. Bu'n daith araf a hir, a checrus ar adegau, ond erbyn y 1840au roedd cyfrifoldeb a gallu dyn wedi cael lle oddi fewn i ddiwinyddiaeth Galfinaidd Ymneilltuol Cymru. Mae'r stori'n cychwyn efo ymateb y tri enwad Anghydffurfiol i ddyfodiad y Methodistiaid Wesleaidd fel corff i'r wlad am y tro cyntaf yn 1800. Ymateb ffyrnig fu hwnnw, ac er mwyn sicrhau bod digon o wahaniaeth diwinyddol rhyngddynt, datblygodd Calfiniaeth yn uchel-Galfiniaeth, gan fynd yn hynod eithafol yn llaw ambell arweinydd. Mewn amser tymherwyd cryn dipyn ar y safbwynt hwnnw, ac efo dylanwad Ffwleriaeth, math cymedrol o'r ddiwinyddiaeth, daeth i fod yn Galfiniaeth gymedrol unwaith eto. Yn wir, efo dylanwad Finney, gellid amau a ydoedd yn Galfiniaeth o gwbl yn nwylo ambell un. Er mwyn deall sut yr effeithiodd y datblygiadau hyn ar syniadau diwygiadol yr eglwysi, gellid dweud mai craidd y ddadl oedd gallu a chyfrifoldeb dyn ynghylch ei iachawdwriaeth, ac mewn cwta ddwy genhedlaeth gwelwyd dyn yn cael ei wthio o'r ddrama yn llwyr ym mlynyddoedd cynnar y ganrif, i'w ddwyn yn ôl i ganol y llwyfan bron erbyn y 1840au.

Nid gwlad heb Arminiaeth yn llwyr oedd Cymru'r ddeunawfed ganrif. Fodd bynnag, yr oedd y rhai a goleddai'r syniadau hynny mor brin fel nad oedd yn ddiwinyddiaeth oedd yn bygwth safle'r Calfiniaid. Roedd gan y Wesleaid eglwysi yng Nghymru cyn 1800, yn wir bu John Wesley ar sawl daith bregethu yma - yn bennaf yn siroedd Seisnig y de. Gan mai seiadau Saesneg eu hiaith

oedd y rhai Wesleaidd cynnar bron i gyd a chan mai prin oedd eu haelodau cyn 1800, ni theimlodd y Calfiniaid unrhyw fygythiad o du eu brodyr Arminaidd. Yn wir, bu cydweithio da rhwng arweinwyr y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru a Lloegr yn y blynyddoedd cynnar. Gallodd Howell Harris gydweithio'n agos â John Wesley, er enghraifft, ac er bod Harris yn agosach yn ddiwinyddol at George Whitefield yn y ddadl a fu rhyngddo ef a Wesley yn 1741, gallodd Harris barhau i gydweithio â Wesley wedi hynny.[40] Cytunodd Wesley i beidio â sefydlu seiadau yng Nghymru lle'r oedd seiat Fethodistaidd yn barod, a sylweddololodd na ellid efengylu Cymru ond trwy'r Gymraeg. Cyn marw Wesley yn 1791 roedd gwaith y corff yng Nghymru yn dod o dan awdurdod Cylchdaith Caer, ac oddi yno y deuai pregethwyr Wesleaidd i Gymru i gynghori seiadau megis yr Wyddgrug a Wrecsam. Fodd bynnag, trwy gyfrwng y Saesneg y pregethent, a phrin oedd eu dylanwad ar Gymru. Roedd peth gwaith yn cael ei wneud drwy'r Gymraeg. Ymhlith yr arweinwyr cynnar yr oedd Richard Harrison, Llaneurgain. Tybid mai ef oedd y cyntaf i bregethu Arminiaeth yn y Gymraeg yng ngogledd Cymru. Un arall oedd Evan Roberts, Dinbych a sefydlodd y seiat Gymraeg gyntaf yn y dref yn 1787. Yn Rhuthun y gweithiodd Edward Jones, Bathafarn a sefydlodd seiat Gymraeg yno.[41]

Bychan oedd dylanwad y Wesleaid yng Nghymru cyn 1800, felly, a phrin ddim dylanwad o gwbl yn y Gymraeg. Fodd bynnag, yng nghynhadledd y corff yn Awst y flwyddyn honno, cynigiodd Thomas Coke, a oedd yn glerigwr efo Eglwys Loegr ac ymhlith prif arweinyddion y Wesleaid yn Lloegr, y dylid sefydlu cenhadaeth ffurfiol yng Nghymru. Roedd Coke, a aned yn Aberhonddu, yn credu'n gryf mewn cenhadu, ac yn benodol mewn cenhadu yn yr iaith

[40] A.H.Williams, *Welsh Weseyan Methodism. 1800-1858. Its Origins, Growth and Secessions* (Bangor, 1935), t.26.
[41] Ibid. tt.51-63.

frodorol. Un o'r rhesymau pam y cynigiodd genhadaeth o'r fath oedd y credai fod y pregethwyr oedd yng Nghymru eisoes - sef ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd a'r Ymneilltuwyr, yn gyfyng eu dealltwriaeth o'r efengyl, hynny yw, eu bod yn rhy Galfinaidd. Gwelwn, felly, fod dyfod ag athrawiaeth 'iachach' i Gymru yn rhan o bwrpas y genhadaeth.

Cynigiodd John Hughes o Aberhonddu ei hun fel cenhadwr, a chafwyd Owen Davies, Wrecsam i ymuno ag ef. Gan mai prin oedd Cymraeg y ddau, araf oedd y gwaith ar y cychwyn. Cytunodd Cylchdaith Caer i drosglwyddo eu buddiannau yng Nghymru drosodd i'r genhadaeth newydd, a chychwynnodd y ddau ar eu gwaith yn y gogledd. Yn y dyddiau cynnar cafodd y ddau groeso cynnes gan y Methodistiaid Calfinaidd. Benthyciwyd capeli iddynt ym Môn yn Medi 1800, er enghraifft, a chafodd John Hughes y cyfle i bregethu efo John Elias, un o'r cewri Calfinaidd yn y sir. Mewn sylw sy'n tanlinellu'r diffyg dealltwriaeth a fodolai rhwng y ddau gorff, dywedodd Hughes ei fod yn synnu pa mor rhydd oedd Elias oddi wrth Antinomiaeth, sef ffurf hynod eithafol ar uchel Galfiniaeth. Un o'r rhesymau pam y rhoddwyd croeso iddynt gan y Methodistiaid Calfinaidd oedd na chredai'r corff hwnnw fod y Wesleaid yno i gystadlu â hwy. Yr argraff a gawsant oedd mai yng Nghymru oeddent i weithio ymhlith y di-Gymraeg. Camargraff oedd hynny, fodd bynnag. Ac o fewn dwy flynedd tyfodd y Wesleaid o ddwy seiat gyda 45 aelod i 14 seiat gyda 282 aelod. Oherwydd diffygion ieithyddol Hughes a Davies, Saesneg oedd iaith nifer o'r seiadau hyn, ond wrth i bregethwyr newydd Cymraeg eu hiaith gael eu codi i'r gwaith roedd y cymunedau Cymraeg yn cael eu heffeithio gan y corff newydd hwn. Yn 1802 y dechreuodd y gwrthwynebiad godi tuag at y Wesleaid. Rhybuddiodd John Elias bobl Cemaes, Môn, er enghraifft, i fod yn wyliadwrus

o'r 'gau broffwydi' oedd ar gerdded drwy'r wlad.[42] Er gwaetha'r gwrthwynebiad tyfu a wnaeth dylanwad y corff newydd ac ennill nid yn unig bobl ddi-gred ond hefyd dwyn defaid o gorlannau Calfinaidd. Erbyn 1808 roedd Cymru gyfan yn rhan o'r genhadaeth a sefydlwyd pregethwyr parhaol yn y de yn ogystal â'r gogledd. Trwy'r amser hwn cynyddodd gwrthwynebiad cryf iddynt o du'r enwadau eraill. Meddai A. H. Williams am y gwrthwynebiad hwn:

> Accepted at first, and even welcomed, by the other Nonconformist bodies, by 1811 it stood alone, hated of them all ... This was due entirely to its Arminian theology and to the number of proselytes as well as converts made.[43]

Gosodwyd diwinyddiaeth y corff newydd hwn yng Nghymru yn gryno mewn llyfryn o'r eiddo Owen Davies yn 1807. Yn ei *Ymddiddanion rhwng dau gymydog, Hyffordd a Beread* mae'n egluro'r safbwynt Wesleaidd ar iachawdwriaeth. Credai fel y Calfin fod gras Duw yn gwbl angenrheidiol cyn y gellid achub dyn, ond yn wahanol i'r Calfin, ni chredodd fod y gras hwnnw yn anorchfygol. Gall dyn ei dderbyn neu ei wrthod. Roedd iachawdwriaeth dyn yn dibynnu, felly, ar ei ymateb ef i'r gras hwnnw a gynigid iddo gan Dduw. Roedd yn rhydd ac yn alluog i'w dderbyn pe dymunai. Yn y system hon, felly, mae'n amlwg fod gallu dyn a'i gyfrifoldeb yn ganolog. Er mwyn i ras Duw weithredu yn effeithiol ym mywyd dyn roedd yn rhaid wrth gydweithrediad dyn wrth iddo edifarhau a chredu'r efengyl. Gwrthododd Davies y syniad bod dyn wedi ei ragethol cyn iddo gredu, ac yn sicr cyn iddo gael ei eni. Yn yr un modd, gwrthododd y syniad bod rhai wedi eu rhagethol i gosbedigaeth.[44]

---

[42] Ibid. t.101.
[43] Ibid. t.128.
[44] Glyn Richards, 'A Study of the Theological Developments among Nonconformisits in Wales during the nineteenth century' (traethawd B.Litt. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Rhydychen, 1956), t.52.

Yn amlwg iawn, roedd y syniadau hyn yn sialens i'r Calfiniaid a'u hathrawiaeth. Un o'r cyntaf i ymuno yn y frwydr ddiwinyddol o blaid Calfiniaeth oedd Thomas Jones, Dinbych. Roedd ymhlith y to cyntaf i'w ordeinio gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn 1811. Cymedrol oedd ei safbwynt diwinyddol ef, ond barnodd mai da fyddai cyhoeddi ymateb i Arminiaeth y Wesleaid, ac yn 1806 y gwelwyd *Y Drych Athrawiaethol.* Roedd pwyslais mawr ynddo ar lygredd dyn wedi'r cwymp. Oherwydd ei bechod ni all dyn wneud unrhyw beth i sicrhau iachawdwriaeth iddo'i hun. Mae'n gwbl ddibynnol ar Dduw a'i ras. Gwadodd Jones fod gan ddyn ewyllys rydd, a chredodd nad oes ganddo unrhyw rinwedd y gall ei defnyddio i agosáu at Dduw a derbyn iachâd.[45] Dyma amddiffyniad o'r Galfiniaeth glasurol, gymedrol a fodolai yng Nghymru cyn y cyfnod hwn. Un o gyhuddiadau'r Wesleaid yn erbyn y Calfiniaid oedd mai cynnig gobaith i rai yn unig a wnaethant, sef i'r rhai oedd wedi eu hethol i fywyd tragwyddol. Atebwyd hyn gan Galfin cymedrol arall, John Roberts, Llanbrynmair, oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr. Dadleuodd fod galwad yr efengyl i bob dyn a'i fod ef a'i gyd-Galfiniaid yn pregethu'r efengyl i bob pechadur ac yn eu galw i ymateb. Gwendid yr Arminiaid, fodd bynnag, meddai Roberts, oedd bod ymateb y pechadur yn dibynnu ar ei allu ei hun, tra mynnai'r Calfin mai ar allu Duw y gorwedd yr ymateb hwnnw. Gan y Calfiniaid yr oedd y gobaith pennaf am achubiaeth, felly, meddai, gan mai Duw sy'n rhoi'r gallu i ddyn ymateb.

Fel y crybwyllwyd, dehongliad cymedrol o Galfiniaeth oedd gan Thomas Jones a John Roberts. Fodd bynnag, wrth i'r ymateb i'r Arminiaid barhau, datblygodd rai ddehongliad llawer mwy eithafol o'r Galfiniaeth honno.

---

[45] Ibid. tt.55-6.

Un o'r uchel-Galfiniaid hynny oedd John Jenkins, Hengoed. Gweinidog gyda'r Bedyddwyr Neilltuol ydoedd, enwad cymedrol ei Galfiniaeth ar y cyfan a chymedrol ydoedd Jenkins yntau ar un adeg. Fodd bynnag, yn 1811 cyhoeddodd ei *Gweledigiad y Palas Arian*. Yn y gyfrol hon datganodd Jenkins ei gred mai penarglwyddiaeth Duw oedd sail ei ddiwinyddiaeth. O'i ras ei hun y trefnodd Duw gyfamod a'i etholedigion a threfnu eu hachub. Roedd dyn wedi ei lygru i'r fath raddau nes ei fod wrth natur yn elyn Duw. Credai Jenkins mewn etholedigaeth bersonol a diamodol. Nid oedd dim y gallai dyn ei wneud i dderbyn ei iachawdwriaeth. Yn ychwanegol, credai fod yr Iawn yn rhagdybio prynedigaeth neilltuol, hynny yw, dros yr etholedigion yn unig y bu Iesu farw, ac nid dros yr holl fyd. Dadleuodd y byddai gweinidogaeth Iesu wedi methu pe byddai'n gywir ei fod wedi marw dros bawb - byddai'n fethiant oherwydd nid oedd pawb yn cael eu hachub. Nid oedd pwrpas mewn pregethu'r efengyl i'r di-gred felly.[46] Yn ôl y system hon gwelir bod unrhyw gyfrifoldeb wedi ei gymryd oddi ar ddyn yn llwyr, a'i fod yn gyfan gwbl oddefol yn y broses. Ni châi ran o unrhyw fath yn ei iachawdwriaeth ei hun.

Un arall a goleddai y syniadau uchel hyn oedd Christmas Evans, arweinydd hynod o ddylanwadol gyda'r Bedyddwyr. Gwaetha'r modd gallai Evans fod yn hynod gas wrth ddadlau efo'i wrthwynebwyr. Meddai Densil Morgan amdano, 'Nodweddwyd y ddadl hon gan haerllugrwydd ymadrodd a chulni meddwl'.[47] Cawn enghraifft o hynny mewn llythyr a anfonodd at Evan Evans, pregethwr gyda'r Bedyddwyr yng Ngefn-mawr, sir Ddinbych, yn 1809. Cytuno â'r farn gymedrol a wnaeth Evan Evans a dadlau fod gan ddyn allu

[46] Tom Ellis Jones, 'Ffwleriaeth yng Nghymru' (traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Bangor, 1934), t.21.
[47] D.Densil Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul, 1991), t.139.

naturiol i droi oddi wrth ei bechod ac at Dduw. Ond wrth ddadlau â'r safbwynt hon, ergydiodd Christmas Evans,

> Byddeu yn dda gennyf pe byddai y brawd Evan Evans yn cael y fraint o fod yn fwy gwyliadwrus rhag neidio ar ei ben i byngciau amrwd, a'i gyrru i bellafoedd. Mae hynny o bosibl yn tarddu oddiwrth hyder ormodol sydd ganddo yn ei ddyall ei hun.[48]

Yn 1811 cyhoeddodd ei gyfrol *Neilltuolrwydd y Prynedigaeth* ac ynddi ddadleuodd nad oedd rhinwedd yn aberth Iesu ond i'r rhai a etholwyd. Syniadau 'masnachol' am yr Iawn oedd gan Evans, a datblygodd y syniad o 'Iawn cytbwys' - sef bod dioddefaint Iesu yn cyfateb yn union i nifer pechodau'r etholedigion. Gan fod rhai wedi pechu yn fwy na'i gilydd, rhesymeg Evans oedd bod Iesu wedi dioddef mwy dros rai nag eraill. Canlyniad arall rhesymeg fel hyn oedd iddo gredu y byddai angen i Iesu fod wedi dioddef mwy pe byddai eraill ar wahân i'r etholedig am ymateb i'r efengyl. Serch hynny, daliai Evans y dylid parhau i bregethu'r efengyl a chynnig ei gobaith i bawb. Daliai hefyd fod gan bob dyn gyfrifoldeb am ei bechod. Sicrhaodd hyn na ddisgynnodd i Antinomiaeth. Aeth yr Antinomiaid ymhellach nag Evans gan ddadlau, am fod yr Iawn yn Iawn masnachol, bod yn rhaid i bob pechadur gyflawni eu nifer penodedig o bechodau, neu byddai Iesu wedi dioddef yn ofer. Mae cred felly yn arddangos i'r dim pa mor bell oddi wrth unrhyw syniadau beiblaidd y crwydrodd rhai o'r diwinyddion hyn, a chymaint yr oedd eu hathrawiaeth yn dibynnu ar resymeg yn unig. Yn wir, gallai Christmas Evans ei hun ddisgyn i'r un bai. Meddai Densil Morgan am y gyfrol uchod, 'Roedd holl feddwl Christmas yn y traethawd hwn yn cael ei reoli gan ystyriaethau mathemategol a masnachol'.[49]

---

[48] Ibid. t.145.
[49] Ibid. t.149.

Erbyn hyn symudodd y pwyslais oddi wrth amddiffyn Calfiniaeth rhag Arminiaeth i fod yn ddadl oddi fewn i'r enwadau Calfinaidd ymhlith ei gilydd. Wrth i Christmas Evans a John Elias symud yn bell at uchel-Galfiniaeth mynnodd eraill ddal at eu syniadau cymedrol. Datblygodd dadl frwd rhwng Elias a Thomas Jones, Dinbych, er enghraifft. Yn 1816 cyhoeddodd Jones ei gyfrol *Ymddiddanion rhwng dau gyfaill, Ymofynwr a Henwr, ar Brynedigaeth.* Yn hon datganodd Jones ei farn fod yr Iawn yn neilltuol a phersonol, ac er bod pawb yn cael rhyw fendith o groes Iesu, yr etholedig yn unig a fydd yn derbyn rhinweddau'r brynedigaeth. Ar yr un pryd credai fod yr Iawn yn anfeidrol am ei fod yn dibynnu ar anfeidroldeb person Iesu. Hynny yw, credai bod Iesu yn ddigon mawr i gynnwys pawb - ond bod ei Iawn yn perthyn i'r etholedig yn unig. Gwrthododd y syniad am Iawn masnachol a'r syniad bod Iesu wedi dioddef mwy dros rai nac eraill. Dadleuai y byddai'n rhaid wrth y groes hyd yn oed dros un pechadur. Yn 1819 roedd Christmas Evans wedi newid ei feddwl ac yn ymddangos fel petai wedi agosáu at safbwynt Jones. Daeth i gyfarfod Jones yn Ninbych a daeth i dderbyn yn llwyr safbwynt Jones ar yr Iawn. Fodd bynnag, yn fuan wedi'r cyfarfod hwnnw cyhoeddodd lyfryn oedd yn cadarnhau ei safbwynt uchel-Galfinaidd a hynny am iddo gael ei ddarbwyllo gan rai o weinidogion Bedyddiedig sir Ddinbych, a oedd, o bosibl, yn eiddigeddus o Thomas Jones. Cyhoeddodd Thomas Jones wedi hynny er mwyn tynnu sylw pobl at y newid barn a fu yn Evans, a chafwyd dau gyhoeddiad anhysbys yn dilyn Jones yn amddiffyn Christmas Evans yn erbyn cyhuddiad Jones. Tybiodd Densil Morgan mai gweinidogion Sir Ddinbych oedd yn rhannol gyfrifol am y llythyr cyntaf, ac mai Christmas Evans ei hun a luniodd yr ail.[50]

[50] Ibid. t.153.

Ar y cychwyn nid oedd safbwynt Thomas Jones yn dderbyniol gan ei enwad ei hun, a chyhuddwyd ef yng Nghyfarfod Misol Rhuthun yn 1815 o fod yn heretic. Fodd bynnag, daeth y Methodistiaid Calfinaidd i dderbyn ei safbwynt o dipyn i beth, a chafodd gefnogaeth John Elias hyd yn oed. Gofynnwyd i'r ddau ac un arall lunio cyffes ffydd i'r cyfundeb ac wedi dadlau am rai blynyddoedd derbyniwyd y gyffes yn 1823. Golwg gymharol eang ar gwestiwn yr Iawn oedd gan y gyffes hon. Galwodd am bregethu i bawb, ond mai galwad fyddai'n effeithiol i'r etholedig yn unig a fyddai. Nid oedd gair ynddi am anfeidroldeb yr Iawn, ac wedi derbyn y gyffes amheuid iechyd ffydd pob un a bregethai hynny. Er enghraifft, mor ddiweddar â 1835 gwrthwynebwyd pregeth gan John Jones, Talysarn yng Nghymdeithasfa'r Bala pan gondemniodd yn llym syniadau cyfyng am yr Iawn, gan bwyso bod dyletswydd ar i bob un gredu.

Er mai dadl ynghylch ehangder effaith yr Iawn oedd y ddadl rhwng yr uchel-Galfiniaid a'r rhai cymedrol, gallwn weld bod lle dyn yn y broses o achub hefyd dan ystyriaeth. Nid oedd y naill ochr na'r llall yn rhoi fawr o bwys ar allu dyn i ymateb i'r efengyl. Yn wir, gellid dweud yn bendant nad oeddent yn credu fod gan ddyn allu o gwbl yn y cwestiwn hwn. Roedd y blaid gymedrol yn pwysleisio mwy ar gyfrifoldeb dyn am ei bechod na'r uchel-Galfiniaid, ond roedd y ddwy blaid o'r farn fod natur bechadurus dyn yn ei wneud yn gwbl ddibynnol ar ras Duw.

*v. Ffwleriaeth.*

Gwahanol oedd pwyslais y Ffwleriaid. Dyma blaid a lwyddodd i gymedroli mwy byth ar Galfiniaeth y cyfnod. Roedd Andrew Fuller (1745-1815) yn

weinidog gyda Bedyddwyr Kettering, swydd Northampton pan gyhoeddodd ei gyfrol *The Gospel Worthy of all Acceptation* yn 1785. Cafodd Fuller ei fagu dan weinidogaeth uchel-Galfinaidd yn eglwys Fedyddiedig Soham, Swydd Caergrawnt. Roedd cyflwr yr enwad yn bur isel ar y pryd, gyda'r aelodaeth yn gostwng a'u bywyd ysbrydol yn symol. Beid y cyflwr hwn ar sawl ffactor, gan gynnwys anffafriaeth gyfreithiol a chymdeithasol tuag at yr Anghydffurfwyr a lleoliad diarffordd y capeli. Y ffactor a feid fwyaf, fodd bynnag, yw pwyslais uchel-Galfinaidd yr eglwysi. Sylwodd Peter J.Morden, gan nad oedd cenhadu ymhlith y di-gred yn dderbyniol ganddynt, 'Maintenance rather than mission was the order of the day'.[51] Yn yr awyrgylch hwn y cafodd Fuller ei fagu, ond wrth astudio'r ysgrythurau drosto'i hun daeth amheuon i'w feddwl ynghylch y system, a dadleuon yn ei herbyn a geir yn ei gyfrol. Dylanwadwyd arno ef yn fawr gan waith Jonathan Edwards, ac yn arbennig y modd y gwahaniaethodd rhwng gallu naturiol dyn i ymateb i Dduw a'i anallu moesol i wneud hynny. Oddi fewn i uchel-Galfiniaeth pwysleisir nad oes gan y pechadur unrhyw allu o gwbl i ymateb i Dduw. Deallodd Fuller mai prif wendid y ddysgeidiaeth honno oedd y tynnir oddi ar ddyn ei gyfrifoldeb i fod yn ufudd i Dduw. Roedd gwrthodedigion yr efengyl yn disgyn y tu hwnt i'w gafael ac felly nid oedd galwad arnynt i fod yn ufudd, ond ar y llaw arall roedd yr etholedig wedi eu dyrchafu y tu hwnt i unrhyw angen i fod yn ufudd, gan mai Duw oedd yn gwneud yr holl waith drostynt. Roedd Fuller yn awyddus i adfer cyfrifoldeb dyn yn wyneb yr efengyl. Meddai Glyn Richards amdano, 'His main purpose was to show that it was man's duty to believe the Gospel; that no innate inability prevented him from believing; and that the Atonement was sufficient

[51] Peter J.Morden, *Offering Christ to the World. Andrew Fuller (1745-1815) and the Revival of Eighteenth Century Particular Baptist Life* (Carlisle, 2003), t.16.

for the needs of all men'.[52] Yn dilyn Edwards, mynnai Fuller mai anallu moesol sydd gan ddyn ac nid anallu naturiol. Credai bod dyn yn gallu credu ac ymateb i'r efengyl, ond ei fod yn dewis peidio. Roedd yn mynnu, felly, fod dyletswydd ar ddyn i gredu.

Os oedd dyn yn gallu credu, yna roedd dyletswydd ar yr eglwys i gyflwyno'r efengyl iddo. A dyma ganlyniad ymarferol syniadau Fuller ymhlith ei enwad. Daeth y Bedyddwyr yn eglwysi efengylaidd oedd yn estyn allan tuag at y di-gred. Canlyniad pellgyrhaeddol arall oedd sefydlu Cymdeithas Genhadol yr enwad yn 1792. Bu Fuller yn ysgrifennydd y Gymdeithas o'i chychwyn hyd ei farw yn 1815 a gweithiodd yn ddiflino drosti. Ail-argraffwyd *The Gospel Worthy of All Acceptation* yn 1801 gyda newidiadau diwinyddol pwysig. Y pwysicaf o bosibl oedd ei farn ynghylch ehangder yr Iawn. Ynghynt credai mai dros yr etholedig yn unig y bu Crist farw, ond erbyn 1801 daethai i gredu fod yr Iawn yn cynnwys yr holl fyd, er mai'r etholedig yn unig fyddai'n derbyn y buddiannau. Barn Morden ynghylch dylanwad y gyfrol ar y Bedyddwyr yw: '*The Gospel Worthy* was the most influential test in weaning the majority of Particular Baptists away from High Calvinism'.[53]

Cymro a ddylanwadwyd yn fawr gan y system newydd hon oedd Edward Williams, Rotherham. Ef oedd pennaeth Academi Annibynwyr y Fenni o 1775 ymlaen, ac yn 1795 daeth yn bennaeth Academi Rotherham ac yno y bu hyd ei farw yn 1813. Oddi yno dylanwadodd ar enwad yr Annibynwyr yn fawr. Roedd ei syniad am gyflwr dyn yn bur wahanol i'r syniad clasurol Calfinaidd. Credai mai drwg moesol yn deillio o ddewis anghywir oedd yn perthyn i ddyn, yn hytrach na bod pechod Adda wedi ei gyfrif iddo. Fel Fuller, credai fod dyn

---

[52] Glyn Richards, 'Theological Developments', t.92.
[53] Morden, *Offering Christ*, t.100.

yn parhau i fod yn fod cyfrifol gyda gallu naturiol i ymateb i Dduw, a bod yn atebol ger ei fron.[54]

Dylanwadwyd ar enwad y Bedyddwyr gan Fulleriaeth dan arweiniad J.P.Davies, Tredegar, a gyfieithodd beth o waith Fuller i'r Gymraeg. Gwelir yng ngwaith Davies fod Fulleriaeth yn gwbl Galfinaidd lle mae effeithioldeb yr Iawn yn y cwestiwn, gan iddo gredu mai'r etholedig yn unig a achubir. Nid cael eu gwrthod a wna'r anetholedig, fodd bynnag, ond bod Duw yn eu pasio heibio, ac yn gadael iddynt fod yn eu pechod a'i ganlyniadau. Roedd gan ddyn y gallu wrth natur i ymateb i'r efengyl, meddai Davies yntau, ond bod ei anallu moesol yn golygu na fyddai'n gwneud y dewis hwnnw. Nid diffyg cynneddf i ymateb sydd gan ddyn, ond diffyg tuedd ac ewyllys. Mae'n gyfrifol am ei bechod am iddo bechu o'i ewyllys.[55]

Sylwasom eisoes ar gyfraniad John Roberts, Llanbrynmair i'r ddadl hon. Bu Roberts yn ddisgybl i Williams, a chadwodd gysylltiad agos ag ef am flynyddoedd wedi hynny.[56] O dan ei ddylanwad ef y daeth Roberts i goleddu syniadau'r System Newydd, sef Calfiniaeth gymedrol y Ffwleriaid. Yn 1820 cyhoeddodd ei gyfrol ar y pwnc, sef *Galwad Ddifrifol ar Ymofynwyr am y Gwirionedd.* Dyma amddiffyniad hynod werthfawr o'r syniadau newydd, y cyfeiriodd Tudur Jones ati fel 'maniffesto'r Calfiniaid cymedrol'.[57] Meddai Glyn Richards amdani, 'a landmark in the history of theology of Wales, in that it helped to establish the existence of a new school of theologians. It contained the considered opinions of the "New System" as the movement was called'.[58] Roedd eraill o ddeiliaid y System wedi cyfrannu at y llyfryn, arweinwyr megis

---

[54] Ibid. t.93.
[55] Tom Ellis Jones, 'Ffwleriaeth yng Nghymru', t.28.
[56] R.Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966), t.174.
[57] Ibid. t.174.
[58] Glyn Richards, 'Theological Developments', t.100.

William Williams o'r Wern; David Morgan, Machynlleth; Robert Everett, Dinbych; Michael Jones, Llanuwchlyn; James Griffiths, Tyddewi; John Breeze, Lerpwl; a Cadwaladr Jones, Dolgellau.[59] Yn y gwaith deallwn fod y gred mewn etholedigaeth yn rhan o'r system a hefyd y gred mewn parhad mewn gras. Nid Arminiaeth ydoedd, felly. Ond er y gred mewn etholedigaeth roeddent hefyd yn credu yng ngallu cynhenid dyn i dderbyn neu wrthod gras Duw, ac yn dadlau, oherwydd bod gan ddyn y gallu i dderbyn yr efengyl, fod dyletswydd arno i wneud hynny. Meddai John Roberts:

> Nid oes un peth, yn yr ysgrythurau sanctaidd, yn ymddangos yn eglurach i mi, na bod Duw yn gwneuthur cynigiad diffuant o fywyd tragwyddol, trwy waed Crist, i bob dyn a glywo yr efengyl; ac mai yr unig achos fod neb dynion, dan yr efengyl yn golledig, yw, na fynnant ddyfod at Fab Duw, i gael bywyd.[60]

Ac mewn sylw ar Hebreaid 10:28-29, meddai:

> Mae pob dyn ag nad yw yn defnyddio gwaed Iesu Grist er ei iechydwriaeth, yn ei gyfrif yn aflan, ac yn mathru Mab Duw dan ei draed, ac yn difenwi Ysbryd y gras. Oni b'ai fod modd, hawl, a rhyddid, yn ôl grasol gyhoeddiad Brenin y nefoedd i bob dyn iawn ddefnyddio Aberth Crist er iechydwriaeth ei enaid, ni byddai modd i un dyn ei gam-ddefnyddio, er ei dragwyddol ddinystr.[61]

Ac yn ei ysgrif ef dywed 'J.B.' Lerpwl fel hyn am ddyn:

> Y mae yn ddiau eu bod yn feirw mewn camweddau a phechodau - yn blant digofaint - heb obaith ganddynt, a heb Dduw yn y byd. Ond nid ydynt wedi eu hyspeilio o alluoedd eneidiol, a chyneddfau rhesymol; ond y maent yn parhau o hyd yn ddeiliaid o lywodraeth foesol Duw, ac, fel y cyfryw, yn rhwym i roddi ufudd-dod i'w Llywodraethwr.[62]

Cawn eglurhad hefyd ar y syniad o ddwy ran i gymeriad Duw - sef Duw fel penarglwydd grasol a Duw fel llywydd moesol. Mae'r llywydd moesol yn mynnu cosbi pechod, ond y penarglwydd grasol yn trefnu ffordd yn ei Fab i

---

59 R.Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru*, t.174.
60 John Roberts, *Galwad Ddifrifol ar Ymofynwyr am y Gwirionedd* (Dolgellau, 1820), t.6.
61 Ibid. t.6.
62 'J.B.', *Galwad Ddifrifol*, t.114.

achub. Fel llywydd moesol gorchmynna Duw i bawb gredu. Credai Roberts fod pob dyn mewn sefyllfa o brawf yn yr Ail-Adda, ac nad am syrthio yn yr Adda cyntaf y caiff dyn ei ddamnio, ond am wrthod gras yn yr Ail-Adda.

Swynwyd hyd yn oed Christmas Evans am gyfnod gan y System Newydd yn 1822. Pregethodd ar y pwnc ym Môn ond llwyddo i godi helynt iddo'i hun a wnaeth yno. Cafodd groeso mwy brwd pan gyflwynodd yr un bregeth yn y de. Wedi dychwelyd adref i Fôn wedi'r derbyniad cynnes yn y de mynnodd fod Bedyddwyr yr ynys yn dilyn y syniadau newydd, ond er cryfed ei gymeriad a'i ddylanwad methu a wnaeth y tro hwn. Erbyn 1824 yr oedd wedi troi eto ac aeth yn erbyn y Ffwleriaid. Aeth yn ddadl boeth rhyngddo ef a Huw Williams, Amlwch, a bu rhaid galw i mewn bedwar o Sir Ddinbych er mwyn cymodi. Fodd bynnag, gadael y sir a wnaeth Christmas Evans oherwydd y ffrae hon.[63]

Ni swynwyd cyd-Fonwysyn Evans, sef John Elias, â'r System Newydd, a llwyddodd i sicrhau bod ei enwad, y Methodistiaid Calfinaidd, yn parhau fel corff yn wrthwynebus iddi hyd farwolaeth Elias yn 1841. Sgeptigaeth a nododd ymateb y Bedyddwyr at y system hefyd, fel y sylwyd yn Sir Fôn uchod. Teg yw cytuno efo Carwardine uchod mai ymhlith yr Annibynwyr y bu'r croeso mwyaf brwd, gydag arweinwyr dylanwadol megis Roberts, Llanbrynmair, a Williams o'r Wern yn ei dysgu a'i phregethu. Wrth i do o weinidogion ieuanc roddi 'yr hen Uchel-Galfiniaeth yn y glorian a'i chael yn brin' aethpwyd ati i geisio diwinyddiaeth ragorach.[64] Oddi fewn i Ffwleriaeth cawsant system oedd nid yn unig yn gweddu iddynt, ond a ddaeth, maes o law, yn sylfaen i dyfiant radicaliaeth newydd ymhlith arweinwyr yr enwad. Barn R. Tudur Jones ydoedd

[63] Tom Ellis Jones, 'Ffwleriaeth yng Nghymru', tt.76-9.
[64] R.Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru*, t.169.

i Ffwleriaeth ddod yn 'ddiwinyddiaeth uniongred yr Annibynwyr' erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[65] Nid derbyniad diwrthwynebiad a gafwyd ganddynt hwythau, ychwaith, fel y gwelwyd yn chwalfa cynulleidfa'r Hen Gapel yn Llanuwchlyn dan arweiniad Michael Jones yn 1821. Teg yw dweud nad cwestiwn diwinyddiaeth yr Iawn yn unig oedd yn gyfrifol am y trafferthion hynny, a bod gwrthdaro rhwng Michael Jones, y gweinidog, a'r henuriaid ar fater arwain a rheoli eglwys. Cawsai'r henuriaid brofi grym rhyfeddol i redeg yr eglwys yn ôl eu gweledigaeth eu hunain am beth amser, ond roedd gan y gweinidog syniadau gwahanol, a phan benodwyd ef i fugeilio'r Hen Gapel yn 1814 roedd gwrthdaro ar y cwestiwn hwn yn anochel. Ond roedd Jones, hefyd, yn arddel y System Newydd, ac fel y gwelsom uchod yn un o'r cyfranwyr i gyfrol John Roberts. Roedd pobl yr Hen Gapel, fodd bynnag, wedi eu trwytho am ddeunaw mlynedd yn uchel-Galfiniaeth eu cyn-weinidog, y Dr George Lewis. Llwyddodd Jones i ddarbwyllo nifer fod ei syniadau ef yn agosach at yr Ysgrythyr nag eiddo'r uchel-Galfiniaid, ond ni lwyddodd i'r un graddau gyda'r henuriaid na chorff go dda o'r gynulleidfa. Aeth yn ddadlau cas rhwng y ddwy blaid a'r diwedd oedd bod nifer, dan arweiniad un henuriad, Hugh Robert, wedi cerdded allan o oedfa fore Sul cyn cymuno. Datganodd y gweinidog nad oeddent bellach yn aelodau. Wedi blynyddoedd o ddadlau a sawl achos llys, gorfu i Michael Jones a'i ddilynwyr adael yr Hen Gapel a'i drosglwyddo'n ôl i'r 'Hen Bobl', fel y gelwid plaid yr uchel-Galfiniaid. Ac felly y parhaodd pethau hyd nes i'r ddwy blaid uno o'r newydd yn 1839. Roedd cynulleidfa Michael Jones, fodd bynnag, wedi cynyddu dros y blynyddoedd, tra bod cynulleidfa'r Hen Bobl wedi lleihau, a hynny am amryw resymau. Tros ddeg

---

[65] Ibid. t.175.

mlynedd, fodd bynnag, daeth y System Newydd yn dderbyniol gan nifer cynyddol oddi fewn i'r enwad.[66]

Rhwng 1821 a 1840 roedd Ffwleriaeth yn thema gyson oddi fewn i ysgrifau'r cyfnodolion enwadol, a gellid gweld fel y tyfodd ei dylanwad yn y cyfnod hwn. Yn 1836 cyhoeddodd David Davies, Panteg, ei gyfrol *Sylwadau ar Sefyllfa Prawf.* Ynddi tanlinella'r syniad Ffwleraidd bod dyn wedi pechu o'i wirfodd, bod dyletswydd arno i edifarhau, a'i fod yn rhwymedig i ddefnyddio moddion er mwyn bod yn gadwedig. Credai'r Ffwleriaid mai trwy gyfryngau yr oedd yr Ysbryd Glân yn gwneud ei waith. Roedd angen i ddyn weddïo, darllen y Beibl, edifarhau, a derbyn maddeuant Duw. Trwy'r moddion hyn y deuai'n gadwedig.[67] Yna yn 1838 cyhoeddwyd *Darlithiau* Charles Finney yn y Gymraeg a hefyd *Union of the Holy Spirit and the Church in the Conversion of the World* gan T.W.Jenkyn. Pwysleisiodd y ddau'r pwysigrwydd o ddefnyddio'r moddion penodedig gan Dduw i sicrhau achubiaeth dynion. Trwy'r moddion hyn y penderfynodd Duw y byddai'n cyflawni ei waith. Er bod y to hŷn o arweinwyr yn amheus o waith Finney roedd y to ieuanc yn frwd o'i blaid, a chafodd groeso twymgalon ganddynt. Erbyn hyn roedd Calfiniaeth Cymru wedi newid yn sylweddol. Gallai cyfrol Finney eistedd yn bur gyfforddus ymhlith diwinyddiaeth y to ieuanc o bregethwyr Ffwleraidd. Petai wedi cyhoeddi ei waith ugain mlynedd ynghynt, pan oedd ef ei hun yng nghanol berw ei waith fel diwygiwr yn Efrog Newydd, ni fyddai croeso iddo o gwbl. Ond yn 1838 roedd eglwysi Cymru yn barod am y syniadau newydd hyn ar ddiwygiadau.

*vi. Y pregethu apeliadol.*

---

[66] R.T.Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchlyn* (Bala, 1937), tt.131-172.
[67] Ibid. t.119.

Nodwedd amlwg y syniadau eang hyn am werth yr Iawn a gallu dyn oedd steil y pregethu. O fod yn bregethu athrawiaeth, aeth yn bregethu ymarferol a chymelliadol, gan roi pwysau ar y gwrandawyr i ymateb i'r efengyl yn y fan a'r lle. Dyma'r math o bregethu yr oedd Finney ei hun yn ei argymell, wrth gwrs. Un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yn ymarfer y math hwn o bregethu oedd John Jones, Talysarn. Nid Ffwleriad ydoedd, ond roedd yn amlwg iawn yn derbyn y syniadau eang am yr Iawn. Credai y dylai'r pechadur ymateb i'r alwad ac ymarfer y moddion a drefnwyd gan Dduw. Roedd yn ofer i ddyn ddisgwyl i neb arall ei achub, rhaid iddo ymateb ei hun, a chredai fod gwaith gan ddyn i'w wneud yn y broses. Yn anochel, efallai, cafodd Jones ei wrthwynebu gan John Elias. Ond mynnodd Jones fod Elias yn rhy gyfyng ei farn ac mewn perygl o ddisgyn i Antinomiaeth. Yn ôl Tom Ellis Jones, 'Diau bod John Jones, Talysarn yn amlwg ymhlith y rhai a ddylanwadodd yn fawr ar bregethu a diwinyddiaeth Cymru, gan wneuthur y syniadau ehangach yn boblogaidd trwy'r wlad.'[68]

Nid pawb oedd yn fodlon efo'r steil newydd hwn o bregethu, fodd bynnag. Mewn ysgrif yn *Y Traethodydd* yn 1859 cawn 'Glan Alun' yn cynnig ei sylwadau personol ar wahanol agweddau o'r diwygiad. Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd oedd Thomas Jones (Glan Alun), a aned yn yr Wyddgrug yn 1811, yn fab i siopwr lleol. Ordeinwyd ef yn 1850 ac yr oedd yn bregethwr galluog ac yn llenor dawnus. Fodd bynnag, oherwydd methiannau fel gŵr busnes, dechreuodd yfed yn ormodol a chafodd ei ddiarddel. Ar ôl troi ei law at wahanol bethau, daeth yn fasnachwr teithiol, a dechreuodd bregethu o'r newydd.[69] Adrodd hanes taith trwy rannau o Gymru a wnaiff Glan Alun yn yr ysgrif, ac wrth alw yn ardal gychwynnol y diwygiad, gogledd sir Aberteifi, y

[68] Ibid. t.144.
[69] R.T.Jenkins (gol.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1946* (Llundain, 1953), t.487.

cafodd flas ar yr adfywiad. Nododd ei anfodlonrwydd ynghylch pregethu'r cyfnod, neu o leiaf ei gonsyrn bod gor-ganmoliaeth yn cael ei roddi i'r pregethu apeliadol, syml a hynny ar draul y pregethu sylweddol oedd mewn bri ynghynt. Meddai:

> Yr wyf yn sicr pe na buasai ond cyfarchiadau fel ag a glywais i gan flaenoriaid y diwygiad, wedi bod yn mhulpudau Cymru ers deugain mlynedd, er eu bod yn eithaf priodol yn y cyfnod presennol, y buasai crefydd wedi myned yn wawd yn Nghymru er ys llawer dydd. Y gwir yw, na allsai y gwyr bach hyn, gyda'u cutlasses miniog, byth ddyfod afael yn ngafael a'r gelynion, a byrddio eu llestri, oni bae fod y cannons mawr wedi eu dystewi, a thori eu grym yn gyntaf.[70]

Er iddo gredu bod diffyg apêl uniongyrchol ym mhregethu Cymru ynghynt, ei ddadl oedd bod y steil newydd wedi mynd yn rhy bell i'r gwrthwyneb. Credai y byddai'r araith fer ar ddiwedd oedfa ddiwygiadol, lle y gwnaed yr apêl i bobl dderbyn Crist, mewn amser yn colli ei newydd-deb, ac y byddai'r bregeth yn cael ei pharchu o'r newydd bryd hynny.[71] Er gwaethaf y feirniadaeth hon, fodd bynnag, y gwir yw bod mwyafrif arweinwyr y dydd yn fodlon ddigon efo'r pregethu apeliadol, ymarferol hwn, ac yn ei ddefnyddio'n dra effeithiol.

Ar ôl 1840 daeth diwinyddiaeth y weinidogaeth yng Nghymru yn fwy eang gan roi pwyslais ar gyfrifoldeb dyn yn y broses o achub. Tawelodd y ddadl yn sylweddol wedi'r amser hwn, er na ddiflannodd yn llwyr. Ond roedd y syniadau cymedrol wedi hen ennill eu plwyf. Barn Tom Ellis Jones yw mai dylanwad Ffwleriaeth a sicrhaodd y newid hwn yng Nghymru:

> I'r Ffwleriaid y mae i ni ddiolch i raddau helaeth iawn, am y mesur mawr o ryddid diwinyddol i'r hwn y'n ganwyd. Dylanwadodd y mudiad yn drwm ar bregethu Cymru. Bu'n gyfrwng i ddwyn nodyn mwy efengylaidd i bregethu y wlad nag a geid ym mhregethu'r uchel-Galfiniaid. Yr oedd ... yn

[70] 'Glan Alun', 'Tridiau yn Llandrindod eto', Y *Traethodydd* (1859), t.374.
[71] Ibid. t.375.

> rhwymo'r pregethwyr i gymell pawb i gredu yn y drefn, a phwyso arni am iachawdwriaeth eu heneidiau.[72]

Yn benodol gwelodd Jones ddylanwad y syniadau ehangach hyn ar bregethu diwygiad 1858-60, ac i'r graddau ei fod yn gyfrifol am y pregethu cymelliadol a'r alwad am ymateb syth bin mae'r farn honno yn siŵr o fod yn gwbl gywir.

Ar un wedd, ymddengys y dadleuon diwinyddol hyn yn gwbl ddi-fudd. Er mwyn ymateb i enwad newydd yng Nghymru aeth rhai o'r Calfiniaid i eithafion rhyfeddol. Gorfodwyd y rhai cymedrol i ymateb, ac yn y dadlau a ddilynodd gwastraffwyd cryn ymdrech ac amser ar faterion hynod gul, a surwyd sawl perthynas rhwng arweinwyr a'i gilydd. Fodd bynnag, golygodd y dadleuon fod diwinyddiaeth fwyafrifol Cymru wedi symud gryn dipyn erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O fod yn pwysleisio penarglwyddiaeth Duw ac anallu llwyr dyn i ymateb i'r efengyl heb gymorth Duw, daethpwyd i gredu bod gan ddyn allu naturiol a bod dyletswydd arno ei ddefnyddio. Os oedd y gred hon am allu a chyfrifoldeb y pechadur wedi gafael cystal, mater bychan wedyn oedd dod i gredu yng ngallu'r credadun i ddefnyddio moddion neilltuol er mwyn sicrhau adfywiad crefyddol. A dyna'r union fan yr oedd y mwyafrif o Galfiniaid Cymru, heb sôn am y Wesleaid Arminaidd, wedi ei gyrraedd erbyn y 1850au. Credent fod y gallu hwn o fewn eu gafael ac aethant ati gyda brwdfrydedd i'w ddefnyddio.

Yn y gwraidd dadl ynghylch y pwyslais cywir yn nhrefn y cadw oedd y dadleuon diwinyddol hyn. Po fwyaf ceidwadol oedd y Calfiniaid rhoddid mwy o bwyslais ar Dduw. Yn wir, i'r uchel-Galfiniaid nid oedd lle o gwbl i ddyn yn y drefn ac nid oedd ond derbynnydd goddefol. Caniataodd y Ffwleriaid swyddogaeth ehangach i ddyn, er ei fod yn dibynnu ar ras Duw. Cynigia'r

[72] Ibid. t.146.

diwinydd cyfoes Thomas F.Torrance, fodd bynnag, syniad pur wahanol. Yn hytrach na dadlau ynghylch y cydbwysedd rhwng swyddogaeth Duw a swyddogaeth dyn, myn fod trefn y cadw yn cynnwys yr oll o Dduw a'r oll o ddyn ar yr un pryd. Mae'n gwreiddio ei syniad yn athrawiaeth glasurol yr ymgnawdoliad, lle y mynnai'r Tadau Cynnar bod Iesu yn gwbl ddynol ac yn gwbl ddwyfol ar yr un pryd. Roedd o'r un sylwedd (*homousion*) â dyn a Duw. Yn Iesu cymerodd Duw ddyndod cyflawn iddo'i hun. Yn ôl Torrance golyga hyn fod Iesu nid yn unig yn cynnwys Gair Duw, sef y *logos* dwyfol, ond hefyd yn cynnwys ymateb dyn i'r Gair hwnnw. Yn Iesu ceir yr ymateb dynol i Dduw ar ei bwynt uchaf a pherffeithiaf. Trwy fod yn un ag Iesu yn ei ddyndod, mae dyn yn gallu ei uno ei hun i'r ymateb hwn. Er enghraifft, ceir yn Iesu enghraifft berffaith o ffydd yn Nuw. Ymddiriedodd ei fywyd yn llwyr i'w Dad nefol. Gelwir ar i ddyn feddu ar ffydd yn Nuw, ac wrth fod yn un ag Iesu gall feddu ar y ffydd honno, gan fod Iesu yn ei meddu a'i hymarfer yn ei le.[73]

Trwy weld fod lle cyflawn a gogoneddus i'r dynol yn yr ymgnawdoliad, mynnodd Torrance fod lle cyflawn i ymateb dyn i'r efengyl. Meddai,

> All through the incarnate life and activity of the Lord Jesus we are shown that 'all of grace' does not mean 'nothing of man,' but precisely the opposite: all of grace means all of man, for the fullness of grace creatively includes the fullness and completeness of our human response in the equation.[74]

Yn union fel y mae dwyfoldeb a dyndod llawn yn Iesu, felly y mae cydweithrediad llwyr rhwng y dwyfol a'r dynol yn nhrefn y cadw. Mae'r drefn honno yn dibynnu yn llwyr ar ras Duw, ond nid yw hynny'n tynnu dim oddi ar ran lawn dyn. Cydnabydd Torrance na ellid egluro hyn mewn termau

---

[73] Gw., er enghraifft, T.F.Torrance, 'The word of God and the response of man', *God and Rationality* (Oxford, 1971), tt.137-64; idem *The Mediation of Christ* (Edinburgh, 1992), tt.47-98 a llu o'i weithiau eraill; cf. E.M.Colyer, *How to Read T.F.Torrance; passim.*

[74] T.F.Torrance, *The Mediation of Christ* (Edinburgh, 1992), dyfynir yn E.M.Colyer, *How to Read T.F.Torrance,* t.119.

rhesymegol. Mae'r rhesymeg, yn hytrach, yn deillio o'r dirgelwch neu'r gwrthebau sy'n ymhlyg yn y dystiolaeth feiblaidd ei hun. Gall fod yn ddirgelwch inni ac ymddengys yn wrtheb, er ei fod yn adlewyrchu'r dystiolaeth ysgrythurol.

Gellid gweld Calfiniaeth geidwadol a chymhedrol, ynghŷd â Finneyaeth ac Arminiaeth, fel ymgeisiau rhesymegol i egluro'r cydbwysedd rhwng gweithred dyn ac eiddo Duw yn nhrefn y cadw. Gwendid yr oll o'r systemau hyn yw eu bod i gyd yn mynnu gosod y pwyslais ar weithred un ar draul y llall, ac felly'n colli golwg ar y cymesuredd beiblaidd. I Galfiniaeth geidwadol nid oes nemor ddim lle i ymateb dyn. Er mwyn cywiro hyn y datblygodd Fuller ac eraill eu system hwy, er eu bod hwythau wedi gosod y pwyslais mwyaf ar ran Duw, gan adael rhan fechan i ddyn oedd yn ddibynnol ar weithred Duw yn ei galon yn gyntaf. O fewn y system Finneyaidd gellid dadlau bod y pendil wedi symud yn rhy bell i'r pegwn arall, gan roi rhan a swyddogaeth i ddyn sydd y tu hwnt i'r hyn a roddir iddo yn yr ysgrythurau. Yn ôl y system hon ymddengys ar adegau nad yw Duw yn fawr mwy nag un sydd yn ymateb i alwad dyn, a heb fod arglwyddiaeth ganddo dros ddyn. Methodd y systemau hyn i gyd weld y cyflawnder dwyfol a dynol sydd yn Iesu. Ynddo ef mae Duw ar waith yn llawn, ac ar yr un pryd ceir ymateb llawn ganddo fel dyn a chynrychiolydd dyn. Yn ei undeb â Iesu mae rhan gyflawn gan ddyn yn nhrefn y cadw ac nid yw hyn yn tynnu dim oddi ar y ffaith mai trwy ras yn unig y gweithredir y drefn honno.

Beth bynnag am wendidau'r systemau hyn, sylwyd uchod fel y symudodd y pwyslais yn ystod hanner cyntaf y ganrif oddi ar Dduw ac ar ddyn. Hyn a ganiataodd i Finneyaeth wreiddio yng Nghymru.

Pennod 3.

## Argyfwng ysbrydol a'r angen am ddiwygiad.

Yn y blynyddoedd oedd yn arwain at ddechrau'r diwygiad yn 1858 roedd teimlad cyffredinol ymhlith arweinwyr Ymneilltuaeth bod angen adfywiad arnynt. Teimlent y byddai adfywiad crefyddol yn ateb yr hyn a gredent oedd yn broblemau a wynebai'r eglwysi yn y cyfnod hwn. Roedd y problemau hyn yn niferus a gellid dweud bod ymdeimlad o argyfwng yn bodoli ym mysg yr Ymneilltuwyr. Bwriad y bennod hon yw sylwi ar farn rhai o arweinwyr Ymneilltuaeth y dydd er mwyn deall beth oedd yn eu gyrru ymlaen i geisio diwygiad.

### *i. Pryder a dirywiad.*

Un o nodweddion amlwg Ymneilltuaeth y cyfnod oedd pryder ynglŷn â chyflwr crefydd ysbrydol yr aelodau. Mewn ysgrif ar ôl ysgrif yn y cylchgronau enwadol cawn arweinwyr eglwysig yn nodi eu hanfodlonrwydd ar fywydau ysbrydol eu praidd. Yn wir, mor fawr oedd y pryder nes y gellid dweud bod teimlad o argyfwng yn bodoli ymhlith yr enwadau. Wrth gwrs, byddai bron yn amhosibl i ni heddiw allu canfod faint o sail oedd i'w pryder. Ni wnaeth yr un ohonynt astudiaeth fanwl o fywyd ysbrydol eu haelodau. Ni fu ymgais, er enghraifft, i gasglu ystadegau ynghylch faint o amser a dreulid yn darllen y Beibl neu'n gweddïo. Ni anfonwyd holiaduron maith i'w cwblhau ac yna eu dadansoddi. Fodd bynnag, roedd pryder y bugeiliaid yn real. Roeddent yn adnabod eu pobl: yn ymweld â hwy'n gyson, yn trin a thrafod materion ffydd, a thrwy sgwrs yn gallu mesur cynhesrwydd ysbrydol y galon, a chanfod yr oerfel a oedd ynddi. Bwriad yr adran hon yw edrych ar y pryderon oedd gan yr

arweinwyr hyn, a mesur i ba raddau yr oedd y pryderon hynny yn cyfateb i argyfwng.

Byddai honni bod pob sylwebydd yn gweld argyfwng yn unochrog. Felly, er mwyn cael darlun llawn o'r pryderon, mae'n bwysig dweud nad pawb a welodd y dirywiad mewn termau cwbl dywyll. Roedd ambell awdur wedi sylwi mai cylchynol oedd bywyd ysbrydol yr eglwysi ac y dilynid cyfnod o ddirywiad gan gyfnod o adfywiad. Yn 1856 gallai I.Thomas ysgrifennu, 'Mae gwahanol dymhorau wedi bod ar grefydd ... Mae sefyllfa eglwys Dduw wedi bod yn isel lawer gwaith'.[1] Ni synnodd fod arwyddion dirywiad yn dod i'r wyneb ar adegau. Sylwodd fel yr oedd cyfoeth bydol ar gynnydd mewn rhannau o'r wlad, a bod pobl yn cael eu denu oddi wrth grefydd o'r herwydd. Roedd hyn yn ffitio i mewn i'r patrwm cylchynol, meddai. Roedd y sylwadau hyn yn rhai craff. Mae'n amlwg ei fod yn hanesydd praff a'r gallu ganddo i weld y tu hwnt i'r tymor presennol. Nid ei fod yn fodlonus ynglŷn â chyflwr pethau - i'r gwrthwyneb, roedd yntau yn rhannu pryder y cyfnod. Ond roedd ganddo olwg hirdymor a ganiataodd iddo gymryd golwg cytbwys ar bethau. Er bod y cydbwysedd hwn i'w ganmol, golygai nad oedd gan Thomas mo'r un brys wrth alw am adfywiad ag oedd gan lawer o'i gyd-sylwebwyr. Iddo ef mater o ddisgwyl i'r cylch droi oedd yr ateb. Ond i'r rhai a welai argyfwng roedd angen gweithredu er mwyn newid y sefyllfa. Trown at bryderon y rhai hyn am weddill y bennod.

Mewn ysgrif yn y *Drysorfa* gwelodd 'D.E.' 'crisis ar ddyfod arnom' a bod 'elfennau dadfeiliad yn ddirgel gloddio dan y sylfeini.'[2] Roedd hyn ym mis Ebrill 1858, ychydig fisoedd yn unig cyn i'r diwygiad dorri allan. Mae'n amlwg

[1] I.Thomas, 'Yr achos o'r marweidd-dra crefyddol,', yn *Yr Eurgrawn,* Ebrill, 1856, t.102.
[2] 'D.E.', 'Ein cyfundeb', yn *Y Drysorfa*, 20 (1858), t.118.

wrth yr eirfa bod 'D.E.' o'r farn bod problemau pur sylfaenol yn perthyn i eglwysi ei enwad. Roedd argyfwng wrth y drws, a chan iddo gredu bod sylfeini'r eglwysi yn dirywio yna roedd yr holl adeilad mewn perygl o ddymchwel.

Trwy droi at y proffwyd Jeremeia a chymharu cyflwr Ymneilltuaeth Gymraeg efo gwrthgiliad Israel, gwnaeth L Roberts, Llanrwst ei farn yn ddigon clir: roedd pobl yn euog o anghofio Duw.[3] Roedd pobl yn gadael Duw allan o'u sgwrs bob dydd, ac arweiniai hynny iddynt ei adael allan o'u bywyd yn llwyr. Mae'r sylw hwn am bobl yn peidio â chynnwys Duw mewn sgwrs yn bwysig oherwydd roedd yn rhywbeth y gellid yn rhwydd ei weld a'i fesur. Nid hawdd yw dweud faint o le sydd i Dduw yn y galon - ond mae posibl sylwi ar sgwrs pobl a'i gilydd. Mae'n amlwg i Roberts sylwi ar newid ysgafn mewn pobl. Lle cynt yr oedd enw Duw ar wefusau pobl - efallai wrth iddynt roddi clod neu ddiolch iddo am gyflwr eu bywyd, bellach nid oedd iddo'r un lle. I Roberts roedd hyn yn arwydd o'r oerfelgarwch a'r gwrthgiliad ysbrydol oedd yn nodwedd o'r cyfnod. Ac roedd y gwrthgiliad hwn yn rhywbeth oedd yn cael ei basio ymlaen o un i'r llall. Meddai:

> Mae yr hen bla yma fel pe byddai wedi myned i furiau ambell i addoldy, fel y gwahanglwyf gynt yn Israel, y mae y naill ddiacon yn ei gael yn olynol oddi wrth y llall, a phob to o grefyddwyr yn dysgu y to dilynol ... Y mae yn hen ddolur yn eu gwaed.[4]

Yr awgrym ganddo yw i'r gwrthgiliad gael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Os oedd y rhieni yn oeri, yna gellid disgwyl yr un peth gan y plant. Erbyn y cyfnod hwn roedd newid pwysig wedi digwydd oddi fewn i Ymneilltuaeth, sef bod lleoliad cynnal y bywyd ysbrydol wedi symud o'r cartref i'r capel.

---

[3] L.Roberts, 'Oerfelgarwch a gwrthgiliad crefyddol', yn *Y Greal,* 5 (1856), t.249.
[4] Ibid. t.249.

Sylwodd Alun Tudur ar y newid pwysig hwn a'r modd yr effeithiodd ar fywyd ysbrydol pobl. Meddai:

> Crefydd yr aelwyd ydoedd hi, ac o ganlyniad nid oedd yn bosibl gwahaniaethu rhwng bywyd secwlar a bywyd ysbrydol, rhwng bywyd yr eglwys a bywyd y teulu ... Roeddent oll yn asio'n un ... Drwy i fwyafrif y cyfarfodydd maes o law symud o'r cartrefi i'r capel, fe gollodd y cyrff Ymneilltuol nodwedd arbennig i'w bywyd a'u tystiolaeth ... fe'i hamddifadwyd ... [o] ... ddylanwad uniongyrchol ar aelwydydd eu haelodau ... Unwaith yr oedd y grefydd yn peidio â bod yn weithredol ar yr aelwyd gan symud i'r capel, yna yn araf deg roedd yn troi yn fwy ymylol, ffurfiol, sefydliadol a defodol.[5]

Tybed na welodd Roberts yr effaith hwn ymhlith ei gydnabod Cristnogol? Ai arwydd o'r grefydd yn troi yn fwyfwy ffurfiol a defodol oedd yr arfer o adael Duw allan o sgwrs bob dydd? Yn naturiol, wrth i grefydd ysbrydol oeri mewn unigolion, roedd effaith ar yr eglwysi a'u hoedfaon. Yno hefyd, meddai Roberts, roedd yr oerfel wedi gafael, a'r eneiniad dwyfol ar goll. Gofynnodd, 'Gallwn ninnau ofyn mor briodol â'r Israel cysgodol, Pa le y mae yr hen nerthoedd rhyfedd oedd yn canlyn y weinidogaeth gynt? Y Duw oedd yn y canu, y gweddïo, a'r pregethu?'[6]

Ei awgrym sicr ydyw bod Duw yn bell oddi wrth ei eglwys yng Nghymru. Cytunodd eraill â'r farn hon, gan ofni bod dylanwad yr Ysbryd Glân wedi ei golli. Roedd David Charles yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nhrefecca, a gofynnodd yn Ebrill 1858:

> Onid yw yr eglwys o ran ei hagwedd y dyddiau hyn, fel pe na bae addewid o dywalltiad o'r Ysbryd wedi ei rhoddi - bron wedi suddo i anghrediniaeth llwyr y gall y fath beth gymeryd lle drachefn?[7]

---

[5] Alun Tudur, 'O'r sect i'r enwad. Datblygiad enwadau Ymneilltuol Cymru, 1840-1870' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Bangor, 1992), t.161.
[6] L.Roberts, 'Oerfelgarwch', t.251.
[7] D.Charles, 'Addewid yr Ysbryd', yn *Y Drysorfa,* 12 (1858), t.111.

Mae'n amlwg oddi wrth ei sylw mai diffyg grym yr Ysbryd oedd y broblem yn yr eglwysi. Ond yn bwysicach na hynny yw'r awgrym ganddo fod yr eglwysi wedi peidio credu yng ngrym yr Ysbryd a bod posibl derbyn y grym hwn o'r newydd. Mae'n debyg fod llawer yn cytuno ag ef, ac mai dyna pam y caed cynifer o ysgrifau yn y cyfnod ar destun yr Ysbryd Glân a'r addewid am ei dywalltiad. Byddwn yn edrych ar yr ysgrifau hynny mewn pennod arall. Ond roedd eraill yn cytuno bod dylanwad yr Ysbryd yn brin. Credai H.Davies, Bethania, bod sawl arwydd o hynny, gan gyfeirio at y gwendidau a sylwodd oddi fewn i'r eglwysi. Un effaith o'r gwendidau oedd bod unrhyw fath o fywyd ysbrydol yn brin, a bod llawer ohonynt wedi newid o fod yn 'Eden fwyaf blodeuog i fod yn anialwch cras.'[8]

Mae'r ffaith eu bod wedi sylwi ar y gwendidau hynny yn dweud wrthym fod yr arweinwyr hyn yn credu y gallent fesur cynhesrwydd neu oerfel y bywyd ysbrydol trwy sylwi ar allanolion crefydd. Roedd diffygion mewn ymarfer crefydd yn allanol yn arwydd sicr iddynt fod rhywbeth o'i le ar y grefydd fewnol. Heddiw rydym yn llai parod i fesur crefydd y galon wrth y modd y bydd pobl yn ymarfer eu ffydd. Fodd bynnag, tybed nad oedd arweinwyr canol y bedwaredd ganrif a'r bymtheg yn agosach ati wrth weld cysylltiad rhwng y ddau beth?

Un arwydd amlwg i'r golwg oedd y diffyg brwdfrydedd a chynhesrwydd mewn oedfaon. Cawn sawl sylwebydd o blith y Methodistiaid Calfinaidd yn gwneud y pwynt hwn: mudiad ac enwad a nodweddid gan sêl a thân ysbrydol o'i gychwyn, ond a oedd bellach yn dioddef diffyg brwdfrydedd. Tybiodd W.Morris yr ymdebygai eglwysi Methodistaidd Cymru i'r eglwys

[8] L.Roberts, 'Oerfelgarwch,' t.250.

honno yn Laodicea, a ddarlunnir yn Llyfr y Datguddiad, eglwys nad oedd yn oer na phoeth, ond a oedd yn ddifater a di-sêl.[9] Prin y gallai fod wedi gwneud cymhariaeth fwy anffafriol. Credai Owen Thomas, Llundain (Lerpwl yn ddiweddarach), un o arweinwyr amlycaf yr enwad ar y pryd, y rhoddid gormod o bwyslais ar grefydd y meddwl a'r rheswm, a dim digon o le i'r galon a'r teimlad.[10] Gormod o ôl 'ffurfiol' i'r cwbl oedd i David Charles.[11] Nododd Alun Tudur y twf hwn mewn ffurfioldeb yn ystod y ganrif, gan awgrymu unwaith yn rhagor mai un o'r rhesymau oedd y symudiad o'r cartref i'r capel fel lle o addoliad. Roedd yn hawdd cynnal crefydd anffurfiol, agos atoch ar yr aelwyd nag ydoedd mewn capel. Ar y cychwyn, wrth gwrs, adeiladau syml, diaddurn ydoedd y capeli hyn, yn amlach na pheidio heb seddau ffurfiol. Roedd hyn yn golygu fod addoliad yn gallu bod yn anffurfiol yno hefyd. Ond wrth i'r capeli gael eu hailadeiladu a'u hadnewyddu wrth i'r ganrif dynnu ymlaen, aethant yn llefydd mwy ffurfiol eu naws, a hynny'n arwain at ffurfioli'r addoliad. Roedd pwyslais, hefyd, ar 'sancteiddrwydd' y capel yn golygu'r angen fod yn weddus a threfnus. Er mai diffygion yn y cyflwr ysbrydol, mewnol a feiwyd am y diffyg brwdfrydedd, tybed nad oedd pwysau o'r tu allan - y pwysau i fod yn weddus a threfnus, hefyd yn tarfu ar y brwdfrydedd, ac o golli'r cyfle i fynegi brwdfrydedd y galon yn allanol roedd y teimlad oddi fewn yn cael ei fygu? Beth bynnag am hynny, gweld diffyg yn y grefydd fewnol a wnaethai sylwebyddion y cyfnod.

Os oedd brwdfrydedd addolwyr yn brin, pryder arall a wynebid gan yr eglwysi oedd absenoldeb o'r oedfaon yn gyfan gwbl. Dywedodd H.Davies, er

[9] W.Morris, 'Drwg claurineb mewn crefydd', yn *Y Drysorfa*, 12 (1858), t.291.
[10] O.Thomas, 'Cristnogaeth yn grefydd y galon', yn *Y Drysorfa*, 9 (1855), t.158.
[11] D.Charles, 'Addewid yr Ysbryd,' t.111.

enghraifft, fod 'esgeuluso'r moddion' yn 'beth cyffredin' yn y cyfnod.[12] Ni chynigiwyd ystadegau i gadarnhau'r honiad, ond beiwyd y ffenomen ar ddiffyg dylanwad yr Ysbryd ar yr oedfaon. Cynigiodd Owen Williams reswm mwy digrif – er ei fod ef ei hun yn gwneud y pwynt yn gwbl o ddifrif. Credai fod rhai yn absennol o'r cwrdd ar fore Sul oherwydd eu bod yn cysgu'n hwyr! Mewn ysgrif yn yr *Eurgrawn* dywedodd bod rhai yn 'gleifion bedwar gwaith yn y mis'. Enw'r clwyf oedd 'clefyd y Sabboth', ei achos oedd 'didduwiaeth', a'i natur oedd 'diogi syrthlyd'.[13] Tanlinellodd ba mor ddifrifol y gwelodd y drygioni hwn trwy ychwanegu, 'Os nad oes yn ngorchymyn Duw ddigonol nerth i godi cysgadur o'i wely naturiol, anhawdd meddwl y gŵyr am nerth achubol y gair yn ei godi o'i fedd ysbrydol.'[14] Os oedd oedfaon ysbrydol eu naws yn colli'u hapêl, roedd y cyfarfodydd diwylliannol yn tyfu mewn poblogrwydd. Dyma gyfnod sefydlu'r darlithiau a'r eisteddfodau a ddaeth yn rhan mor bwysig o fywyd Ymneilltuaeth yn ail hanner y ganrif. Cwynodd 'W.R.' fod y cyfarfodydd hyn yn orlawn tra bod oedfaon noson waith yr eglwysi yn brin o fynychwyr.[15]

Un o'r cyfarfodydd wythnosol hynny a ddioddefai fel hyn oedd y cwrdd gweddi. Ystyrid hwn yn un o brif gyfarfodydd y capel. Roedd lle pwysig i weddi oddi fewn i fywyd Ymneilltuaeth a daeth y gweddïo ar y cyd yn hynod bwysig i'r mudiad. Fodd bynnag, yn 1857 amcangyfrifodd J.G.Owen mai oddeutu traean o'r aelodau fyddai'n mynychu'r cwrdd hwn, ac roedd hynny yn achos cryn siom a phryder iddo.[16] Cynigiodd 'E.A.G.' reswm paham bod y cwrdd gweddi ar i lawr. Ni châi amryw fudd o fod yno, meddai, a hynny

[12] H.Davies, 'Yr Ysbryd Glân', yn *Y Diwygiwr,* 21 (1856), t.5.
[13] O.Williams, 'Hir gysgu boreu sabboth', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.53.
[14] Ibid. t.53.
[15] 'W.R.', 'Esgeuluso oedfaon noson waith', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.234.
[16] J.G.Owen, 'Bywyd-fesurydd yr eglwys', yn *Y Greal,* 6 (1857), t.166.

oherwydd nad oeddent wedi ei paratoi eu hunain yn ysbrydol cyn dyfod yno. Roeddent hefyd yn euog o fodloni ar wrando gweddïau aelodau eraill, heb wneud unrhyw ymdrech i weddïo eu hunain.[17]

Aeth sylw felly at wraidd bywyd gweddi'r unigolyn, ac mewn sylw deifiol dywedodd J G Owen, 'Mae yn debyg fod mwy o gwyno am wahanol bethau yn yr oes hon, nag sydd o weddïo amdanynt.'[18] Roedd Owen ac eraill o'r farn fod gweddi ddirgel wedi prinhau. Dywedodd W Williams, Hirwaun, mai 'ychydig o galonnau mewn cyfartaledd' oedd yn cynnwys gweddi daer.[19] Ac oherwydd hynny, meddai David Charles, roedd y gweddïau cyhoeddus yn 'ddienaid'.[20] Gan fod Ymneilltuaeth yn rhoi cymaint o bwyslais ar grefydd ysbrydol, fewnol ac yn ei gweld fel gwir grefydd - i'w chyferbynnu, yn eu tyb hwy â chrefydd allanol, ddefodol y Pabyddion er enghraifft, mae'r mynych gyfeiriadau at ddiffyg gweddi ddirgel yn hynod ddadlennol am gyflwr Ymneilltuaeth yn y cyfnod. Wrth gwrs nid oes yr un o'r sylwebyddion hyn yn cynnig ystadegau cadarn i gefnogi eu honiadau, a chan fod gweddi yn beth mor breifat nid ydyw yn beth hawdd i'w fesur. Serch hynny roedd eu pryderon yn siŵr o fod yn seiliedig ar ryw wybodaeth ffeithiol, pa mor fregus bynnag ydoedd, a chyfyd gwestiynau mawr ynghylch cryfder ysbrydol Ymneilltuaeth. O dipyn i beth roedd yn gorff a drodd o fod yn un a roddai bwyslais mawr ar grefydd fewnol yr unigolyn, i fod yn un lle'r oedd yr allanol yn gynyddol bwysicach. Gwelodd arweinwyr y cyfnod y peryglon: byddai parhad yn nirywiad y bywyd ysbrydol yn siŵr o arwain at ddirywiad ym mywyd allanol y corff. Yn wir, roedd hynny'n digwydd eisoes, wrth i rai gadw draw o'r oedfaon.

[17] 'E.A.G.', Ymddiddan am gyfarfodydd gweddi', yn *Yr Eurgrawn,* 19 (1856), t.414.
[18] J.G.Owen, 'Dylanwad gweddi', yn *Y Greal,* 6 (1857), t.124.
[19] W.Williams, 'Rhagoriaethau a diffygion yr enwad Annibynol', yn *Y Diwygiwr,* 20 (1855), t.269.
[20] D.Charles, 'Addewid yr Ysbryd', t.115.

*ii. Nodweddion y weinidogaeth.*

Tywyswyd y sylwebyddion i sawl cyfeiriad wrth chwilio am resymau am y dirywiad. Barnai rhai safon pregethu a safon y weinidogaeth. Y cyfarfod pregethu oedd pinacl bywyd pob eglwys Ymneilltuol. Prin fod dim yn bwysicach na'r bregeth mewn oedfa. I un awdur dienw o'r cyfnod roedd 'holl ddyletswyddau eraill gweinidogaeth yr efengyl yn israddol' i bregethu.[21] O roi safle mor uchel iddo, felly, nid rhyfedd i'r awdur hwn ac eraill bryderu ynghylch yr hyn y tybient oedd safon isel pregethu eu cyfnod. Galwodd ar i bregethu fod yn fwy Ysgrythurol. Gair Duw yn unig fyddai'n achub enaid, meddai. Yn ôl Isaac Thomas roedd sawl pregethwr yn bodloni ar ddifyrru ei wrandawyr yn unig, heb feddwl am eu hargyhoeddi o wirioneddau'r efengyl. Dywedodd fod 'y fath bregethu yn suo eglwysi i gysgadrwydd a marweidd-dra'.[22] Miniog oedd sylwadau David Charles yntau am rai o bregethau'r cyfnod:

> Weithiau y mae hi wedi ei britho a *wits* – weithiau y mae hi yn llwythog gan addurniadau dibwynt – dro arall, y mae yn ehedeg uwch ben y gwrandawyr ar adenydd dychmygion disylwedd. Cynwysa weithiau ymdrechion at fod yn dlws, yn ddifyr, neu yn fawreddog, tra y mae amcan difrifol y weinidogaeth wedi ei gau allan ... pethau mawrion iachawdwriaeth dynion yn cael eu trafod fel teganau plant i ddifyrru pobl.[23]

Gorweddai rhan o'r broblem, yn ôl Lewis Jones, yn y ffaith fod cyfleusterau addysg ar gyfer darpar weinidogion wedi cynyddu mor sylweddol. Peth da oedd hynny, meddai, ond bod ambell i weinidog yn dueddol o gynnwys popeth yn ei bregeth, yn lle dewis a dethol yr hyn fyddai'n werthfawr.[24] Mae'n amlwg fod

---

[21] Di-enw, 'Pregethu', yn *Yr Eurgrawn,* 19 (1856), t.346.
[22] I.Thomas, 'Yr achos o'r marweidd-dra', t.122.
[23] D.Charles, 'Addewid yr Ysbryd', t.111.
[24] L.Jones, 'Pregethu yr oes o'r blaen a'r oes hon', yn *Y Drysorfa,* 9 (1855), t.12.

rhai yn ei chael hi'n anodd dygymod efo'r ddarpariaeth addysgol oedd yn gynyddol ar gael iddynt.

Mentro i ganol y ddadl rhwng pregethu ymarferol a phregethu athrawiaeth a wnaeth 'JH', Dinbych. Gan mai yn yr *Eurgrawn* y cyhoeddwyd ei ysgrif teg tybio mai Wesle oedd yr awdur, ac yn sicr o'r cyfeiriad Wesleaidd i'r ddadl yr ysgrifennodd. Iddo ef a'i enwad, dylai pregethu bob amser fod yn ymarferol a chymwysiadol, ac ni ddylai byth fod yn athrawiaethol yn unig. Meddai, 'Peth gwrthun yw pregethu athrawiaeth heb gyfeiriad at ymarferiad'.[25] Roedd angen effeithio calon y gwrandawyr, a bod yn ymarferol oedd yr unig ffordd i wneud hynny. Yn ogystal, rhaid oedd i'r pregethu fod yn gymwysiadol: 'rhaid iddo bregethu iddynt amdanynt eu hunain.' Wrth wneud hynny byddai'r bregeth yn siŵr o gyrraedd y nod, ac yn effeithio calon y gwrandawyr.[26]

O'r cyfeiriad arall i'r ddadl y daeth 'G ap Ioan' at y pwnc. Yn yr *Eurgrawn* yr ysgrifennodd yntau ond roedd ei farn yn bell o fod yn Wesleaidd ei natur. Yn wir barn anffasiynol yn gyffredinol oedd ganddo ar gynnwys pregethu. Iddo ef athrawiaeth ddylai gael y lle blaenaf mewn pregeth, er nad oedd am gadw'r ymarferol a'r cymelliadol allan yn llwyr. Cwbl anghywir iddo oedd pregethu ymarferol yn unig, a gofidiai yn fawr fod yr enwad Wesleaidd yn dilyn y trywydd hwn. Rhaid oedd pregethu'r gwirionedd, meddai, ac yn neilltuol fod Iesu wedi 'marw dros bawb.'[27] Mae'n anodd deall pam y gwelodd yn dda i gyfeirio at neilltuolrwydd iawn Crist gan fod y ddadl honno wedi ei thorri ers rhai blynyddoedd wrth i ddiwinyddion yr enwadau ddod i gytundeb pur eang ar y cwestiwn. Ei brif bwynt, fodd bynnag, yw bod pregethu

---

[25] 'J.H.', 'Y dylai pregethu yr efengyl fod yn ymarferol a chymhwysiadol', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.93.
[26] Ibid.
[27] 'G ap Ioan', 'Pregethu Crist wedi marw dros bawb', yn *Yr Eurgrawn,* 19 (1856), t.94.

di-athrawiaeth yn niweidiol a diffrwyth. 'Y mae pob galwad i ddychwelyd, pob cymhelliad i weithredoedd da, a phob anogaeth i ddyletswydd, yn aneffeithiol ac anghristnogol, heb fod iawn Crist yn sylfaen iddynt', meddai.[28] A oedd 'G ap Ioan' yn credu bod y symudiad at bregethu ymarferol a chymwysiadol wedi mynd yn rhy bell? Fel y gwelsom uchod roedd eraill yn gweld rhywbeth cwbl wahanol mewn pregethu - David Charles, er enghraifft, yn credu bod gormod o ddysg ynddo, a 'J.H.' o'r farn fod gormod o athrawiaeth ar draul yr ymarferol. Nid bwriad y traethawd hwn yw pwyso a mesur pregethu'r cyfnod. Digon inni ddweud yma fod pryder ynghylch pregethu'r cyfnod, ac y beiwyd y gwendidau tybiedig am gyflwr ysbrydol yr eglwysi. Gwnaethpwyd llawer o sylw yn ystod y diwygiad ei hun at bregethu pobl fel Dafydd Morgan - ac un o'r sylwadau pwysicaf gan lawer oedd y cynnwys syml a'i arddull gymelliadol. Ac at y pregethwyr hyn y tyrrai'r cynulleidfaoedd. Efallai bod hynny ynddo'i hun yn dweud rhywbeth am effeithiolrwydd y pregethu trwm, athrawiaethol.

Os gwelodd rhai ddiffygion ym mhregethu rhai o'r gweinidogion, gwelodd eraill ddiffygion yn eu cymeriad. Cafwyd toreth o sylwadau yn beirniadu gweinidogion, blaenoriaid, a diaconiaid, yn hallt. Awgrymodd 'D.E.' fod ambell un wedi mynd i'r weinidogaeth er cyfleustra iddo'i hun. Dyma'r cyfnod pryd yr edrychid ar y weinidogaeth fel swydd a fyddai'n galluogi bechgyn ieuanc i ddianc rhag gwaith caled y diwydiannau trwm neu amaethyddiaeth, cyfnod pryd yr oedd statws uwch yn y gymdeithas i'r gweinidog. Petai cynulleidfa o'r farn bod eu gweinidog hwy yn y categori hwn, meddai 'DE', yna ofer fyddai ei holl ymdrechion i ddylanwadu arnynt.[29]

---

[28] Ibid. t.94.
[29] 'D.E.', 'Ein cyfundeb', t.119.

Awgrymodd rhai bod rhagrith yn perthyn i ambell weinidog, gan ei fod yn 'dywedyd yn dda, ond yn gwneud yn ddrwg gywilyddus'.[30] Disgwylid gradd uwch o dduwioldeb gan yr arweinwyr, ond weithiau syrthio gryn dipyn yn is a wnaent. Meddai H Davies:

> Peth aml yw fod y weinidogaeth yn anghyfaddas. Weithiau bydd yn amddifad o ddigon o wybodaeth neu yn amddifad o ddigon o synnwyr cyffredin, neu burdeb bywyd, neu ddiwydrwydd gweinidogaethol.[31]

Gan nad papurau tabloid oedd y cylchgronau enwadol ni chynigwyd unrhyw enghraifft o'r diffyg purdeb hwn. Ond yr oedd Davies ac eraill o'r farn fod marweidd-dra yn cyffwrdd yr eglwysi o'i herwydd. Ceisiodd W.Williams, Hirwaun, egluro pam fod y diffygion hyn yn bodoli. Ei farn ydoedd fod yr ymgeiswyr am y weinidogaeth ym 'amddifad o'r ysbryd'.[32] Beth ddigwyddodd i'r drefn o osod ymgeiswyr dan brawf tybed? Prin fod ymgeiswyr yn taflu llwch i lygaid eu holwyr. Efallai i grefydd ddatblygu mor fewnol a phreifat nes nad oedd cyfle i holi'n fanwl ynghylch eu bywyd ysbrydol.

*iii. Disgyblaeth eglwysig.*

Mae hyn yn ein harwain at y diffyg disgyblaeth cyffredinol yn yr eglwysi. Roedd cyfaddawdu moesol oddi fewn i'r eglwysi yn un o bryderon mawr y cyfnod. Credai Williams fod gormod o eglwysi yn euog o agor eu pulpudau i 'ddynion anfoesol, a digymeriad, ac annuwiol' ac yr oedd hynny yn arwydd o ddiffyg 'ysbryd barn i adnabod dynion drwg'.[33] Roedd ysbryd o'r fath yn gwbl angenrheidiol i eglwys neu byddai'n caniatáu i bobl heb eu dychwelwyd ymaelodi. Y gwir yw, yn ôl William Morris, Tyddewi, fod yr eglwysi yn euog o

---

[30] I.Thomas, 'Yr achos o'r marweidd-dra', t.122.
[31] H.Davies, 'Yr Ysbryd Glân', t.6.
[32] W.Williams, 'Rhagoriaethau a diffygion', t.269.
[33] Ibid. t.265.

wneud hynny, gan ganiatáu rhai 'sy'n gwbl anaddas' i lawn aelodaeth.[34] Roedd gwrthod pobl i aelodaeth wedi mynd yn beth dieithr, meddai, a hynny oherwydd yr awydd i adeiladu'r enwad yn hytrach nag adeiladu Teyrnas Dduw. Ond ni fyddai'r cyfryw aelodau o ddim gwerth i'r eglwysi unwaith y deuai dydd o brofi eu ffydd. 'Os gwelwch adeilad a choed, gwair, a sofl,' meddai, 'gellwch ddeall y caiff yr adeiladydd golled, canys ni ddeil y cyfryw ddefnyddiau dân'.[35] Rhestrodd David Charles y rhinweddau a ddisgwylid gan y Methodistiaid Calfinaidd yn eu darpar aelodau: eu bod wedi eu hargyhoeddi o'u cyflwr pechadurus, eu bod yn teimlo eu hangen am Iesu fel gwaredwr, a'u bod yn ddiwyd yn yr oedfaon am fod ganddynt syched am gwmni Iesu. Ond gresynu a wnaeth Charles fod y rhinweddau hyn mor brin ymhlith ymgeiswyr y cyfnod:

> Sylwer ar y nifer lliosocaf a dderbynnir i'r eglwysi, a cheir fod y profiad o'r graddau mwyaf cyffredinol a disylwedd, heb unrhyw arwyddion neilltuol yn dyfod i'r golwg trwy un math o ymddyddan ac arholiad, fel sail i adeiladu arnynt yr hyder gwanaf fod y gwaith da wedi ei ddechrau ynddynt hwy, mwy nag mewn miloedd eraill ag sydd yn byw yn ddilychynaidd y tu allan i furiau yr eglwys.[36]

Yna cawn Charles yn codi cwestiwn hynod bwysig: a oedd nifer o aelodau'r eglwysi yn wir Gristnogion ai peidio? Ei farn glir ydoedd nad oeddent wedi eu hachub. Os cywir yw ei ddadansoddiad, nid rhyfedd fod cyflwr ysbrydol crefydd mor isel.

Yn ei astudiaeth o grefydd canol y ganrif sylwodd Alun Tudur fel y newidiodd yr arfer o dderbyn aelodau yn ystod y bedwaredd ganrif a'r bymtheg. Dull pwyllog o dderbyn oedd gan yr enwadau ym mlynyddoedd cynnar y ganrif, gan osod ymgeiswyr ar brawf am gyfnod o amser, a'u holi'n

---

[34] W.Morris, 'Drwg claurineb', t.291.
[35] Ibid. t.291.
[36] D.Charles, 'Addewid yr Ysbryd', t.113.

fanwl am eu cyflwr ysbrydol. Er mwyn sicrhau aelodaeth yn y seiadau Methodistaidd cynnar, er enghraifft, roedd trefn o holi'n breifat, yna holi cyhoeddus, a hyd yn oed holi cymdogion a chydnabod ynghylch ffydd ac ymarweddiad ymgeisydd. Nid oedd lle o gwbl i honni mai preifat a mewnol yn unig oedd ffydd. Ond wrth i'r ganrif dynnu yn ei blaen daeth tro ar fyd. Yn hytrach na disgwyl i dymor prawf ddirwyn i ben, daeth yn arferiad derbyn aelodau yn syth wrth iddynt broffesu ffydd. Roedd pwyso am ymateb uniongyrchol i bregethu'r efengyl yn arferiad gan y Wesleaid yn arbennig, ond daeth yn rhan o fywyd yr enwadau eraill yn ogystal. Gwelwyd yr ymarfer ar ei ehangaf yng nghyfarfodydd gwersyll America ym mlynyddoedd cynnar y ganrif, a daeth yn arfer cyffredin o ddyddiau Charles Finney ymlaen. Awgrymodd Tudur fod yr arfer yn bodoli ymhlith y Cymry yn y 1820au, a'i fod wedi cyrraedd penllanw ei boblogrwydd yn niwygiad 1858-60.[37] Yn bendifaddau arweiniodd ymarferiad fel hyn i bobl oedd heb eu dychwelyd gael eu derbyn i gyflawn aelodaeth. Daeth profiad y foment yn faen prawf i ffydd, ac er na ellir gwadu lle profiad a theimlad mewn crefydd ni ellir byth dibynnu arno yn y modd hwn. Mae hyn yn neilltuol wir mewn cyfnod o ddiwygiad lle mae teimlad a phrofiad ar eu huchaf. Arweiniodd yr arfer o dderbyn aelodau ar sail eu profiad yn unig fel hyn at wanhau Ymneilltuaeth.

Os oedd safon derbyn aelodau wedi ei gwanhau, yna roedd safon disgyblaeth eglwysig wedi mynd i'r un cyfeiriad hefyd. Dyfynnodd Alun Tudur o araith Joshua Lewis i Gwrdd Chwarter Caerfyrddin yn 1851. Ar wahân i'r arfer o beidio â gosod ymgeiswyr am aelodaeth ar brawf roedd dau beth arall yn

[37] Alun Tudur, 'O'r sect i'r enwad', tt.411-5.

ei boeni ynghylch disgyblaeth eglwysig. Credai, yn gyntaf, na chymerid digon o sylw o gyflwr ysbrydol aelodau. Meddai:

> Nid oes gwyliadwriaeth fanol yn cael ei chadw ar agwedd ysbrydol yr aelodau. Ni sylwir yn ddigon craffus ar arwyddion oerfelgarwch a dirywiad ysbrydol, ni wneir ymchwiliad i'w hachosion, ac ni ddefnyddir moddion i adferu yr enaid a'i adfywio. Gall llawer sydd yn awr ar dir gwrthgiliad dystio, na chawsant gyngor, cyfarwyddyd, na rhybydd gan aelod, swyddog, na gweinidog, er eglured oedd yr arwyddion o'u dirywiad ysbrydol.[38]

Yn ail, credai y dangosid ffafriaeth tuag at rai oherwydd bod swyddogion yn ofni disgyblu aelodau oedd o deuluoedd dylanwadol yn yr eglwys. Gofynnodd, 'A weinyddir cyfiawnder ar y draul o ddigio y teuluoedd cyfoethog a chyfrifol?'[39] Ac wrth ateb ei gwestiwn ei hun yn gadarnhaol ychwanegodd mewn ffordd gwbl ddeifiol:

> Os na wneir, bydd yr eglwys yn dangos nad yw ei chalon ond llawn o dwyll a rhagrith. Ond dywedir, 'Byddir mewn perygl o rwygo yr eglwys, ac onid gwell gwyro ychydig oddi wrth y gwir er mwyn cael tangnefedd?' 'Rhwygo yr eglwys.' Onid trugaredd fyddai cael gwared o'r teuluoedd hynny, pa mor gyfrifol bynnag y byddont, os na fedrant weinyddu cyfiawnder? Rhaid i'r eglwys fod yn gyfiawn ac amhleidiol, cyn y bydd i'r Ysbryd Glân wneuthur ei breswylfod ynddi.[40]

Cytunodd llawer a'r farn hon. Ni ddylai'r eglwys oddef y drwg yn ei phlith meddai H.Davies gan ychwanegu:

> Yn ein dyddiau ni mae y ddisgyblaeth yn dra isel: dynion halogedig a difater yn cael eu dyoddef. Torwyr Saboth, cyfaddechwyr, diotwyr, meddwon, a masweddwyr a gydeisteddant a'r saint wrth fwrdd y cymundeb.[41]

Un agwedd o ragrith y cyfnod yn ôl Charles oedd bod gormod o'r arweinwyr yn dangos eu hunain wrth eu gwaith. Meddai:

> *Display* yw y gwenwyn dinistriol sydd yn gwanhau nerth, ac yn

---

[38] Ibid. t.416.
[39] Ibid. t.416.
[40] Ibid. t.416-7.
[41] H.Davies, 'Yr Ysbryd Glân', t.6.

> lladd ysbryd crefydd yn hoes. *Display* yn y pulpud – *display* dan y pulpud ac yn nghorff y gynulleidfa – *display* yn y weddi – *display* yn y canu – *display* yn y gwisgoedd – *display* yn y Cyfarfod Misol ac yn y Gymanfa – a dyna sydd angeu i bob peth sylweddol a gwirioneddol.[42]

Fel rhywbeth cwbl ddifäol y gwelodd 'G ap Ioan' yntau'r rhagrith hwn a chredai y byddai'n gyfrifol am wneud 'yr oes nesaf yn anffyddiaid'.[43] Roedd hynny'n nodyn pur broffwydol ganddo wrth i ni heddiw allu edrych yn ôl ar hanes Ymneilltuaeth dros yr ugeinfed ganrif.

Credai 'J.W.' y byddai'r rhagrith hwn yn gyfrifol am gadw'r Ysbryd Glân allan o'r eglwys. Y bai a ddaeth dan ei lach yn benodol oedd arfer rhai Cristnogion o gadw tŷ tafarn. Ni allai ef weld unrhyw gysondeb yn hyn o beth: 'dyn yn ddysgybl i Grist, ac yn house-keeper i'r cythraul.'[44] Wrth gwrs cyn y 1830au nid oedd gan Ymneilltuwyr Cymru bron ddim gwrthwynebiad o gwbl i na chadw tafarn nac yfed alcohol cyn belled ag y gwnaed hyn mewn cymedroldeb. Yn wir, roedd yr arfer ymhlith pregethwyr o gymryd gwydryn wedi'r oedfa yn bur gyffredin. Ond wedi i'r mudiad dirwest afael yn dynn yn nychymyg Ymneilltuaeth o'r 1830au ymlaen newidiodd y farn yn sylweddol a daethpwyd i weld alcohol fel un o ddrygau mawr cymdeithas. Nid oedd yn bosibl bellach i 'wasanaethu dau arglwydd', ac mewn sylw oedd yn cynrychioli i'r dim y farn newydd meddai 'J.W.', 'Wyt ti'n meddwl y gwneith Iesu Grist fyw yn y llofft, a'r diafol yn y parlwr, fel y mae hi yn y tafarnau crefyddol yma?'[45] Eu pryder oedd bod y rhai di-gred yn gweld y safonau dwbl hyn ymhlith Cristnogion ac yn cael eu troi oddi wrth grefydd o'r herwydd. Roedd

---

[42] D.Charles, 'Addewid yr Ysbryd', t.112.
[43] 'G ap Ioan', 'Pregethu Crist', t.125.
[44] 'J.W.', 'Ymddiddanion rhwng gwr ieuanc crefyddol, a hen wr digrefydd', *Yr Eurgrawn*, 19 (1856), t.48.
[45] Ibid. t.49.

hynny'n sylw digon teg, er mai oherwydd eu safbwynt Phariseaidd eu hunain braidd, tuag at alcohol, y crëwyd y sefyllfa.

Arwydd arall o wendid yr eglwysi oedd y diffyg brawdgarwch a fodolai rhwng aelodau a'i gilydd ar brydiau. 'Wele liaws o dymherau drwg, cynnen, ac ymryson, yn lledu' meddai W.Griffiths.[46] Yn ôl David Charles roedd cariad yn brin yn yr eglwys a phobl yn methu goddef gwendidau ei gilydd.[47] Gwelodd William Morris hyn fel gwaith y diafol yn ceisio oeri teimladau crefyddwyr tuag at ei gilydd.[48] Er mwyn sicrhau tymherau da rhwng pobl galwodd Isaac Thomas arnynt i sylweddoli fod pob un ohonynt yn wahanol i'w gilydd, a bod gwahaniaeth neilltuol rhwng un genhedlaeth a'r llall. Nododd fel yr oedd yr ieuanc am weld pethau'n newid yn yr eglwysi tra roedd yr hen am weld pethau'n aros fel ag yr oeddent. Gallai hynny arwain at anghydweld mawr, ond roedd yn anhepgorol bod goddefgarwch yn rheoli. Meddai, 'Mae'n ofynnol i rai mewn cymdeithas ddysgu dyoddef ei gilydd mewn cariad'.[49] O fethu gwneud hynny codai dwy blaid o fewn yr eglwys a allai arwain at rwyg ddofn. Roedd llawer o synnwyr cyffredin i sylwadau o fath. Deallodd y sylwebyddion hyn fod diffyg cariad o fewn cymdeithas sydd yn honni cariad fel un o'i gwerthoedd mwyaf sylfaenol yn gallu diffodd unrhyw ddiddordeb o fewn y di-gred ym mywyd yr eglwys. Gwnaethpwyd y sylwadau uchod mewn cyfnod lle'r oedd gwahaniaethau diwinyddol yn gymharol fychan a'r dadlau ar faterion felly yn lled brin. A yw'r ffaith fod cymaint o gecru yn arwydd, felly, fod rhwygiadau yn cael eu creu dros faterion eilradd a chymharol ddibwys? Ac a yw hynny yn ei dro yn arwydd o ddiffyg dyfnder ysbrydol yn nifer o'r aelodau? Ni ellir tynnu

[46] W.Griffiths, 'Crefydd y teulu', yn *Y Drysorfa,* 11 (1857), t.293.
[47] D.Charles, 'Addewid yr Ysbryd', t.112.
[48] W. Morris, 'Drwg claurineb', t.291.
[49] I.Thomas, 'Yr achos o'r marweidd-dra', t.291.

casgliadau rhy bendant o'r sylwadau a ddyfynnwyd ond o bosibl eu bod yn arwyddo'r gwanychu ysbrydol oedd yn digwydd.

Roedd ymddygiad cyhoeddus yr aelodau yn gyffredinol yn pryderu'r sylwebyddion. Er bod eu sylwadau yn ymddangos braidd yn chwerthinllyd ac yn fychan i ni heddiw, nid dyna eu hagwedd hwy. Mater difrifol, er enghraifft, oedd 'dyfod i'r cwrdd mewn pryd' i 'Lewis', oedd yn gresynu na ddysgai ei gyd-Gymru ryw gymaint o foesgarwch gan Gristnogion y Beibl.[50] Mewn ysgrif dan y teitl 'Pethau anweddus yn y moddion gras' roedd cyrraedd yn hwyr i'r oedfa yn bechod o'r mwyaf i 'Disodlwr'. Yn ychwanegol gresynai'n fawr fod rhai yn cysgu yn ystod yr oedfa ac eraill yn 'llygadrythu o amgylch' yn lle eu bod yn talu sylw teilwng i'r bregeth.[51] Ond gan fod ambell i bregeth ymhell o gyrraedd y gwrandawyr, yn ôl sylw a welsom uchod, efallai nad oedd hynny'n ormod o syndod! Fodd bynnag, i 'Rhywun' roedd cysgu mewn oedfa yn 'annymunol a phechadurus iawn.'[52] Mynnai y dylai pob addolwr 'gydymffurfio â'r gynulleidfa ym mhob rhan o'r addoliad' sef, sefyll ar eu traed wrth ganu emyn, ac ymostwng wrth weddïo.[53] Diddorol yw sylwi ar y gair 'cydymffurfio' fan hyn. Yn amlwg roedd y dyddiau lle'r oedd anffurfioldeb a rhyddid mynegiant yn rhan annatod o addoliad cyhoeddus wedi mynd heibio. Awgrymwn eto y gellid dadlau nad arwydd o ddiffyg crefydd ysbrydol oedd hyn, ond y gallai agwedd o'r fath fod wedi helpu i fygu unrhyw fywyd ysbrydol oedd yn y bobl. Tybed a sylweddolodd 'Rhywun' y byddai adfywiad crefyddol yn sgubo'r ffurfioldeb hwn o'r neilltu, petai ond am gyfnod byr?

---

[50] 'Lewis', 'Esgeuluso moddion gras', yn *Y Drysorfa,* 11 (1857), t.97.
[51] 'Disodlwr', 'Pethau anweddus yn y moddion gras', yn *Y Greal,* 3 (1854), t.103.
[52] 'Rhywun', 'Iawn ymddygiad mewn ty addoliad', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.267.
[53] Ibid. t.267.

*iv. Ariangarwch.*

Bu cyfrannu'n ariannol yn bwnc llosg mewn sawl cyfnod a chododd ei ben yn y cyfnod hwn hefyd. Daeth dau ffactor i olygu bod arian yn bwnc pwysicach na'r arfer. Yn gyntaf, datblygodd y weinidogaeth i fod yn swydd lawn amser, ac yn ail, dyma gyfnod yr adeiladu a'r addasu mawr ar gapeli. Roedd y ddau ddatblygiad yn galw am arian sylweddol. Fodd bynnag, gwelwn fod cryn gwyno, yn enwedig ymhlith y Wesleaid, mai cyfranwyr sâl oedd crefyddwyr y cyfnod. Apeliodd 'Ymofynnydd' am ysgrifau sylweddol yn y *Greal* ar y pwnc o sut i gyfrannu tuag at gynnal achos crefydd. Yn neilltuol, roedd am wybod a oedd galwad ar i'r Cristion ddegymu ei enillion, yn unol â deddf yr Hen Destament.[54] Ysgrifennodd H.Wilcox ysgrif ar y rhesymau pam y dylid bod yn hael wrth gyfrannu. Rhestrodd saith rheswm ysgrythurol: eiddo Duw yw popeth sydd gennym; cyfrennir o ddiolchgarwch; daw dedwyddwch o gyfrannu; bydd Duw yn bendithio'r cyfrannwr hael; gofal dyn am ei gyd-ddyn; felly y mae achos Duw yn mynd ymlaen erioed; ac nad yn ofer y gwneir hynny.[55] Gweinidog gyda'r Wesleaid ydoedd John Hughes a chyhuddodd y rhai na chyfrannent yn hael o 'yspeilio achos Jehofa'. Apeliodd am gyfrannu gwell er sicrhau llwyddiant yr eglwysi.[56] Bu'r 1850au yn ddegawd o bwyso mawr am arian ymhlith y Wesleaid, cyfnod o ail-strwythuro cylchdeithiau, adeiladu capeli a thai gweinidogion, a cheisio ariannu ysgolion dyddiol.

Cignoeth iawn oedd sylwadau 'Simon' ar y pwnc ariannol. Sylwodd ar bedwar math o gybyddion crefyddol, a'i gyhuddiad yn erbyn yr oll ohonynt oedd eu bod yn gwario digon arnynt eu hunain ond yn brin wrth gyfrannu at yr eglwysi. Y cyntaf o'r pedwar i ddod dan ei lach oedd y 'cybyddion tuag at y

---

[54] 'Ymofynnydd', 'Cyfrannu at gynnal crefydd', yn *Y Greal*, 3 (1854), tt.56-7.

[55] H.Wilcox, 'Y ddyledswydd o gyfranu at achos Duw', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), tt.89-90.

[56] J.Hughes, 'Rhodd-ewyllys y cybydd', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.201.

weinidogaeth'. Ni hoffai neb weld y pregethwr yn gwisgo 'dillad o flew camel' amdanynt, meddai, felly rhaid fyddai talu cyflog teg iddynt. Ond yr oedd rhai aelodau na chyfrannent yn ddigonol tuag at eu cynnal, er y gwario mawr arnynt eu hunain. Meddai:

> Nid yw yn angenrheidiol i chwilio Seion a llusernau er dyfod o hyd i rai sydd yn 'dda allan' yn eu hamgylchiadau bydol, a gymerant eu 'pleasure trip' unwaith bod haf, ac a wariant fwy mewn wythnos y pryd hynny ar eu difyrrwch nag a dreulient mewn deuddeg wythnos
> i gynnal y Weinidogaeth.[57]

Yr ail fath i ddod dan farn oedd y rhai na chyfrannent yn ddigonol tuag at gynnal y capel a thalu'r ddyled oedd arno. Eto mae sylwadau 'Simon' yn haeddu eu dyfynnu'n bur lawn:

> ... gwelwyd cyn hyn lawer dyn ieuanc *smart* yn gwneud ei ymddangosiad yn mhen y grisiau, yn tynnu y *chain* aur i'r golwg, yn pigo ei le yn front y gallery, a chan guro sodlau ei 'Wellingtons' ai rhagddo i'w le dewisedig. Ond pan wneid y casgliad gallech dyngu bron wrth edrych ar y peth bach *coch* a roddai yn *sly* ar y plât ei fod wedi gwario mwy y boreu hwnnw ar y saim oedd yn ei wallt, nag a roddai at dynnu pump neu chwe chant o bunnau o ddyled ymaith ar dŷ Dduw.[58]

Y trydydd math o gybydd ganddo oedd 'cybydd y cyfarfodydd mawr', sef yr oedfaon pregethu blynyddol. Dyma'r bobl fyddai'n gwahodd eu cyfeillion i'w cartref cyn yr oedfa er mwyn gloddesta, ac yna'n troi i'r dafarn ar ôl yr oedfa. Ond ar gyfer y pedwerydd a'r olaf o'r cybyddion y cadwodd 'Simon' ei drawiad caletaf. Roedd nifer yn yr eglwysi wedi bod yn 'llwyddiannus yn y byd' ac wedi dringo i safleoedd uchel yn eu gwaith, gan ennill cryn dipyn mwy o gyflog iddynt eu hunain. Ond er hynny, yr un oedd eu cyfraniadau i'r eglwys. Meddai:

---

[57] 'Simon', 'Cybyddion crefyddol', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.345.
[58] Ibid. t.345.

> Ambell un o fechgyn y môr hefyd (gadewch iddynt hwythau gael y gwir) a aeth ar fwrdd llestr i fod yn *gabin-boy*, a gododd i fod yn *mate*, ac yna yn *Gapten* ar *Sloop* fach, ac oddi yno ar *Schooner*; ond o flaen trysorfa yr Arglwydd y mae yn sefyll yn nghymeriad y *cabin-boy* o hyd, er ei fod yn cario i'r *bank* ar ôl pob mordaith.[59]

Er bod ysgrifau o'r fath yn hynod ddifyr eu darllen heddiw, prin eu bod wedi gwneud rhyw wahaniaeth mawr i'w darllenwyr ar y pryd wrth geisio eu cywilyddio i gyfrannu'n well. Maent yn tanlinellu eto'r hyn a gredai'r sylwebyddion am gyflwr ysbrydol y dydd. Darluniodd 'Simon' i'r dim y rhagrith oedd yn cynyddol gyffwrdd â'r eglwys, a'r bobl hynny a ddaeth yn aelodau ond heb fawr o ymrwymiad gwirioneddol i'r achos.

*v. Cenhadu a chrefydd yr aelwyd.*

Pryder arall ac arwydd o ddiffyg dylanwad yr Ysbryd Glân oedd bod cyn lleied yn cael eu hychwanegu at yr eglwysi trwy gael eu dychwelyd at y ffydd. 'Yn y dyddiau yma mae dychweledigion yn hynod o anaml,' meddai H.Davies.[60] Rhannai W.Griffiths yr un pryder ac awgrymodd mai'r rheswm paham oedd diffyg ymarfer y moddion pwrpasol.[61] Dyma gyfeiriad gan Fethodist Calfinaidd at ddulliau Finney, gan ddangos fod yr enwad hwnnw erbyn canol y 1850au yn gweld y moddion hynny yn bur dderbyniol. Gwelodd Williams Morris yr un diffyg, ac yn benodol cyfeiriodd at y diffyg mewn efengylu. Cyhuddodd yr eglwysi o fod yn amharod i gefnogi ymdrechion y rhai oedd am fwrw i'r gwaith.[62] Dylid nodi fan hyn mai diffyg ennill pobl y byd ydoedd y pryder hwn. Roedd yr eglwysi yn ychwanegu at eu haelodaeth o had yr eglwys,

---

[59] Ibid. t.346.
[60] H.Davies, 'Yr Ysbryd Glân', t.6.
[61] W.Griffiths, 'Crefydd y teulu', t.402.
[62] W.Morris, 'Drwg claurineb', tt.291-2.

sef plant aelodau presennol, ond roedd ganddynt gonsýrn ynghylch yr hyn y tybid ganddynt oedd yn fethiant wrth ymestyn allan i'r byd.

Os oedd cyflwr ysbrydol y capel yn isel, yna isel hefyd oedd cyflwr crefydd y teulu. Ac onid adlewyrchiad o gyflwr yr olaf oedd cyflwr y cyntaf? Prin y gellid cael cynhesrwydd ysbrydol mewn cynulleidfa ar fore Sul os mai oerfel oedd ar yr aelwyd. Aeth H.Davies gam ymhellach gan awgrymu mai ofer fyddai cynnal oedfa ar y Sul os oedd gwendid yn yr addoliad teuluol. Meddai, 'Waeth beth fyddai ocheneidiau, gweddïau, a phregethau y Saboth, pan mae y rhan fwyaf trwy yr wythnos yn eu teuluoedd yn hollol ddigrefydd.'[63] Credai fod crefydd yr unigolyn yn anghyflawn os nad oedd yn addoli yn ei gartref. Sylwasom eisoes ar farn Alun Tudur pan awgrymodd fod symud man yr addoliad o'r cartref i'r capel wedi andwyo addoliad y teulu. Yn ôl sylwebyddion y 1850au roedd yr arfer o 'gadw dyletswydd', sef y teulu yn dod at ei gilydd dan arweiniad y tad i ddarllen pennod o'r Beibl ac i weddïo, wedi mynd yn arferiad prin. Roedd hynny yn rhywbeth i'w resynu, meddai W.Griffiths, Penrhyn Gŵyr, gan fod y teulu yn uned hynod bwysig i ddynoliaeth. Dyna drefniant Duw ar gyfer ei greadigaeth, meddai - bod dyn yn byw oddi fewn i deulu. Deuai hyn â bendith, cysur, a diogelwch iddo. Ond er mwyn i'r drefn honno fod yn effeithiol roedd rhaid cynnal y ddyletswydd. Oherwydd 'heb grefydd y mae y gosodiad daionus hwn yn gwbl ddiffygiol i ateb ei ddyben.'[64] Gan mai perthynas â Duw yw 'dyben uchaf creadigaeth dyn' roedd yn gwbl angenrheidiol ei fod yn cynnal y berthynas honno ar yr

[63] H.Davies, 'Yr Ysbryd Glân', t.8.
[64] W.Griffiths, 'Crefydd y teulu', t.293.

aelwyd. O beidio â gwneud hynny byddai'n euog o 'ddarostwng safon crefydd Crist yn is na chrefydd eilunaddolwyr yngolwg anffyddwyr.'[65]

Ym marn William Morgan, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghaergybi, roedd y fath addoliad yn gwbl feiblaidd a rhestrodd sawl enghraifft ysgrythurol i brofi ei bwynt. Roedd cynnal y fath addoliad, felly, yn 'ddyletswydd' ar deuluoedd Cristnogol.[66] Cytunodd Morgan a Griffiths mai pen y teulu, sef y gŵr, ddylai arwain yr addoliad, er bod Morgan yn ddigon parod i weld y wraig yn cymryd yr awenau os nad oedd ei gŵr yn proffesu crefydd.[67] Credai Griffiths mai un o brif ddyletswyddau'r gŵr i'w deulu 'yw eu dwyn yn gyson gerbron Duw,' ac yn ychwanegol at ddarllen y Beibl ac arwain mewn gweddi, dylai gynghori'r teulu mewn materion crefyddol.[68] Roedd sawl rheswm dros gynnal y ddyletswydd: byddai o les a chysur i'r teulu gael eu dwyn gerbron Duw a byddai'n diogelu'r teulu trwy osod 'mur o gwmpas y tŷ i'w amddiffyn rhag niwed'.[69] Yn ogystal byddai'n 'rhoddi bywyd newydd a sirioldeb ymhob aelod yn y teulu'.[70] Gwelai Morgan reswm pur sylweddol dros yr arferiad, sef y byddai'n sicrhau mesur o atebolrwydd i'r pen teulu gerbron ei wraig, ei blant, a'i weision. Meddai, 'Wrth addoli a gweddïo Duw gyda'i deulu, y mae yn gosod ei hun yn agored i ymchwil ei deulu'.[71] Ei resymeg dros gynnig y rheswm hwn oedd y byddai'r gŵr, o gofio ei fod angen arwain ei deulu gerbron gorsedd gras bob nos, yn fwy gofalus wrth drin a thrafod ei deulu yn ystod y dydd. Yn ben ar yr holl resymau hyn dros gynnal y ddyletswydd oedd yr effaith dda a fyddai'n dilyn ar yr oedfaon yn y

---

[65] Ibid. tt.293-4.
[66] William Morgan, 'Addoliad teuluoedd', yn *Y Greal,* 6 (1857), t.246.
[67] Ibid. t.246.
[68] W.Griffiths, 'Crefydd y teulu', t.294.
[69] Ibid. t.295.
[70] Ibid. t.295.
[71] William Morgan, 'Addoliad teuluoedd', t.247.

capel. Pe bai teuluoedd y capel yn ofalus gyda'r ddyletswydd yna byddai crefydd ysbrydol y gynulleidfa yn uwch. Meddai Griffiths, 'Lle y mae teuluoedd crefyddol yn aml, yna y mae yr efengyl yn llwyddo, a'r eglwys yn ffrwythloni fwyaf mewn rhifedi, doniau, a gras'.[72] Ond lle nad oedd yn arferiad yna roedd perygl i Satan ddal ar ei gyfle 'i ddifetha ein teuluoedd yn fwy rhwydd'.[73]

Mae ysgrifau Griffiths a Morgan yn llawn cynghorion ymarferol a doeth ar pam y dylid a sut y dylid cynnal y ddyletswydd. Er na chynigiodd yr un o'r ddau dystiolaeth ystadegol i brofi bod yr arferiad yn bur isel, mae'n amlwg bod eu profiad yn dweud wrthynt mai dyna'r gwirionedd. Er bod y ddau yn credu bod canlyniadau difrifol yn dilyn hynny i'r teuluoedd eu hunain, roeddent hefyd yn gweld y cysylltiad rhyngddo a gwendidau cyffredinol yr eglwysi.

*vi. Yr ysgol Sul.*

Pryder mawr D.Griffith, gweinidog ym Methel, Caernarfon, oedd cyflwr yr ysgolion Sul. Enillodd y wobr gyntaf mewn eisteddfod yn Wrecsam yn 1857 gyda'i draethawd dan y teitl *Yr Ysgol Sabbathol a'r Oes*[74], a chyhoeddodd ei waith yn 1858. Gan mai ar gyfer cystadleuaeth eisteddfodol y paratôdd y gwaith hwn rhaid bod yn ofalus na roddwn ormod o bwys ar ei sylwadau. Polemig sydd yma ar yr hyn a gredai ef oedd gwendidau ysgolion Sul ei ddydd. Meddai, 'Fod diffygion mawrion yn hanfodi yn nglyn a'r sefydliad, sy ffaith na feddylia neb am ei gwadu'.[75] Serch hynny, mae nifer o'i bwyntiau yn atseinio sawl cwyn a welsom eisoes yn y bennod hon.

---

[72] W. Griffiths, 'Crefydd y teulu', t.295.
[73] Ibid. t.295.
[74] D.Griffith, *Yr Ysgol Sabbathol a'r Oes* (Wrecsam, 1858).
[75] Ibid. t.32.

Rhestrodd Griffith saith gwendid ynglŷn â gwaith yr ysgolion. Yn gyntaf, credodd nad oedd cefnogaeth ddigonol i'r gwaith gan yr eglwysi. Yn wir, roedd gwrthwynebiad yn gallu bodoli tuag at yr ysgol Sul, 'Mewn lleoedd o'r fath, mynych y bydd yn rhaid i'r Ysgol Sul weithio ei ffordd yn mlaen yn wyneb gwrthwynebiad cas, a hynny oddiwrth aelodau proffesedig o'r eglwys'.[76] Yn benodol, roedd diffyg gweddïo dros waith yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu i'r dim yr hyn a sylwasom arno eisoes: y pryder ynghylch gwendidau gweddïo'r eglwysi. I Griffith roedd llwyddiant ysgol Sul yn dibynnu'n bennaf oll ar gymorth Duw, a thrwy weddïo amdano y caed y cymorth hwnnw. Yn ail, credai bod diffyg trefn ynglŷn â'r gwaith. Swyddogaeth yr arolygydd oedd cadw trefn, ac roedd hi'n holl bwysig sicrhau person cymwys i ymgymryd â'r swydd honno. Mae'r pwyslais ar 'drefn' yn adlewyrchu'r consyrn Victorianaidd ynghylch bod yn drefnus a chymen ym mob dim. Roedd yr angen am barchusrwydd eisoes yn llithro i mewn i'r eglwysi. Yn drydydd, pryderai Giffith ynghylch safon yr athrawon yn yr ysgolion. Meddai, 'Y mae llawer o'r rhai a gymerant arnynt fod yn ddysgawdwyr yn ein mysg, yn ddynion bychain mewn sêl, a llai fyth mewn gwybodaeth'.[77] Gan mai cyfnod o brinder addysg ffurfiol oedd y cyfnod hwn, gellid yn hawdd credu mai pobl annysgedig oedd nifer o'r athrawon, er nad yw hynny'n golygu mai pobl anwybodus oeddent. Er gwaethaf consýrn Griffith, mae'n anodd credu fod pethau wedi mynd mor ddrwg â'r sefyllfa lle nad oedd digon o bobl gyda gwybodaeth feiblaidd ddigonol i fod yn athrawon.

Yn bedwerydd, roedd yn pryderu nad oedd pawb yn rhannu prif amcan yr ysgol Sul, sef ennill eneidiau i Grist. Dyma ddylid ei osod fel nod yr

---

[76] Ibid. t.32.
[77] Ibid. t.33.

ysgolion, meddai: sicrhau fod plant a phobl ieuanc yn derbyn Iesu fel Gwaredwr. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, dylid mynd ati i arfer dulliau arbennig er mwyn 'cyrraedd y galon'.[78] Dyma'r tro cyntaf inni ddod ar draws cymell y dulliau diwygiadol ar gyfer yr ysgol Sul. Ond yr oedd Griffith yn amlwg yn credu bod lle iddynt yno fel ag yng ngweddill bywyd yr eglwys. Yn bumed, rhannai bryder mawr y cyfnod, sef y diffyg mewn darllen a myfyrio'r Beibl. Syndod o'r mwyaf yw gweld hyn yn bryder yn yr ysgolion Sul, ac ni chynigiodd Griffith unrhyw dystiolaeth gadarn dros ei honiad. Os mai dyma'r gwir sefyllfa, yna nid rhyfedd fod teimlad o argyfwng wedi gafael ar yr arweinwyr.

Adlewyrchu consýrn cyffredinol arall a wnaeth efo'i chweched pwynt yn ogystal, sef cwyno nad oedd digon o haelioni ariannol yn cael ei ddangos tuag at waith yr ysgolion. Nid dim ond diffyg arian tuag at gynnal yr ysgolion fel ag yr oeddent oedd ar ei feddwl, ond yn hytrach y diffyg wrth geisio ymestyn allan i'r gymdeithas. Roedd am weld yr ysgolion yn yr ardaloedd trefol tlawd yn cynorthwyo'r gymdeithas letach. Meddai, 'Mewn ardaloedd poblog gellid ... dilladu plant amddifad ac anghenog, sefydlu llyfrgelloedd, a rhentu ystafelloedd cyfleus i wasanaethu fel ysgoldai ar y Sabbath'.[79] Dyma Griffith ar ei orau. Hawdd oedd darganfod gwendidau yn y system, mwy anodd oedd cynnig atebion a gweledigaeth glir. Ond dyna a wnaeth fan hyn, er mai prin fu'r ymateb. Yn olaf, pryderai am ddiffyg addysg i'r rhai dan bump oed. Roedd hi'n bwysig cychwyn addysgu'r plant yn ieuanc, meddai, a thrwy wneud hynny sicrhau bod eu bywyd yn cael ei osod ar sylfaeni cadarn. Pwynt na wnaethpwyd gan Griffith, ond sy'n ymddangos mor amlwg i ni, yw y byddai'r

78 Ibid. t.34.
79 Ibid. t.35.

gwendidau hyn, o ganiatáu iddynt barhau am flynyddoedd, yn effeithio'r eglwys drwyddi draw. Gwelsom eisoes fel yr oedd diffyg wrth dderbyn aelodau newydd i'r eglwysi. Os mai o ysgolion Sul gwan y recriwtid aelodau newydd, yna ni ellid ond disgwyl i'r gwendidau hynny dreiddio i galon eglwys.

Fel yr awgrymwyd ar gychwyn y bennod hon, mae'n bur anodd mesur cyflwr bywyd ysbrydol corff o bobl. Daeth y sylwebyddion Ymneilltuol uchod i'r casgliad mai isel oedd y cyflwr hwnnw yn eu cyfnod hwy heb gynnig gwir dystiolaeth dros y farn honno. Tueddu i fod yn oddrychol yr oedd barn o'r fath. Wedi'r cwbl, gyda beth y byddai rhywun yn cymharu oedfa neilltuol? Ai gydag oedfaon y gorffennol, ai rhwng un enwad a'r llall? Pwy sydd i ddyfarnu beth sy'n gwneud oedfa dda, beth bynnag? O'r herwydd cwestiwn anodd yw ceisio gwybod pa mor gywir oedd y sylwadau. Gallwn fod yn sicr o ddau beth. Yn gyntaf, gan mai arweinwyr a gweinidogion y cyfnod oedd llawer o'r rhai a ysgrifennodd, roeddent yn adnabod eu haelodau yn bur dda. Hwy fyddai'n gwybod yn well na neb beth oedd gwir gyflwr crefydd y bobl hyn. Os oedd gwendidau, yna'r bugeiliaid fyddai'r cyntaf i wybod amdano. Yn ail, tueddid i gymharu'r cyfnod a'r gorffennol: y gorffennol lle'r adfywiwyd yr eglwysi gan ddiwygiadau aml. Y gorffennol lle'r oedd oedfaon yn llawer mwy bywiog ac anffurfiol na'r cyfnod yr oeddent yn ei ganol. Er y twf mewn aelodaeth a'r adeiladu mawr ar gapeli, gwelsant ddirywiad sylweddol yng nghyflwr crefydd ysbrydol yr eglwysi.

O edrych yn ôl gwyddom heddiw mai amser pur lewyrchus ydoedd iddynt. Ond plant eu cyfnod oeddent, ac roedd achos eu pryder yn ymylu ar fod yn argyfwng. A oedd cyfeirio at argyfwng yn asesiad teg o gyflwr pethau?

Mewn un ystyr nid ein lle ni heddiw yw barnu un ffordd neu'r llall. Os oeddent hwy'n gweld argyfwng, oni ddylem dderbyn eu hasesiad yn ddigwestiwn?

Gwelir yn y sylwadau uchod barodrwydd arweinwyr y cyfnod i edrych ar y gwendidau a fodolai oddi fewn i'r eglwysi. Mae hynny'n siŵr o ddangos eu dewrder ac yn tanlinellu nad dall oedent i'w gwendidau eu hunain. Fodd bynnag, yr oeddent yn gweld pwysau yn dod o du'r byd. Er mai ychydig iawn o ysgrifau a argraffwyd ar bechodau'r byd a'u heffaith ar yr eglwysi, roedd yn gallu gweld y peryglon, wrth i ddatblygiadau'r byd greu temtasiynau i'r Cristion.

*vii. Pwysau o du'r byd.*

Os oedd pryderon yn codi ynghylch cyflwr mewnol yr eglwysi, yna roedd effaith anfoesoldeb y byd ar yr eglwys hefyd yn achos consýrn. Un o bryderon y cyfnod oedd arferion caru'r gymdeithas. Yn ôl Evan Lewis, gweinidog Annibynnol Brynberian, Sir Benfro, roedd nifer fawr o bobl ieuanc y cyfnod yn gwbl anystyriol wrth briodi. Gwelai briodas fel 'ordinhad Dwyfol', ac yn rhywbeth ddylai ddwyn gogoniant i Dduw. Ond ofnai Lewis fod llawer yn rhuthro i briodas heb ystyried y peth yn ddifrifol, ac yn waeth, yn gwneud hynny heb weddïo ynglŷn â'r mater ymlaen llaw. Meddai, 'Ychydig sydd yn ceisio "license o lys y nef", sef gofyn caniatâd a bendith Duw'.[80] Pryderai hefyd fod nifer yn caru yn y dirgel, ac er na ddywedodd hynny'n ddi-flewyn ar dafod, ei bryder oedd bod cyplau yn cael rhyw y tu allan i briodas, a bod nifer o blant siawns yn cael eu geni. Roedd y ffaith fod cyplau yn priodi heb ganiatâd eu rheini hefyd yn boen iddo, a bod Cristnogion yn priodi rhai di-gred. Rhoddodd

[80] Evan Lewis, 'Rhag-gyfeillachu a phriodi', yn *Y Diwygiwr,* 20 (1855), t.5.

bwyslais mawr ar y pwynt olaf gan ddadlau fod y Beibl yn gwahardd y fath arferiad.

Roedd canlyniadau difrifol i'r ffaith fod cynifer mor anystyriol ynghylch caru a phriodi, meddai Lewis. Byddai crefydd y crediniwr yn sir o ddioddef oddi fewn i'r fath berthynas. Hefyd, byddai'n achosi gofid i'r teuluoedd wrth iddynt weld y cwpl yn gwneud y fath gamgymeriad. Rhoddid bwrn ychwanegol ar y wladwriaeth yn ogystal, gyda threthi yn codi, ynghyd â '... llanw gweithdai a bastardiaid, a'r wlad a segurwyr ac oferwyr.'[81] Ond y canlyniad a'i pryderai yn fwy na dim oedd y canlyniad i gyflwr crefydd y wlad. Roedd i Gristion briodi'r di-gred yn agor drws yr eglwys i 'deimladau, arferion, a thybiau y rhai di-gred.'[82] Yn amlwg roedd Lewis yn gweld hyn yn broblem wirioneddol oedd yn gwanhau'r dystiolaeth Gristonol yn yr eglwysi.

I Albert Barnes, gweinidog gyda'r Wesleaid, roedd dawnsio yn bechod o'r mwyaf. Nid oedd 'bôls' na 'fashionable parties' yn bethau oedd yn cydweddu a'r bywyd Cristnogol.[83] Ei resymau dros ddweud hyn oedd, yn y lle cyntaf, gan fod dawnsio yn peri tramgwydd i rai Cristnogion ni ddylai'r un Cristion ymhél â'r arferiad. Rhaid oedd i bob credadun ystyried yn ddifrifol sut yr effeithir ei gyd-aelodau gan ei arferion. Os oedd yn tramgwyddo dylai ymatal. Yn ail, roedd dawnsio'n arferiad cwbl fydol, ac felly 'yn cyfrannu dim er sicrhau y bywyd dyfodol.'[84] Yn drydydd, hyfforddiant ar gyfer y byd ydoedd, heb unrhyw werth ysbrydol. Dylai'r rhai oedd yn ei arfer ystyried yn ddwys i ba gyfeiriad yr oeddent yn teithio:

> ... nid yw y ddawnsfa yn bell oddi wrth y bedd; ac o olygfeydd

---

[81] Ibid. t.7.
[82] Ibid. t.7.
[83] A.Barnes, 'Pa niwaid sydd mewn dawnsio?', yn *Yr Eurgrawn*, 18 (1855), t.231.
[84] Ibid. t.232.

> llawenydd un, byddwch yn fuan yn nhywyllwch y llall ... Cofiwch eich bod yn dawnsio ar y bedd; cofiwch y bydd i'r munudau a wastraffwyd felly, gael eu hadgofio pan y safoch ger bron gorsedd Duw ... Yno nis gellir galw yn ôl dymhorau a wastraffwyd.[85]

Yn bedwerydd, roedd pobl y byd yn tybio mai rhagrithiol oedd y Cristnogion hynny fyddai'n dawnsio. Credant mai diffyg difrifoldeb a chysondeb ydoedd ym mywyd y credinwyr. Arweiniai hynny at iddynt gymryd esgus dros beidio â chymryd y ffydd Gristnogol o ddifrif.

I Delta Davies, Llanbedr, roedd chwaraeon o wahanol fath yn ddrwg i gyflwr ysbrydol pobl ieuanc y cyfnod. Nid yw'n rhestru pa chwaraeon sydd ganddo ar ei feddwl, ond dyfynna ddau awdur Saesneg, Syr Matthew Hale a Dr Clarke, oedd o'r farn fod difyrrwch o'r fath yn sir o lygru meddyliau ieuanc. Dyma'r cyfnod pryd yr oedd cymunedau newydd yn yr ardaloedd diwydiannol yn codi neuaddau cyhoeddus lle gellid chwarae gemau bwrdd. Ymgais oedd hyn i geisio cynnig mannau cyfarfod amgen i'r dafarn i'r gweithwyr cyffredin. Mae'n amlwg fod rhai arweinwyr Cristnogol yn eu gweld fel bygythiad i'r bywyd ysbrydol. Mae rhybudd Davies i rieni pobl ieuanc yn ddramatig, 'Rhybuddiwch hwynt rhag myned i'r chwareudai, a'r parties llygredig, yr un modd a phe baech am eu cadw rhag ffau y wiber, twll yr asp, a chrafangau llewod'.[86]

Pryder na lenwodd fawr ar y cylchgronau enwadol, ond a oedd yn gonsýrn gwirioneddol i'r eglwysi, oedd meddwdod. I John Jones, Llanberis, roedd gor-yfed yn beth cwbl afresymol i'w wneud, 'Y mae yn syndod fod dyn yn gweithredu mor ffôl, ond er gofid, y mae miloedd yn gwneud'.[87] Er ei fod yn apelio at resymau ysbrydol dros beidio â meddwi, megis bod bywyd yn fyr a

[85] Ibid. t.303.
[86] Delta Davies, 'Chwareuon', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.272.
[87] John Jones, 'Paham y meddwi?', yn *Y Greal*, 6 (1857), t.155.

bod meddwdod yn bechod yn erbyn Duw, cynigiodd Jones resymau tymhorol a chymdeithasol hefyd. Roedd effaith andwyol ar y corff wrth or-yfed, meddai. Marwolaeth fuan a ddisgwyliai'r un oedd yn gaeth i alcohol. Hefyd, roedd cymeriad y meddwyn yn sathredig. Nid edrychid arno gydag unrhyw barch oddi fewn i'w gymuned. Yn olaf, roedd effaith andwyol ar deulu'r meddwyn. Gan fod yr arian a enillai yn cael ei wario ar ddiota roedd y teulu yn dioddef. Dyma ran rymusaf yr ysgrif gan Jones. Meddai:

> Pa fodd y gelli edrych ar dy briod yn ymollwng o dan lwyth o ddigalondid, a dy blant yn llwm eu gwisg ac yn llwyd eu gwedd ... Y mae'r olygfa ddifrifol a welir ar dy deulu, y rhychau dyfnion ag y mae dagrau gofid wedi ei gerfio ar wyneb dy briod, yr agwedd dlodaidd sydd ar dy dy, cefnau noethion a chyllaoedd gweigion dy blant, yn sylldremu yn dy wyneb, ac yn gofyn i ti gyda theimlad, Paham y meddwi?[88]

Pryderon eraill a boenai'r cyfnod oedd dillad 'fashionable'[89], y trenau yn rhedeg ar y Sul[90], amgueddfeydd, sef 'difyrrwch cnawdol' yn ôl un awdur, ar agor ar y Sul[91], a thybaco[92].

Er bod pryder yn bodoli ynghylch effaith y byd ar yr eglwysi ni ddylid gorbwysleisio'r pwynt. Oddi fewn i'r eglwysi yr oedd y problemau, a chwilio am atebion ysbrydol a wnaeth yr arweinwyr. Serch hynny, roedd rhai yn gofidio ynghylch dylanwad y byd ar yr aelodau. Meddai William Morris, Tyddewi, mewn ysgrif ar gyflwr claear crefydd, 'Nesau at y byd llygredig a gynnyrcha y claurineb'.[93] Yn ôl Isaac Thomas, Merthyr, roedd bydolrwydd a'r ffaith fod nifer yn ceisio llwyddiant yn y byd yn achosi iddynt 'esgeuluo yr enaid', a

[88] Ibid. t.155.
[89] 'G ap Ioan', 'Chwaneg o waith i'r ysgol sabothol', yn *Yr Eurgrawn*, 18 (1855), t.195.
[90] 'G ap Ioan', 'Y Darn Saboth', yn *Yr Eurgrawn*, 19 (1856), t.125.
[91] Ibid. t.127.
[92] 'D.R.', 'Yr Eilun-dduw tobaco', yn *Yr Eurgrawn*, 19 (1856), t.128.
[93] W.Morris, 'Drwg claurineb,' t.290.

hynny yn ei dro yn arwain at farweidd-dra crefydd.[94] A dyma'r consyrn mawr, wrth gwrs, bod datblygiadau'r byd modern o'u cwmpas yn hudo'r credinwyr i ffwrdd oddi wrth eu ffydd yn Iesu ac felly i ffwrdd oddi wrth yr eglwysi. Fel yn yr adran ar broblemau ysbrydol mewnol nid oedd unrhyw ymgais yn yr ysgrifau uchod ar effaith y byd i fesur ei ddylanwad mewn ffordd empeiraidd. I raddau barn oddrychol a geir gan yr arweinwyr hyn, er bod rhaid cydnabod eto mai barn yn seiliedig ar eu hadnabyddiaeth o'u pobl ydoedd.

*viii. Bygythiad Mudiad Rhydychen.*

Bygythiad arall pwysig i'r Ymneilltuwyr oedd tŵf a dylanwad Mudiad Rhydychen. Cafwyd ymateb chwyrn tuag at y mudiad hwn oddi fewn i Ymneilltuaeth, ac er na ellid cysylltu'r pryder yn uniongyrchol gyda'r diwygiad, credwn ei fod ymhlith y pethau hynny a sicrhaodd fod elfen o gonsýrn oddi fewn i'r capeli a'i harweiniodd iddynt geisio adfywiad. Buddiol, felly, fyddai deall yr hyn a welsant hwy fel bygythiad a pherygl Mudiad Rhydychen. Nid bwriad yr adran hon yw cynnig dadansoddiad ar gywirdeb y mudiad neu beidio, ond yn hytrach ceisio deall beth oedd dadansoddiad Ymneilltuaeth Gymraeg ohono. Cychwynwn trwy amlinellu hanes a datblygiad y mudiad a'i syniadau yn gyffredinol. Yna awn ati i edrych ar ei ddylanwad ar Gymru yn benodol a thwf Anglicaniaeth yn y cyfnod, cyn cloi gydag asesiad o ymateb yr Ymneilltuwyr iddo. Byddwn hefyd yn cynnwys rhai o ddatblygiadau Eglwys Rufain gan fod yr Ymneilltuwyr yn cysylltu'r ddau gorff mor agos at ei gilydd.

---

[94] I. Thomas, 'Yr achos o'r marweidd-dra', t.121.

John Henry Newman, clerigwr Anglicanaidd a drôdd at Babyddiaeth, ac un o arweinwyr cynnar Mudiad Rhydychen, oedd y cyntaf i awgrymu mai ar y 14 Gorffennaf, 1833 y cychwynnodd y mudiad, a hynny oherwydd i John Keble, un o'i gyd-arweinwyr, bregethu ar y testun 'Gwrthgiliad Cenedlaethol'. Er bod y dyddiad hwnnw wedi ei dderbyn yn gyffredinol fel yr un cywir, credir bod hadau'r mudiad wedi eu hau ynghynt fel ymateb i rai o ddatblygiadau eglwysig a gwleidyddol y cyfnod. Mae'r hanesydd cyfoes George Herring yn nodi pedwar peth yn benodol oedd yn pwyso ar yr eglwys sefydledig: yn gyntaf, roedd y rhyfel efo Ffrainc hyd at 1815 wedi codi ofnau ynghylch y cysylltiad rhwng Ymneilltuaeth wleidyddol a chrefyddol; yn ail, roedd y gymdeithas yn newid trwy'r wlad, wrth i effeithiau'r chwyldro diwydiannol gynyddu; yn drydydd, roedd dylanwad a nifer yr Ymneilltuwyr yn tyfu; ac yn olaf, roedd pwysau o du Iwerddon, lle'r oedd yr Eglwys Babyddol yno yn mynnu rhyddid a hawliau a oedd yn perthyn i Eglwys Loegr yn unig. O roi i mewn i'r Pabyddion yno ofnid y byddai rhaid rhoi'r un hawliau i'r enwadau Ymneilltuol ym Mhrydain hefyd. Ofnai'r Anglicaniaid y byddai hyn yn tanseilio safle ac awdurdod eu heglwys. Un ofn penodol oedd ganddynt oedd y diddymid Deddfau'r 'Test and Corporation', a sicrhâi mai dim ond Anglicaniaid allai eistedd yn y Tŷ Cyffredin. Y peth olaf yr oeddent am ei weld oedd y senedd-dŷ yn llawn o Anghydffurfwyr! Gwireddwyd eu hofnau yn 1827, fodd bynnag, pryd y diddymwyd y deddfau gan lywodraeth Doriaidd.[95]

Fel ymateb i rai o'r datblygiadau hyn y tyfodd Mudiad Rhydychen. Roedd ymdeimlad gan nifer oddi fewn i Eglwys Loegr bod eu heglwys dan warchae, ac felly bod angen ei hamddiffyn a hefyd ei diwygio er mwyn

---

[95] G.Herring, *What was the Oxford Movement*? (London, 2002), t.13.

wynebu'r her. Yr eironi yw bod mudiad a gododd mewn ymateb i fygythiad i Eglwys Loegr wedi effeithio'r eglwys i'r fath raddau nes argyhoeddi Ymneilltuwyr bod eu mudiad hwy a'u diwinyddiaeth dan fygythiad.

Nid oes posibl darganfod un syniadaeth systematig glir i'r mudiad, ac felly mae'n anodd cynnig diffiniad diwinyddol ohono. Caniataodd y sefyllfa annelwig hon i'r Mudiad dyfu a datblygu i wahanol gyfeiriadau. Lledwyd y syniadau drwy gyhoeddi tractiau dan y teitl '*Tracts for the Times*', a roddodd yr enw 'Tractariaeth' i'r mudiad yn y cyfnod. Canolbwynt daearyddol y gweithgarwch oedd Prifysgol Rhydychen, lle'r oedd nifer o'r arweinwyr yn athrawon, a lle'r oedd cynifer o ddarpar glerigwyr yr Eglwys yn derbyn eu hyfforddiant. Sicrhaodd hyn fod cenedlaethau o glerigwyr yn dod dan ddylanwad syniadaeth Tractaraidd.

Byddai o fudd petaem yn edrych ar dri o'r syniadau hyn oedd yn rhan mor bwysig o'r mudiad: yr olyniaeth apostolaidd, y Beibl, a'r Ewcharist neu'r Cymun. Bwriad y tractiau cynnar oedd sicrhau awdurdod i Eglwys Loegr yn annibynnol ar y wladwriaeth. Yn draddodiadol derbyniai'r Eglwys ei hawdurdod wrth fod yn eglwys sefydledig - ond fel y gwelwyd eisoes roedd ymdeimlad fod y cysylltiad hwn â'r wladwriaeth dan fygythiad, ac felly credid bod awdurdod yr eglwys dan fygythiad hefyd. Ateb y mudiad i'r broblem oedd athrawiaeth yr olyniaeth apostolaidd. Credent fod cysylltiad di-dor rhwng y clerigwyr cyfoesol ag Iesu, gan i Iesu ddewis ei ddisgyblion a ddaeth yn apostolion, ac iddynt hwythau yn eu tro ddewis esgobion o fewn yr eglwysi a blannwyd, ac yn eu tro bod yr arweinwyr hynny wedi dewis ac ordeinio esgobion newydd. Roedd yr olyniaeth hon yn sicrhau bod yr Eglwys Anglicanaidd yn gallu olrhain ei thraddodiad yn syth yn ôl at yr apostolion

cyntaf, ac felly at Iesu ei hun. I Newman yr athrawiaeth hon oedd y gwahaniaeth pwysicaf rhwng Eglwys Loegr a'r Ymneilltuwyr. Roedd yn rhoi hunaniaeth unigryw i'r Eglwys, ac yn sicrhau dilysrwydd i'r sagrafennau. Credai Newman nad oedd gan yr un wladwriaeth yr hawl i benodi esgobion ac offeiriaid, gan mai hawl yr eglwys yn unig oedd hyn. Yn amlwg, felly, i Newman, o leiaf, nid oedd dilysrwydd i gysylltiad Eglwys Loegr a'r wladwriaeth.

Nodwedd ganolog arall i'r mudiad oedd ei bwyslais ar ddefnyddio'r Tadau Eglwysig i'w cynorthwyo i ddehongli'r Beibl. Credent fod perygl i unigolion fynd ati i ddehongli'r Ysgrythurau ar eu pen eu hunain, gan y byddai eu rhagfarnau yn siŵr o ddod rhyngddynt a'u hiawn ddeall. Er mwyn dehongli'n gywir, felly, roedd troi at weithiau'r Tadau Eglwysig yn fuddiol:

> They believed the Bible could only be approached ... not with the fallen, objective, detached, intellectualist mind of the individual but with the eyes of the ancient and undivided church for which the Biblical texts were in fact written.[96]

Roedd tri phrif reswm am hyn: yn gyntaf, roedd y Tadau wedi brwydro'n ddewr a llwyddiannus yn erbyn heresïau o bob math, ac felly gellid dibynnu ar eu dehongliad o'r Ysgrythurau; yn ail, hwy oedd wedi llunio diffiniadau mawr y ffydd, fel Credo Nicea a Diffiniad Chalcedon, diffiniadau oedd wedi profi eu hunain yn gywir dros y canrifoedd; ac yn drydydd, roedd cyfnod y Tadau yn gyfnod o undod eglwysig, heb raniadau enwadol o gwbl. Asesiad Herring o hyn yw bod Newman, yn un, wedi defnyddio hanes y Tadau mewn ffordd a fyddai'n fuddiol iddo ef a'r mudiad. Cyhoeddodd ei *The Arians of the Fourth Century* yn 1834 a'i ddefnyddio fel arf yn erbyn y rhai a gredai oedd yn bygwth

---

[96] Owen Chadwick, *The Mind of the Oxford Movement* (London, 1960), t.40.

bywyd yr Eglwys gyda'u diwinyddiaeth oddefol a llac.[97] Beth bynnag am hynny, yn amlwg gellir dweud bod y mudiad wedi lleihau pwysigrwydd y Beibl drwy godi pwysigrwydd y Tadau i'r fath raddau.

Gan fod cymaint pwyslais ar addoliad gan y mudiad roedd yn naturiol i'r Ewcharist neu'r Cymun gael sylw ganddynt. I'r Tadau roedd i'r Cymun le canolog yn addoliad yr eglwys. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwn yn y rhan fwyaf o blwyfi Anglicanaidd yn achlysurol yn unig y dethlid Swper yr Arglwydd. Er mwyn newid y drefn hon aeth y mudiad ati i geisio addysgu'r Eglwys ynghylch natur a phwysigrwydd y Swper. Datblygu'n raddol a wnaeth eu hathrawiaeth, gan roi pwyslais cynyddol ar gysylltu presenoldeb Crist yn uniongyrchol â'r bara a'r gwin. Erbyn 1853 cyhoeddodd Robert Wilberforce ei *The Doctrine of the Holy Eucharist*, oedd yn ffrwyth ei ymchwil i'r Tadau cynnar a mwy diweddar ar y pwnc. Barn Wilberforce oedd bod presenoldeb Crist yn y Cymun yn oruwchnaturiol, ond ar yr un pryd yn real ac nid yn symbolaidd. Yn benodol, dywedodd fod y presenoldeb hwnnw wedi ei leoli yn y bara a'r gwin ar ôl i'r offeiriad eu cysegru. Yn ogystal, dywedodd fod y Cymun yn aberth. Derbyniwyd syniadau Wilberforce yn helaeth oddi fewn i'r mudiad. Nid anodd yw deall pam bod syniadau fel hyn mor gyfan gwbl annerbyniol i aelodau efengylaidd Eglwys Loegr ac Ymneilltuwyr Cymru.

Tyfodd dylanwad y mudiad yn fuan a chyffyrddodd nifer fawr o blwyfi wrth i'r syniadau hyn ymestyn trwy gyhoeddi'r tractiau ac wrth i fyfyrwyr a effeithiwyd yn Rhydychen gael eu lleoli yn y plwyfi hynny. Rhwng 1840 ac 1870 roedd twf cyson yn y nifer o blwyfi a ddaeth dan ddylanwad Tractariaeth. Ym 1845, fodd bynnag, bu datblygiad syfrdanol: ymrestrodd John Henry

[97] G.Herring, *What was the Oxford Movement?*, t.32.

Newman ymhlith y Pabyddion. Meddai Herring am ei benderfyniad: 'He came to believe that not only was Anglicanism fatally flawed but also that Roman Catholicism was the only Christian body in which the faith of the Apostles was found in the contemporary world'.[98] Dilynwyd ef gan nifer o offeiriad eraill dros y blynyddoedd. Er enghraifft, rhwng 1850 a 1854 gadawodd 58 offeiriad Eglwys Loegr er mwyn ymuno ag Eglwys Rufain.[99] Cadarnhau cysylltiad agos y mudiad â'r Eglwys Babyddol oedd canlyniad hyn i'r Ymneilltuwyr.

Effeithiodd y mudiad ar Gymru o'r dyddiau cynnar, nid yn lleiaf oherwydd mai Cymro, Isaac Williams, oedd un o'r arweinwyr pwysicaf. Roedd cyflwr Eglwys Loegr yng Nghymru ar y pryd yn isel, gyda phroblemau fel amlblwyfaeth, cyflogau isel i glerigwyr, a chlerigwyr di-Gymraeg yn rhemp. Roedd y diffyg ieithyddol yn arbennig o bwysig gan eu bod yn analluog i gyfathrebu â'r mwyafrif llethol o'u plwyfolion uniaith Gymraeg. Roedd cyflwr adeiladau, yn eglwysi a phersondai, hefyd yn ddifrifol o isel mewn llawer man. Ar ben hyn nid oedd yr Eglwys cyn oddeutu canol y bedwaredd ganrif a'r bymtheg yn alluog i ymateb yn effeithiol i'r trefoli mawr a ddigwyddai yn sgil y chwyldro diwydiannol. Golygodd hyn fod yr Eglwys wedi methu dal i fyny â'r twf aruthrol a wnaeth Ymneilltuaeth yn yr ardaloedd poblog, megis cymoedd diwydiannol y de. I ganol gwendidau fel hyn y daeth Mudiad Rhydychen i gael effaith sylweddol ar fywyd yr Eglwys, a hynny ar hyd a lled y wlad. Meddai A.Tudno Williams, 'Mae profion amlwg fod y Mudiad wedi cael dylanwad uniongyrchol ar bob un o'r pedair esgobaeth yng Nghymru'.[100] Efallai mai un o'r dylanwadau mwyaf hir dymor oedd bod pob un o'r colegau

---

[98] Ibid. t.65.
[99] Ibid. t.71.
[100] A.Tudno Williams, *Mudiad Rhydychen a Chymru* (Dinbych, 1983), t.51.

diwinyddol Anglicanaidd a sefydlwyd yn ystod y bedwaredd ganrif a'r bymtheg yn ffrwyth dylanwad y mudiad.[101]

Yn naturiol, efallai, gwreiddiodd y mudiad gyntaf oll ym mhlwyf genedigol Isaac Williams, sef Llangorwen, Aberystwyth. Dylanwadwyd ar ei deulu yno. Rhoddodd ei frawd, Mathew Davies Williams, arian tuag at godi eglwys a ficerdy yn y plwyf yn 1841, a phenodwyd cefnder iddo, Lewis Gilberston, yn ficer. Daeth yr eglwys honno i'w hadnabod fel 'eglwys Buseyaidd'. Yno, er enghraifft, y cychwynnwyd yr arfer o'r offeiriad yn gwisgo gwenwisg i bregethu yn hytrach na'r gŵn ddu. Yn Ysbyty Ystwyth, eto ger Aberystwyth, y daeth Lewis Evans yn gurad yn 1859, ac a ddaeth yn brifathro Ysgol Ystradmeurig, a baratoai gwŷr ieuanc ar gyfer yr offeiriadaeth. Graddiodd Evans yn Rhydychen yn 1833, a daeth dan ddylanwad y Mudiad.

Ond yn Esgobaeth Bangor, dan yr Esgob Bethel, y bu dylanwad mwyaf y Tractariaid. Rhai o'r cefnogwyr mwyaf oedd Morris Williams (Nicander), fu yng Ngholeg Iesu, Rhydychen rhwng 1831-35. Ym 1840 daeth i Fangor a Phentir fel curad, ac yno y cyhoeddodd ei *Y Flwyddyn Eglwysig* (1843), a hynny ar batrwm gwaith John Keble yn *The Christian Year*. Erbyn 1845 roedd yn gurad Llanllechid, a gwelodd dwf sylweddol ym mywyd yr eglwys yno, gan sicrhau côr llwyddiannus, oddeutu 300 yn cymuno yno, ysgol Sul niferus, a sefydlu gwasanaethau ar wyliau'r saint. Oddi yno aeth i Fôn, er na chafodd ei syniadau fawr o groeso ym mhlwyf Amlwch. Barn Tudno Williams yw ei fod yn 'un o arloeswyr Mudiad Rhydychen yn esgobaeth Bangor'.[102] Erbyn 1866 roedd 196 offeiriad yn yr esgobaeth honno, 74 ohonynt wedi eu haddysgu yn

[101] Ibid. t.56.
[102] Ibid. t.58.

Rhydychen, a chanran sylweddol o'r rhai hynny yn ddeiliaid y syniadau Tractaraidd.

Fel y gwelir uchod cafodd Mudiad Rhydychen ddylanwad sylweddol ac adfywiol ar fywyd Eglwys Loegr yng Nghymru. Fodd bynnag, nid i'r mudiad yn unig y mae'r diolch am sicrhau bywyd newydd Anglicaniaeth yn y cyfnod. Yn wir, roedd lleisiau yn galw am ddiwygio trefn a bywyd yr Eglwys i'w clywed yn ystod degawd cyntaf y ganrif, ac Esgob Llandaf, Richard Watson, yn eu plith. Awgrymodd y dylid talu cyflog digonol i bob offeiriad, y dylid cynnal dwy oedfa ym mhob eglwys, ac y dylid darparu tai ar gyfer y clerigwyr.[103] Fodd bynnag, araf oedd yr Eglwys i dderbyn ei syniadau.

Yn y tridegau cafwyd dau ddatblygiad allweddol i fywyd Eglwys Loegr: yn 1836 sefydlwyd Comisiynwyr Eglwys Loegr, ac yn 1839 sefydlwyd Pwyllgor y Cyfrin Gyngor ar Addysg. O dan y cyntaf diwygiwyd llawer ar weinyddiaeth yr Eglwys, ac o dan yr ail rhoed grantiau tuag at godi ysgolion. Sicrhaodd yr ysgolion eglwysig hyn fod cysylltiad agos rhwng yr Eglwys a'r gymuned, ac yn sawl un ohonynt cychwynnwyd achosion Anglicanaidd newydd hefyd.

Darparodd y Comisiynwyr grantiau ar gyfer hybu gwaith yr Eglwys. Un enghraifft oedd bod grant ar gael i gynnal yr Esgob Alfred Ollivant yn llawn amser yn Esgobaeth Llandaf. Yn 1844 rhoddwyd grantiau i gynnal plwyfi llai, ac i rannu rhai o'r plwyfi mawr yn unedau llai, haws eu trin. O dan yr un drefn adeiladwyd tai i glerigwyr, a hynny ar yr amod bod yr offeiriad yn cynnal dwy oedfa bob Sul yn ei eglwys. Cafodd hyn effaith sylweddol. Er enghraifft ym Mynwy ym 1827 dim ond 15 eglwys oedd â dwy oedfa'r Sul, ond erbyn 1847

---

[103] D.Walker, *A History of the Church in Wales* (Penarth, 1976), t.151.

roedd 60 ohonynt.[104] Yn ogystal, codwyd nifer o eglwysi newydd. Yn y cyfnod 1841-51 codwyd 15 newydd neu addasu hen rai yn Esgobaeth Tyddewi, a rhwng 1846-70 codwyd neu addaswyd 70 eglwys yn Llanelwy. Yng nghyfnod Ollivant codwyd neu addaswyd 170 yn yr esgobaeth.[105] Cafodd y pedair cadeirlan eu haddasu a'u hatgyweirio yn yr un cyfnod hefyd.[106]

O ddod â'r datblygiadau hyn at ei gilydd gwelwyd peth adfywiad oddi fewn i Anglicaniaeth yng Nghymru yn y cyfnod yn arwain at y diwygiad. Creodd hyn gryn bryder ym mhlith yr Ymneilltuwyr. Fodd bynnag, rodd eu pryder ynghylch diwinyddiaeth Dractaraidd yn llawer mwy. Yn eu tyb hwy, roedd y ddiwinyddiaeth hon yn hynod debyg, os nad yr union yr un fath, i ddiwinyddiaeth Babyddol. Ac yr oedd yn gas gan yr Ymneilltuwyr yr Eglwys Babyddol. Mae lle i gredu bod arweinwyr efengylaidd Prydain ac America yn y cyfnod yn defnyddio eu hatgasedd at Babyddiaeth fel ffordd o ddiffinio eu hunaniaeth. Meddai J Wolffe:

> During the middle third of the nineteenth century, anti-Catholicism was, on both side of the Atlantic, very much of the essence of evangelicalism. Indded, antagonism to 'popery' served, in a positive as well as negative sense, to help define evangelical identity.[107]

Yn wir, mynnai rhai yng Nghymru mai Pabyddiaeth gudd ydoedd y mudiad, a bod ei dilynwyr yn fwriadol yn ceisio cuddio eu cysylltiad â Rhufain. Fodd bynnag, yn ôl D.J.Davies, o Goleg y Bedyddwyr Hwlffordd, o bryd i'w gilydd byddai'r cysylltiad yn dod i'r amlwg, 'Ond ambell waith codir gwaelodion y

[104] Ibid. t.123.
[105] Ibid. t.128.
[106] Ibid. t.137.
[107] J.Wolffe, 'Anti-Catholic and Evangelical Identity in Britain and the United States, 1830-1860', yn M.A.Noll, D.W.Bebbington, a G.A.Rawlyk (golygyddion), *Evangelicalism: comparative studies of popular Protestantism in North America, the British Isles, and beyond, 1700-1990* (Oxford, 1994), t.179.

llenni, a cheir cipolwg ar y gwiberod sydd yn ymgynhyrfu o danynt'.[108] Gwelwn agwedd Ymneilltuaeth at y mudiad ac at Eglwys Rufain yn y sylwadau hyn. Er bod y defnydd o iaith bolemig yn lled arferol yn y cyfnod, ni ellir ond synnu at y diffyg gras a geir ynddo ac mewn llu o ysgrifau tebyg. Roedd ysgrif Davies ar y cyfan yn astudiaeth safonol ac academaidd, gyda chyfeiriadau a dyfyniadau mynych o wahanol gynghorau eglwysig o'r gorffennol ar fater y Cymun. Ond serch hyn mae yntau yn llithro i ddefnyddio iaith ac arddull gwbl ddiras. Os oedd Davies yn gweld y mudiad fel Pabyddiaeth guddiedig, aeth J.G.Phillips, a oedd yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr ym Mhont-y-pŵl, mor bell ag awgrymu mai cynllwyn o eiddo'r Jesuitiaid oedd y mudiad. Nid yw'n cynnig unrhyw brawf dros y fath haeriad, ond eto cawn gip olwg ar agwedd Ymneilltuaeth. Unwaith eto, daw'r sylw hwn ynghanol dwy ysgrif safonol ar y mudiad. Mae'n amlwg for Phillips wedi ymchwilio'n lled fanwl i'w syniadau, ac wedi darllen nifer helaeth o'r tractiau. Mae'n gelfydd yn ei ddadansoddiad ohonynt, ac yn cynnig gwrthddadleuon ystyrlon a chryf.[109] Mae hefyd yn cynnig ei reswm pam yr aeth ati i ysgrifennu ar y pwnc. Dyfynna o Eseciel 3:18-19, lle y dywedir i Dduw ddweud wrth y proffwyd fod ganddo ddyletswydd i rybuddio'r drygionus eu ffyrdd, ac i'w hannog i ddychwelyd at yr Arglwydd. Os na wnaiff hynny bydd gwaed yr euog ar ei ddwylo ef. Meddai Phillips, 'Felly, efallai, yr awdurdodir ni ar y tir yma i ddyweyd ychydig am Buseyaeth'.[110] Mae'r sylw hwn ynddo'i hun yn dangos yn glir agwedd Phillips. Mae'n gweld Tractariaeth a Phabyddiaeth fel drwg y mae'n ddyletswydd arno ei wrthsefyll.

---

[108] D.J.Davies, 'Camdybiau ar Swper yr Arglwydd', yn *Seren Gomer,* 40 (1857), t.214.
[109] J.G.Phillips, 'Puseyaeth', yn *Seren Gomer,* 40 (1857), tt.193-200, 241-246.
[110] Ibid. t.193.

Gwnaeth nifer y cysylltiad rhwng Mudiad Rhydychen ac Eglwys Rufain. Dyfynnwyd o'r *Evangelical Magazine* yn *Seren Gomer* 1841 lle'r oedd offeiriad Pabyddol yn cael ei gofnodi'n dweud fod dros fil o glerigwyr Anglicanaidd yn 'proffesu egwyddorion Pabaidd y Dr Pusey o Rydychain'.[111] Gresynu a wnaeth Ieuan Ddu Glan Sorwy bod 'egwyddorion Pabyddol y Puseyiaid wedi cael eu gadael i ymdaenu mor helaeth yn yr Eglwys Sefydledig'. 'Gwenwynllyd' oedd ei ddisgrifiad ef o'r egwyddorion hynny. Proffwyda y byddai'n rhaid i Eglwys Loegr ymddatgysylltu oddi wrth y wladwriaeth, neu byddai Pabyddiaeth yn dod yn grefydd sefydledig y wlad. Prin y gellir credu ei fod yn wirioneddol bryderus ynghylch y datgysylltu, ond roedd ei bryder yn real ynghylch tŵf Pabyddiaeth.[112] Dyfynnu ymateb clerigwr Angicannaidd a wnaeth awdur yn *Y Drysorfa*, wrth i'r clerigwr resynu colli rhai o draddodiadau Pabyddol oddi fewn i eglwysi Lloegr ar ôl y Diwygiad Protestannaidd:

> Mae yn rhyfedd gennym ni pa fodd y mae dyn fel y Bennet hwn, sydd â'i galon yn Eglwys Rufain, yn dewis aros yn Eglwys Loegr, yr hon meddir wrthym, yw ateg a rhagfur mawr Protestaniaeth.[113]

Os oedd tebygrwydd diwinyddol rhwng Tractariaeth a Phabyddiaeth yn codi amheuon yr Ymneilltuwyr, yna roedd gweld Anglicaniaid Tractaraidd yn gadael Eglwys Loegr er mwyn ymuno ag Eglwys Rhufain yn cadarnhau i'r dim yr amheuon hynny. Nodwyd eisoes fel y trodd Newman a nifer o glerigwyr eraill yn Lloegr. Ond bu sawl achos yng Nghymru hefyd. Un a gafodd gryn sylw oedd yr Arglwydd Fielding o Dremeirchion. Bu ar un adeg yn Anglican pybyr, a roddodd arian tuag at godi eglwys newydd yn ei bentref ei hun. Fodd

---

[111] *Seren Gomer*, 24 (1841), t.162.
[112] Ieuan Ddu Glan Sorwy, 'Puseyaeth', yn *Seren Gomer,* Mehefin, 1844, t.184.
[113] *Y Drysorfa,* 10 (1856), t.98.

bynnag, trodd ef a'i deulu tuag at Rufain ac aethant â'u heglwys gyda hwy! Bu tŵf cyffredinol mewn Pabyddiaeth yn y plwyf, lle'r sefydlwyd coleg gan y Jesuitiaid. Daeth Fielding dan ddylanwad Mudiad Rhydychen oddeutu 1853. Dyma un sylw a wnaed am ei ddatblygiad ysbrydol, 'Gwirionwyd y creaduriaid hyn gyntaf gan Buseyaeth, ac wedi hynny gwallgofwyd hwynt gan Babyddiaeth'.[114] Un peth oedd i'r Ymneilltuwyr wneud y cysylltiad rhwng y mudiad a Phabyddiaeth, peth arall oedd i gyn offeiriad Pabyddol ei wneud hefyd. Ond dyna a wnaeth Alessandro Gavazzi, cyn-fynach o'r Eidal a sefydlodd yr Eglwys Rydd Efengylaidd yn ei famwlad wedi i'r Pab gael ei orfodi i adael Rhufain yn 1870. Mewn darlith ar 'Babyddiaeth yn Lloegr' yn Nulyn yn 1853 cyfeiriodd at achos Fielding, a mynnai mai cam tuag at Rufain oedd mudiad Rhydychen, a bod y Mudiad yn arwain Lloegr yn ôl at Rufain. Meddai:

> A! chwi Gatholiciaid Seis-Rufeinig - yr ydych yn cydio yn y wlad rydd hon gerfydd y gwallt ... ac yn ei chario at draed y Pab yn Rhufain, mewn trefn i'r Pab sathru ar ei rhyddid. Gwnewch hyn i'w darostwng i fod yn gaeth i'ch Catholiciaeth newydd-anedig.[115]

Roedd sylwadau fel hyn gan un a fu yn Babydd yn fêl ar fysedd yr Ymneilltuwyr.

Noda Tudno Williams fod Ymneilltuwyr yn 'arswydo' rhag i Eglwys Rufain ymledu yng Nghymru. Awgryma fod tri rheswm dros yr arswydo hwn: yn gyntaf, rhoddodd llywodraeth Syr Robert Peel grant i Goleg Maynooth, Iwerddon, lle'r hyfforddid offeiriaid Pabyddol. Ofnai'r Ymneilltuwyr fod hyn yn arwydd bod mwy o gefnogaeth i ddod o du'r wladwriaeth tuag at y Pabyddion. Yr ail reswm a gynigir gan Williams yw achos yr Arglwydd

---

[114] Di-enw, 'Pabyddiaeth', yn *Y Dysgedydd,* 32 (1853), t.62.
[115] Ibid. t.61.

Fielding, a'r tŵf a fu yn y cylch gan yr Eglwys. Ac yn drydydd, yn 1850 penderfynodd y Pab y byddai'n sefydlu esgobaethau yng Nghymru a Lloegr.[116] Ei fwriad oedd sicrhau gofal bugeiliol i'r Pabyddion oedd yma eisoes, ac i'r mewnfudwyr o'r Iwerddon. I'r perwyl ailsefydlodd hierarchaeth esgobol, gydag archesgob ac esgobion oddi tano. Penodwyd Nicholas Wiseman yn gardinal ac yn Archesgob Westminster. Fodd bynnag, bu ymateb chwyrn drwy Brydain ynghylch y penderfyniad hwn gan y Pab. Meddai'r *Times*:

> Is it here, then, in Westminster, among ourselves and by the English throne, that an Italian priest is to parcel out the spiritual dominion of this country – to employ the renegades of our National Church to restore a foreign usurption over the consciences of men and to sow divisions in our political society by an undisguised and systematic hostility to the institutions most readily identified with our national freedom and our national faith? Such an intention must either be ludicrous or intolerable – either a delusion of some fanatical brain or treason to the constitution.[117]

Ffyrnig, hefyd, oedd ymateb y prif weinidog, yr Arglwydd John Russell, a bryderai am 'a pretension to supremacy over the realm of England ... which is inconsistent with the Queen's supremacy'.[118] Bu protestio ar y strydoedd gyda model o'r Cardinal Wiseman yn cael ei losgi 'over a pile of faggots and a barrel of tar'.[119] Ym mis Tachwedd yr un flwyddyn cyhoeddodd yr Archesgob newydd amddiffyniad i weithredoedd ei Eglwys – *An Appeal to the English People*. Ei obaith oedd siarad yn uniongyrchol efo'r bobl gyffredin, gan ddadlau nad oedd y bwl yn bygwth dim ar ryddid Lloegr na'i phobl. Cafodd y cyhoeddiad hwn effaith syfrdanol, gan lwyddo nid yn unig i dawelu'r tyrfaoedd ond hefyd y *Times*.

---

[116] A.Tudno Williams, *Mudiad Rhydychen a Chymru,* t.90.
[117] *The Times*, 19 Hydref, 1850, dyfynnir gan G.A Beck, *The English Catholics* (London, 1950), t.98.
[118] Beck, *The English Catholics*, t.100.
[119] Ibid.

Os oedd y sefydliad yn Lloegr yn fodlon derbyn geiriau cysurlawn Wiseman, nid mor hawdd fyddai tawelu Ymneilltuwyr Cymru. Dal ati i daro Eglwys Rufain a wnaethent hwy. Meddai Philip John, Aberdâr, 'Mae ei gweithrediadau a'i dylanwad niweidiol i wir grefydd a rhyddid am ganrifoedd lawer wedi eu hamdoi mewn niwl a thywyllwch'.[120] Yn ogystal, roedd ei mynachdai wedi bod yn 'felltith i'r wlad am oesoedd lawer'.[121] Pam fod yr Ymneilltuwyr mor gryf yn erbyn yr Eglwys Babyddol a Mudiad Rhydychen? Un rheswm oedd eu bod yn gwadu bod Pabyddiaeth yn wirioneddol Gristnogol. Wrth agor ei ysgrif gyntaf mae J.G.Phillips yn mynnu fod Cristnogaeth yn deillio o air Duw fel y datguddir ef yn y Beibl. Gwrthod y Beibl a wna pob crefydd arall, meddai. Nid oes budd ynddynt, felly, a gwell 'pe bai llawer ohonynt yn cael eu gyrru i ebargofiant'.[122] Ym mhlith yr 'anngrefyddau' hyn y mae Phillips yn cynnwys Mudiad Rhydychen a Phabyddiaeth.[123]

Un o'r athrawiaethau Tractaraidd oedd yn pryderu'r Ymneilltuwyr fwyaf oedd cwestiwn yr olyniaeth apostolaidd. O gredu bod clerigwyr Eglwys Loegr wedi eu hordeinio gan esgobion oedd yn yr olyniaeth hon, roedd y mudiad yn honni mai hwy yn unig oedd wedi eu sefydlu gan berson cymwys. Golyga hyn eu bod yn gwadu cymhwyster gweinidogion Ymneilltuol i fod yn weinidogion o gwbl. Nid rhyfedd i'r syniad hwn gael sylw gan yr Ymneilltuwyr. Roedd yn athrawiaeth oedd yn mynd at wraidd eu hawl i fodoli fel eglwysi ar wahân i Eglwys Loegr. Mae Henry Rees, yn y *Drysorfa*, yn mynd ati i ddadlau nad oes y fath beth â swydd apostol yn bodoli yn yr eglwys bellach. Honna fod y swydd wedi marw efo marwolaeth yr apostolion cyntaf.

---

[120] Philip John, *Seren Gomer,* 36 (1853), t.203.
[121] Ibid. t.204.
[122] J.G.Phillips, t.193.
[123] Ibid.

Trwy hyn y ceisia ddadlau nad yw'r athrawiaeth yn ddilys. Nid pwy a arddododd ddwylo ar weinidog sydd yn ei wneud yn gymwys, ond yn hytrach personoliaeth a gwaith y gweinidog ei hun. Meddai,

> Gyfeillion o bob enwad crefyddol! Mae yr amser yn nesáu ag y myn y byd rywbeth yn ngweinidogion y gair heblaw honiadau uchel. Ai gweinidogion Crist mewn gwirionedd ydych chwi? Dangoswch hynny drwy eich defnyddioldeb. Canmolwch eich hunain wrth bob cydwybod dynion yng ngolwg Duw. Bydded sancteiddrwydd eich bywyd, ac effeithiau iachusol eich gweneidogaeth ar bechaduriaid, yn sêl eich apostoliaeth, ac yn brawf o'ch dwyfol anfoniad. Heb hyn, ni wna honni y pwnc ynghanol segurdod a diffrwythdra ddim ond gwneud yr ymhonnwr, pwy bynnag ydyw, yn fwy anghymeradwy a dirmygus.[124]

Nid trafnidiaeth unffordd yn unig oedd yr ysgrifau cas hyn. Gallodd yr Anglicanwyr hwythau fod lawn mor gas am yr Ymneilltuwyr. Rhwng 1854 a 1858 cyhoeddwyd cyfnodolyn misol gan Fudiad Rhydychen yng Nghymru, sef *Baner y Groes*. Y golygydd oedd John Williams, oedd yn offeiriad efo'r Eglwys, ac ymhlith ei gyfranwyr cyson oedd Nicander.[125] Roedd agwedd Williams tuag at yr Ymneilltuwyr yn hynod negyddol, a gwelent hwy fel sgism oddi wrth y wir Eglwys. Yn y cyfnodolyn hwn cyhuddwyd yr Ymneilltuwyr o beidio â chredu'r Beibl yn llythrennol, ac o beidio â'i ddehongli yng ngoleuni awdurdod yr Eglwys. Roedd eu capeli diaddurn yn arddangos diffyg ffydd yn eu credoau eu hunain, lle'r oedd yr Eglwys yn codi adeiladau hardd oedd yn dangos eu hyder yn eu daliadau. Gwadwyd bod y cynulliadau Ymneilltuol yn eglwysi o gwbl:

> Gall dynion osod eu hunain yn gymdeithasau, dan yr enw o fod yn Eglwys i Grist, ond nid yw yn bosibl, yn ôl yr hyn a ddarllenir yn y Testament Newydd, i'r cyfryw fod yn wir

---

124 Henry Rees, 'Olyniad Apostolaidd', yn *Y Drysorfa*, 25 (1855), t.192.
125 P.Freeman, 'Baner y Groes, a Welsh-language Tractarian Periodical of the 1850's', yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 32 (2002), tt.305-16.

> Eglwysi, oddieithr eu bod wedi deilliaw yn rheolaidd oddiwrth yr Eglwys a sefydlwyd gan Grist trwy yr Apostolion.[126]

O wadu bod yr Ymneilltuwyr yn meddu ar eglwysi, ac o wadu bod eu gweinidogion wedi eu neilltuo i'r gwaith yn y ffordd gywir, ac felly nad oeddent yn weinidogion o gwbl, roedd rhai pethau yn rhwym o ddilyn. Un o'r goblygiadau hynny oedd mewn priodasau - gan nad oedd y gweinidog Ymneilltuol yn meddu ar awdurdod go iawn, a chan nad oedd y capel yn eglwys, nid oedd priodasau'r Ymneilltuwyr yn ddilys. Cafwyd enghraifft ymhlith y gwaethaf o'r chwerwder rhwng y ddau gorff mewn llythyr ar y pwnc gan 'Efa'. Dyfynnir yn helaeth o'r llythyr hwnnw er mwyn rhoddi blas ar y chwerwder hwn:

> Nid yw y dull a drefnwyd gan y Senedd, er mwyn boddhau yr Ymneilltuwyr, o uno gŵr a gwraig ynghyd, yn ddim mwy o briodas mewn ystyr foesol ac ysgrythurol, nag ydyw neidio dros ysgub. Nid yw ond cytundeb neu fargen wladol hollol. Nid oes un gair o grefydd o'i dechrau i'w diwedd. Dim ond i'r ddeuddyn ddywedyd ymhresenoldeb y Registrar eu bod yn cymmeryd eu gilydd fel gŵr a gwraig, a dyna hi yn fargen. Yr un fath yn union a phe bargennid am geffyl neu fochyn ... Y mae Eglwyswyr yn golygu yr uniad gwladol yn unig fel godineb cyfreithlawn - hynny yw godineb trwy oddefiad y Senedd. 'Glân Briodas' yw Ordinhad yr Eglwys - trefniad anifeilaidd ac aflan ydyw ordinhad y Registrar ... O! yr wyf yn gwrido o herwydd cywilydd merch fy mhobl.[127]

Gwell pe byddai 'Efa' wedi gwrido dros ei sylwadau rhagfarnllyd ei hun. Ond ynddynt cawn y chwerwder ar ei waethaf.

Oherwydd sylwadau fel hyn, y bygythiad o du'r Eglwys, ac yn bennaf oherwydd y cysylltiad a welsant rhwng y mudiad a'r Eglwys Babyddol, chwyrn a chas oedd ymateb yr Ymneilltuwyr i Fudiad Rhydychen. Er bod rhai o blith y mudiad yng Nghymru, megis Nicander, wedi cyfeirio at Eglwys Rufain fel 'y

---

[126] Ibid. t.307.
[127] Ibid. t.309.

butain fawr',[128] parhau â'u hymosodiadau a wnaent. Yn ei gyfrol ar y mudiad dywed Tudno Williams ei fod yn synnu at ddiffyg hunanhyder Ymneilltuaeth yn wyneb twf dylanwad Tractariaeth. Meddai:

> Ni ellir llai na theimlo bod yr arswyd yma'n bradychu diffyg ymddiriedaeth yr arweinwyr Ymneilltuol yn ymlyniad eu dilynwyr wrth y ffydd Brotestannaidd ... ar yr union adeg pan oedd Ymneilltuaeth yn anterth ei dylanwad a'i nerth ... Dyma oes aur Ymneilltuaeth Cymru. O ganlyniad anodd yw deall diffyg hyder arweinwyr yr enwadau.[129]

Heb os cyffwrdda Williams â mater hynod o bwysig fan hyn. Roedd diffyg hunan-hyder amlwg yn perthyn i'r arweinwyr. Ond credwn fod lle ganddynt i'w hamheuon. Yn groes i'r hyn a ddywed Williams, ac fel y gwelsom uchod, roedd gwendidau ysbrydol yn perthyn i Ymneilltuaeth yn y cyfnod hwn, gwendidau a oedd yn amlwg i'r arweinwyr, ac yn peri consýrn dwfn iddynt. Beth bynnag am y cryfder mewn nifer aelodau a datblygiad strwythurol, roedd y gwendidau ysbrydol yn bwysicach iddynt. Rhaid gosod y diffyg hyder yn y cyd-destun hwn. Yn ogystal, credwn fod angen deall nad cystadleuaeth sectyddol, gul yn unig oedd yn peri i'r Ymneilltuwyr ymosod ar y Pabyddion a'r mudiad. Yn gam neu'n gymwys, credent fod Pabyddiaeth yn groes i wir grefydd, a bod unrhyw un a'i dilynai yn troi oddi wrth Dduw. Gweld peryglon ysbrydol i eneidiau a wnaethant wrth i ddylanwad Mudiad Rhydychen gynyddu a chredent fod dyletswydd arnynt i'w wrthsefyll.Ychwanegodd eu canfyddiad o'r mudiad a'i ddylanwad, a thŵf Pabyddiaeth, at y pwysau oedd arnynt fel corff yn y blynyddoedd hynny a arweiniai at y diwygiad.

Mae'r ymdeimlad o argyfwng yn siwr o fod yn ysgogiad cryf oddi fewn i'r ysbryd dynol. Nid oes amheuaeth bod yr ymdeimlad hwn oddi fewn i'r

---

[128] A.Tudno Williams, *Mudiad Rhydychen a Chymru*, t.147.
[129] Ibid. t.149.

eglwysi Ymneilltuol wedi eu hysgogi i geisio adfywiad. Gwelent eu heglwysi mewn perygl. Roedd y byd a'i ddatblygiadau modern yn pwyso fwyfwy ac yn hudo eu pobl i ffwrdd. Roedd yr eglwys wladol, oedd yn dechrau profi cyfnod o lewyrch a chryfder, yn llawer mwy cystadleuol wrth geisio ennill y di-gred. Ond yn bwysicach na dim roedd teimlad fod gwendidau ysbrydol dwfn oddi fewn i'r eglwysi yn bygwth eu safle a'u bywyd. Wrth edrych yn ôl gallwn ddweud mai gor-ymateb, o bosibl, a wnaeth yr arweinwyr hynny i'w sefyllfa. Beth bynnag am hynny, roeddent yn llawn pryder a chonsyrn, ac arweiniodd hynny at geisio dwys am ddylanwadau'r Ysbryd Glân.

Pennod 4.

# Dyheu, paratoi, a blaenffrwyth yr adfywiad.

Er mai pryder oedd yn llenwi calon sawl arweinydd ynghylch cyflwr ysbrydol eglwysi Ymneilltuol Cymru ac mai gweld arwyddion argyfwng oeddent, nid pobl heb ateb i'r sefyllfa oedd y bobl hyn. Nid pobl heb weledigaeth am y dyfodol, ac yn sicr nid pobl heb obaith oeddynt. Roedd ganddynt ffydd ddiysgog yn Nuw i newid y sefyllfa. A'r modd y byddai Duw yn ei ddefnyddio i achub ei eglwys oedd trwy anfon tywalltiad grymus o'i Ysbryd Glân. Byddai'r Ysbryd yn dod â bywyd newydd i'r eglwysi marwaidd. Hynny yw, os dirywiad ysbrydol oedd y broblem, diwygiad oedd yr ateb.

Bydd y bennod hon yn edrych ar y dyheu hwn a fodolai ymhlith arweinwyr y cyfnod cyn y diwygiad. Codai'r dyhead hwnnw o ddau wahanol fan a byddwn yn astudio'r ddau yma. Yn gyntaf, codai o ddealltwriaeth yr arweinwyr o'r Ysgrythurau ac o hanes yr eglwys yng Nghymru. Yn ail, cynyddodd y dyhead wrth i hanes y diwygiad yn America, a gychwynnodd yn Efrog Newydd yn 1857, gyrraedd Cymru. Byddwn yn cloi'r bennod drwy sylwi ar sut y gweithredwyd ar y dyhead hwn mewn ffordd ymarferol gan chwilio am adfywiad. Astudiwn gyfraniad un arweinydd yn benodol, sef y gweinidog Wesleaidd, Thomas Aubrey. Mewn un gylchdaith yn benodol bu ei ymdrechion yn hynod lwyddiannus a chawn gipolwg ar flaenffrwyth y diwygiad o dan ei weinidogaeth.

*i. Ceisio diwygiad.*

Yn y blynyddoedd a arweiniodd at 1858 yr alwad gyson gan yr arweinwyr oedd am adfywiad newydd. Roeddent yn ysu am i Dduw anfon ei Ysbryd ar yr

eglwysi gan iddynt gredu y byddai tywalltiad o'r fath yn newid eu hansawdd yn llwyr. Gan mai oerfel ysbrydol a welsant yn eu pobl, nid rhyfedd iddynt gredu mai adfywiad i gynhesu'r galon oedd yr ateb. Ond seiliwyd yr alwad am ddiwygiad ar ddau beth: eu dealltwriaeth o hanes yr eglwys, a sut y deliodd Duw â'i eglwys yn y gorffennol; a'u dealltwriaeth o'r dystiolaeth Feiblaidd, wrth iddynt ddarllen yno am gyfnodau o adfywiad yn hanes Israel. Hynny yw, er bod ymdeimlad o argyfwng yn perthyn iddynt, nid allan o banig y bu'r alwad hwn am adfywiad, ond o'u diwinyddiaeth. Ac yn rhan o'r ddiwinyddiaeth yr oedd syniadau Charles Finney ac eraill o ddiwygwyr America. Erbyn y cyfnod arbennig hwn daeth Ymneilltuaeth Gymreig i gredu'n ddiysgog mewn gwerth a budd diwygiad crefyddol.

Perthyn i gyfnod diweddarach y mae'r ysgrifennu mawr ar hanes diwygiadau Cymru, yn enwedig er mwyn cynhyrfu'r eglwysi i geisio diwygiad newydd. Ond cawn enghraifft gynnar o hyn yn *Y Drysorfa* yn Chwefror 1855. Penderfynodd y golygydd y byddai cyhoeddi ysgrif o waith William Williams, Pantycelyn, yn fuddiol. Eglurodd fel yr ysgrifennwyd hi yn ystod diwygiad grymus 1762, adfywiad a ddaeth wedi cyfnod o sychder mawr ar yr eglwysi ar ôl y ffrae a fu rhwng Daniel Rowland a Howell Harris yn 1751. Mae'r ysgrif yn ddigon diddorol ynddi ei hun, ond pwysicach yw nodyn y golygydd ar ei diwedd. Eglurodd mai ei reswm dros gyhoeddi oedd er mwyn cyffroi'r darllenwyr i 'weddïo am gyffelyb adfywiad ar grefydd', a hynny oherwydd 'bod arnom, yn ddiau, fel gwlad ac eglwysi, ddirfawr angen am dano.'[1] Dyma enghraifft bwysig o arweinwyr yn cyfeirio at hanes yr eglwysi er mwyn ysgogi gweddi. Mae hefyd yn dangos inni sut y credent y byddai Duw yn rhwym o

[1] Sylwadau'r golygydd, yn William Williams, 'Cynhyrfiadau Crefyddol' yn *Y Drysorfa*, 9 (1855), t.42; am ddiwygiad 1762, gw. Derec Llwyd Morgan, *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul, 1981), tt.68-9, 73-4; idem 'Taith i Langeitho' yn *Pobl Pantycelyn* (Llandysul, 1986), tt.1-19.

ymateb i weddïau'r saint a deffroi ei eglwys trwy ddiwygiad. Gan fod Duw wedi gwneud hynny yn y gorffennol gellid disgwyl iddo weithredu yn yr un modd eto. Ymgais sydd yma i gyffroi'r eglwysi a'u hannog i gredu a gweddïo am dywalltiad grymus o'r newydd. Wrth gwrs roedd y gred mewn gwerth diwygiadau yn eang yng Nghymru, a byddai atgofion y to hŷn o ddiwygiadau'r gorffennol yn fyw iawn o hyd yn y 1850au.

At yr Ysgrythur y trodd 'Hiraethlon' am gyfiawnhad dros alw am ddiwygiad. Mewn ysgrif yn y *Drysorfa* yn Ionawr 1855 dywedodd y byddai tywalltiad o'r Ysbryd yn bywiocáu'r pregethwyr a'r rhai oedd yn gwrando fel ei gilydd. Yn benodol, credodd y byddai'r 'gwrandawyr', sef y dosbarth hwnnw o'r gynulleidfa nad oeddent yn gyflawn aelodau, yn cael eu troi. Barnodd y byddai'r Ysbryd yn cyffwrdd y bobl hyn mewn oedfa, a'u hail-eni. Ei gri oedd, 'O anadl tyred, anadla ar y lladdedigion hyn.'[2] Taro nodyn beiblaidd a wnaeth gyda'r gri hon, gan gyfeirio at broffwydoliaeth Eseciel ym mhennod 37. Ynddi darllenwn am y proffwyd yn cael gweledigaeth o ddyffryn yn llawn esgyrn sychion. Wedi i'r esgyrn gasglu at ei gilydd a ffurfio'n gyrff o'r newydd galwyd ar Eseciel i broffwydo ar yr Ysbryd i ddod a chwythu ei anadl ynddynt a rhoi bywyd iddynt. Prin fod angen fawr o ddychymyg i weld mai cymharu'r eglwysi Cymraeg i'r esgyrn sychion a wnaeth 'Hiraethlon', a gredodd fod angen tywalltiad grymus o'r un Ysbryd er mwyn dod â bywyd iddynt hwythau. Cyfeiriodd Isaac Thomas, Merthyr, at hanes y Pentecost yn Llyfr yr Actau. Sylwodd Thomas fel y bu'r Ysbryd yn fodd i wneud y pregethu yn effeithiol gan ennyn ymateb mawr yn y rhai a fu'n gwrando.[3] Gwelodd yr awduron hyn ddarluniau o brofiad yr eglwys yn y Beibl. Gwelsant luniau o'r eglwys

---

[2] 'Hiraethlon', 'Awgrym i wrandawyr a phregethwyr', yn *Y Drysorfa*, 9 (1855), t.7.
[3] I.Thomas, 'Achos o'r marweidd-dra crefyddol', yn *Yr Eurgrawn*, 20 (1856), t.155.

ddifywyd a di-sêl, a gwelsant mai'r ateb i'r clwyf oedd adfywiad wrth i Dduw ymyrryd ac anfon ei Ysbryd. Gan eu bod yn credu'n ddigwestiwn yn y Beibl fel datguddiad llawn o air a gwirionedd Duw, mater bychan oedd cymhwyso egwyddorion y Beibl i fywyd eu heglwysi. Roedd Thomas a 'Hiraethlon', felly, yn deall mai un o swyddogaethau'r Ysbryd Glân oedd dod â bywyd newydd i'r eglwys, a chan fod hanes Ymneilltuaeth Cymru yn llawn digwyddiadau o'r fath, a bod diwinyddiaeth Finney ac eraill wedi cadarnhau hynny iddynt, naturiol oedd iddynt alw ar i'r eglwysi weddïo am dywalltiad yn eu cyfnod eu hunain.

Galw am rym yr Ysbryd a wnaeth Thomas Phillips yntau yn 1858, ac, fel y gwelsom, ef fyddai hanesydd cyhoeddedig cyntaf y diwygiad a fyddai'n dilyn. Roedd angen yr Ysbryd, meddai, oherwydd er pwysiced ffurf allanol crefydd nid oedd yn ddim heb grefydd y galon a'r 'bywyd tumewnol'. Awdur y bywyd hwn yw'r Ysbryd Glân. Gyda'r sefyllfa gyfoes yn bur llwm, 'adfywiad ar grefydd' oedd 'un o brif anghenion ein gwlad'.[4] Ei fwriad, meddai, wrth gyhoeddi'r ysgrif, oedd 'codi hiraeth ym mhawb a'i darlleno am "amseroedd o olwg (presenoldeb) yr Arglwydd"'.[5] Byddai'r hiraeth hwn yn cymell pobl baratoi am adfywiad newydd, a dyma arwydd amlwg iawn o'r newid diwinyddol sylweddol oedd yn digwydd yng Nghymru ar y pryd. Ynghynt rhywbeth i'w ddisgwyl amdano yn oddefol oedd diwygiad, rhywbeth a ddeuai o law sofran Duw, ac na ellid gwneud dim i'w greu na'i hybu. Erbyn y 1850au, roedd y gred Finneyaidd ynghylch y moddion yn eang a derbyniol hyd yn oed oddi fewn i enwad y Methodistiaid Calfinaidd. Er y credai pawb mai Duw oedd yn gyfrifol am anfon diwygiad, roeddent hefyd yn credu y gellid ymarfer y

[4] T.Phillips, 'Adfywiad Crefyddol', yn *Y Drysorfa*, 12 (1858), t.361.
[5] Ibid.

moddion arbennig a fyddai'n sicrhau y byddai Duw yn ymateb trwy adfywio ei eglwys. Gwelwn enghraifft o hyn yng ngalwad Phillips ar i'r eglwys drefnu cyfarfodydd gweddi gyda'r unig fwriad o alw ar i Dduw anfon ei Ysbryd mewn diwygiad.[6] Dyma syniad y byddai Finney wedi ei gymeradwyo yn fawr.

Cawn enghreifftiau eraill o'r pwyslais hwn ar ddefnyddio'r moddion. Cyhoeddodd David Charles, Trefecca, ysgrif yn y *Drysorfa* yn Ebrill 1858 yn haeru yn 'ddiamheuol' y gellid defnyddio'r moddion er mwyn sicrhau adfywiad.[7] Yn eironig, y Wesle, Isaac Thomas, mewn ysgrif yn yr *Eurgrawn* yn 1856, a bwysleisiodd mai o Dduw yn unig y deuai adfywiad ac na ellid gwneud dim heb ei fendith ef. Fodd bynnag, roedd gan ddyn ei le yn y gwaith, ac meddai: 'Y mae gofyn inni fod yn "gydweithwyr Duw" er cael adfywiad crefyddol'.[8]

Roedd y ddau'n gytûn fod gweddi yn anhepgorol fel un o'r moddion hynny. Wedi'r cwbl, meddai Charles, 'cynulleidfa o weddiwyr' yw eglwys i fod.[9] Tristwch mawr iddo oedd gweld fod lle gweddi mor brin yn y cyfnod, a hyd yn oed mewn eglwysi lle nad oedd hyn yn wir, sylwodd mai gweddïo a wnâi'r bobl heb ffydd y byddai Duw yn ymateb. Roedd y diffyg hwn yn arwydd clir o gyflwr isel crefydd. Yr angen oedd 'gweddi daer; gweddi ddyfal; a gweddi na chymer nacâd'.[10] Byddai gweddïo felly yn dilyn patrwm gweddïau'r gorffennol, meddai: sef Cristnogion yn casglu at ei gilydd i alw am ddiwygiad, ac yn parhau i weddïo yn ddyddiol hyd y deuai. Dyna awgrym Thomas hefyd, 'Parhau i weddïo yn ddi-baid; dal gafael yn Nuw. Gweddïo yn

---

[6] Ibid. t.366.
[7] D.Charles, 'Addewid yr Ysbryd', yn *Y Drysorfa*, 12 (1858), t.115.
[8] Thomas, 'Achos o'r marweidd-dra crefyddol', t.154.
[9] Charles, 'Addewid yr Ysbryd', t.115.
[10] Ibid. t.115.

barhaus am adfywiad nes cael adfywiad'.[11] Yn ogystal â dysgu ei ddarllenwyr sut i weddïo, rhestrodd Thomas destunau gweddi iddynt, gan ddweud bod angen cofio'r gweinidogion a'r pregethwyr, y blaenoriaid, cyd-aelodau, y gwrandawyr a'r gwrthgilwyr. Trwy weddïo dros y bobl hyn yn benodol byddai Duw yn siŵr o anfon ei Ysbryd arnynt. Yn amlwg iawn roedd pwyslais fel hyn ar weddi yn adlewyrchu syniadau Charles Finney. Sylwasom fel y rhoddodd ef bwyslais mawr ar weddïo am ddiwygiad, ac yn benodol y dylid gweddïo mewn ffydd a chyda dyfalbarhad. Dyna'r math o weddïau y byddai Duw yn ymateb iddynt.

Profodd Thomas i fod yn ddisgybl da i Finney, hefyd, wrth awgrymu cynnal cyfres o gyfarfodydd diwygiadol. Awgrymodd y dylai'r gweinidog 'bregethu'n fyr' i 'hen wrthgilwyr' ar y noson gyntaf, ac yna ar yr ail i 'wrthgilwyr', yn drydydd i bobl ieuanc, ac yn olaf i'r eglwys. Ar ôl y bregeth dylai rhai o aelodau mwyaf duwiol yr eglwys weddïo - o bosib am ymateb i'r bregeth.[12] Roedd Thomas yn gwbl hyderus y byddai Duw yn ymateb i gynllun fel hyn, sy'n tanlinellu dylanwad syniadau Charles Finney arno.

Roedd David Charles am weld moddion eraill yn cael eu defnyddio yn ogystal â'r gweddïo. Yn gyntaf, credai fod angen llawer mwy o genhadu ymhlith pobl y byd. Roedd dyletswydd ar bob aelod i gyflawni'r gorchwyl hwn, meddai, ac nid dim ond y gweinidog. Roedd cenhadu fel hyn yn rhan o'r frwydr fawr ysbrydol rhwng Duw a'r diafol. Meddai:

> Disgwylir i fyddin yr Oen wneuthur rhyw beth mwy nag amddiffyn y gwirionedd a chrefydd, sef ymosod ar deyrnas y tywyllwch a darostwng dynion, dan arweiniad a chynhorthwy eu Cadben, i ufudd-dod Crist.[13]

---

[11] Thomas, 'Achos o'r marweidd-dra crefyddol', t.158.
[12] Ibid.
[13] Charles, 'Addewid yr Ysbryd', t.116.

Yr ail fodd a awgrymodd Charles oedd y dylai Cristnogion drafod mwy ar grefydd gyda'i gilydd. Roedd hynny wedi prinhau yn y cyfnod ac roedd angen mwy o gymdeithasu Cristnogol. Yn drydydd, roedd angen darllen a myfyrio mwy ar yr Ysgrythurau. O gredu'r Gair, gellid disgwyl i Dduw gyflawni ei addewidion.[14] Unwaith yn rhagor ymgais sydd gan Charles yma i gynhyrfu dipyn ar Gristnogion, eu cael i ddeffro o'u cysgadrwydd ysbrydol, a'u cymell i ymbaratoi am ddiwygiad.

Mewn ysgrif yn *Y Diwygiwr*, misolyn yr Annibynwyr, darluniodd H.Davies y manteision o dderbyn grym yr Ysbryd yn yr eglwysi. Iddo ef 'gweinidogaeth yr Ysbryd yw prif ogoniant yr eglwys'.[15] Roedd llawer o bethau o fantais i fywyd eglwys ac i'w llwyddiant, meddai, pethau fel gweinidog dawnus, nifer helaeth o aelodau, digon o arian, a digon o ddoniau – ond heb yr Ysbryd Glân ofer fyddai'r pethau hyn i gyd. Meddai, 'Ond os yn amddifad o'r Ysbryd Glân, mae y brif olwyn yn mheiriant achub yn eisiau'.[16] Er mai ymhlith yr Annibynwyr y cafodd Finney ei gefnogwyr mwyaf brwd, mae sylw felly yn dangos i'r dim pa mor bwysig oedd dylanwad Duw ar ei eglwys i'r bobl hyn. Oedd, roedd yr hen Galfiniaeth uchel wedi ei chymedroli gryn dipyn – ond Duw a'i allu oedd yn y canol o hyd.

Un o fanteision derbyn mesur helaethach o'r Ysbryd oedd ail osod y 'llinell terfyn' yn ei lle, sef y llinell rhwng sancteiddrwydd a phechod.[17] Roedd perygl bod y llinell hon wedi ei symud a bod pechod wedi cael lle oddi fewn i fywyd credinwyr a'r eglwys. Ond byddai pechod yn cael ei wthio i'r neilltu wrth i'r Ysbryd lenwi'r eglwys o'r newydd a byddai 'balchder, ymffrost,

---

[14]Ibid. t.117.
[15] H.Davies, 'Yr Ysbryd Glan', yn *Y Diwygiwr*, 21 (1856), t.8.
[16] Davies, 'Yr Ysbryd Glân', t.8.
[17] Ibid. t.8.

tramgwydd, ymryson, difenwi' yn cael eu bwrw allan. Yn wir, byddai'r eglwys yn llawn o ffrwythau daionus yr Ysbryd.[18] Mantais arall fyddai ennill anghredinwyr at y ffydd, 'Mae dylanwad yr Ysbryd Glân yn hanfodol er ennill i'r ffydd, enillwyd neb hebddo'.[19] A chan fod cynifer yng Nghymru heb fod yn Gristnogion roedd yn angenrheidiol cael yr Ysbryd er mwyn eu cyrraedd efo'r newydd da. Y fantais olaf o dderbyn yr Ysbryd ym marn Davies oedd bod ei angen er mwyn trosglwyddo'r ffydd 'yn ei phurdeb' i'r to oedd yn codi. Heb yr Ysbryd roedd perygl trosglwyddo crefydd oer a marwaidd, a byddai hyn yn drasiedi. Meddai, 'Peth mawr yw dangos crefydd yn ei gwerth, yn ei gwres, ac yn ei phleser i'r oes sydd yn codi'.[20] Mae'n amlwg fod Davies wedi sylwi ar yr hyn y sylwodd eraill yn y cyfnod, sef bod cenhedlaeth yn codi yn yr eglwysi nad oedd ganddi brofiad teimladwy o'r ffydd. Er eu bod yn mynychu nifer o gyfarfodydd yr eglwys roedd crefydd ysbrydol y galon yn brin ynddynt, a'r ateb oedd diwygiad.

Mae'r awydd am ddeffroad newydd yn eglwysi Cymru yn amlwg iawn yn yr ysgrifau uchod. Yr alwad gyson oedd am i Dduw anfon ei Ysbryd i gyffroi a deffro a bywiocáu unwaith yn rhagor. Credwn fod dwy gynsail y tu ôl i'r oll o'r enghreifftiau uchod: yn gyntaf, eu cred mai diwygiad gan Dduw oedd yr ateb i'r problemau a wynebid gan yr eglwysi; ac yn ail, eu cred bod posibl defnyddio moddion arbennig a fyddent, yn eu tro, yn sicrhau ymateb Duw trwy anfon diwygiad. Roedd 'diwygiadaeth' a dylanwad Finneyiaeth yn amlwg iawn ar nifer sylweddol o arweinwyr eglwysig y cyfnod. Yn wir, yn y blynyddoedd a arweiniai at y diwygiad ni ddaethpwyd ar draws yr un ysgrif a ddadleuai yn erbyn yr ymarfer o foddion er mwyn sicrhau adfywiad.

[18] Ibid. t.8.
[19] Ibid. t.9.
[20] Ibid.

*ii. Diwygiad 1857 yn America: Y persbectif yng Nghymru.*

Efo pob arwydd o drai ac efo pob galwad am adfywiad newydd roedd yr awydd am ddiwygiad yn cynyddu. Ac i ganol awyrgylch fel hyn y daeth y newydd am ddiwygiad grymus oedd ar waith yn America yn 1857. Gyda chymaint o Gymry yn byw yno roedd diddordeb cyffredinol Ymneilltuwyr Cymru yn y wlad neywdd yn fawr.[21] Daeth y newydd i glyw'r eglwysi Cymraeg mewn dwy ffordd - yn gyntaf, cafwyd unigolion oedd wedi mudo i America yn ysgrifennu gartref yng Nghymru am y digwyddiadau yn y wlad newydd. Ac yn ail, cyhoeddwyd llyfrynnau oedd yn adrodd a dadansoddi'r hanes yn America. Pwrpas yr adran hon yw edrych ar yr ail fath o drosglwyddo'r newydd.

Cyhoeddwyd tri llyfryn o'r math hwn yn y Gymraeg: *Y Diwygiad Crefyddol Mawr yn America* gan D.Evans, Aberaman,[22] *Nerth Gweddi* gan Samuel I.Prime,[23] a *Y Cwrdd Gweddi a'r Diwygiad Americanaidd* gan J.Bevan, Llansadwrn.[24] Cyfieithiad o'r Saesneg gwreiddiol oedd yr ail gyhoeddiad o waith un oedd yn llygad dyst i'r cwbl yn America. Ni roddodd y ddau awdur arall fanylion o ble y cawsant eu gwybodaeth, ond mae'n amlwg bod eu ffynonellau yn gywir gan fod eu gwaith yn adlewyrchiad da o'r hyn ddigwyddodd yn America ar y pryd. Fel darlith i'w eglwys ei hun y gwelodd gwaith D.Evans olau dydd gyntaf oll, a hynny cyn i'r diwygiad yng Nghymru gychwyn. Fodd bynnag, aeth rhai misoedd heibio cyn y cyhoeddwyd ei waith,

---

[21] Cf. Iorthryn Gwynedd, *Hanes Cymry America* (Utica, 1872), W.D.Davies, *America a Gweledigaethau Bywyd* (4ydd arg., Merthyr Tudful, 1899).
[22] D.Evans, *Y Diwygiad Crefyddol Mawr yn America, neu Fuddugoliaeth Duw ar Fammon yn y byd newydd yn 1858* (Aberdar, 1858).
[23] S.I.Prime, *Nerth Gweddi: yn cael ei arddangos yn yr amlygiadau rhyfeddol o ddwyfol ras mewn cysylltiad a'r Diwygiad Crefyddol yn America* (Caernarfon, 1859). Cyfieithiwyd gan T.Thomas, O.Jones, J.Pritchard, D.Roberts, a W.Davies.
[24] J.Bevan, *Y Cwrdd Gweddi a'r Diwygiad Americanaidd ynghyd a pheryglon a manteision y diwygiad i'r eglwys a'r byd* (Llandilo, 1860).

ac erbyn hynny roedd Humphrey Jones wedi cychwyn ar ei waith yng ngogledd Sir Aberteifi.

Mae'r tri chyhoeddiad yn nodi pwysigrwydd y cwymp ariannol a masnachol yn Efrog Newydd i gychwyniad y diwygiad yn America. Ar 24 Awst 1857 methodd cangen Efrog Newydd o gwmni Ohio Life Insurance and Trust, a daeth y newyddion allan yn fuan bod yr oll o gyfalaf pencadlys y cwmni wedi ei ddwyn. Yn syth rhoddodd banciau Efrog Newydd amodau llym ar bob gweithrediad masnachol, a dilynwyd hyn gan gwymp enfawr yn y farchnad stoc wrth i banig ymledu drwy'r sector ariannol. Yn ychwanegol at hyn tynnwyd cyfalaf Prydeinig o fanciau America, cwympodd prisiau grawn, gwerthodd Rwsia gotwm i America am bris isel, a methodd rhai o gwmnïau rheilffyrdd y wlad â thalu eu dyledion. Ar ben y cwbl suddodd y llong *Central America* oedd yn cludo aur o San Francisco i greu cronfa wrth gefn i fanciau'r dwyrain, a chollwyd gwerth tua $30,000 yn y môr. Golygodd y ffactorau hyn bod buddsoddwyr yn tynnu eu harian allan o'r banciau, ac ymhen amser dechreuodd rhai o'r banciau gwympo. Yng nghanol Hydref 1857 roedd y broblem mor ddrwg nes y bu rhaid atal gweithredu ariannol ym manciau Efrog Newydd a Lloegr Newydd. Effeithiodd hyn y wlad i gyd wrth i'r economi gael ei dirwasgu, a chollwyd swyddi wrth y miloedd.

I sylwebyddion Cristnogol roedd y chwalfa ariannol yn arwydd o farn Duw ar fyd busnes. Roedd trachwant y sector ariannol wedi tyfu i'r graddau lle na allai Duw ganiatáu iddo barhau yn hwy. Meddai D.Evans:

> Yr oedd ei gwaed yn ddrwg - ei thewdra yn rhy afiach - ei balchder yn rhy feiddgar - ei thrais yn rhy ormesol - a'i thwyll yn rhy felldigedig i Dduw cyfiawnder a gwirionedd i'w oddef yn hwy.[25]

[25] D.Evans, *Y Diwygiad Crefyddol*, t.19.

Oherwydd hyn rhoddodd Duw 'atalfa ar eu huchelgais gwallgof' gan gymharu hynny i hanes chwalu Tŵr Babel yn Genesis.[26] I'r Beibl yr aeth y sylwebyddion hyn, felly, i chwilio am resymau am y cwymp ariannol. Gwelsant ôl llaw Duw yn y cwbl. Gallasant wneud hynny oherwydd eu cred bod Duw ar waith mewn hanes. Er mai'r efengyl oedd yn achub dynion, meddai Evans, 'Yr amgylchiadau a'r achlysuron yn ac ar y rhai y dygir dynion i gysylltiad â dylanwad y moddion hyn ŷnt yn aml gyfyngderau rhagluniaethol'.[27]

Cytunodd Samuel Prime â'r farn bod Duw wedi gweithredu trwy'r cwymp ariannol. Iddo ef roedd masnach America wedi tyfu i'r graddau nad oedd gan y masnachwyr le yn eu bywyd i Dduw: aeth masnach a gwneud arian â'u bryd i gyd. Fodd bynnag, trwy'r chwalfa gallodd Duw ddod â'r bobl hyn yn ôl ato'i hun. Gorfodwyd hwy i geisio'r Arglwydd o'r newydd.[28] Er bod J.Bevan yn gweld cysylltiad amlwg rhwng y diwygiad a'r problemau ariannol, roedd yn ofalus wrth ddweud nad y cwymp ariannol oedd yn gyfrifol am yr adfywiad. Duw yn unig a haeddai'r clod am gychwyn y diwygiad hwn, meddai.[29]

Olrheiniodd Prime yn eithaf manwl hanes cychwyn y diwygiad yn Efrog Newydd. Jeremiah Calvin Lanphier gaiff y clod am gynnal y cyfarfodydd gweddi lle dechreuodd y diwygiad. Roedd Lanphier yn genhadwr gyda'r Eglwys Isellmynig Ogleddol yn Stryd Fulton, Efrog Newydd ac yn ôl Prime treuliai oriau yn gweddïo er mwyn derbyn cyfarwyddiadau manwl Duw ar sut i gyrraedd anghredinwyr efo'r efengyl. Cynhaliodd Lanphier y cwrdd gweddi cyntaf ar gyfer gwŷr busnes yn ei gapel yn Stryd Fulton ar 23 Medi, 1857 a

[26] Ibid. t.19.
[27] Ibid. t.25.
[28] S.I.Prime, *Nerth Gweddi*, t.17-8.
[29] J.Bevan, *Y Cwrdd Gweddi*, t.5.

hynny dros awr ginio canol dydd. Trefnodd y cyfarfod yn ofalus, gan orchymyn mai pytiau byr yn unig oedd cyfraniad pob un a gymerai ran, a hynny er mwyn sicrhau nad oedd yn rhaid i neb aros drwy'r cyfarfod i gyd. Nid oedd neb i weddïo am fwy na phum munud, ac os byddai neb yn gwneud hynny gallai ddisgwyl i lywydd y cyfarfod dorri ar ei draws. Wrth i'r diwygiad barhau rhoddid rhybudd ysgrifenedig i fyny ar furiau'r ystafelloedd lle y cynhelid y cyfarfodydd efo'r rheol hwn arno.

Chwech yn unig oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf. Erbyn yr wythnos ddilynol roedd ugain wedi casglu ynghyd, ac erbyn y drydedd wythnos daeth rhwng 30 a 40 yno. O'r pedwerydd cyfarfod ymlaen penderfynodd Lanphier gynnal y cyfarfodydd bob dydd, a chynyddodd y niferoedd yn gyson wrth i broblemau ariannol y ddinas ddwysáu. Tua diwedd mis Hydref 1858 ymwelodd Lanphier â rhai o olygyddion y papurau crefyddol er mwyn sicrhau sylw i'r cyfarfodydd. Ac erbyn Ionawr 1859 roedd wedi ymweld â golygyddion rhai o'r papurau secwlar yn ogystal. Sicrahodd hyn sylw eang i'r cyfarfodydd, a chynhwysodd rhai o'r papurau cenedlaethol hanesion cyson am y diwygiad.

Er gwaethaf y cyfeiriad at yr hysbysebu hwn, roedd Prime o'r farn nad oedd moddion Finneyaidd ar waith yn y diwygiad. Un o'r hen do Calfinaidd ydoedd a wrthwynebai'r defnydd o foddion fel egwyddor. O Dduw y daeth yr adfywiad hwn, meddai. Nid oedd gan ddyn unrhyw ran yn ei gynhyrchu. Ychwanegodd, 'Nid oedd dim pregethu adfywiadol. Dim pregethwyr adfywiadol; dim peiriannu o un math i gynhyrchu adfywiad, fel ag yr oedd yn gyffredin yn y dyddiau gynt'.[30] Y cwrdd gweddi oedd yn ben yn yr adfywiad. Trwyddo y daeth bywyd newydd i'r eglwys, ac y dychwelyd nifer fawr o

[30] S.I.Prime, *Nerth Gweddi*, t.47.

anghredinwyr. Cynyddodd y gred mewn gweddi i raddau na welwyd o'r blaen ymhlith y credinwyr, ac arweiniodd hyn at godi gobeithion pobl at y dyfodol:

> Ni fu erioed o'r blaen ... y fath ofyn mewn gweddi – y fath grediniaeth mewn gweddi; nac erioed y fath atebion i weddi ... Dechreuai y Cristnogion deimlo eu bod wedi dechrau ar gyfnod newydd o ffydd a gweddi; ac a ydyw yn rhyfedd fod y gobaith a'r llawenydd newydd yma wedi ymdaenu gyda chyflymder dirfawr dros y tir – wedi ymchwyddo fel ton, dros yr holl wlad?[31]

Rhoddodd Prime ddisgrifiad manwl o'r hyn a fyddai'n digwydd mewn cyfarfod gweddi ynghanol tanbeidrwydd y diwygiad. Byddai gan y llywydd nifer o geisiadau gweddi ar bapur a roddwyd iddo gan aelodau o'r gynulleidfa. Dyma bobl a geisiai weddi dros deulu neu gyfeillion iddynt. Darllenai'r llywydd y ceisiadau hyn allan a châi'r gynulleidfa gyfle i weddïo drostynt. Yna byddai un neu ddau o'r gynulleidfa yn sefyll i ddweud eu profiad, yn benodol i adrodd sut y credent fod Duw wedi cyffwrdd a hwy yn ystod cyfnod y diwygiad. Byddai mwy o weddïo. Yna caed anerchiad byr pryd y cyflwynwyd neges yr efengyl mewn ffordd seml ond apeliadol. Cymhellwyd y di-gred i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath, ac ar brydiau byddai'r gynulleidfa yn gweddïo dros y bobl hynny ar goedd, gan alw ar Dduw i'w dychwelyd at grefydd. Dyma enghraifft o'r pwysau mawr a roddwyd ar bobl i dderbyn crefydd. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch â pha mor gywir oedd Prime ac eraill wrth honni na fu dylanwad Finneyaidd ar yr adfywiad. Un o nodweddion y cyfarfodydd oedd tystiolaeth gan rai a dderbyniodd grefydd oherwydd i'r gynulleidfa dreulio amser yn gweddïo drostynt mewn cyfarfod blaenorol. Cafwyd enghreifftiau hefyd o weddïo dros bobl oedd bellter maith i ffwrdd, a'r rheini yn profi tröedigaeth ar yr union awr y gweddïwyd drosto. Cafwyd sawl

---

[31]Ibid. t.44.

enghraifft o hyn yn digwydd i forwyr.[32] Un hanesyn diddorol yw'r un am y milwr Prydeinig anghrediniol yn yr India a oedd ar fin marw oherwydd salwch. Anfonwyd cais am weddi at gyfaill o Gristion iddo yn America ar hyd gwifrau'r telegraff, a daeth y neges yn ôl i America ei fod wedi ei achub.[33] Faint o goel allwn ni roi i hanesion o'r fath, ni wyddom. Ond yn sicr roedd eu hailadrodd ar hyd a lled America a Chymru yn fodd i gynyddu'r diddordeb yn y diwygiad.

Un o ffrwythau pwysig y diwygiad ym marn Prime oedd bod moesoldeb pobl wedi gwella o'i herwydd. Ynghynt roedd y wlad yn edrych yn dywyll iawn. Ond daeth tro ar fyd. Meddai:

> Y mae wedi cael dylanwad nerthol er gosod terfyn ar dwyll dros yr holl wlad – y mae wedi soddi yn ddwfn i gydwybod dynion, ac wedi dysgu iddynt eu dyletswyddau – y mae wedi gwasgau ei oleuni ar galonnau dynion o wahanol ganghennau masnach ac wedi gwneud iddynt deimlo pa beth ydyw hawliau cyfraith yr Efengyl yn eu perthynas a masnach ... ac y mae cydwybodau llawer o ddynion wedi eu cyffroi a'u goleuo gymaint, fel nas gallant barhau yn eu galwedigaethau, teimlant yn rhwym i'w rhoddi i fyny.[34]

Gan mai twyll mewn cwmni masnach oedd un o'r rhesymau dros y cwymp ariannol, naturiol oedd i arweinwyr eglwysig chwilio am ffrwyth yn y maes hwn.

Roedd moesoldeb masnachwyr America yn bwysig yng ngolwg D.Evans wrth iddo yntau werthuso'r diwygiad yno. Gosododd y diwygiad yn ei gyd-destun cenedlaethol trwy egluro bod gwahanol genhedloedd yn meddu ar wahanol nodweddion. 'Diwydrwydd, gonestrwydd, a charedigrwydd' oedd nodweddion y Cymry meddai, tra roedd y Gwyddelod yn meddu ar 'ddiogi, twyll, a digrifwch', ac mewn tri gair gwrthbrofodd ei bwynt ynghylch

---

[32] S.I.Prime, *Nerth Gweddi*, t.113.
[33] Ibid. t.114.
[34] Ibid. t.46

caredigrwydd y Cymry! Er bod 'cydymdeimlad a chydweithrediad' yn rhan o nodweddion yr Americaniaid, roeddent hefyd yn meddu ar 'hunanoldeb ac ymffrost, awydd a brys am ddyfod yn gyfoethog'.[35] Eu bai mwyaf, fodd bynnag, oedd eu heilunaddoliaeth. Meddai, 'Plygant o flaen y dollar lawer yn amlach nag o flaen Arglwydd Dduw y nefoedd a'r ddaear'.[36]

Cymharodd gyflwr isel crefydd Cymru i gyflwr crefydd America cyn y diwygiad:

> Marweidd-dra a difaterwch crefyddol, yn nghyd ag awydd anniwalladwy am y byd, a deyrnasai ym mhob lle, ac yn agos yn mhob mynwes. Yr oedd duwioldeb yn nychu ac yn dyhoeni ... Yr oedd y byd wedi gwasgu ar yr eglwys, ac wedi ei hysbeilio o'i hawliau mwyaf cysegredig.[37]

Roedd y gymhariaeth hon yn bwysig. Y consýrn am gyflwr isel crefydd fyddai'n creu awydd am adfywiad ac yn sicrhau fod y gweddïo amdano yn daer a diwyd.

Nododd Evans y tair ffordd y bu arweinwyr eglwysig America yn hybu'r diwygiad yn eu plith. Roedd lle pwysig i'r anerchiadau byr a phwrpasol, ac i ymweliadau o dŷ i dŷ er mwyn hybu'r rhai oedd yn gyndyn o fynychu'r cyfarfodydd. Ond yn bwysicach na dim oedd y cwrdd gweddi. Nododd Evans yntau'r rheolau ynglŷn â faint o amser y dylai pob person ei dreulio'n gweddïo a sut y sicrheir cais am weddi drwy ei ysgrifennu a'i roi i lywydd y cyfarfod. Roedd angen i Gymru ddeall o'r newydd werth y cwrdd gweddi, meddai, oherwydd dyma brif arf yr eglwys yn ei gwaith, 'Peth da yw pregethu yr efengyl i bechaduriaid, ond gweddi yw arf gryfaf yr eglwys, a'r moddion uniongyrchol yn aml i ddychwelyd eneidiau'.[38]

---

[35] D.Evans, *Y Diwygiad Crefyddol*, t.12.
[36] Ibid. t.13.
[37] Ibid. t.16.
[38] Ibid. t.31.

Fel Samuel Prime, mae Evans am fynnu mai gwaith Duw yn unig oedd y diwygiad yn America. Wrth agor pennod yn trin y mater hwn, mae'n mynegi ei siom yn rhai o ddiwygiadau'r gorffennol, gan awgrymu fod mwy o ddylanwad dyn na Duw wedi perthyn iddynt. Meddai:

> Gan fod ein gobeithion a'n disgwyliadau wedi cael eu siomi mor aml gyda golwg ar yr hyn a elwir yn ddiwygiadau crefyddol, o herwydd fod eu canlyniadau yn wrthweithiad poenus i'r hyn y proffesant fod, gyda'r pryder mwyaf y darllenwn, o ddechrau y flwyddyn, y newyddion a'n cyrhaeddodd o America gyda golwg ar y diwygiad mawr hwn.[39]

Dyma ddatganiad mawr a dadleuol o'i eiddo. Nid un i dderbyn unrhyw fath o ddiwygiad oedd Evans. O bosib mai cyfeirio at ddiwygiadaeth ydoedd, a bod ganddo wrthwynebiad i dechnegau Finneyaidd. Fodd bynnag, wedi dod i iawn ddeall yr hyn a ddigwyddai yn America cafodd ateb i'w bryderon a sylweddolodd mai o Dduw yr oedd yr adfywiad yno. Cynigiodd dri rheswm dros honni bod 'llai o ddyn, a mwy o Dduw' yn y diwygiad hwn.[40] Yn gyntaf, nid oedd yn dibynnu ar hyawdledd unrhyw bregethwr. Yn ail, daeth drwy gerydd Duw ar y fasnach ariannol. Ac yn drydydd, y cyfarfodydd gweddi oedd y prif gyfarfodydd ynddo. Roedd nifer o effeithiau buddiol yr adfywiad hefyd yn profi mai Duw oedd ei awdur: eglwysi yn cael eu bywiocáu; chwaraedai hapfasnach yn cael eu troi yn dai gweddi; pobl yn cael eu hachub at grefydd, gan nodi fod 50,000 yr wythnos yn cael eu hachub ar fan uchaf yr adfywiad; bywydau credinwyr yn cael eu sancteiddio; a beiau, megis talu dyledion, yn cael eu hunioni. Fel Prime, sylwodd Evans ar effaith y diwygiad ar foesoldeb a oedd yn brawf heb ei ail mai o Dduw y daeth. Meddai:

> Y mae dylanwad bendithiol yr adfywiad ar foesoldeb personol,

---

[39] D.Evans, *Y Diwygiad Crefyddol*, tt.33-34.
[40] Ibid. t.34.

> dedwyddwch teuluaidd, heddwch cymdeithasol, a gweddeidd-dra cyffredinol, wedi peri i luaws, a edrychent unwaith yn oeraidd arno, orfod tystio fod bys Duw ynddo.[41]

Nodwedd arall a dynnodd sylw Evans oedd y diffyg teimladrwydd poeth. Condemniodd y diwygiadau hynny lle ceid 'gweledigaethau, llesmeiriau, ocheneidiau, llewygion, bloeddiadau, neidio, ymaflyd yn eu gilydd, rhwygo dillad, tynnu gwallt etc'.[42] Gan fod nifer o'r nodweddion hyn yn bur gyffredin yn niwygiadau Cymru rhaid bod gan Evans gryn broblem efo talp go helaeth o hanes diwygiadol ei genedl ei hun. Yn anffodus, nid yw'n cynnig ei sylwadau ar hynny. Roedd adfywiad America yn un tawel, fodd bynnag, ac roedd hyn wrth fodd Evans, ac yn brawf fod Duw ar waith.

O bob effaith foesol a chymdeithasol, disgwyliodd Evans mai'r effaith bwysicaf ohonynt i gyd fyddai diwedd ar gaethwasiaeth. Cododd ei obeithion yn hynod o uchel wrth ddweud, 'Hyderaf nad ydym yn gobeithio am ormod pan yn dysgwyl y gwna y diwygiad nerthol presennol ddylanwadu mor effeithiol nes ei llwyr ddiddymu'.[43] Mae'n debyg i Evans, fel eraill, gael ei siomi'n enfawr wrth weld diwedd y diwygiad yn dod heb ddiwedd ar y gwasanaeth mewn caethion, a bod ei siom o bosibl yn fwy pan lithrodd America i ryfel cartref ar y mater ymhen ychydig o flynyddoedd wedyn. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi pa mor uchel oedd disgwyliadau arweinwyr eglwysig o'r diwygiad hwn. Mae'n dweud llawer wrthym am y syniad uchel oedd ganddynt am adfywiadau yn gyffredinol. Roeddent yn disgwyl iddynt ddiwygio cymdeithas mewn ffordd gwbl sylfaenol wrth i unigolion gael eu troi at grefydd. Gwelwn yr un disgwyliad yng Nghymru, wrth i'r arweinwyr yno

---

[41] Ibid. t.35.
[42] D.Evans, *Y Diwygiad Crefyddol*, t.36.
[43] Ibid. t.44.

ddisgwyl newid cymdeithasol ar gwestiwn dirwest. I'r arweinwyr hyn roedd diwygiad crefyddol yn arf i newid cymdeithas.

Tebyg yw sylwadau J.Bevan ar y diwygiad. Gwelodd yntau bwysigrwydd y cwrdd gweddi, a phwysleisiodd mai gwaith Duw yn hytrach na dyn oedd y cwbl. Gwnaeth bwynt pwysig wrth bwysleisio cyfrifoldeb yr eglwysi wrth ofalu am y dychweledigion newydd. Nid gwaith i'r gweinidogion yn unig ydoedd, meddai, ond i bob aelod.[44] Yn wahanol i'r lleill, hefyd, nododd rhai o'r gwledydd eraill yr ymledodd y diwygiad iddo, megis Sweden, Twrci, a Ffrainc. Gwelodd arwyddocâd mawr i hyn. Meddai, Mae pob peth yn dweyd fod cyfnod bendigedig ar y byd yn agosáu, ac nid yw y diwygiad hwn ond blaenbrawf rhywbeth sydd lawer mwy'.[45] Dyma enghraifft o'r gobeithion milflwyddol oedd yn bodoli yn America ar y pryd, ac a gafodd effaith ar bobl fel Humphrey Jones yma yng Nghymru.

Ffactor pwysig er mwyn gweld diwygiad yn ymledu o wlad i wlad, ac o ardal i ardal, yw bod yr hanes am yr hyn sy'n digwydd mewn un ardal yn ymledu yn gyntaf. Trwy ymweliadau personol, a thrwy lythyrau, trwy erthyglau yn y wasg Gristnogol a secwlar, hybwyd diwygiad 1858-60 yng Nghymru yn sylweddol iawn. Yn y darlun hwn rhaid rhoi lle pwysig i'r llyfrynnau a gyhoeddwyd yn adrodd hanes yr adfywiad yn America. Creodd y cyhoeddiadau cynharaf awydd dyfnach am adfywiad yma, a bwydodd y cyhoeddiadau diweddarach yr hyn oedd yn digwydd yma eisoes. Nid oes amheuaeth na chwaraeasant ran hynod o bwysig yn nechreuad a datblygiad y diwygiad yng Nghymru. Wrth ddarllen am filoedd yn cael eu hachub, am eglwysi a neuaddau llawn o addolwyr, ac am obeithion bod pechodau mwyaf cymdeithas yn cael eu

---

[44] J.Bevan, *Y Cwrdd Gweddi*, t.21.
[45] Ibid. t.22.

dymchwelyd, cynyddodd y dyhead am adfywiad tebyg yng Nghymru yn fawr iawn. Roedd yn baraffin ar dân oedd eisoes yn mud losgi.

*iii. Paratoi a derbyn y blaenffrwyth: Thomas Aubrey.*

Ar hyd a lled Cymru roedd arweinwyr nid yn unig yn credu yn y moddion diwygiadol, ond yn gwneud ymgais deg i'w hymarfer. Credwn fod ymgeisiau o'r fath yn allweddol i gychwyniad y diwygiad. Trown yn awr i edrych ar un o'r arweinwyr hynny, sef Thomas Aubrey.

Ym Mehefin 1858 y cychwynnodd y diwygiad yn Nhre'r Ddôl cyn ymledu drwy Gymru gyfan. Ond yn ystod misoedd cynnar y flwyddyn honno gwelwyd blaenffrwyth yr adfywiad mewn sawl man. Profwyd effeithiau ysbrydol dwys yn Abertawe,[46] Corris ac mewn sawl ardal ar hyd arfordir y gogledd. Cyslltir enwau Humphrey Jones a Dafydd Morgan â chychwyniad yr adfywiad cyffredinol, ond mae eraill yn haeddu eu lle yn y llyfrau hanes, nid yn unig am eu cyfraniad yn ystod y diwygiad ei hun, ond hefyd am y ffordd y buont yn dylanwadu ar yr eglwysi i chwilio a cheisio adfywiad yn y blynyddoedd yn arwain at 1858. Un o'r ffigyrau pwysicaf yn y cyfnod hwnnw oedd Thomas Aubrey, gweinidog Wesleaidd ac arweinydd cenedlaethol oddi fewn i'w enwad. Gan mai gyda'r enwad Wesleaidd y cychwynnodd y diwygiad cyffredinol, ni ellir adrodd hanes y diwygiad hwnnw heb roi lle i Aubrey. Yn yr adran hon trafodwn gyfraniad Aubrey ynghyd ag adrodd hanes yr adfywiad grymus a brofwyd yng Nghylchdaith Wesleaidd Bangor ym misoedd cynnar 1858, adfywiad y gellir dweud ei fod yn flaenffrwyth i'r prif ddiwygiad.

---

[46] 'J.R.', 'Y Diwygiad yn America', yn *Y Diwygiwr*, 23 (1858), t161.

Yng nghanol y 1850au roedd chwech o eglwysi yn perthyn i Gylchdaith Bangor: tair ohonynt ym Mangor ei hun - Horeb, Hirael, a St Paul, ynghyd ag eglwys yr un yn Aber, Llanfairfechan a Phenmaenmawr. Yn Awst 1859 Thomas Aubrey oedd yr arolygwr, gyda Samuel Davies yn ei gynorthwyo. Daethai Davies yno i gymryd lle Methuselah Thomas a adawodd am gylchdaith arall yn ystod yr haf hwnnw. Roedd Hugh Jones, a ddaeth wedyn yn brif hanesydd y Wesleaid yng Nghymru, a William Evans yno hefyd ar eu tymor prawf.[47]

Plannwyd cymdeithasau Wesleaidd ym Mangor, Aber a Llanfairfechan yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Clywodd y tri lle eu pregeth Wesleaidd gyntaf oddeutu 1803-04. Gwelsant dwf araf ond sicr yn ystod y blynyddoedd canlynol, ac arweiniodd hyn at i'r cynulleidfaoedd godi a helaethu capeli ar gyfer y gwaith. Er mwyn sicrhau tystiolaeth i'r efengyl yn ardaloedd Hirael a Bangor Uchaf, aethpwyd ati yn y pumdegau i godi capeli yno. Roedd capel St Paul yn un arbennig o hardd ond oherwydd nad oedd nenfwd nac oriel ynddo, roedd y pregethwyr yn ei chael hi'n anodd llefaru yn hyglyw. Er gwaethaf hyn, a baich y dyledion amrywiol oedd ynghlwm wrth yr holl adeiladu, parhau i dyfu'n raddol a wnaeth y cynulleidfaoedd.[48] Yn 1840 y codwyd capel yn Nwygyfylchi, Penmaenmawr. Capel bychan, diaddurn ydoedd ac ni fu dim addasu arno hyd 1859. Tebygol yw bod twf yr eglwysi yn adlewyrchu twf y boblogaeth yn gyffredinol ar hyd arfordir y gogledd, nid yn lleiaf oherwydd twf twristiaeth gyda dyfodiad y rheilffordd.

Bu Thomas Aubrey'n weinidog ar y cylch am y tro cyntaf yn 1852-4. Yn y cyfnod hwn yr aeth ati i roi trefn ar rai o'r adeiladau, ac yn arbennig i

---

[47] O.M.Roberts, *Cofiant y Parch Hugh Jones DD* (Bangor, 1934), t.31.
[48] H.Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig, Cyfrol 4* (Bangor, 1913), tt.1579-1594.

sicrhau mai'r enwad fyddai perchennog y tir lle'r adeiladwyd y capeli. Yn achos capel Aber a Llanfairfechan roedd gan y cynulleidfaoedd brydles gan Syr Richard Bulkley, tirfeddiannwr lleol. Sicrhaodd Aubrey fod y tir yn cael ei brynu, ac felly sicrhau dyfodol yr adeiladau.[49] Yn hyn o beth cawn gip olwg ar allu Aubrey fel trefnydd ac am ei gonsýrn dros yr enwad. Bu'r ddeubeth hyn yn gymorth iddo fel cadeirydd Talaith Gogledd Cymru ei gyfundeb. Daeth i'r swydd bwysig a dylanwadol honno yn 1855, er bod llawer yn amau ei addasrwydd ar ei chyfer. Ym marn rhai nid oedd ôl trefnydd ar Aubrey. Fodd bynnag, profodd ei hun yn feistr ar y gwaith, ac ef fu'n gyfrifol am osod trefn ar drysorfeydd yr enwad, gan sicrhau cyflog teg a thai i weinidogion. Roedd yn gymeriad cryf, a gallai fod yn hynod benderfynol wrth gael y maen i'r wal.[50]

Er cystal ei allu fel trefnydd, fodd bynnag, ei gonsýrn mawr oedd sicrhau adfywiad yn yr eglwysi. Yn ôl ei gofiannydd roedd yn berson tra duwiol, a gwnaeth weddi bersonol a myfyrio'r ysgrythurau yn ganolog i'w fywyd. Roedd profiadau'r ystafell ddirgel yn allweddol i'w weinidogaeth canys 'oddi yno, wedi derbyn marworyn oddi ar yr allor ei hunan, yr elai i luchio gwreichion tanllyd i blith ei gynulleidfaoedd'.[51]

Ganed ef yn 1808 i rieni digrefydd, sef Thomas ac Anne Aubrey, yng Ngefncoedycymer, Merthyr Tudful. Gweithiai ei dad yng ngwaith haearn Cyfarthfa. Bachgen pengaled oedd y Thomas ieuengaf, a wrthododd roi unrhyw ymdrech i'w addysg, y telid amdani gan ei rieni, hyd nes i'w dad roi curfa dost iddo. Aeth yn gloff oherwydd salwch ar un adeg, a bu'n gaeth i'w wely am rai misoedd. Ceisiodd sawl meddyg ei wella, ond methu fu hanes pob un. Fodd bynnag, gwellodd y bachgen yn sydyn a mynnai'r rhieni mai gwyrth ydoedd.

[49] Ibid. tt.1589-1592.
[50] S.Davies, *Cofiant y Parch Thomas Aubrey* (Bangor, 1887), t251.
[51] Ibid. t.341.

Yn ddiweddarach, daethant i gredu fod gan Dduw waith arbennig i'w mab. Yn y cyfamser, a'i gorff yn ôl yn holliach, parhau i ystyfnigo a wnaeth Thomas. Pan oedd yn ddeg oed tynnwyd ef o'r ysgol er mwyn iddo ddechrau gweithio yn y gwaith haearn ac yno y dechreuodd ymladd â bechgyn eraill. Buan y cafodd enw iddo'i hun fel ymladdwr caled.

Pan oedd yn bedair ar ddeg oed, ac yntau ar ei ffordd i gyfarfod â bachgen arall yr oedd wedi trefnu ymladd ag ef, galwodd heibio i gapel Wesleaidd lleol. Yno y clywodd ryw John Williams yn pregethu ar y testun 'Wele Oen Duw yr hwn sydd yn dwyn ymaith bechodau'r byd.' Treiddiodd y gair i'w galon, ac wrth i'r blaenor brofi'r cyfarfod arhosodd Thomas Aubrey yn ei sedd a'i ddagrau'n llifo - cafodd dröedigaeth syfrdanol. Daeth prawf buan ar ei ffydd newydd pan benderfynodd rhai o'i gydweithwyr ei hudo i ymladd. Triniwyd ef yn galed ganddynt, ond ymlynu at ei argyhoeddiadau a wnaeth Aubrey. Roedd ei benderfyniad a'i ystyfnigrwydd o fudd iddo erbyn hyn.

Yn fuan yn ei fywyd ysbrydol profodd Aubrey y gallai fod yn ddylanwad cadarnhaol yn yr eglwys. Ymunodd â'r cyfarfodydd gweddi ganol wythnos a buan y datblygodd ei ddawn fel gweddïwr cyhoeddus. Yn ôl ei gofiannwr daeth mor enwog fel gweddïwr nes bod pobl yn tyrru i wrando arno: 'Dilynwyd yr ymdrechion hyn gan effeithiau hynod ddedwydd a bendithfawr; bu adfywiad ar yr achos yn Nantyglo'.[52]

Ymhlith y rhai a ddychwelwyd yn ystod yr adfywiad hwnnw oedd ei rieni ei hun. Dyma brofiad cyntaf Thomas Aubrey o adfywiad crefyddol a thybiwn iddo gael blas anarferol ar y cyfan gan iddo roi gymaint pwyslais ar brofiadau o'r fath ar hyd ei yrfa.

---

[52] S.Davies, *Cofiant y Parch Thomas Aubrey*, t.25.

Daeth dan ddylanwad blaenor profiadol, Benjamin Williams. Cyn löwr ydoedd Williams a gŵr duwiol a darllengar. Dysgodd Aubrey brif athrawiaethau'r enwad Wesleaidd dan ei ofal. Pan ddechreuodd bregethu aethai Williams gydag ef - y ddau yn cydgerdded pob cam yn ôl a blaen. Ar y daith gartref byddai'r hen flaenor yn gwneud sylwadau ar y bregeth a draethodd Aubrey, gan ei gywiro a'i gymell yn dadol. Pregethwr tanbaid ydoedd, gan roi pwyslais ar farn Duw, ac ar y ddihangfa a geir oddi wrthi drwy Iesu. Yn fuan, ymdeimlai Aubrey â'r alwad i'r weinidogaeth, ac ym mis Awst 1830 cychwynnodd ei dymor prawf ar gyfer y weinidogaeth lawn amser, gan gychwyn ar ei yrfa newydd yng Nghylchdaith Dinbych a Llanrwst. Derbyniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1830, ac yntau yn gweinidogaethu yn Llundain.

Yno y darganfu waith mawr Charles Finney ar ddiwygiadaeth a chafodd ei swyno'n llwyr ganddo. Meddai ei gofiannydd amdano,

> ... efe ... a gymerwyd i fynnu gan yr ysbryd rhagorol a dreiddiau drwy y darlithiau, fel, y peth mawr ag yr oedd eglwysi yr oes yn sefyll mewn angen amdano ... Cymhellai hwynt i eraill, a gwasgodd ar yr eglwysi yr awgrymau ymarferol i gydymffurfiad a meddwl Crist, ac i weithgarwch drosto a gymhwysent.[53]

Awgryma'r sylw uchod fod Aubrey yn prysur dderbyn y syniadau Americanaidd am ddiwygiadaeth. Fel Methodist Wesleaidd roedd eisoes yn credu bod gan ddyn ran bwysig yn y broses o achub enaid: er mwyn derbyn iachawdwriaeth credai fod yn rhaid i ddyn ymdrechu i dderbyn y gras a gynigiai Duw iddo. Yna, yn y gwaith o sicrhau achubiaeth i eraill, roedd gofyn i'r crediniwr rannu'r efengyl, a chynhwysai hyn bwyslais ar i'r pregethwr nid yn unig egluro trefn iachawdwriaeth ond hefyd apelio'n daer ar i bobl ei

[53] Ibid. t.133.

derbyn. Ychwaneger at hyn bwyslais Finney ar ddefnyddio dulliau arbennig i sicrhau adfywiad crefyddol a daeth Aubrey yn ddisgybl ffyddlon i'r drefn newydd.

Bu penodau pwysig eraill yn natblygiad Aubrey fel diwygiwr. Yng Nghylchdaith Merthyr (1846-49), ac yntau bellach yn arolygwr, gwelodd dwf mawr yn nifer yr aelodau - o 545 i 839. Ar wahân i'w allu ei hun fel gweinidog, tybiedig yw bod ffactorau eraill wedi ychwanegu at y twf hwn. Yn gyntaf, saif y cyfnod yng nghanol y trefoli mawr a fu yn sgil y chwyldro diwydiannol. Tyfodd poblogaeth yr ardaloedd diwydiannol yn sydyn ryfeddol, gyda'r rhan fwyaf o'r mudwyr yn dod o siroedd gwledig Cymru, a'r rheini yn dod â'u crefydd gyda hwy. Yr ail ffactor sydd raid ei ystyried yw'r epidemig colera a effeithiodd Merthyr yn 1849. Cafwyd pedwar cyfnod o'r salwch difrifol hwn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni ddaethpwyd i'w ddeall yn iawn hyd 1883 ac o'r herwydd creodd ofn difrifol drwy'r boblogaeth. Barn Glyn Penrhyn Jones yw bod hyn wedi bod yn ffactor ychwanegol i droi pobl at grefydd yn ystod y cyfnodau hynny:

> Cholera was also a major force in a resurgence of godliness in the mid-century and in Wales certainly the fear engendered by its mystery and mortality filled chaples and churches and gave added impetus to revivalism.[54]

Yn ystod 1849, ym Merthyr yn unig bu farw 1,400 oherwydd y salwch. Cyrhaeddodd y dref ym mis Mai, ac erbyn Awst roedd ar gyfartaledd 36 o bobl yn marw'n ddyddiol. Yn wir, Merthyr ddioddefodd waethaf trwy Gymru yn y cyfnod hwn.[55] Gan i rai ddadlau mai barn Duw ar y wlad oedd yn gyfrifol am y salwch, agorwyd yr eglwysi er mwyn cynnal cyfarfodydd gweddi, a thyrrodd

---

[54] G.Penrhyn Jones, 'Cholera in Wales', yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 10 (1958), t.281.
[55] Ibid. t.295.

pobl iddynt. Yn Aberafan, er enghraifft, daeth dwy fil ynghyd i'r farchnad i gynnal cwrdd gweddi cyhoeddus.[56] Fodd bynnag, nid pawb a fodlonai gefnogi'r cyfarfodydd hyn. Gwrthododd y diwinydd o Fedyddiwr Cynddelw â gwneud hynny yng Nghaernarfon yn 1865-66, oherwydd y credai nad Duw oedd yn gyfrifol am yr aflwydd, ond yn hytrach cyflwr budr y dref.[57] Beth bynnag am y dadleuon diwinyddol, cynyddodd aelodaeth yr eglwysi oherwydd y colera, a phrin fod eglwysi Aubrey heb rannu yn y cynnydd hwn.

Ni chafwyd hyd i dystiolaeth bod Aubrey wedi defnyddio moddion i ddeffroi'r eglwysi dan ei ofal hyd 1855, er y gellid yn hawdd gredu ei fod wedi gwneud hynny. Yn y flwyddyn honno fe'i cawn yn gwneud ymdrech deg i ymarfer rhai o syniadau Finney, a hynny yn ei gylchdaith newydd yn Nhreffynnon. Erbyn hyn roedd yn gadeirydd Talaith y Gogledd a rhoddai hyn gyfle iddo effeithio eglwysi y tu allan i'w gylch ei hun. Yn y cynllun a weithredodd yn y cyfnod hwn, galwodd arweinwyr dwy neu dair cylchdaith at ei gilydd am ddiwrnod o drafod a phregethu. Roedd gwahoddiad i weinidogion a blaenoriaid dreulio'r dydd yn ystyried cyflwr ysbrydol yr eglwysi o dan eu gofal. Treulient y bore a'r prynhawn yn rhannu profiadau ac yng nghyfarfod yr hwyr byddai Aubrey yn pregethu iddynt.

Cawn fanylion un o'r cyfarfodydd hyn gan gofiannydd Aubrey. Nid yw'n rhoi'r dyddiad inni, ond gallwn fod yn sicr iddo fod yn ystod cyfnod Aubrey yn Nhreffynnon, sef rhwng 1855 a 1857. Daeth cylchdeithiau Llanfyllin, Llanrhaeadr a Llanfaircaereinion at ei gilydd a gynhwysai o leiaf deuddeg eglwys. Gan fod Samuel Davies, cofiannydd Aubrey, yn weinidog yn Llanfyllin, roedd yn bresennol yn y cyfarfodydd, ac felly'n llygad dyst i'r

[56] Ibid. t.290.
[57] Ibid. t.299.

gweithgareddau. Agorwyd mewn defosiwn, ac yna eglurodd Aubrey fwriad yr ymgynnull. Dywedodd,

> Ei fod yn awyddus am gael gwybod, ac am i'r brodyr ymgydnabyddu ag ystâd grefyddol yr eglwysi ... ac mewn canlyniad i hynny i ystyried beth fyddai y llwybr doethaf i'w gymeryd er cael mwy o wres, a goleu, a bywyd ysprydol yn ein heglwysi.[58]

Deallai Aubrey fod cyflwr ysbrydol mynychwyr yr eglwysi yn wahanol i'w gilydd: roedd rhai wedi eu dychwel yn ddiweddar ond heb dyfu yn y ffydd, rhai yn hen gredinwyr ond yn byw ar brofiadau ysbrydol y gorffennol, rhai yn byw bywyd ysbrydol dwys, ac eraill yn dymuno gwneud hynny. Ei obaith wrth alw am adroddiad gan arweinydd pob eglwys oedd gweld yn gyffredinol pa ganran o'r aelodau oedd yn wirioneddol yn byw'r bywyd ysbrydol o'u cymharu â'r rhai oedd â phroffes wag. Rhoddodd pob blaenor adroddiad o gyflwr yr aelodau yr oeddent hwy'n gyfrifol amdanynt. Dyma'r arweinwyr oedd yn gwybod orau am eu pobl - yn gwybod mwy hyd yn oed na gweinidog yr eglwys. I'r graddau yr oedd y blaenoriaid yn onest yn eu dadansoddiad, llwyddodd Aubrey i ddatgelu gwir gyflwr ysbrydol yr eglwysi.

Cynhwysa Davies rai o'r sylwadau a wnaethpwyd y diwrnod hwnnw. Dywedodd rhyw Mr Lloyd, Llanfyllin, fod rhai ar ei restr heb eu hachub, ac eraill wedi eu dychwelyd ac yn byw yn dda.[59] Golyga'r sylw cyntaf a wnaeth bod rhai a dderbyniwyd fel aelodau eglwysig heb fod yn gredinwyr, ac os cywir yr asesiad awgryma fod system y Wesleaid o osod ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig ar brawf cyn eu derbyn er mwyn sicrhau eu ffydd yn methu. Gwnaeth Mr Jones, Llanfyllin, y sylw bod rhai ar ei restr yn 'beunydd defnyddio yr un ymadroddion' yn y seiat, a bod hynny'n ei gwneud yn anodd asesu eu gwir

---

[58] S.Davies, *Cofiant Thomas Aubrey*, t.240.
[59] Ibid. t.241.

gyflwr.[60] Yr awgrym sydd yma yw bod diffyg twf a datblygiad yn ffydd y cyfryw rai. Dywedodd Mr Jones, Penygarnedd, 'fod ganddo le i gwyno mai cyfarfod 'yn go ddrwg' yr oedd ei restr ef, dywedant oll eu bod am gael crefydd, ond rhai yn peri iddo feddwl nad oeddent o ddifrif yn ei cheisio'.[61] Mae'r sylwadau uchod yn cydweddu'n union â'r sylwadau a wnaed gan sawl awdur yn y cyfnodolion enwadol, a rhyngddynt ceir darlun o gyflwr isel crefydd ysbrydol y cyfnod. I nifer roedd hyn yn creu pryder dwfn, ac wrth leisio eu pryder ar lafar ac yn ysgrifenedig roeddent yn creu awydd am adfywiad ymhlith eu pobl. Roedd peth anfodlonrwydd ynghylch cyflwr pethau, ac wrth i'r teimlad hwnnw gynyddu arweiniodd at awydd dyfnach am ddiwygiad. Credwn fod yr anfodlonrwydd hwn yn ffactor hynod bwysig wrth i'r eglwysi geisio diwygiad.

Yn ystod yr un cyfnod mentrodd Thomas Aubrey ar gynllun arall, sef cynnal cyfres o gyfarfodydd pregethu diwygiadol, yn unol ag awgrymiad Finney, mewn eglwys arbennig. Y bwriad oedd cynnal math o ymgyrch am wythnos o hyd yn yr un man. Roedd y pregethu ar y Sul cyntaf i fod i ddeffroi'r eglwys i fwriad y cynllun, sef 'cael adfywiad ar grefydd a dychweliad eneidiau at Dduw.'[62] Dadlenna'r sylw hwn ba mor llwyr y llyncodd Aubrey syniadau Finney. Yn ystod yr wythnos roedd tair neu bedair oedfa ar nosweithiau gwaith i'w cynnal ac roedd y pregethu i fod yn hynod apeliadol, gan bwyso am ymateb gan y gynulleidfa. Erbyn yr ail Sul disgwylid i nifer o bobl anghrediniol fod yn yr oedfa, a byddai pwysau mawr arnynt drwy'r pregethu i dderbyn crefydd. Asesiad Davies o'r cyfarfodydd hyn oedd, 'Profodd y symudiad mewn llawer

---

[60] Ibid.
[61] Ibid. t.242.
[62] Ibid. t.245.

Cylchdaith yn hynod lwyddiannus. Cafwyd cyfarfodydd bendigedig, dygwyd pechaduriaid cyndyn ar eu gliniau i lefain am drugaredd'.[63]

Anodd yw cysoni'r gosodiad hwn â'r farn gyffredinol a geir gan eraill am gyflwr crefydd yn y cyfnod. Ac yn eironig, gadawodd Aubrey Dreffynnon yn 1857 yn drist ac anfodlon am na welodd gystal llwyddiant yno ag a welsai mewn cylchdeithiau eraill dan ei ofal. Yn wir, disgynnodd nifer yr aelodau yno yn ystod ei gyfnod.[64] Efallai mai'r prif reswm am hynny oedd bod ei ofalon bellach yn llawer mwy na dim ond y gylchdaith a'r eglwysi lleol. Lle cynt yr oedd yn gallu canolbwyntio ar ei filltir sgwâr ei hun, bellach roedd ei gyfrifoldebau fel cadeirydd y Dalaith yn golygu bod rhaid iddo dreulio cryn amser yn y tu allan iddi yn teithio i wahanol bwyllgorau enwadol, ac yn derbyn mynych alwadau i bregethu o amgylch y wlad.

*iv. Ysgrifau 'Adfywiad Crefyddol' (1858).*

Yn ystod 1858, blwyddyn dechrau'r diwygiad, ymddangosodd naw ysgrif ar y testun 'Adfywiad Crefyddol' yn *Yr Eurgrawn*. Gwahoddwyd Aubrey a Thomas Jones, yntau'n gadeirydd Talaith De Cymru ar y pryd, i gyfrannu eu syniadau ar y pwnc. Tuedd Jones yn ei bum ysgrif ef yw canolbwyntio ar y beiau hynny y credai ef eu bod yn atal adfywiad rhag dod i'r eglwysi. Aeth Aubrey, fodd bynnag, i geisio diffinio beth yw adfywiad, a cheisio awgrymu moddion a fyddai'n prysuro dyfodiad adfywiad i eglwysi Cymru. Mae ei driniaeth yn haeddu sylw pur fanwl.

Yn ei ysgrif gyntaf ceisiodd Aubrey ddiffinio beth yw adfywiad. Mae tair rhan i natur adfywiad, meddai. Yn gyntaf, bydd nifer lluosog o rai di-gred

63 Ibid. t.246.
64 Ibid. t.269.

yn cael tröedigaeth. Yn ail, bydd effaith ar y rhai sydd eisoes yn credu: cânt eu llenwi gan dangnefedd dwyfol, ynghyd â 'llawenydd ysbrydol, dwfn, tawel, sefydlog, a sylweddol'. Bydd hyn yn arwydd sicr fod crefydd yn adfywio. Yn olaf, bydd dylanwad yr adfywiad yn cyffwrdd y rhai 'anystyriol a difeddwl' yn yr eglwys a'r byd.[65] Byddant yn rhoi heibio bob pleser sydd yn gwrthweithio crefydd, ac yn ymroi i fywyd yr eglwysi. Dyma ddiffiniad sydd ar y cyfan yn cyd-fynd â'r syniad arferol am adfywiad. Yn ei drydydd pwynt mae'r awdur yn amlwg yn datgelu ei bryder am effaith y byd ar grefydd y cyfnod. I Aubrey, fel i eraill, roedd adfywiad yn ffordd o wrthweithio'r dylanwadau hyn.

Mae Aubrey yn cloi ei ysgrif gyntaf trwy ddadlau yn erbyn y Galfiniaeth a ddywed mai o Dduw yn unig y daw adfywiad, a bod posib i Dduw beidio â 'gweld yn dda i ganiatáu i ni ddylanwadau bywiocaol ei Ysbryd'.[66] Yr un ddiwinyddiaeth, meddai, sy'n honni mai Duw sy'n gyfrifol am i un person edifarhau ac un arall galedu ei galon. Duw, felly, sy'n gyfrifol am bob bai a phob daioni moesol yn y cread. Cwbl afresymol yw syniadaeth fel hyn i Aubrey. Mae'r Calfiniaid, meddai, yn euog o 'fethu yn y gorchwyl o blymio cariad Duw at ddyn'.[67]

Wedi trin a thrafod y beiau sy'n gyfrifol am atal adfywiad yn yr eglwys yn ei ail ysgrif, pwnc y ddwy olaf ganddo yw pa foddion i'w defnyddio er sicrhau tywalltiad o'r Ysbryd nes adfywio'r eglwysi. Rhaid i'r eglwys fod yn 'benderfynol' yn y gwaith hwn, meddai, gan mai dyma yw ei 'dyletswydd'.[68] Y prif foddion dan sylw ganddo yw'r rheidrwydd i feithrin 'teimlad crefyddol

---

[65] T.Aubrey, 'Adfywiad Crefyddol', *Yr Eurgrawn*, 1858, t.21.
[66] Ibid.
[67] Ibid. t.22.
[68] Ibid.

dwfn'.[69] Beth yw natur y teimlad hwn? Nid teimlad 'anifeilaidd yn llifo dros yr enaid, ac yn cario ymaith ffin-feini rheswm a barn' ydyw, ond yn hytrach 'cyffroad dwfn a santaidd a gynhyrchir gan nerth gwirionedd dwyfol yn cael ei ddeall yn glir, a'i gredu yn galonnog'.[70] Ceir ymgais yma i geisio gwahaniaethu rhwng dau fath o deimladrwydd. Gan fod Aubrey ei hun wedi profi cyffro teimladwy yn ei dröedigaeth, nid oedd yn rhyfedd iddo roi cymaint pwyslais ar y pwnc.

Cynigia bum rheswm dros ddweud fod y teimladrwydd hwn yn bwysig yn y bywyd ysbrydol. Yn gyntaf, roedd maint y teimlad yn dangos pa mor ddwfn yr oedd y cyffyrddiad ysbrydol wedi treiddio. Petai person yn colli ei gartref a'i eiddo i gyd, ac yn colli ei blentyn, byddai'r person hwnnw wedi ei gyffroi yn fawr. Oni ddylai tynged dragwyddol dyn ei arswydo yn fwy? Yn ail, mae'r teimladau crefyddol yn gymorth anhepgorol yn erbyn syrthio i demtasiwn. Ymresyma Aubrey fel hyn: temtir dyn gyntaf yn ei deimlad. Os yw hynny'n bosibl mae perygl iddo syrthio i'r temtasiwn hwnnw. Ond os yw ei deimlad yn llwyr grefyddol, mae'r perygl yn llawer llai, 'Gan mai'r teimladrwydd ydyw'r unig gyfrwng trwy ba un y gall Satan ddyfod at y galon, yna mae'r hyn sydd yn cau'r llwybr hwn yn cau'r gelyn oddi wrth yr enaid yn gwbl'.[71] Yn drydydd, mae'r teimlad yn bwysig gan mai yno y bydd dedwyddwch i'r enaid. Nid oes pleser i'w gael yn y byd, meddai, dim ond trallod. Ond y mae'r teimlad dan ddylanwad crefydd yn gallu cynnig cysur a nerth i ddyn: 'Dyma gyfoeth y dyn tlawd, meddyglyn y cyfoethog, a balm y galon archolledig'.[72] A yw ei Arminiaeth yn crwydro oddi wrth yr Ysgrythur yn

---

[69] Ibid. t.156.
[70] Ibid.
[71] Ibid.
[72] Ibid. t.159.

y fan hyn? Byddai ei wrthwynebwyr Calfinaidd yn mynnu mai Duw yw ffynhonnell pob cysur, ac mai rhy anwadal yw'r teimlad dynol i ddibynnu arno am ddedwyddwch. Yn bedwerydd, mae angen y teimlad er mwyn cymell y Cristion i weithio dros achos Iesu. Meddai, 'Os bydd y galon yn oer, bydd y fraich yn wan, a'r ergyd a rydd yn llesg'.[73] Y mae hyn yn neilltuol wir ar gyfer y gweinidogion, meddai Aubrey. Rhaid iddynt hwy o bawb feddu ar deimladau crefyddol dwfn. Ni ddylent ddisgwyl cyrraedd neb heb y teimladrwydd hwn. Mae'r gweinidog angen 'teimlad crefyddol cryf, angerddol, wedi ei wneud yn ysol gan ddylanwad yr Ysbryd Glan wedi ei dywallt arno yn yr holl helaethrwydd ag y mae'n gyfaddasol i'w dderbyn'.[74] Nid yn unig y daw ei Arminiaeth trwodd yn glir eto fan hyn, wrth iddo awgrymu fod llwyddiant y weinidogaeth yn dibynnu mwy ar deimlad y gweinidog nag ar Dduw, ond amlwg hefyd yw dylanwad Finney arno. Yn olaf, dywed fod meddu ar deimladrwydd yn nodwedd sy'n cael ei chymeradwyo gan y Beibl a chan hanes yr eglwys dros y canrifoedd.

Gan fod y teimladau mor bwysig ganddo, â Aubrey ymlaen i egluro sut y mae posibl eu meithrin. Awgryma bum ffordd. Yn gyntaf, dylai ewyllys dyn fod yn ddarostyngedig i ewyllys Duw. Yr ail bwynt, a'r pwynt pwysicaf ganddo, yw bod yn rhaid i'r teimladau hyn gael eu puro gan Dduw: 'Mae'n rhaid i'r enaid gael bedydd oddi uchod'.[75] Mae perygl, meddai, i'r rheswm dderbyn y gwirionedd, ond i'r teimlad ei adael heb ei gyffwrdd. Dod â'r rheswm a'r teimlad at ei gilydd yw gwaith yr Ysbryd:

> Gall yr Ysbryd dywallt y fath oleuni ysblennydd ar y ddealltwriaeth, ag a achosa i'r galon orlifo gan serchiadau santaidd, nes eu llwyr ddiddyfnu oddi wrth y byd. Hyn yw prif

[73] Ibid. t.159.
[74] Ibid.
[75] Ibid. t.162.

> fendith y Testament Newydd, ac mae'n rhaid i bob Cristion ei derbyn, cyn y gall ddyfod allan, ac ymlawenhau fel cawr i redeg gyrfa.[76]

Nid damcaniaeth yw bedydd yr Ysbryd i fod, meddai. Nid dyna ydoedd i'r disgyblion ar Ddydd y Pentecost, nac i'r merthyron a gollodd eu bywydau er mwyn Crist. Er y pwysigrwydd a rydd Aubrey ar fedydd yr Ysbryd, nid yw'n egluro sut i'w dderbyn. Mae hyn yn syndod o gofio pa mor bwysig yw moddion Finney iddo.

Pwysigrwydd gweddi yw ei drydydd pwynt, a dilyn llwybr cyffredin a wna yma. Yn bedwerydd, rhydd bwyslais ar yr anghenraid o gydweithio gyda'r Ysbryd Glân drwy fyfyrio ar wirioneddau'r efengyl. Roedd 'hunanymholiad manwl' yn bwysig.[77] Yn olaf, dylai'r Cristion fod yn darllen y Beibl yn gyson. Wrth wneud hynny bydd y Cristion yn 'ddeiliad dylanwadau a dania ei holl enaid, ag a'i cynysgaeddau gydag ynni a nerth a fydd yn anwrthwynebol a dwyfol; a'i galon a wneir yn eisteddfa tynerwch, gobaith, a llawenydd santaidd'.[78] Erbyn ymddangosiad yr ysgrif olaf hon roedd y diwygiad y galwodd Aubrey amdano wedi cyrraedd.

Ni chafwyd hyd i dystiolaeth i brofi bod yr ysgrifau hyn wedi effeithio ar yr eglwysi Wesleaidd yng Nghymru, ond prin y gallwn amau na chawsant ddylanwad pur sylweddol. Roedd eu hapêl yn ddeublyg: yn gyntaf, roeddent yn adleisio ac yn dyfnhau'r teimlad o anfodlonrwydd a oedd yn yr eglwysi ynghylch cyflwr crefydd ysbrydol, ac yn ail roeddent yn cadarnhau diwinyddiaeth yr enwad ynghylch y pwysigrwydd o gydweithio â Duw wrth adfywio eglwys.

---

[76] Ibid. t.412.
[77] Ibid.
[78] Ibid. t.413.

*v. Blaenffrwyth y diwygiad.*

Erbyn y cyfnod hwn roedd Aubrey yn arolygwr Cylchdaith Bangor. Bu yno o 1857 hyd 1860, cyfnod a oedd yn cynnwys blynyddoedd y diwygiad. Ond yn y cylch hwn y gwelwyd blaenffrwyth y diwygiad, a thrown yn awr i adrodd yr hanes hwn. Cyn dod i'r cylch, roedd Aubrey eisoes wedi gweld ei gynllun o gyfres o gyfarfodydd diwygiadol yn cael eu cynnal ym Mangor yn Ionawr 1856. Bu cryn lwyddiant i'r cyfarfodydd hynny a gwelwyd 24 yn cael eu dychwelyd.[79]

Erbyn dechrau 1858 roedd cryn anfodlonrwydd ynghylch cyflwr crefydd yn yr ardal ymhlith Wesleaid a Methodistiaid Calfinaidd Llanfairfechan. Eglwys fechan oedd gan y Wesleaid yno, efo dim ond 24 aelod. Gwelodd leihad wrth i bobl adael y cylch, rhai ohonynt yn ymfudo i America. Yn ogystal â phryderu ynghylch cyflwr moesol anghredinwyr, pryderodd rhai ynghylch cyflwr ysbrydol yr eglwys ei hun, gan ofni bod 'oerfelgarwch a diogi ysbrydol wedi meddiannu yr eglwysydd.'[80] Roedd aelodau'r Methodistiaid Calfinaidd yng nghapel Horeb hwythau yn gweld yr un problemau, ac er bod tŵf cyson yn nifer eu haelodaeth roedd 'anfodlonrwydd yn bod dan bob gwaith' yn berthnasol i'r eglwys.[81] Ychwanegwyd at eu pryder pan fu farw dau flaenor duwiol a dylanwadol yn 1857. Arweiniodd hyn iddynt gynnal cyfarfodydd gweddi er mwyn galw am fendith ar waith yr eglwys.[82] Yn gynnar yn 1858 daeth y ddau enwad at ei gilydd i weddïo. Cafwyd un cyfarfod neilltuol, pryd yr aeth pum gŵr ymlaen i weddïo - a phob un ohonynt yn methu ag yngan gair.

79 'G.O.', 'Seilo, Bangor', yn *Yr Eurgrawn*, 20 (1856), t.105.
80 'Aberorian', 'Diwygiad crefyddol yn mhlith y Wesleyaid', yn *Yr Eurgrawn*, 22 (1858), t.214.
81 O.J.Pritchard, *Hanes Eglwys Horeb,Llanfairfechan* (Llanfairfechan, 1962), t.16.
82 W.Hobley, *Hanes Methodistiaeth Arfon: Dosbarth Bangor* (Arfon, 1924), t.238.

Cyfarfod mud fu hwnnw, hyd nes i'r mynychwyr deithio adref, ac i lawer ohonynt ddechrau gweddïo ac wylo ar ochr y ffyrdd.[83]

Ar gychwyn y drydedd wythnos yn Chwefror 1858 cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd pregethu gan y Wesleaid. Tebygol mai yn unol â chynllun Aubrey y cynhaliwyd yr ymgyrch hon. Cafwyd chwe chyfarfod i gyd, a nifer helaeth o bobl yn bresennol, gan gynnwys nifer dda o Horeb. Ar y nos Fercher, pryd y dychwelwyd un, pregethwyd gan Methuselah Thomas, gweinidog cynorthwyol y cylch. Roedd Thomas yn weinidog profiadol ac yn hŷn nag Aubrey. Gosodwyd ef i weithio gydag Aubrey er mwyn rhyddhau'r Cadeirydd i gyflawni gorchwylion ei swydd. Pregethwr tanbaid ydoedd Thomas a brofodd o ddiwygiad grymus 1838 pan oedd yng Nghylchdaith Caernarfon.[84] Aubrey ei hun bregethodd ar y nos Iau a chafodd dau eu dychwelwyd. Garddwr lleol, Michael Roberts, a bregethodd ar y Sul ac arhosodd pum newydd i'r seiat. Ond ar yr ail nos Lun y gwelwyd yr effeithiau mwyaf. Thomas a bregethai a bu ei ddylanwad yn fawr:

> At ddiwedd yr oedfa daeth y dylanwad ysbrydol ar yr holl wrandawyr fel gwynt nerthol yn rhuthro, nes yr oedd pawb wedi eu taenellu a'r gwlith ysbrydol. Yr adeg ryfedd yma gallasech weled y dagrau yn gorlifo yn brysur dros ruddiau pawb heb wahaniaeth; pawb yn wylo yn hidl ac yn ochneidio; rhai yn gwaeddi am drugaredd, ac eraill yn diolch am waed y groes.[85]

Parhaodd yr adfywiad am oddeutu dau neu dri mis, ac ychwanegwyd oddeutu 134 aelod newydd at y Wesleaid, a gwelodd Horeb gynnydd o tua 60.[86] Profodd Horeb oedfaon bendithiol ei hunan, a chofnodir i Sul y Blodau'r flwyddyn honno weld oedfaon nodedig. Robert Owen, y Rhyl, a bregethai ar y testun 'Mae ein cyfaill Lasarus yn huno'. Wrth i Owen bregethu 'torrodd rhai

---

[83] Ibid. t.239.
[84] H.Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig*, t.1030.
[85] *Herald Cymraeg*, 24 Ebrill 1858, t.4.
[86] H.Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig*, t.986.

allan i weiddi ac ochneidio a wylo, a'r bobl ieuanc gan mwyaf oedd ar flaen y cynhyrfiad'.[87] Gwelodd yr eglwys hon dwf aruthrol yn ystod y blynyddoedd yn dilyn, sef cyfnod y diwygiad cyffredinol. Yn 1854 79 aelod oedd ar y llyfrau. Erbyn 1860 roedd y rhif wedi cynyddu i 220. Er bod y tŵf hwn yn adlewyrchu yn rhannol dwf poblogaeth y plwyf (cynnydd o 5% y flwyddyn rhwng 1851 a 1861), yn bendifaddau cafodd y diwygiad effaith fawr ar yr eglwys.[88] Yn ôl *Udgorn y Bobl* roedd 280 wedi eu hychwanegu at y ddwy eglwys erbyn Hydref 1858.[89] Ymledodd yr adfywiad cynnar hwn i Aber, Penmaenmawr, Bangor, Conwy a Llandudno – y tri lle cyntaf yn rhan o Gylchdaith Wesleaidd Bangor. Dychwelwyd niferoedd da yn y llefydd hyn hefyd.[90]

Ni wyddom a barhaodd yr adfywiad hwn hyd gyfnod y diwygiad cyffredinol ai peidio. Awgryma'r dystiolaeth ystadegol o eglwys Horeb bod yr effeithiau wedi dal. Ar y llaw arall ni cheir unrhyw sylw yng nghofiant Hugh Jones i ddylanwad y diwygiad yng Nghylchdaith Bangor. Rhoir sylw i effaith ei bregethu mewn cyfarfod diwygiadol yng Nghaergybi, ond ni chrybwyllir ei effaith ar ei braidd ei hun.[91] Yn ychwanegol at hyn awgryma J.J.Morgan a William Hobley bod effaith y diwygiad wedi pylu erbyn 1859, a bod oedfa a gynhaliwyd gan Dafydd Morgan ar 19 Hydref y flwyddyn honno wedi bod yn fodd i 'ail enyn tân y diwygiad'.[92] O bosibl y gellid egluro'r arafu hwn trwy ddweud bod y gwaith mawr wedi ei wneud yn hanner cyntaf 1858.

Mae dylanwad Thomas Aubrey ar ddechreuadau'r adfywiad yn Llanfairfechan a'r cylch yn bur amlwg. Bu ei gynllun o gynnal ymgyrch yn

---

[87] O.J.Pritchard, *Hanes Eglwys Horeb*, t.16.
[88] Ibid. t.18.
[89] Dyfynnir gan J.J.Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.399.
[90] *Yr Eurgrawn*, 22 (1858), t287.
[91] O.M.Roberts, *Cofiant y Parch Hugh Jones*, t.33.
[92] J.J.Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.399; W.Hobley, *Hanes Methodistiaeth Arfon*, t.239.

rhan allweddol o ddeffroi'r eglwysi ac o ennill nifer at y ffydd. Er na ellid hawlio mai dyma ddechrau'r diwygiad cyffredinol, gan nad ymledodd fawr ymhellach na Chylchdaith Bangor, hwn oedd blaenffrwyth y diwygiad. O gofio bod Aubrey trwy ei ysgrifau yn yr *Eurgrawn* wedi bod yn fodd i gyffroi'r eglwysi a'u hannog i ymdrechu tuag at adfywiad a chyplysu hyn gyda'r blaenffrwyth yn ei gylchdaith, gellid dweud bod y gŵr hwn wedi cael dylanwad allweddol ar y diwygiad cyffredinol. Heuodd yn sylweddol i dir yr eglwysi yn y cyfnod, gyda'r bwriad o'u gweld yn adfywio. Prif nod ei weinidogaeth oedd gweld bywyd ysbrydol yr eglwys yn dyfnhau. Meddai'r Dr Hugh Jones, a fu'n gydweithiwr ag ef:

> Rhoddodd ei holl fryd ar geisio gwella sefyllfa yr achos ymhob agwedd arno ... Roedd yn dyheu am arfer moddion i gyffroi swyddogion ac aelodau yr eglwysi i ymestyn at radd uwch o ysbrydolrwydd, ac o ymgysegriad yng ngwasanaeth Duw.[93]

Os yw diwygiad crefyddol yn ffrwyth partneriaeth dyn a Duw, fel y mynnodd y Wesleaid, yna ffrwyth gwaith pobl fel Aubrey oedd diwygiad 1859. Wrth edrych ar ei hanes gwelwn fod ei holl fywyd wedi anelu, fel petai, at y digwyddiad hwn. O'i dröedigaeth syfrdanol, i'r adfywiad fu yn ei eglwys leol wrth iddo weddïo'n fachgen ieuanc, i'w drwytho yn niwinyddiaeth Arminaidd ei enwad, i'w brofiadau diwygiadol yn ei weinidogaeth gynnar, i'r dylanwad mawr gafodd Finneyiaeth arno, ac i'w safle dylanwadol fel arweinydd ei enwad yng Nghymru, ymddengys bod y cwbl yn baratoad ar gyfer digwyddiadau canol y 1850au. Yr eironi mawr yw os mai ffrwyth llafur Aubrey yn rhannol oedd y diwygiad, nid ef gafodd y fraint o'i fedi, oherwydd o ganol 1858 ymlaen cafodd ei daro'n wael. Yn ystod yr haf hwnnw, tra oedd y diwygiad cyffredinol yn cychwyn yng nghyffiniau Aberystwyth, gorfu iddo deithio i Ddulyn i ymweld â

---

[93] H.Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig*, t.985.

meddyg oedd yn arbenigo ar anhwylder y frest. Cynghorodd iddo orffwys, ac oherwydd hynny parodd i'r enwad anfon Hugh Jones i fod yn gynorthwyydd iddo yn 1859.[94] Yn hytrach na phregethu a dwyn y cynhaeaf mawr i'r ystordy, 'gwrandäwr' yn unig ydoedd Thomas Aubrey trwy gydol y cyfnod hwn.[95]

Symudodd i Lerpwl yn 1860, ac aeth Hugh Jones i'w ganlyn. Cryfhaodd ei iechyd yn raddol. Ond yn 1865 penodwyd ef yn Uwchrif, gan sicrhau y byddai'n sefyll i lawr fel cadeirydd y Dalaith, a baich y gwaith mawr hwnnw yn cael ei ddwyn oddi arno. Yn 1867 symudodd i dref y Rhyl oherwydd y credid y byddai awel y môr o fudd i'w iechyd. Ond ni thyciodd hynny ychwaith, a bu farw yno ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno. Ysgrifennodd ddwy ysgrif yn yr *Eurgrawn* yn y cyfnod ar ôl y diwygiad, y ddwy ohonynt ar waith yr Ysbryd Glân. Ni chyfeiriodd ynddynt at y diwygiad y gwnaeth gymaint er mwyn paratoi amdano - dim ond pwyso ar i'r eglwys ddod i wir adnabod yr Ysbryd, 'fel y bydd ei gweddïau yn fwy taer, a'i dibyniad ar yr Ysbryd yn fwy llwyr, a nerthoedd yr Ysbryd a ddadlennir mewn tywalltiadau cyfoethocach na'r oll a roddwyd eto i'r eglwys'.[96] Ei awydd mawr hyd y diwedd oedd gweld yr eglwys yn derbyn o gyflawnder yr Ysbryd.

O ddod â'r gwahanol ddylanwadau hyn at ei gilydd – hanes diwygiadau Cymru, diwinyddiaeth ddiwygiadol, effaith hanes y diwygiad yn America, ac ymdrech pobl fel Thomas Aubrey, gwelwn fod eglwysi Ymneilltuol Cymru yn aeddfed ar gyfer derbyn adfywiad grymus a chyffredinol. Roedd y dyheu dwfn wedi arwain at weddi a gwaith, a hynny wedi esgor ar ddisgwyliad eang am dywalltiad o'r Ysbryd Glân.

---

[94] S.Davies, *Cofiant y Parch Thomas Aubrey*, t.288.
[95] O.M.Roberts, *Cofiant y Parch Hugh Jones*, t.31.
[96] T.Aubrey, 'Dylanwadau yr Ysbryd Glân – ei gyfoeth a'i gyflawnder', yn *Yr Eurgrawn,* 28 (1865), t.100.

Pennod 5.

## Dylanwad diwygiadaeth ar Humphrey Jones a Dafydd Morgan.

Y ddau enw a gysylltir fwyaf a diwygiad 1858-60 yw Humphrey Jones a Dafydd Morgan. Jones a ddefnyddiwyd i gychwyn yr adfywiad a Morgan a sicrhaodd ei barhad. Bwriad y bennod hon yw olrhain ychydig ar hanes cynnar y ddau ddiwygiwr, a hefyd astudio'r modd y dylanwadwyd ar y ddau gan ddiwygiadaeth America.

### *i. Gyrfa Americanaidd Humphrey Jones.*

I bob pwrpas Humphrey R. Jones oedd yr un a gychwynnodd y diwygiad yng Nghymru. Dychwelodd i'w ardal enedigol, Tre'r Ddôl, Ceredigion, ym Mehefin 1858, a chychwyn cyfarfodydd diwygiadol yn y capel Wesleaidd. Cyn hynny treuliodd bedair blynedd yn America. Yno y cafodd ei ordeinio ac ennill yr enw o fod yn 'ddiwygiwr'. Heb os daeth dan ddylanwad y dull Americanaidd o gynnal diwygiad, ac er ei fod yn bregethwr grymus cyn gadael Cymru ac wedi cael cryn lwyddiant wrth weld nifer yn dod i gredu dan ddylanwad y pregethu hwnnw, yn America y daeth yn ddiwygiwr.

Ganed Humphrey Jones ar 11 Hydref 1832 yng Ngwarcwm Bach, ffermdy bychan yn ymyl Tre'r Ddôl, i Hugh ac Elizabeth Jones. Pan oedd yn bymtheg oed ymfudodd ei rieni a'i ddau frawd ac un chwaer i America, gan ei adael ef yng ngofal ei fodryb Sophia, oedd yn cadw tafarn yr Half Way Inn, Tre'r Ddôl. Er ei fod wedi ei dderbyn yn aelod o eglwys Fethodistaidd Wesleaidd y pentref pan oedd yn ddeuddeg oed, roedd yn bymtheg cyn iddo ddod i brofiad crefyddol gwirioneddol. Golygodd hyn bod diwygiad 1840 wedi ei basio heibio i bob pwrpas, ac na chafodd brofi beth oedd diwygiad crefyddol

cyn mynd i America. Yn fuan wedyn y dechreuodd bregethu, ac am chwe blynedd bu'n bregethwr cynorthwyol llwyddiannus yng Nghylchdaith Aberystwyth.[1] Fel Welse da, credai mewn pregethu ymarferol gan apelio ar i'r gynulleidfa dderbyn Crist fel Gwaredwr.[2] Roedd gweddi ddirgel hefyd yn bwysig iddo a chredai fod ymarfer hynny yn amod llwyddiant mewn pregethu.[3] Dywedir fod nifer yn y Gylchdaith wedi eu dychwelyd trwy ddylanwad ei bregethu.[4] Yn 1854, ac yntau yn ddwy ar hugain oed, cyflwynwyd ef gan William Powell, arolygwr Cylchdaith Aberystwyth, fel ymgeisydd ar gyfer y weinidogaeth Wesleaidd yng Nghyfarfod Taleithiol Nantyglo. Gan na allai'r enwad fforddio cyflogi mwy o weinidogion y flwyddyn honno, gwrthodwyd ef.[5] Cyn diwedd y flwyddyn roedd ar ei ffordd, yn siomedig o bosibl, i ymuno â'i deulu yn America.

Erbyn i Jones gyrraedd yr Unol Daleithiau bu cryn newid pwyslais diwinyddol yno ymhlith trwch yr enwadau Protestannaidd efengylaidd, ac yn hyn o beth mae'r newid a welodd Cymru a Lloegr yn ymdebygu iddo. Yn 1820'au a'r 30'au cafodd yr hen Galfiniaeth ei chymedroli gryn dipyn gan do ifanc o weinidogion. Dylanwadodd hyn ar ddiwygiadaeth y wlad. Ynghynt byddai efengylwyr megis Ashael Nettleton yn sicrhau fod diwygiadau eu cyfnod yn fwy syber a cheidwadol eu naws, ac yn pwysleisio mai gwaith sofran Duw oedd diwygiadau. Byddai Nettleton yn gwrthod unrhyw sylw iddo'i hun yn ystod adfywiadau o'r fath.[6] Ond erbyn y '30au cododd to newydd o efengylwyr, dynion fel Charles Finney, a oedd yn llawer llai Calfinaidd eu

[1] Evan Isaac, *Humphrey Jones a Diwygiad 1859* (Bala, 1930), tt.19-20.
[2] H.Parry, 'Y Parch Humphrey Jones y Diwygiwr', yn *Y Fwyell*, 1 (1894), t.170.
[3] Ibid. t.229.
[4] J.J.Morgan, *Hanes Dafydd Morgan a Diwygiad 1859* (Yr Wyddgrug, 1906), t.19.
[5] Eifion Evans, *Fire in the Thatch* (Bridgend, 1996), t.188-9.
[6] Richard Carwardine, *Popular Evangelicalsim in Britain and America, 1790-1865* (London, 1978), t.5.

safbwynt, os nad yn ymylu ar fod yn Arminiaid. Un o'r newidiadau amlwg oedd cynnwys y pregethu. Yn lle pregethu athrawiaethol, apeliwyd at y teimlad a phwyswyd ar i bobl ymateb i'r efengyl. Yn ogystal, gwnaed defnydd helaeth o gyrddau gweddi rhagbaratoawl, gydag unigolion yn cael eu henwi ar goedd gyda'r bwriad o'u cymell i gredu. Ar ddiwedd oedfa gwahoddid y rhai a ddymunent ddod yn Gristnogion i ddod ymlaen ac eistedd ar yr hyn ar y fainc neu'r *'anxious seat'*. Gallai oedfaon o'r fath fod yn hynod deimladwy: 'Meetings were often "loud and boisterous", groaning was not unusual, and even "muscular agony" was evident at times'.[7] Er bod llawer o'r to ceidwadol yn amheus o newidiadau fel hyn ni olygai hynny eu bod yn ymwrthod â'r technegau yn llwyr. Gwyddai Nettleton ei hun sut i drin a thrafod yr annychweledig.[8] Erbyn y 1850au roedd y dulliau hyn wedi hen ennill eu plwyf ar draws y wlad.

Ymunodd Humphrey Jones â'r enwad oedd yn cyfateb i'r Wesleaid Cymreig, sef yr Eglwys Fethodistaidd Esgobol. Dyma enwad oedd yn eistedd yn gyfforddus iawn yn naws ddiwygiadol gynhyrfus America: 'Methodism was wholeheartedly a revival movement; its churches grew through revivals; its ministers preached revivals; its success was talked of in terms of revival'.[9] Tyfodd yr enwad yn sydyn ryfeddol: o fod yn llai na deg mil aelod yn 1780, roedd oddeutu 250,000 yn 1820, a dyblodd eto ymhen degawd.[10] Arminiaeth oedd eu diwinyddiaeth gan bwysleisio cyfrifoldeb pob unigolyn i ymdrechu tuag at ei achubiaeth ei hun. Gweinidogaeth deithiol oedd ganddynt, heb ofal bugeiliol sefydlog dros eglwysi, a'u gweinidogion at ei gilydd yn ddynion

7 Ibid. t.8.
8 Ibid. t.9.
9 Ibid. t.10.
10 Ibid.

cyffredin, di-addysg. O bob traddodiad roedd y Methodistiaid yn fodlon arbrofi efo dulliau newydd o efengylu, ac ymhlith eu hoff ddull oedd y cyfarfodydd gwersyll (*camp meetings*). Gallai eu haddoli cyhoeddus fod yn swnllyd a theimladwy a gwnaed defnydd cyson o'r fainc i'r rhai dan wasgfa. Cyn hyn gwahoddid yr anychweledig at yr allor, gyda'r bwriad o'u gwahanu oddi wrth y credinwyr er mwyn rhoi pwysau arnynt i dderbyn Crist. Er bod anghytundeb ynghylch pryd y dechreuwyd defnyddio'r dull hwn, meddai Carwardine, 'by the second decade of the [19$^{th}$] century the call to the altar had become a standard feature of Methodist revivals'.[11]

Erbyn yr 1850au roedd y Fethodistiaeth hon wedi tyfu'n rhan o brif ffrwd efengylaidd y wlad. Er i'r enwad gynyddu fwyaf yn y gorllewin, ymledodd hefyd i'r dwyrain, sef cadarnle'r hen Galfiniaeth geidwadol. Nodwyd eisoes fel y cymedrolodd y Galfiniaeth honno a gosod llawer mwy o bwys ar gyfrifoldeb dyn i ymateb i alwad Duw.[12] Fodd bynnag, bu i'r to ceidwadol ddylanwadu ar y Methodistiaid yn ogystal, ac erbyn y cyfnod hwn roedd yr enwad hwnnw a fu yn ddigon amrwd a di-drefn mewn llawer ffordd, nid yn lleiaf yn ei addoliad cyhoeddus, wedi parchuso cryn dipyn: 'Methodisits, too, were polishing the rougher edges of revivalism'.[13] Er bod y gwreiddiau yn ddwfn yn y dosbarth gweithiol, daeth yn enwad llawer mwy dosbarth canol yn y trefi mawr, dwyreiniol, ac aed ati i godi capeli crand. Un nodwedd bwysig yn natblygiad yr enwad oedd yr ymgais i gyrraedd y cymunedau newydd oedd yn dylifo i mewn i'r wlad, a chaed cenadaethau arbennig ymhlith yr Almaenwyr, y

[11] Ibid. t.13.
[12] Am drafodaeth lawn o'r datblygiadau hyn gwelir Mark A. Noll, *America's God: from Jonathan Edwards to Abraham Lincoln* (Oxford, 2002).
[13] Richard Carwardine, *Popular Evangelicalism*, t.23.

Ffrancod, a'r Cymry.[14] Daeth sawl un i'r wlad er mwyn eu cynnig eu hunain i wasanaeth y Methodistiaid a hynny oherwydd nad oedd gwaith iddynt yn eu gwlad eu hunain. Aeth Benjamin Bedford yno yn 1848 am iddo gael ei wrthod fel ymgeisydd am y weinidogaeth yn Lloegr oherwydd bod digon ar gael yno. Enghraifft arall oedd William Livsey, eto o Loegr, oedd wedi ei argymell fel cenhadwr tramor ond heb obaith am gael ei benodi. Daeth yn weinidog gyda'r Eglwys Fethodistaidd Esgobol yn 1830.[15] Fel y nodwyd uchod, dyna yn union sefyllfa Humphrey Jones. Yn America cawsant gyfle i ddysgu dulliau newydd:

> The vast cicuits of early nineteenth century American Methodist and the extensive use of camp meetings, for example, provided a context within which newcomers with only a half-developed instinct for revivals could find much greater opportunities for soul-saving.[16]

I ganol y berw hwn y daeth Humphrey Jones. Yn naturiol, ni ddaeth i America heb brofiad o gynnwrf crefyddol: roedd hanes diwygiadau Cymru yn gefndir iddo, ac roedd ganddo brofiad o weld ffrwyth i'w bregethu. Fodd bynnag, cafodd ei ddylanwadu'n drwm gan y math o ddiwygiadaeth oedd yn America ac ymhlith y Methodistiaid yn fwyaf neilltuol.

Cafodd yrfa hynod lwyddiannus yno. Wedi ei benodi'n genhadwr yn Racine, Efrog Newydd yn 1855, ac aros yno am oddeutu blwyddyn, dychwelodd at ei deulu yn sefydliad newydd Oshkosh, Wisconsin.[17] Bu Cymry yn yr ardal er 1847, pryd y daeth naw o bobl oedd eisoes wedi mudo i'r wlad i greu sefydliad Cymreig newydd. Cafodd pob un ohonynt 160 erw o dir i amaethu ac yn fuan wedi'r dyddiau hynny ymfudodd mwy o Gymru i ymsefydlu yno. Wynebasant dlodi difrifol, gyda rhai heb brofiad o

---

[14] Ibid. t.20.
[15] Ibid. t.37.
[16] Ibid. t.44.
[17] Gw. D.Davies (gol), *Hanes y Cymry yn Swyddau Winnebago a Fond du Lac, Wisconsin* (Wisconsin, 1898).

amaethyddiaeth o gwbl. Adroddwyd fel y byddai rhai yn cerdded i'r capel yn droednoeth gan gario eu hesgidiau a'u hosanau er mwyn sicrhau eu bod yn weddus i'w gwisgo yn yr oedfa.[18] Mae'n amlwg fod nifer sylweddol ohonynt yn Gristnogion eisoes gan eu bod wedi sefydlu eglwysi yn fuan wedi cyrraedd. Yn wir bu i'r naw a gyrhaeddodd yr ardal gyntaf oll gynnal ysgol Sul mewn ystafell mewn gwesty yn Rosendale, a hynny ar y Sul cyntaf iddynt fod yno.[19] Daeth teulu Humphrey Jones yno yn 1852.

Yn nyddiau cynnar y sefydliad dechreuodd holl Gristnogion yr ardal addoli ar y cyd, er eu bod yn siŵr yn cynrychioli ystod pur eang o draddodiadau Cristnogol. Dyna fu'r drefn hyd 1849/50. Yna aethpwyd ati i sefydlu eglwysi gan y gwahanol enwadau, gan gychwyn efo'r Bedyddwyr yn Awst 1849. Erbyn i Humphrey Jones gyrraedd yn 1856 roedd gan y rhan fwyaf o'r enwadau Anghydffurfiol eu hadeiladau eu hunain yn yr ardal. Dim ond y Wesleaid oedd heb fentro gwneud. Jones ei hun sy'n cael ei enwi fel sylfaenydd yr eglwys Fethodistaidd, a chorffolwyd hi ar 30 Dachwedd, 1855, a hynny yng nghartref rhyw David Morgan. Yn ôl ystadegau cyntaf yr eglwys, roedd 14 aelod ac un ar brawf. Tebygol yw mai teulu Jones oedd nifer sylweddol o'r aelodau hyn.[20] Am beth amser parhau i bregethu mewn tai a wnaeth Jones, cyn i'r eglwys symud i ysgoldy'r 'Red Schoolhouse', ac yna adeiladu capel pwrpasol yn 1862. Er i Humphrey Jones gael ei gyfrif fel gweinidog ganddynt, treuliodd gryn amser yn teithio o amgylch y wlad, a hynny yn unol â threfn ei enwad.

Cyrhaeddodd y diwygiad Oshkosh ddiwedd Mawrth 1860. Fodd bynnag, roedd cynhyrfiad ysbrydol cynharach wedi cyffwrdd yr eglwysi Cymreig. Credid mai 'deffro yr eglwys' oedd gwerth yr adfywiad hwn, gyda'r

[18] Ibid. t.43.
[19] Ibid. t.14.
[20] Ibid. t.168.

cwrdd gweddi yn profi dylanwad arbennig: 'cyfarfodydd gweddïo oedd yn myned a hi o ddigon yn y diwygiad hwnnw. Yr oedd y capelau yn llawn agos bob nos ar hyd gauaf 1857-58, y canu a'r gweddïo yn effeithiol iawn, a llawer yn cael eu dychwelyd'.[21] Nid oes sôn am Humphrey Jones yng nghyd-destun yr adfywiad hwn ond mae digon o dystiolaeth ei fod yng nghanol berw adfywiadau eraill yn y wlad yn yr un cyfnod ac mae'n eithaf posibl iddo gael ei ddefnyddio yn bur helaeth yn Wisconsin hefyd.

Cyn gadael y sefydliad Cymreig hwn byddai'n werthfawr nodi'n fyr fel yr effeithiodd diwygiad cyffredinol 1857 yr ardal hon. Er i'r ardal gael ei chyffwrdd yn 1860, bu'r dylanwad yn fawr. Cychwynnodd mewn cwrdd gweddi ar gyfer plant bach a datblygodd yn gyfarfod ar gyfer oedolion. Caniateir i un llygad dyst grynhoi'r cyfnod ar ein cyfer. Aeth, meddai,

> ... yn gwrdd gweddi pob man - y coed fel y capel, hanner nos fel hanner dydd, - a'r merched fel y meibion yn cymryd rhan ynddo. Canu, gweddïo, a moliannu oedd y sŵn hyfryd a glywid ym mhob man. Cafodd rhai o'r cymeriadau gwaethaf eu dychwelyd yn y cyfarfodydd Gweddïo rhyfedd hyn - plant y diafol eu gwneud yn blant Duw ... Cynhelid y cyfarfodydd gweddïo hyn bron bob nos o'r wythnos, a Dydd Iau ar ei hyd, am ysbaid i dri mis.[22]

Beth am waith Humphrey Jones y tu allan i'r sefydliad hwn? Y cyfeiriad cynharaf a ganfuwyd amdano oedd yn *Y Drych a'r Gwyliedydd*, wythnosolyn Cymraeg a gyhoeddwyd gan y Wesleaid yn America, yn Awst 1856. Dywedir iddo bregethu yn y 'Welsh Prairie' am ddau Sul. Fodd bynnag, 'torrodd allan ddiwygiad yno, a bu raid iddo aros yno yn hwy'.[23] Cyfeirir ato fel y Parch H.R.Jones, Rosendale, ac nid fel 'y diwygiwr'. Mae'n debyg nad ydoedd eto wedi cael yr enw hwnnw. Wrth gloi ei lythyr mae Williams yn nodi fod Jones

---

[21] Ibid. t.155.
[22] Ibid. t.156.
[23] *Y Drych a'r Gwyliedydd,* 23 Awst 1856, t.270.

yn bwriadu dychwelyd i Gymru 'yn yr hydref dyfodol'. Fodd bynnag, gwyddom ei fod wedi aros yno am dros flwyddyn arall, ac i'w ddylanwad fel diwygiwr gynyddu'n fawr yn y cyfnod hwn.

Yn rhifyn Mai, 1858, o'r *Cenhadwr Americanaidd,* cyhoeddiad Cymraeg arall yn y wlad, y mae dau gyfeiriad at Jones a'i waith yn Swydd Oneida, Efrog Newydd yn ystod y diwygiad cyffredinol a effeithiodd y wlad o 1857 ymlaen. Gan mai yn ninas Efrog Newydd y cychwynnodd yr adfywiad yn America ac mai yno y llosgodd y tân danbeidiaf, byddai'n naturiol inni ddisgwyl i'r eglwysi Cymreig gael eu heffeithio yn yr ardaloedd cyfagos, a dyna a welwn yn yr adroddiadau hyn. Mae R.W.Thomas, 'Iorthryn Gwynedd', yn adrodd yr hanes yn gyffredinol, gan olrhain hanes y diwygiad ymhlith y Cymry o'i ddechreuad yng nghyfarfodydd Cymanfaol yr Annibynwyr yn Oneida i'w ymlediad dan arweiniad Morris Roberts, gweinidog Bethel a Remsen. Ni roddir manylion am gyfraniad Jones ond ceir y frawddeg hon ganddo: 'Bu gwasanaeth y Diwygiwr Cymreig, y Parch Humphrey R Jones, o gynhorthwy mawr i'r gweinidogion a'r eglwysi'.[24] Cawn olwg fwy manwl ar ei gyfraniad mewn ysgrif gan Morris Roberts, y cyfeirir ato gan Iorthryn Gwynedd. Ymhlith y rhai di-Gymraeg torrodd y diwygiad allan ymysg y 'Methodistiaid Episcoplalaidd a'r Bedyddwyr' ym mhlwyf Remsen.[25] Nid rhyfedd hynny gan mai dyma'r ddau enwad gyda'r pwyslais mwyaf diwygiadol. Gan fod cynulleidfa fechan o Fedyddwyr Cymraeg yn ymyl, buan y cydiodd y Cymry yn yr adfywiad. Mae Roberts yntau yn cyfeirio at Gymanfa'r Annibynwyr, ond hefyd yn nodi Cymanfa'r Wesleaid Cymraeg a gynhaliwyd yn y cylch, a'r ffaith mai Humphrey Jones oedd un o'r pregethwyr

[24] R.W.Thomas, 'Yr Adfywiad Crefyddol', yn *Y Cenhadwr Americanaidd* 19 (1858), t.167.
[25] M.Roberts, 'Adfywiad Crefyddol yn Steuben a Remsen, Swydd Oneida', yn *Y Cenhadwr Americanaidd*, 19 (1858), t.192.

yno. Dyma sy'n esbonio sut y cafodd Jones ddod i'r ardal yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, roedd enw Jones fel diwygiwr wedi cyrraedd o'i flaen. Meddai Roberts amdano: 'Yr oedd y brawd hwn wedi bod yn cadw cyrddau diwygiadol ym mysg y gwahanol enwadau yn Wisconsin, a llaweroedd wedi eu dychwelyd at grefydd yn y cyfryw gyfarfodydd'.[26] Ai cyfeiriad yw hwn at yr adfywiad a ddeffrodd yr eglwysi yn y sefydliad Cymreig y cyfeiriwyd ato uchod? Nis gwyddwn i sicrwydd ond byddai'n ddigon teg inni gredu felly.

Penderfynodd Jones aros yn y cylch i gynnal cyfarfodydd tebyg. Gan ei fod yn dderbyniol fel pregethwr gan y Methodistaiad Calfinaidd yn Wisconsin, gofynnwyd iddo gynorthwyo'r enwad hwnnw yn Oneida yn ogystal. Yn ei adroddiad o ddatblygiad y diwygiad yn yr eglwysi Cymreig, gwelwn fodlonrwydd Jones i gydweithio ag eraill. Yn ogystal â chydweithio gydag unigolion, rhai fel Humphrey Humprhreys er enghraifft, un na wyddom ddim amdano, roedd hefyd yn credu mewn gweithio ar draws y ffiniau enwadol ac i feithrin ysbryd cydweithio rhwng yr enwadau. Cawn enghraifft o hyn mewn lle o'r enw Ninetysix, pryd yr ymunodd yr Annibynwyr, y Calfiniaid, a'r Wesleaid gyda'i gilydd i gynnal cyfarfodydd. Teithiodd Jones o un man i'r llall a bu wrth y gwaith o Hydref 1857 hyd Fawrth 1858. Meddai Roberts am y cyfnod,

> Dyma un o flynyddoedd deheulaw y Goruchaf yn ein plith ... Aeth y gauaf heibio fel prin y gwyddem i ni gael gauaf. Cawsom haf ar grefydd beth bynnag, a chafwyd y fendith yn gyffredinol, - nid oes neb lle heb gael ychwanegiad, ac adnewyddiad meddwl i'r rhai oedd gyda yr achos o'r blaen, - pob eglwys wedi ei hadnewyddu, a phob gweinidog wedi ei sirioli yn y gwaith mawr.[27]

Er mai ar weddi a mawl yr oedd y pwyslais mwyaf yn y diwygiad hwn roedd lle i bregethu hefyd, a chawn wybod bod Jones wedi pregethu yn ninas Utica, a

[26] Ibid. t.193.
[27] Ibid.

bod 'rhai ugeiniau ... wedi cael eu hychwanegu at yr eglwys' trwy ei weinidogaeth.[28] O ganol berw'r diwygiad mawr hwn y daeth Humphrey Jones i Gymru ym Mehefin 1858.

Sut mae mesur maint dylanwad America arno? Ni ellid dweud mai yno y dysgodd y cwbl am ddiwygiadaeth gan iddo gael ei fagu mewn gwlad a brofodd cymaint o adfywiadau ers sawl cenhedlaeth. Ni ellid honni, ychwaith, mai yn America y daeth yn bregethwr effeithiol, gan iddo gael gryn ddylanwad fel pregethwr cyn gadael cartref. Fodd bynnag, yno y cafodd brofi yn uniongyrchol drosto'i hun beth oedd diwygiad, ac y daeth yn arweinydd medrus mewn symudiad o'r fath. Yn ogystal, cafodd ei drwytho mewn arferion enwad a oedd yn gwbl ddiwygiadol ei naws a'i bwyslais. Prin y gallai unrhyw un, pa faint bynnag ei brofiadau ynghynt, ddychwelyd o America heb ei gyffwrdd gan hyn. Os na ddysgodd dechnegau cynnal diwygiad yno, cafodd gyfleoedd euraidd i'w hymarfer a'u perffeithio.

Un o'r pethau oedd yn unigryw i ddiwygiad 1857 yn America i'w gymharu â diwygiadau'r gorffennol oedd y sylw a roddwyd iddo yn y wasg secwlar. Yn ôl Kathryn T. Long, dyma'r diwygiad cyntaf i gael sylw tudalen flaen mewn papur cenedlaethol yn y wlad. Dydd Sadwrn, 27 Chwefror 1858, ymddangosodd hanes yr adfywiad ar dudalen flaen y *New York Times*, oedd a'i gylchrediad yn genedlaethol. Cydiodd papurau eraill ar y newydd a thyfodd eu cylchrediad o'r herwydd. Daethpwyd i sylweddoli fod diwygiad yn gwerthu papurau![29] Fodd bynnag nid y papurau newydd oedd yr unig rai i elwa oddi wrth y sylw hwn yn y wasg. Wrth ddarllen hanes ymlediad a dylanwad y diwygiad y sbardunwyd H.J.Eddy, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn

[28] 'Yr adfywiad crefyddol', yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 21 (1858), t.196.
[29] K.T.Long, *The Revival of 1857-58: Interpreting an American Religious Awakening* (Oxford, 1998,) tt.26 ymlaen.

Bloomington, Illinois, i gynnal cyrddau gweddi diwygiadol yn ei eglwys, ac o'r herwydd cydiodd yr adfywiad yno hefyd.[30]

Nid awgrymodd Kathryn Long fod arweinwyr yr adfywiad wedi ceisio'r sylw hwn, ond gwelwn oddi wrth yr *Herald Cymraeg* yn Awst 1858 mai dyna'n union a wnaeth Humphrey Jones. Dan y teitl 'Diwygiad yn Tre'ddôl, Sir Aberteifi' cyhoeddwyd llythyr ganddo yn nodi cychwyn adfywiad yn yr ardal tan ei ddylanwad ef. Dywed iddo ddychwelyd adref er mwyn ymweld â'i deulu, a'u bod hwy wedi pwyso arno i gychwyn cyfarfodydd adfywiadol. Edrychwn yn fwy manwl ar y llythyr hwn mewn pennod arall. Digon inni nodi yma bod Jones wedi dysgu gwers bwysig ynghylch sicrhau cyhoeddusrwydd i'w waith tra oedd yn America.

Roedd Humphrey Jones, felly, wedi ei ddylanwadu'n fawr gan ddiwygiadaeth America, a chawn weld effaith hynny wrth inni edrych ar ddechreuadau'r diwygiad yng Nghymru mewn pennod arall. Fodd bynnag, y mae un dylanwad arall sydd yn haeddu sylw cyn inni adael y cymeriad hynod hwn.

*ii. Y milflwyddiant, diwygiadaeth, a diwygiad 1859.*

Ym Mis Mehefin 1859 cyhoeddodd Humphrey Jones y byddai'r Ysbryd Glân yn disgyn am un ar ddeg o'r gloch ar fore arbennig yn Aberystwyth ac y byddai'r milflwyddiant yn cychwyn. Ymgasglodd cannoedd o bobl i gapel Queen Street y bore hwnnw, lawer ohonynt mewn cryn fraw a phryder. Disgwyliasant yn amyneddgar hyd yr awr benodedig, a chlywsant Jones yn gwaeddi o'r pulpud, 'Mae E'n dod. Mae E'n dod.' Ond ni ddaeth. Ac efo'r

[30] Ibid. t.37.

siom hwnnw yn rhwygo ei feddwl, ymneilltuodd y diwygiwr o olwg y cyhoedd.[31] Er na allwn egluro sut y daeth meddwl Humphrey Jones i'r fath gasgliad, bydd yr adran hon yn olrhain y cysylltiad agos rhwng diwygiad 1859 a syniadau milflwyddol yn America.

Yn un o lyfrau mwyaf astrus y Beibl y deuir ar draws y syniad am deyrnasiad Iesu am fil o flynyddoedd. Yn yr ugeinfed bennod o Ddatguddiad Ioan canfyddwn y broffwydoliaeth y bydd Crist yn teyrnasu ar y ddaear am y cyfnod hwn, ac y bydd y ddaear yn mwynhau heddwch llwyr gan y byddai'r Diafol wedi ei rwymo dros y cyfnod. Mae a wnelo'r testun ag escatoleg, buddugoliaeth a brenhiniaeth sicr Crist, ac mae'n cynnig gobaith i'w ddilynwyr. Fodd bynnag, bu'r ymgais i egluro'r testun yn fwy manwl na hynny yn fodd i greu rhwygiadau mawr rhwng Cristnogion dros y canrifoedd. Mae'n destun sy'n parhau i gyffroi hyd heddiw. Canfyddir gwreiddiau'r syniad mewn testunau eschatolegol Iddewig, megis llyfr Daniel yn yr Hen Destament. Awgrymir i destunau tebyg gael eu hysgrifennu mewn cyfnod o ormes i'r genedl Iddewig, cyfnod lle'r oedd awydd mawr am waredwr i ddod ag achub y genedl.[32]

Ceir tri dehongliad cyffredinol o Datguddiad 20. Yn gyntaf, y dehongliad anfilflwyddiannol ('*amillennial*'), sy'n credu mai cyfnod symbolaidd neu drosiadol yn hytrach na llythrennol yw'r mil blynyddoedd. Modd o ddarlunio cyfnod amhenodol, neu gyfnod cyflawn, perffaith ydyw'r cyfeiriad at fil o flynyddoedd, meddir. Nid digwyddiad oddi fewn i derfynau hanes mohono, ac nid oddi mewn i ffiniau byd amser y caiff Iesu ei fuddugoliaeth dros y drwg. Roedd y tadau eglwysig Origen ac Awstin Fawr yn

[31] Evan Isaac, *Humphrey Jones a Diwygiad 1859*, t.62.
[32] K.L.Callbeck, 'The Many Millenniums', *Quodlibet*, 5 (2003).

deall y bennod yn y termau hyn, a dyma'r dehongliad a dderbyniwyd gan yr eglwys yng Nghyngor Effesus yn 431OC. Brenhiniaeth ysbrydol sydd gan Grist, gan reoli yng nghalonnau ei ddilynwyr. Ar ddiwedd hanes bydd yn ymddangos i ddatguddio ei deyrnas dragwyddol.

Yr ail ddehongliad yw'r un ôlfilflwyddol (*'postmillennial'*). Yn ôl y dehongliad hwn mae'r mil blynyddoedd yn gyfnod go iawn y gellid ei ddisgwyl ar y ddaear. Yr eglwys fydd yn gyfrifol am ddod â'r cyfnod i fodolaeth trwy ei hymdrechion a'i dylanwad. Bydd yn gyfnod o lwyddiant digymar i'r eglwys, lle gwelir myrdd o bobl yn cael eu troi at Grist. Dyma fydd yn rhwymo Satan - grym yr efengyl yng nghalonnau dynion. Ar ddiwedd y cyfnod bydd Crist yn dychwelyd i'w fyd. Roedd y Piwritaniaid yn America yn gryf o blaid y dehongliad hwn, ac yn credu mai yno y byddai'r milflwyddiant yn cael ei sefydlu. Gwelsent dynged America yn nhermau'r milflwyddiant, gyda'r genedl yn cael ei bendithio'n helaeth fel paratoad at fuddugoliaeth derfynol Crist ar y ddaear.

Y trydydd dehongliad yw'r un cynfilflwyddol (*'premillennial'*). Yn hwn disgwylir ailddyfodiad Crist cyn y milflwyddiant, yna bydd y credinwyr a fu farw yn atgyfodi er mwyn llywodraethu efo Iesu a chlymir Satan am y cyfnod, pryd y bydd heddwch byd. Cyn yr ailddyfodiad disgwylir cyfnod o ryfeloedd a dioddefaint mawr, sef y 'trallod', ac wedi'r milflwyddiant rhyddheir Satan er mwyn ymladd brwydr fawr â Duw, brwydr y bydd Satan yn ei cholli. Yna ceir yr ail atgyfodiad a'r Farn olaf. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg datblygwyd y syniad cynfilflwyddol gan y clerigwr Angicanaidd a sylfaenydd diweddarach Brodyr Plymouth, John Nelson Darby (1800-1882), a chyfeirir at ei syniadau fel 'cynfilflwyddiant gollyngol'. Credai Darby y gellid rhannu hanes i gyfres o

gyfnodau pryd y mae Duw yn ymwneud â'r ddynoliaeth mewn gwahanol ffyrdd. Datblygwyd y syniadau hyn gan yr arweinydd crefyddol Americanaidd Cyrus Ingerson Scofield (1843-1921), a gredai ei bod hi'n bosibl rhannu'r cyfnodau hyn yn saith oes, a'n bod yn byw rhwng cyfnod 'gras' a chyfnod 'y deyrnas'. Credir y caiff dilynwyr Crist eu codi'n gorfforol i'r nefoedd - 'y cipiad' - cyn y trallod, ac y dychwel Crist ar ôl y trallod, ond cyn y milflwyddiant. Bydd yr Iddewon yn cael eu troi at Grist, ac Israel yn adfeddiannu'r cwbl o'i thiroedd. Dyma'r syniad sydd fwyaf amlwg ymhlith Cristnogion ffwndamentalaidd America yn ein dyddiau ni.[33]

Prin yw'r sylw a roddwyd i eschatoleg a'r milflwyddiant yng Nghymru. Roedd Morgan Llwyd a phlaid y Bumed frenhiniaeth yn arddel syniadau diweddafol yng nghyfnod Cromwell a gwelodd Williams Pantycelyn arwyddocâd mawr i'r aurora borealis yn 1774. Cyplysodd y goleuni hwnnw â llwyddiannau'r Diwygiad Efengylaidd a gwelodd gyfnod gobeithiol o flaen y byd wrth i Grist sefydlu ei deyrnas yn gyflawn. Er gwaethaf y pwyslais hwn gan Williams, ni roddwyd fawr o bwyslais gan y Methodistiaid cynnar i'r pethau diwethaf.[34] Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg prin fod eschatoleg yn flaenllaw ym meddwl Cristnogion Cymru. Ceir enghreifftiau yma ac acw, un ohonynt yng ngwaith Morgan Howell, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yng nghanol y bedwaredd ganrif a'r bymtheg. Ysgrifennodd at ei wraig ym Mai 1850:

> Cefais gymorth gan yr Arglwydd i roddi amryw o ergydion celyd i'r diafol. Yr oedd ef yn ddiweddar wedi rhoddi amryw o'r cyfryw i mi. Fe'i rhwyma yr Arglwydd ef yn fuan; fe gwympa Babilon yn fuan; fe ddychwelir yr Iddewon yn fuan ... Yr ydym yn aghosau at ystorm, yna tawelwch am fil o flynyddoedd.[35]

---

[33] Ibid.
[34] Derec Llwyd Morgan, *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul, 1981), tt.276-8.
[35] A.Morris, *The Story of Ebenezer Calvinistic Methodist Church* (Newport, 1916), t.59.

Ond er mwyn darganfod y syniadau hyn yn ehangach rhaid troi at America. Gan i Humphrey Jones dreulio rhai blynyddoedd yno, teg yw casglu ei fod wedi ei ddylanwadu ganddynt ar y cwestiwn hwn, yn ogystal â'r syniadau a'r ddiwygiadaeth.

Gwelodd y bedwaredd ganrif ar bymtheg sawl syniad gwahanol am filflwyddiaeth yn America, rhai ohonynt yn hynod ffansïol. Enghraifft dda o hyn yw hanes William Miller, amaethwr yn Lloegr Newydd a ddaeth i'r casgliad yn 1818 y byddai Crist yn dychwelyd i'r byd oddeutu 1843. Treuliodd bum mlynedd yn rhannu ei syniadau efo cyfeillion agos iddo. Ond o 1831 ymlaen cafodd wahoddiadau gan gylchoedd eraill, ac am yr wyth mlynedd ddilynol bu'n darlithio ar y pwnc. Yn 1839 ymunodd Joshua Himes ag ef, a newidiodd y mudiad o fod yn fand-un-dyn i fod yn fudiad a threfniadaeth weithredol. Aethpwyd â'r broffwydoliaeth o amgylch y wlad, ac yn 1842 cynhaliwyd cyfarfodydd gwersyll, a thyrrodd miloedd o bobl iddynt. Yn gynnar yn 1843 dywedodd Miller mai rhyw dro rhwng Mawrth 21 y flwyddyn honno a'r un dyddiad ym 1844 y byddai'r ailddyfodiad. Ni chynigiodd ddyddiad pendant ei hun, ond mynnodd rhai o'i ddilynwyr mai 23 Ebrill 1843 oedd y dyddiad i fod. Wrth i'r dyddiad hwnnw basio heibio'n dawel nid cefnu mewn siom a wnaeth y cefnogwyr, ond hoelio eu sylw ar ddiwedd 1843 - hynny eto'n groes i gyngor yr arweinwyr. Wrth i'r dyddiad hwnnw fynd heibio, a 21 Mawrth 1844 fynd a dod, eto, nid llacio'u gafael a wnaeth y cefnogwyr ond ymroi i weithio'n galetach dros yr achos, a chredu mai camgymeriadau bychan a sicrhaodd fod y dyddiadau yn anghywir. Penodwyd dyddiad newydd - 22 Hydref 1844. Pan nad ymddangosodd Crist ar y dyddiad hwn, fodd bynnag, chwalodd y mudiad i bob pwrpas, a hynny dan siomedigaeth fawr. Parhaodd

carfan fechan o'r dilynwyr, a thyfodd i fod yn Eglwys Adfentistiaid y Seithfed Dydd.[36]

Er mwyn canfod gwreiddiau syniadau milflwyddol yn eu cysylltiad â diwygiadau yn America rhaid edrych yn gyntaf i gyfeiriad y Piwritaniaid. Yn ei gyfrol *The Puritan Hope* mae Iain Murray yn olrhain syniadau'r Piwritaniaid am ddiwygiad byd-eang ar ddiwedd hanes. Roedd y gred am bwysigrwydd diwygiadau yn gyffredin ymhlith y Piwritaniaid a dywed Murray eu bod wedi dod i gredu hyn yn dilyn y diwygiad Protestannaidd, a fu'n fodd i ddod ag adnewyddiad mawr i fywyd yr eglwys. I'r Piwritaniaid roedd cynnydd mawr yr eglwys yn dibynnu ar dywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân. Roedd y gred hon yn rhan hanfodol o syniadaeth ysbrydol trefedigaethau America, a chawn Jonathan Edwards yn ysgrifennu yn 1774:

> It may here be observed, that from the fall of man to our day, the work of redemption in its effect has mainly been carried on by remarkable communications of the Spirit of God. Though there be a more constant influence of God's Spirit always in some degree attending his ordinances, yet the way in which the greatest things have been done towards carrying on this work, always have been by remarkable effusions, at special seasons of mercy.[37]

Daeth y gred mewn diwygiad byd eang ar ddiwedd hanes, pryd y byddai pobl yn dychwelyd at grefydd mewn niferoedd mawr, yn gred gyffredinol ymhlith y Piwritaniaid. Credai rhai y byddai dychweliad yr Iddewon yn digwydd cyn y diwygiad cyffredinol hwn. Meddai Datganiad Savoy yn 1658,

> We expect that in the later days, Antichrist being destroyed, the Jews called, and the adversaries of the Kingdom of his dear Son broken, the Churches of Christ being inlarged, and edified through a free and plentiful communication of light and grace,

[36] L.Festinger et.al., *When Prophecy Fails* (Minneapolis, 1956), t.34.
[37] I.H.Murray, *The Puritan Hope: revival and the interpretation of prophecy* (Edinburgh, 1971), t.108.

> shall enjoy in this world a more quiet, peaceable and glorious condition that they have enjoyed.[38]

Fodd bynnag nid cyfeiriad at y milflwyddiant a geir yma. Yn wir, prin oedd y Piwritaniaid hynny a ddehonglai Datguddiad 20 yn llythrennol. Un o'r cyntaf i wneud hynny oedd John Henry Alsted, awdur *The Beloved City* a gyhoeddwyd gyntaf yn y Saesneg yn 1643. I Alsted byddai'r milflwyddiant yn gyfnod o lewyrch a heddwch i'r eglwys oddi fewn i fyd amser a hanes. Daeth ei syniadau yn ddylanwadol yn Lloegr mewn amser, a chynyddodd y gred y byddai Crist yn dychwelyd i'r byd cyn y milflwyddiant, ond ar ôl y diwygiad byd-eang cyffredinol.

Erbyn blynyddoedd olaf yr ail ganrif ar bymtheg a chychwyn y ddeunawfed ganrif, roedd crefydd yr Anghydffurfwyr a ddeilliodd o'r Piwritaniaid wedi oeri a ffurfioli i raddau helaeth. Serch hynny, roedd eu gobaith mewn grym diwygiadau yn parhau, a chawn Matthew Henry yn datgan mewn pregeth yn 1707:

> The year of the revival of primitive Christianity in the power of it, will be the year of the redeemed. This we wish, we hope, we long to see, both at home and abroad ... When the bounds of the church will be enlarged by the conversion of Pagan and Mahometan nations to the faith of Christ, and the spreading of the gospel in foreign parts ... Pray for the pouring out of the Spirit upon us from on high and then the year of the redeemed would soon come.[39]

O fewn ychydig flynyddoedd roedd y diwygiad hwnnw wedi ei danio mewn gwahanol rannau o'r byd, gan gynnwys America. Arweinydd yr adfywiad hwn yn y trefedigaethau oedd Jonathan Edwards, a chysylltodd ef ddiwygiadau â dyfodiad y milflwyddiant. Yn wir, credai y byddai'r holl fyd wedi dychwelyd at Grist o fewn 250 blynedd oherwydd dylanwad diwygiadau, ac y byddai Crist yn

---

[38] Ibid. t.53.
[39] Ibid. t.135.

dychwelyd i sefydlu'r milflwyddiant wedi hynny, gan osod cychwyn y cyfnod hwnnw oddeutu'r flwyddyn 2000 OC. Edwards oedd un o'r cyntaf i bwyntio at y flwyddyn honno fel dyddiad milflwyddol.[40]

Yng ngwaith William Sprague, gweinidog gyda'r Presbyteriaid yn Albany, Efrog Newydd, cawn ddatblygiad pwysig yn y syniad am le diwygiadau oddi fewn i hanes yr eglwys a'r byd. Er ei fod yn un o'r hen do o Galfiniaid, ac yn amheus o'r moddion a ddefnyddiai arweinwyr fel Finney ac eraill, roedd ganddo gred ddiysgog yng ngwerth diwygiadau. Credodd y byddent yn cynyddu yn eu dylanwad o gyfnod i gyfnod ac wrth i'r milflwyddiant agosáu roedd yn disgwyl i'r dylanwad hwnnw gynyddu fwyfwy. Meddai mewn darlith a gyhoeddwyd yn 1832:

> The cause of revivals has hitherto been gradual and yet constantly gaining ground. The last year has been, in this respect, unparalleled in the annals of the church; and there is much in prophecy to warrant the conviction that, as the millenial day draws near, these effusions of the Holy Spirit will be yet more frequent and powerful.[41]

Cawn Charles Finney yntau yn cymryd diddordeb mawr yn nyfodiad y milflwyddiant. Nid yn unig y cysylltodd waith diwygiadau ag ef, ond hefyd credodd y gellid dod â'r dydd yn agosach trwy weithgarwch cymdeithasol, megis dileu caethwasiaeth. Daeth yn aelod o staff Coleg Oberlin, Ohio yn 1835, coleg diwinyddol a sefydlwyd gan arweinwyr efengylaidd oedd â'u bryd ar ddod â'r milflwyddiant i mewn. Meddai Mark A.Noll am sefydlu'r coleg: 'It had been founded by Congregational evangelicals who wanted to usher in the millennium ... It was ardently revivalistic; it was also in the vanguard of social reform'.[42]

---

[40] K.L.Callbeck, '*The Many Millenniums*'.
[41] W.B. Sprague, *Lectures on Revival of Religion* (Albany, 1832), t.57.
[42] Mark A.Noll, *The Old Religion in the New World* (Cambridge, 2002), t.31.

Erbyn diwygiad 1857-58 yn America roedd y syniad am bwysigrwydd diwygiadau wedi ei hen sefydlu, ac yn cael ei dderbyn gan y Calfiniaid ceidwadol a'r rhai oedd yn arddel y Ddiwinyddiaeth Newydd, sef y Galfiniaeth gymedrol a bwysleisiodd swyddogaeth dyn yn ei gadwedigaeth. Ond roedd amryw, hefyd, yn cysylltu'r diwygiad hwn yn benodol a dyfodiad y milflwyddiant. Mewn erthygl dan y teitl *Three Eras of Revival in the United States* dywedodd y Cynulleidfaolwr o Massachusetts, A.P.Marvin, ei fod yn disgwyl i'r diwygiad cyfoes gael ei ddehongli fel y pedwerydd cyfnod o ddiwygiadau, ac y byddai'n fodd i wrthweithio bydolrwydd yn y wlad. Ffurfiwyd ei syniadau diwygiadol gan ddylanwadau milflwyddol a Phiwritanaidd. Marvin oedd y cyntaf i gymhwyso'r syniad cylchynol am ddiwygiadau i hanes America. Roedd Duw, trwy ddiwygiad, yn adfer ac adnewyddu bywyd yr eglwys, a hefyd yn gwrthweithio drygioni yn y byd. Gwelodd Marvin y Deffroad Mawr yn y 1740au, er enghraifft, yn ateb cyfeiliornad Arminiaeth ac yn paratoi'r eglwys ar gyfer prawf y chwyldro. Fel eraill, gwelai ddiwygiad 1857 fel cylch adnewyddol arall tuag at y milflwyddiant.[43]

I nifer, fel Marvin, roedd diwygiad yn fodd o wella cyflwr y byd wrth i unigolyn ddod yn Gristnogion, ac felly gwella eu moesoldeb personol, a fyddai yn ei dro yn gwella moesoldeb y gymdeithas. Roedd gwelliannau cymdeithasol a milflwyddiaeth yn aml yn mynd efo'i gilydd. I'r diwinyddion Americanaidd cynnydd graddol oedd hwn i fod, a thrwy ddyfodiad graddol y deuai'r milflwyddiant. Dadansoddwyd rhai arwyddion yn ystod diwygiad 1857 yn y termau hyn. Er enghraifft, cyhoeddodd prif heddgeidwad Atlanta, Georgia, fod

[43] K.T.Long, *The Revival of 1857-58*, t.17.

torcyfraith wedi lleihau i'r fath raddau nes y gallai wneud heb hanner ei lu. Credai nifer y byddai gwelliannau cymdeithasol o'r fath yn parhau hyd nes y gwawriai'r milflwyddiant.[44] Un arall a ddehonglodd y diwygiad yn America yn nhermau milflwyddol oedd Samuel Irenaeus Prime, gweinidog gyda'r Presbyteriaid a golygydd y *New York Observer* yn ystod y cyfnod. Fel y gwelsom mewn pennod arall, ysgrifennodd gyfrol ar yr adnewyddiad yn 1859 dan y teitl *The Power of Prayer*, a chyhoeddwyd hi yng Nghymru yn yr un flwyddyn wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg. Roedd gan Prime ddisgwyliadau mawr ar gyfer y diwygiad, nid yn lleiaf y byddai'n parhau am gyfnod estynedig ac yn cael dylanwad rhyfeddol. Meddai: 'Y mae y gwaith i fyned rhagddo o goncwest i goncwest, hyd nes y bydd y ddaear yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd'.[45] Dyfynnodd hefyd o'r wasg grefyddol yn y cyfnod oedd yn disgwyl i'r adnewyddiad fynd rhagddo am gyfnod hir, os nad at y milflwyddiant ei hun: 'A fydd i'r adfywiad crefyddol ... gael ei ddwyn i ben? Nis gall neb feddwl fod Duw yn dewis i bethau fod felly'.[46]

Gyda chymaint o gyfeiriadau at y deffroad yn America yn cyrraedd Cymru mewn gwahanol ffyrdd, mae'n syndod na chafodd y milflwyddiant fwy o sylw yma. Ar wahân i ambell enghraifft, prin fu'r diddordeb yn y milflwyddiant o gwbl. Ond yn amlwg fe ddylanwadwyd ar Humphrey Jones tra bu'n byw a gweithio yn America. Nid oes posibl deall yn iawn sut y cafodd ei ddylanwadu, ond gan iddo broffwydo dyfodiad y milflwyddiant ar amser penodedig, prin fod amheuaeth bod diwinyddiaeth ddiwygiadol a milflwyddol America wedi cael effaith ddofn arno. Er mwyn egluro sut y daeth i broffwydo

[44] R.Carwardine, *Transatlatic Revivalism*, tt.167-8.
[45] S.I.Prime, *Nerth Gweddi*, t.20.
[46] Ibid. t38.

amser penodedig byddai rhaid inni ddeall ei gyflwr meddwl ar y pryd, ac y mae hyn eto bron yn amhosibl.

Sut bynnag y gellid egluro cyflwr ei feddwl, prin y gellid amau iddo gael ei ddylanwadu'n drwm gan ddiwinyddiaeth milflwyddol America yn ei gysylltiad â diwygiadaeth. Fel y gwelwn yn y bennod nesaf, hanes trist sydd i Humphrey Jones wedi'r digwyddiad hwnnw yn Aberystwyth gan iddo gyrraedd pen y daith fel diwygiwr. Treuliodd beth amser mewn ysbyty'r meddwl yn lleol, a chafodd gyfnod tebyg drosodd yn America. Bu'n gweinidogaethu yno am beth amser ac yno y bu farw. Ond ni welwyd wedyn y grym adfywiadol ynddo a ddaeth trosodd gydag i Gymru ef yn haf 1858. Gan ei fod wedi bod yn gyfrifol am godi Dafydd Morgan i'r gwaith trosglwyddwyd yr awenau fel prif arweinydd y diwygiad iddo ef.

*iii. Dafydd Morgan: ei gefndir a'i weinidogaeth.*

Fel 'Diwygiad Dafydd Morgan' yr adnabyddir diwygiad 1858-60 gan lawer, a hynny am mai prif ffigwr yr adfywiad oedd y gweinidog Methodistaidd, Dafydd Morgan, Ysbyty Ystwyth. Prif ffynhonnell yr ychydig a wyddom am ddyddiau cynnar Morgan yw'r cofiant a gyhoeddwyd iddo gan ei fab, J.J.Morgan, yn 1906. Gan fod y gyfrol hon yn perthyn i arddull gofiannol arferol ei chyfnod, sef clodfori'r gwrthrych i'r cymylau, heb bron ddim ymgais i drin y gwrthrych yn feirniadol, rhaid bod yn ofalus gydag ef. Cawn ffynhonnell arall, mwy gwrthrychol ond llai manwl, yng nghyfrol John Evans *Byr-gofiant 49 o Weinidogion Sir Aberteifi.*[47]

[47] John Evans, *Byr-gofiant 49 o weinidogion Sir Aberteifi* (Dolgellau, 1894).

Ganed Dafydd Morgan yn 1814 yn drydydd plentyn o naw i Dafydd a Catherine Morgans. Ar y pryd trigai'r teulu ym Melin Fodcoll, Cwm Bodcoll i'r dwyrain o Aberystwyth. Pan oedd Dafydd yn ddeng mlwydd oed symudodd y teulu i Bontrhydygroes, ac ar ôl byw mewn dwy felin wahanol, cododd y tad ei felin ei hun yn ymyl gwaith plwm y Lefel-fawr. Hon oedd Melin y Lefel, a fu'n gartref i Dafydd hyd nes iddo briodi Jane yn 1865. Saer coed oedd y Dafydd hynaf a Catherine a ofalai yn bennaf am y felin. Roedd y ddau yn aelodau ffyddlon efo'r Methodistiaid Calfinaidd yn Ysbyty Ystwyth. Wedi dod i Bontrhydygroes roedd Dafydd y mab yn barod am ysgol, a chafodd beth addysg yn ysgol John Edwards, Hendrefelen. Efo'i dad cafodd ei hyfforddi i fod yn saer coed. Rhoddodd y gwaith coed gryfder corfforol iddo, a chynhwysodd Evans y disgrifiad hwn ohono: 'Yr oedd yn ddyn hardd ei olwg, yn dal, ac wedi ei adeiladu yn gadarn o ran corff'.[48]

Yn 1836, a Dafydd Morgan oddeutu 22 oed, daeth pryder arno ynghylch cyflwr ei enaid. Gosododd John Evans yr achlysur ynghynt yn ei fywyd a chysylltu hyn efo diwygiad 1832, pryd y byddai Dafydd yn 18 oed. Fodd bynnag, siroedd gogledd Cymru a effeithiwyd fwyaf gan y diwygiad hwnnw, er bod diwygiad arall wedi cyffwrdd y de ryw ddwy flynedd ynghynt. Tybiwn mai J.J.Morgan sydd gywir. Bliniwyd Dafydd am rai misoedd gan y pryder hwn. Daeth rhyddhad iddo dan bregethu Evan Evans, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Cafodd dröedigaeth a bwriodd ei hun i mewn i fywyd yr eglwys, gan ddod yn aelod ffyddlon yn Ysbyty Ystwyth.

Pan oedd yn 27 oed daeth dan bwysau i ddechrau pregethu. Adnabyddid ef eisoes fel gweddïwr dawnus, a chredai rhai y dylai ei gynnig ei hun fel

---

[48] Evans, *Byr-gofiant*, t.123.

pregethwr. Dywed J.J.Morgan fod ei dad wedi ymatal rhag ymateb yn syth, ond ar ôl bod yn gwrando gweinidog yn traethu'r efengyl un noson, tybiodd y gallai wneud yn well ei hun, a dyna'r pryd y penderfynodd gychwyn pregethu. Derbyniwyd ef fel pregethwr gan y cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Nhregaron yn Ionawr 1842.

Er gwaethaf hyder Morgan yn ei botensial fel pregethwr, mae'r gwir amdano ychydig yn wahanol. Nid oedd yn bregethwr da o bell ffordd. Mae hyd yn oed ei fab yn gorfod cydnabod mai am ei weddïo yr adnabyddid ei dad, ac nid am ei bregethu.[49] Cofnododd John Evans sylwadau mwy gonest, ond diplomyddol, rhyw John Jones, Ysbyty, ar bregethu Morgan: 'Yr oedd yn dywedyd am Mr Morgan, y gallasai ddyfod yn bregethwr da pe buasai yn llafurio; bod ynddo lawer o allu, ond nad oedd yn gwneud un allu yn ddau, na'r ddau yn bedwar'.[50] A chynigiodd y disgrifiad hwn o'i bregethu: 'Pregeth fer, ac heb un pen, y rhan fynychaf, dim ond ychydig o sylwadau eglur a dieffaith'.[51] Roedd eraill yn llawer mwy hallt ag ef, gan gyfeirio ato fel y 'pregethwr gwanaf a berthynai i'r sir.'[52]

Mae'n bosib bod cynnwys ei bregethau yn well na'i arddull bregethu. Meddai J.J.Morgan 'Ymarferol oedd nodwedd ei bregethu ... Pregethu dyledswydd a wnae ymron bob amser, er mewn ysbryd ac ar gymhellion efengylaidd'.[53] Wrth baratoi pregethau darllenai weithiau John Owen y Piwritan, Esboniad James Hughes, a diwinyddiaeth Thomas Watson.

Roedd y pregethu ymarferol hwn, pregethu apeliadol yn chwilio am ymateb gan y gynulleidfa, yn rhan o batrwm pregethu'r cyfnod. Sylwasom

---

[49] J.J.Morgan, *Hanes Dafydd Morgan,* t.16.
[50] Evans, *Byr-gofiant,* t.122.
[51] Ibid. t.123.
[52] J.Hughes, *Bywyd y Parch Isaac Jones, Gweinidog Wesleaidd* (Lerpwl, 1898), t.90.
[53] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan,* t.16.

eisoes fel y daeth newid ar bregethu Cymru yn ystod y chwarter canrif ynghynt. Cafodd y datblygu a fu ar Galfiniaeth ar un llaw, a gwaith Charles Finney ar y llaw arall, gryn ddylanwad ar natur pregethu Ymneilltuaeth. Golygodd hynny bod angen i bregethu fod yn llawer mwy apeliadol, yn bregethu oedd yn cymell pobl i dderbyn y gras oedd ar gael iddynt.

Un canlyniad i *Ddarlithiau* Finney oedd diwygiad grymus yng Nghymru rhwng 1839 ac 1843. Wrth i arweinwyr yr eglwysi roi syniadau'r Americanwr ar waith yn ymarferol profwyd adfywiad trwy'r wlad. Cychwynnodd yn y gogledd yn 1839 ac ymledodd i'r de erbyn 1841. Roedd hwn yn ddiwygiad pur wahanol i rai'r gorffennol, yn bennaf oherwydd nad oedd yn perthyn iddo'r gorfoleddu, y dawnsio, na'r neidio a welwyd ynghynt. Diwygiad tawel oedd hwn, gyda dwyster mawr yn cydio yn y bobl.[54] Sylwyd, hefyd, fel yr oedd newid yn y dull o bregethu. Meddai Edward Parry: 'Dywedir hefyd fod y weinidogaeth yn y cyfnod hwn wedi newid cryn lawer yn ei harddull; yn flaenorol y wedd athrawiaethol oedd arni, ond yn awr daeth yn fwy cymelliadol'.[55] Credir bod oddeutu ugain mil o ddychweledigion wedi eu hychwanegu at yr eglwysi yn y cyfnod hwn.[56] Daeth Dafydd Morgan dan ddylanwad y diwygiad hwn. Prin iawn yw'r manylion am hynny ond cyfeirir ato ef ac eraill yn 'gweddïo o gwmpas y cloddiau' yr adeg honno.[57] Gwyddom iddo gael ei dderbyn fel pregethwr yn Ionawr 1842, wedi iddo gael ei gymell ychydig ynghynt. Golyga hyn fod pregethu ar ei feddwl yn ystod berw'r diwygiad, pryd yr oedd dulliau Finneyaidd ar waith. A ddysgodd rhywbeth yn benodol oddi wrth y dulliau hynny tybed, rhywbeth a gariodd gydag ef i

[54] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t.125.
[55] Ibid.
[56] Hughes, *Diwygiadau Crefyddol Cymru*, t.363.
[57] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.7.

ddiwygiad 1858-60? Nodwyd uchod fel y sylwodd ar ddull sâl un pregethwr. A sylwodd ar ddulliau gwell hefyd? Nid oes tystiolaeth y naill ffordd na'r llall, ond nid yw'n annhebygol.

Yng Nghymdeithasfa Llangeitho y cafodd ei dderbyn yn ffurfiol fel pregethwr gan ei enwad, a hynny yn 1848. Ond bu raid iddo aros hyd 1857 cyn iddo gael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, ac yn 1868 y cafodd ofalu am eglwys fel bugail, a hynny yn ei fam-eglwys yn Ysbyty Ystwyth. Hyd hynny pregethwr teithiol oedd Morgan, yn bennaf yn sir Aberteifi, er iddo fynd ar deithiau estynedig ym mhellach i ffwrdd ar brydiau. Un enghraifft yw ei daith i Abergwaun ar 3 Medi 1857 ac i Dredegar ddiwedd y mis. Pregethodd 40 pregeth ar y daith honno dros 24 diwrnod.[58] Os oedd yn bregethwr sâl, roedd yn weithiwr caled a chydwybodol.

Trown yn awr at ei ddyddiaduron. Blwyddlyfrau swyddogol ei enwad yw'r mwyafrif ohonynt, na roddant ond ychydig iawn o le i ysgrifennu nodiadau ar gyfer pob diwrnod. Y capel lle y pregethai a thestun y bregeth yw'r mwyafrif o'r cofnodion a geir ganddo, ond ar gyfer 1859 mae dau ddyddiadur ar gael sy'n rhoi rhyw gymaint o wybodaeth ychwanegol. Yn ychwanegol at y Blwyddlyfr,[59] defnyddiodd lyfr nodiadau ar gyfer dyddiadur ychwanegol.[60] Mae hwn yn cychwyn ar 4 Ionawr ac yn gorffen ar 4 Dachwedd. O tua chanol Chwefror ymlaen ni chawn ond cofnod moel o'r capel lle y pregethai, a gynhelid seiat yno ai peidio, a nifer y rhai a ddaeth ymlaen fel dychweledigion. Hyd at ganol Chwefror bu'n fwy diwyd wrth gofnodi ambell i hanes diddorol a natur ambell i gyfarfod. Mae'r oll, bron, o'r cofnodion yn cyfeirio at y cyfarfodydd cyhoeddus y cymerodd ran ynddynt yn y flwyddyn honno. Ni

[58] Ibid. t.15.
[59] LLGC, CMA 13809-24, Blwyddlyfr 1859.
[60] LLGC, CMA 1(G) 8,716, Dyddiadur 1859.

roddodd sylw o gwbl i'w gyflwr ysbrydol yn y cyfnod: dim sôn am ei adegau tawel lle byddai ei hun yn gweddïo. Tystiodd J.J.Morgan i'r lle pwysig a oedd i weddi ddirgel a'r ddyletswydd deuluaidd i'w dad, ond nid oes cyfeiriad at hyn o gwbl yn y dyddiaduron. Ni chofnododd ei deimladau ynghylch y diwygiad mewn unrhyw ffordd. A oedd yn llawen wrth gael ei ddefnyddio mor helaeth? A gafodd ei siomi mewn rhyw ffordd? A oedd yn synnu bod Duw wedi ei ddefnyddio fel diwygiwr? A ddeallodd fod grym ychwanegol yn ei bregethu ers iddo gyfarfod â Humphrey Jones? Ni roddodd unrhyw sylw i'r materion hyn. Yn wir, nid oes yr un cyfeiriad o gwbl at Humphrey Jones, er bod hwnnw wedi dylanwadu cymaint arno.

Beth sydd i'w gyfrif am hyn? Byddai'n amhosibl cynnig atebion pendant, ond gallwn fentro cynnig rhesymau posibl. Efallai na ddeallodd Dafydd Morgan fod ei gyfraniad ef i'r diwygiad yn ddigon hynod i gofnodi ei deimladau mewn dyddiadur. Nid ef oedd unig ddiwygiwr y cyfnod, er mai ei enw ef oedd ar wefusau'r bobl ar y pryd, ac mai ef gafodd y sylw mwyaf gan haneswyr wedi hynny. Ac eto aeth i'r drafferth i gadw dyddiadur ychwanegol yn ystod 1859, felly mae'n rhaid bod ganddo ryw ddealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd yr achlysur. Efallai na chafodd ddigon o hamdden ac amser yn ystod y diwygiad i gofnodi'n fwy manwl. Nid oes amheuaeth iddo weithio yn hynod galed yn ystod y cyfnod hwn. Rhifodd John Evans faint o bregethau a gyflwynwyd gan Morgan yn 1859, ac mae'r cyfanswm yn 566.[61] Ychwaneger at hyn amser teithio, a rhyw gymaint o baratoi, er mai hen bregethau a ddefnyddiodd gan amlaf, ac ni allai feddu ar ryw lawer o amser sbâr yn ystod y flwyddyn honno. Efallai na chredai mewn cofnodi ei deimladau dyfnaf a'u rhoi

[61] Evans, *Byr-gofiant*, t.124.

ar gof a chadw, er na wyddai ar y pryd, does bosib, y byddai ei ddyddiaduron ar gael i'w darllen gan eraill. Roedd yn barod i gydnabod yn gyhoeddus ei ddyled i Dduw yn ystod y diwygiad – ond mae ei ddyddiaduron personol yn fud ar y mater. Nodwedd amlycaf y dyddiadur yw'r ffaith ei fod wedi rhifo ym mhob oedfa, ac wedi cofnodi'n fanwl wedyn, faint o bobl a ddaeth ymlaen mewn ymateb i'w apêl.[62] Yn y Blwyddlyfr am 1859, yn y tudalennau gwag yn y cefn, rhestrodd bob oedfa a gynhaliodd yn ystod y flwyddyn a nodi rhif y dychweledigion wrth bob un.[63] Mae hon yn ail restr o'r un ystadegau a geir yn y dyddiadur. Adiodd y rhifau hyn at ei gilydd a chanfu fod y swm yn 1,314. Dyma ffrwyth ei lafur personol yn y flwyddyn honno, ac mae'n amlwg fod hynny'n hynod bwysig iddo.

Un arall a gadwodd ddyddiadur yn ystod y cyfnod oedd William Morgan, gweinidog efo'r Bedyddwyr yng Nghaergybi, a'r cyntaf i'w ordeinio gyda'r enwad ym Môn.[64] Buddiol fyddai cymharu cynnwys hwn efo dyddiadur Dafydd Morgan. Y gwahaniaeth amlycaf rhwng y ddau yw bod William Morgan yn llawer mwy parod i gyfleu ei deimladau dyfnaf ar bapur. Gŵr yn llawn hunanamheuon ydoedd a allai brofi argyfyngau ysbrydol wrth iddo gwestiynu ei allu ei hun fel gweinidog. Wrth nodi llwyddiant ei bregethu ym mis Tachwedd 1859, meddai, 'Pa werth oeddwn i amheu, neu i anobeithio a wrandawai yr Arglwydd ein dymuniadau am iddo lwyddo ei achos yn ein plith'.[65] Roedd William Morgan, yntau, yn ddigon parod i gyfrif y dychweledigion newydd, a nododd ar 14 Tachwedd, er engraifft, fod dros 120 o'r newydd yn disgwyl am fedydd. Fodd bynnag, nid ffigyrau moel yn unig a

[62] LLGC, Dyddiadur.
[63] LLGC, Blwyddlyfr.
[64] R.T.Jenkins (Gol.) *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953).
[65] Bangor, Prifysgol Cymru, Bangor MSS 2,338, 14 Tachwedd, 1859.

geir ganddo. Yn benodol, cawn ef yn cydnabod ei wendid ei hun yn y gwaith ac mai Duw yn unig a haeddai'r clod. Ar 18 Tachwedd meddai, 'Yr wyf yn teimlo fel pe bai'r pwysfawredd o weddïo am gymorth gras i fyw yn dduwiol ac am Ysbryd yr Arglwydd i lwyddo ei air i achub pechaduriaid yn gafaelid yn adnewyddol ynof y dyddiau hyn'.[66] Ac wrth gofnodi gwrthwynebiad ffyrnig Annibynnwyr Caergybi i'w swyddogaeth ef yn y diwygiad yn y dref a'u hymgais i gymryd y clod iddynt eu hunain, meddai, 'Ond nid oes gennyf iaith i allu rhoi allan gymaint yr wyf am i'm Duw gael y gogoniant. A diolch iddo!'.[67] Ar gychwyn 1860 ceir sawl cyfeiriad at ei wendid corfforol a'i salwch. Mae'n amlwg i hyn beri cryn bryder iddo ond cofnododd hefyd fel y credai fod Duw yn gofalu amdano. Dyna oedd ffynhonnell ei nerth. Meddai am oedfa fedydd ym Mhontrhydybont, 'Cawsom gyrddau rhagorol, a chefais innau nerth, fel nad wyf yn teimlo yn waeth, ond yn hytrach yn well ar ôl fy ngwaith. Diau er fy holl ofn blaenorol, i'r Arglwydd ofalu am ei waith, ac amdanaf finnau yn ei gysylltiad'.[68]

Cofier mai mewn dyddiadur personol y cofnodid y sylwadau hyn i gyd, lle gellid disgwyl gonestrwydd a gwir agwedd yr awdur tuag at ei waith. Mae'r gwahaniaeth rhwng dau ddyddiadur yn bur syfrdanol. Yn nyddiadur Dafydd Morgan, er nad oes arlliw o hunanglod i'w ganfod, ni roddir y clod i Dduw am y diwygiad. Ond gyda William Morgan pwysleisir dro ar ôl tro mai Duw yn unig sy'n ei haeddu. Am lwyddo ei air, am nerth corfforol i bregethu, am ateb gweddi, mae'r gweinidog o Fôn yn canmol ei geidwad. Nodwyd uchod fel yr oedd amser y diwygiwr yn brin oherwydd y gwaith caled ac y gallai hynny ateb y diffyg cofnodi manwl ar ei ran, ond gyda gofal eglwys oedd yn tyfu'n sydyn,

---

[66] Ibid. 18 Tachwedd, 1859.
[67] Ibid. 20 Rhagfyr, 1859.
[68] Ibid. 22 Ionawr, 1860.

prin fod gan William Morgan lawer o amser sbâr ar ei ddwylo ychwaith, ac eto cofnododd yn fanwl ei ddyled i Dduw. Cwbl annheg fyddai casglu oddi wrth y gwahaniaeth rhwng y dyddiaduron fod William Morgan yn fwy ysbrydol na'r diwygiwr, ac eto mae cymharu cofnodion y ddau yn codi cwestiynau dilys ynghylch agwedd Dafydd Morgan at ei waith.

Un agwedd werthfawr o eiddo'r diwygiwr oedd iddo gofnodi rhai o ffenomenâu'r diwygiad yn ei ddyddiadur. Cyhoeddus oedd natur yr oedfaon a gynhaliwyd gan y Methodistiaid Calfinaidd fel pob enwad arall, ond roedd y seiat a ddilynai yr oedfa gyhoeddus yn gyfyngedig i'r aelodau yn unig. Pe dymunai rhywun ymuno â'r eglwys, byddai rhaid iddo aros ar ôl yr oedfa gyhoeddus a mynychu'r seiat er mwyn cael ei holi. Yn ystod y diwygiad byddai'r rhai a arosodd ar ol fel hyn yn cael eu galw i du blaen y capel ac yn cael eu holi gan Dafydd Morgan cyn iddo weddïo gyda hwy. Fodd bynnag, cawn sawl enghraifft o wrandawyr nad oeddent yn gyflawn aelodau yn gadael y capel er mwyn mynd adref, ond yn cael eu gorfodi gan deimladau cryf i droi'n ôl a dychwelyd i'r cyfarfod ac ymateb i'r apêl wedi'r cwbl, a hynny heb i'r un person dynol ymyrryd dim â hwy. Cawn enghraifft o hyn yn digwydd yn yr oedfa gyntaf a gofnodwyd gan Dafydd Morgan:

> A phedair o ferched ieiaingc a arosod yn ôl ar y dechrau a thra yr oedem yn ymdidan a nhw gwelem ryw gynhwrf yn y drws nesaf i dy y capel a phimp o ferched ieiaingc ydoed yn ymwthio yn mlaen trwy y dyrfa wedi gorfod dyfod yn ei holau wedi dechrau ei fford adref ac yna yr oed gennym naw o ferched uwchlaw pymtheg a than dwiar hugain.[69]

Bu'n dyst i gyffro rhyfedd ar adegau a phrofodd bethau na allai eu hegluro. Dywedodd John Evans i Morgan deimlo ar fwy nag un achlysur ei fod ar fin cael ei godi'n gorfforol oddi ar ei draed. Mewn oedfa yn Nhregaron

[69] LLGC, Dyddiadur.

gafaelodd yn dynn yn y pulpud am ei fod yn 'meddwl ei fod yn gweld goleuni disglaer uwch ei ben, a rhywun yn y goleuni yn ei raddol dynnu i fyny'.[70] Yng nghapel Glanrafon ar Ionawr 10fed sylwodd ar ddigwyddiad arall pur rhyfedd:

> Syrthiod rhyw beth anghyffredin yn y society, yn neilltuol iawn ar ran o'r brodyr, ar David Davies, Coetyd yr un o flaenoriaid Caron, ac Joseph Thomas Rhywdywyll, nes oedynt yn gwaedi fel pe biasant ar gollu ei bywyd.[71]

Gellid egluro'r ail achlysur fel effaith emosiwn, ond mae'r cyntaf yn fwy anodd ei esbonio.

Cawn gipolwg hefyd ar yr effaith gymdeithasol a gafwyd drwy'r diwygiad. Wrth i unigolion gael eu cyffwrdd, ac i'w bywydau gael eu newid oherwydd hynny, caed effaith uniongyrchol ar gymdeithas. Roedd ymhlith y dychweledigion rai a oedd yn torri'r gyfraith yn rheolaidd mewn gwahanol ffyrdd, ac wrth i fywyd y cyfryw rai ddiwygio gellid disgwyl i ffigyrau tor-cyfraith leihau yn ystod yr adfywiad. Cynhwysodd J.J.Morgan ystadegau troseddu o'r cyfnod. Yn Sir Fôn roedd 47 trosedd yn 1859, ac 20 yn 1861. Yn Sir Gaernarfon roedd 166 trosedd yn 1858 a 83 yn 1860. Ac yn sir Aberteifi roedd 48 yn 1858 a 20 yn 1859, 21 yn 1860, a 22 yn 1860.[72] Yn Nantymaen bu Dafydd Morgan yn dyst i un sgwrs rhwng mam grefyddol a'i mab oedd wedi ei ddychwelyd yn y cyfarfod: 'Clywais fod un o'r cyfryw yn dyweud wrth ei fam na wnâi ladrata byth o hynny allan y gwnâi fyw ar datw a halen cyn yr âi i dwyn defaid byth drachefn'.[73] Ac wrth gwrs roedd y pwyslais ar ddirwest yn fawr. Meddai:

> Ym mhob lle yr oeddem yn cymell y societies i dyfod allan yn erbyn yr arferiad o yfed y diodyd meddwl ac yn erbyn yr

---

[70] Evans, *Byr-gofiant*, t.125.
[71] LLGC, Dyddiadur.
[72] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.609.
[73] LLGC, Dyddiadur.

> arfer syd gan y bobl ieiaingc o gyfeillachu mewn amser amhriodol sef yr amser y mae teuluoed yn cysgu yr oed teimlad fawr da yn mhob man i sefyll yn erbyn y dau elyn hyn yn mhob lle.[74]

Cyn cloi dyfynnwn un adran arall, pur helaeth, o'r dyddiadur, sy'n darlunio sut y byddai Morgan yn holi'r dychweledigion. Yr arferiad ganddo oedd siarad efo pob un yn ei dro. Wedi gofyn ei enw, byddai'n holi dipyn ar ei brofiad ysbrydol a'i gymell a'i gynghori yn ôl y galw. Gwnaed hyn gan amlaf yn gwbl gyhoeddus. Nid oedd yr un lle i guddio yn ystod y diwygiad! Cofnododd un achlysur yn Sir Fôn ac isod dyfynnir y darn fel ag yr ysgrifennodd Morgan ef:

> Yn eu mysg yr oed un o'r enw Thomas Williams o ardal Bethlehem. Pan y dechreuais ymdidan ag ef gofynnais, Beth yw eich enw. Thos. O ba le? O'r Garreglefn. A fioch chwi gyda chrefyd o'r blaen? Nado erioed. Er pa amser y mae peth ar eich medwl am grefyd? Yr oedwn wedi medwl yn siŵr aros borau heddiw yn y Garreglefn ond fe aeth Satan a fi allan o fy ngwaetha. A fioch chwi yn darllen ac yn gwedi gartref yn gyhoedus erioed? Nado erioed, fe fim yn darllen yr ydym yn arfer gwneud hyny bob dyd. A ydych chwi yn mentro gwedio ryw amser Thos? Yr ydwyf wedi penderfynu welwch chi. Pa bryd yr ydych chwi yn medwl dechrau? Y fyned hon os ydych chwi yn dewis. Yn awr, ebe finnau. Ie yn wir yr ydwyf wedi digio cymaint wrth Satan. Ac yna hysbysais i'r gynulleidfa beth ydoed Thomas yn ei dywedid. A phaham na chaiff Thos dreio gwedio yn awr medwn. Ni a awn ar ein gliniau gyda Thomas am ychydig. A throais at Thomas, Yn awr Thos bach ewch ar eich gliniau am ychydig os ydych yn teimlo yn ddigon cryf. Lawr a Thos ar ei liniau a gwaedod ai holl nerth, O Arglwydd madau bechodau'r hen bechadur mwyaf Sir Fon; Yr hen bechadur mwyaf Sir Fon. Gwaedod hynu am chwech o weithiau ac yna fe newidiod ei ddymuniad, Madau bechodau fy nhad a mam Arglwydd, pechodau fy nhad a mam Arglwydd, am chwech o weithiau ail waith nes ydoed yr holl gynulledifa yn fodfa o dagrau a llawer iawn yn gwedio gyda Thomas cyn ido rodi i fyni a distawod yn disymwth heb roi Amen, a bu yn gorwed yn llonyd ar y ffaingc am ddwy neu dair mynyd.[75]

---

[74] Ibid.
[75] Ibid.

Yr hyn sy'n peri'r syndod mwyaf wrth ddarllen y dyddiadur yw'r ymdrech aruthrol a roddodd Dafydd Morgan wrth deithio a phregethu o amgylch Cymru yn ystod blwyddyn fawr y diwygiad. Prin iawn oedd ei ddyddiau rhydd - nis gallant rifo mwy na deg drwy'r flwyddyn honno. Gan amlaf pregethodd o leiaf ddwywaith y dydd, ac yn aml pregethodd deirgwaith. Teithiodd bellter mawr ar gefn ei geffyl a hynny drwy bob tywydd. Cofnododd un achlysur yn Sir Drefaldwyn: 'Yr oed yn wlaw anghyffredin fe fi bron imi fynd gydar afon wrth ei chroesi'.[76] Ni sbariodd ddim arno'i hun ac mae'n syndod na ddioddefodd ei iechyd yntau fel iechyd Humphrey Jones. Yn wir clywodd John Mathews, Aberystwyth, si bod y diwygiwr yn rhy wael i ddod i un cyfarfod yn y Tabernacl, capel y Methodistiaid Calfinaidd yn y dref. Meddai: 'Rumours had been spread about that Mr Morgans, who was and still continues very hoarse, had bust a blood vessel, and would be unable to come'.[77]A chofnododd Morgan ei hun ar 27 Awst, tra oedd yn Llanilltud Fawr, 'bûm yn glaf iawn fore trannoeth hyd hanner dydd ac yno y bûm trwy y dydd.' Fodd bynnag, pregethodd yno yn oedfa'r hwyr a dychwelwyd 14![78]

Er mwyn cynnig blas ar ei ymdrech cyflwynwn fanylion ei ymgyrch ar Sir Fôn rhwng 21 a 28 Hydref. Pregethodd yn Beaumaris am saith yr hwyr ar y diwrnod cyntaf. Y diwrnod canlynol roedd yn Llanddona am ddeg y bore, Llangoed am ddau'r prynhawn, a Phenygarnedd am saith y nos. I Nasareth am ddeg fore drannoeth, Glasinfryn am ddau, a'r Tabernacl, Llanfairmathafarneithaf am chwech. Ar y 24 Hydref roedd yn Llanallgo am ddeg, Tŷ Mawr am ddau, a Gosen am saith. Aeth i Seion y bore wedyn, Carmel am ddau, a Llannerchymedd am saith. Yn y Gorslwyd, Rhosybol yr oedd ei

[76] Ibid.
[77] LLGC, CMA 12,684.
[78] LLGC, Dyddiadur.

gyhoeddiad fore 26 Hydref, y Parc am ddau, a Nebo am saith, ac 'yr oed yno bethau grymus iawn ar lawerod.' I Seilo, Pengorffwysfa fore drannoeth, Porth Amlwch am ddau, a Bethesda, Amlwch am saith. Ar y diwrnod olaf cyrhaeddodd Bethlehem, Carreglefn yn y bore, Llanfechell am ddau, a Chemaes yn yr hwyr. Dyna ddwy oedfa ar hugain dros wyth niwrnod, a dychwelwyd 117. Nid unwaith y cofnododd yn ei ddyddiadur ei fod wedi blino nac angen gorffwys. Un cofnod yn unig, a grybwyllwyd eisoes, sydd ganddo am salwch a gwendid corfforol. A dyma batrwm blwyddyn a hanner o fywyd y diwygiwr yn ystod yr adfywiad. Er bod teithiau pregethu fel hyn yn rhan o batrwm gweinidogaethu'r Methodistiaid Calfinaidd, rhaid cofio bod mwy o draul ar Morgan yn ystod y diwygiad, gan fod yr oedfaon yn hwy o ran amser, gyda'r gwaith ychwanegol o siarad efo'r dychweledigion, a'r holl emosiwn oedd ynghylch â'r cwbl. Er nad oes cydnabod hynny yn y dyddiadur, gallwn fod yn eithaf sicr fod Dafydd Morgan wedi profi nerth anghyffredin er mwyn gallu cyflawni gorchest mor fawr dros gyfnod y diwygiad.

*iv. Beirniadaeth ar ddiwygiadaeth.*

Fodd bynnag, nid pawb oedd yn hapus â rhai o'r dulliau diwygiadol a ddefnyddid gan Morgan ac eraill. Mewn ysgrif a nodwyd gennym eisoes, mynegodd Glan Alun ei bryder a thrafod sawl gwrthwynebiad oedd ganddo ynghylch rhai o'r arferion hyn. Nid beirniadaeth lwyr o'r adfywiad sydd yma, oherwydd cawn Glan Alun yn nodi chwe pheth i'w canmol. Nododd fod niferoedd mawr yn cael eu dychwelwyd mewn amser byr, a bod y mwyafrif llethol o'r rhai hynny wedi cadw at y ffydd wedi hynny. Sylwodd ar y newid awyrgylch a fu drwy'r wlad: bod crefydd wedi dod mor amlwg ym mywyd pob

dydd pobl. Dyfynodd rhyw wraig yn dweud, 'Y mae hi yn ddydd Sîl bob dîdd'.[79] Gwelodd, hefyd, fel yr oedd yr awydd i genhadu ac ennill eneidiau at Grist wedi cynyddu'n fawr ym mhlith yr eglwysi. Nodasom ar gychwyn y traethawd hwn fel y codwyd Timothy Richard i'r gwaith cenhadol, a dim ond un ymhlith nifer o rai tebyg oedd ef. Sylwodd ar yr ysbryd newydd oedd yn perthyn i weinidogion a phregethwyr y cyfnod, fel y cawsant sêl a nerth mawr i gyflawni eu gwaith. Roedd Dafydd Morgan yn un o'r rhain, wrth gwrs, ond cafodd nifer eraill brofiad o gael eu 'llenwi a gwres eu cariad cyntaf' at Dduw.[80] Yr olaf o'r canlyniadau cadarnhaol y sylwodd arno oedd yr undeb a'r cyd-weithio rhwng enwadau a fodolai yn y cyfnod. I Glan Alun roedd y pethau hyn i gyd yn dda ac yn werthfawr, ac yn dangos fod Duw yn y gwaith. Meddai:

> Dyna ychydig o ffeithiau anwadadwy, ac yr wyf yn sicr na chynnyrchwyd hwynt gan Satan, ac yr wyf yn meddwl eu bod yn o anhawdd eu dwyn allan gan ddyn ei hun ychwaith, heb rhyw gymhorth anghyffredinol o wlad uwch.[81]

Roedd ganddo bryderon, fodd bynnag, ac mae'r pryderon hyn yn dangos nad pawb oedd yn hapus efo'r technegau diwygiadol oedd ar waith. Yn benodol roedd ganddo gonsyrn ynglŷn â'r dull o bwyso am ymateb uniongyrchol i'r efengyl gan y di-gred. Sylwasom eisoes ar ei farn ynglŷn â'r dull o bregethu apeliadol, ac er y credai bod angen apelio am ymateb, credai fod y dechneg fel ei defnyddid hi yn ystod y diwygiad yn mynd yn rhy bell. Adroddodd enghraifft o oedfa roedd ef ei hun wedi bod yn bresennol ynddi. Nid yw'n enwi'r rhai a arweiniodd yr oedfa honno, ond mae'n debyg nad Dafydd Morgan nac Humphrey Jones oeddent. Roedd ganddo bryder ynghylch y ffaith fod nifer y bobl ieuanc yn chwerthin yn ystod yr oedfa, ac nid oedd yn or-hoff o'r ffaith na

---

[79] 'Glan Alun', 'Tridiau yn Llandrindod eto', 5 (1859), Y *Traethodydd*, t.374.
[80] Ibid.
[81] Ibid. t.374.

fu canu emyn ar ddiwedd yr oedfa a chyn cynnal seiat. Golygodd hynny, meddai, nad oedd digon o wahaniaeth yn cael ei wneud rhwng 'y cyfarfod cyffredinol a'r cyfarfod eglwysig' gan ofalu bod nifer o'r rhai di-gred yn aros ar ôl ar gyfer y seiat heb unrhyw ddymuniad i gyflwyno eu hunain fel darpar aelodau.[82]

Cadwodd ei feirniadaeth lymaf, fodd bynnag, ar gyfer yr apelio taer a wnaed gan y pregethwr ar i'r di-gred droi at Iesu:

> Taer erfyniai ar i'r gwrandawyr ddyfod at grefydd; mynychai ddywedyd ei fod wedi dyfod yn enw Duw i'r galw. 'Bendith Dduw ichwi, deuwch!' meddai, fwy nag unwaith. Bygythiai bryd arall, a chrybwyllai am ryw lanc yn ____ oedd wedi myned allan yn gyntaf yn niwedd y cyfarfod yn lle aros yn y society, a'i fod wedi syrthio i lawr y chwarel drannoeth, nes yr oedd ei gorff yn sitrach.[83]

Ni chredodd Glan Alun fod yr engraifft hwn yn gwbl gynrychioliadol o'r diwygiad drwyddo draw, ond roedd ei gonsyrn yn fawr y gallai gweddill y diwygiad ddilyn yr un trywydd pe na fyddai rhywun yn rhoi stop ar y peth. Meddai:

> Y mae yma ddangosiad i ba wrthuni y gall symudiad da gael ei wyrdroi oni chyfyd blaenoriaid yr eglwysi i'w reoli yn ôl doethineb a phwyll. Nid wyf heb gofio fod 'gwehilion i'r gwenith', fel y dywed yr hen ddihareb, ac mai gwell yw zel yn colli a berwi drosodd nag oerfelgarwch annheimladrwydd; ond y mae y cyfryw engarifft o ager-beiriant y cynhyrfiad diwygiadol wedi crwydro drosodd mor beryglus allan o'r *rails,* yn galw yn uchel ar ffyddloniaid y diwygiad presennol ymhob man, 'Na chabler gan hynny eich daioni chwi.'[84]

Yr oedd ganddo bryder arall ynghylch yr apêl yn ogystal, sef bod perygl i bobl gael eu camarwain ganddi. Gan mai apêl ar i bobl ymaelodi â'r eglwysig ydoedd i bob pwrpas, gwelai Glan Alun y perygl o gyfystyru aelodaeth

[82] Ibid. t.376.
[83] Ibid.
[84] Ibid.

eglwysig â gwir dröedigaeth. Yn wir, credai bod arweinwyr y diwygiad eu hunain yn euog o ddefnyddio iaith oedd yn ychwanegu at y camargraff hwn. Meddai:

> Sonid am y miloedd a chwanegwyd at yr eglwysi fel cynifer wedi eu hachub. Pan arosodd chwech yn y society ar ôl maith gymell, clywais Dafydd Morgan yn dywedyd, 'Dyma chwech wedi eu hachub heno;' ac meddai pregethwr arall oedd yno, 'Dyma chwech wedi eu haileni heno'. Nid oeddwn i ddim yn hoffi y dull hwn o lefaru.[85]

Roedd gan Glan Alun bryder ynghylch y syniad o unigolion yn cael eu dyrchafu yn uchel gan y dyrfa fel 'diwygwyr'. Enwodd Dafydd Morgan a Humphrey Jones fel rhai y dylid pryderu amdanynt. Gan nad oedd hanes diwygiadau'r gorffennol yn rhoi sylw mor fawr i un neu ddau arweinwydd mewn diwygiad, credai nad oedd sefyllfa'r ddau yma i'w ddymuno na'i ganmol. Roedd yn gweld perygl y gallai'r ddau fynd i feddwl mwy amdanynt eu hunain a'u gwaith nag y dylasent, a phryderai nad oeddent yn ddigon hunanfeirniadol. Gallai hyn eu harwain i geisio creu diwygiad yn eu nerth eu hunain. Meddai:

> O'r braidd y gallaf gredu fod yn bosibl i'r natur ddynol yn yr ystâd amherffaith hon, fod am fisoedd yn myned o fan i fan bob dydd yn ceisio creu diwygiadau, heb fyned weithiau i drin 'tân dyeithr' - heb fod yn agored i gamfarnu amdanynt eu hunain; heblaw fod y fath newyddbeth yn tueddu i arwain dynion i gysylltu a phersonau dynol yr hyn ddylid ei gysylltu yn unig a Pherson Dwyfol, gan ddisgwyl wrth y naill yn fwy nag wrth y llall.[86]

Mae'r feirniadaeth hon yn dweud dau beth wrthym. Yn y lle cyntaf, mae'n cadarnhau bod y dulliau newydd wedi bod yn flaenllaw iawn yn ystod y diwygiad. Ac yn ail, mae'n dangos, er mor boblogaidd ac eang eu derbyniad

[85] Ibid. t.375.
[86] Ibid.

oeddent, nad oedd pawb wedi eu croesawu fel ffordd ddilys i geisio bendith Duw ar yr eglwysi. Dylid cofio, serch hynny, bod Glan Alun yn canmol agweddau ar y diwygiad, a'i fod yn benodol yn canmol y ffaith bod nifer wedi eu hachub, a bod canran uchel ohonynt wedi glynu wrth eu proffes. Onid dyma'r ffrwyth y dylid chwilio amdano wrth farnu'r diwygiad?

Beth bynnag am y gwendidau y tybiodd i rai eu gweld ynddo, ni ellir llai nag edmygu gweithgarwch mawr Dafydd Morgan yn ystod blynyddoedd y diwygiad. Ymdrechodd yn anhygoel ac ni sbariodd dim arno'i hun. Efallai na ddylwn synnu bod ei allu fel pregethwr wedi lleihau wedi iddo dreulio cymaint arno'i hun mewn byr amser. Er mai fel Methodist Calfinaidd y cafodd ei fagu, a bod y ffaith honno'n bwysig i haneswyr eraill (megis Eifion Evans) wrth ddehongli diwygiad 1858-60, roedd dylanwad Finneyaeth a diwygiadaeth America yn drwm arno. Profodd o ddylanwad y system honno yn Niwygiad 1840 a daeth dan dan ddylanwad diwygiadol Humphrey Jones. Dysgodd yn helaeth oddi wrth y dylanwadau hynny, ac fel y gwelsom bu'n barod ddigon i ymarfer y technegau yn ystod y diwygiad. Beth bynnag am ei gefndir Calfinaidd, rhaid gosod Dafydd Morgan a'i swyddogaeth fel diwygiwr rhwng 1858-60, felly, yn glir oddi yn nhraddodiad diwygiadaeth.

Pennod 6.

# Diwygiad 1858-60.

Wythnos olaf Mehefin 1858 cyrhaeddodd Humphrey Jones ei gartref yn Nhre'r Ddôl ar ôl treulio cyfnod anturus yng nghanol berw adfywiad America. Yn unol â'i fwriad wrth ddychwelyd adref, aeth ati'n syth i gynnal cyfarfodydd diwygiadol ac o fewn wythnos roedd y diwygiad, a ymledodd drwy Gymru gyfan am gyfnod o ddwy flynedd, wedi cychwyn. Fel y cyfeiriwyd eisoes, roedd eglwysi Anghydffurfiol Cymru yn barod am adfywiad, ac wedi treulio cyfnod mewn gweddi yn ceisio Duw amdano. Bwriad y bennod hon yw olrhain y dechreuadau hynny gan ddilyn trywydd y diwygiad yn ystod ei fisoedd cyntaf, gan ei osod yn ei gyd-destun economaidd a chymdeithasol yng ngogledd sir Aberteifi. Byddwn yn dyddio'r dechreuad yn gadarn i wythnos olaf Mehefin ac yn ei leoli yn Nhre'r Ddôl, a hynny'n groes i rai sylwebwyr eraill. Hefyd, byddwn yn dadlau o blaid y syniad bod dylanwad diwygiadaeth Charles Finney yn drwm ar gychwyniad y diwygiad yng Nghymru, gan gadarnhau swyddogaeth allweddol Humphrey Jones fel ei gychwynnydd.

## *i. Y dechreuadau.*

I gychwyn, cystal inni gywiro un cam yn syth: er mai fel 'Diwygiad 1859' y cyfeirir at yr adfywiad, dechreuodd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'n bosibl fod y cyfeiriad at '59 wedi dal oherwydd mai dyna flwyddyn fawr yr adfywiad, ond prin y gellid amau mai ym 1858 y dechreuodd y cwbl. Mae pob hanesydd a astudiodd y diwygiad yn cytuno ar y flwyddyn, er bod anghytuno ynghylch materion eraill.

Sut mae dyddio dechrau diwygiad? Sut mae dewis un dyddiad y gellid dweud i sicrwydd mai dyna'r pryd y cychwynnodd adfywiad crefyddol mewn ardal neu genedl? Sylwyd eisoes fel y cafwyd mân adfywiadau o amgylch y wlad yn y misoedd yn arwain at haf 1858. Gwelsom fel y taniwyd ardal Llanfairfechan gan adfywiad grymus yn ystod Ionawr a Chwefror y flwyddyn honno, ac fel yr ymledodd i lefydd fel Conwy a Bangor. Cafwyd adfywiadau lleol eraill mewn mannau fel Abertawe yn yr un cyfnod. Pam, felly, na ddylem ddyddio a lleoli'r diwygiad i'r adegau a'r mannau hyn? Pam y dylai ddiwedd Mehefin ym mhentref bychan Tre'r Ddôl gael y fraint honno? Tybiwn mai'r prif reswm dros wneud hynny yw'r ffaith nad ymledodd tân yr adfywiadau yn nechrau'r flwyddyn i weddill y wlad. Yn achos Abertawe, nid ymledodd ddim pellach na'r dref ei hun, ac yn achos Llanfairfechan, ymledu a wnaeth oddi fewn i ffiniau cylchdaith Wesleaidd Bangor, a hynny dan arweiniad y gweinidog, Thomas Aubrey. Efallai y gellid dadlau bod yr adfywiadau lleol hyn yn haeddu cael eu galw yn ddiwygiadau yn eu hawl eu hunain. Fodd bynnag, dadleuwn ni mai blaenffrwyth y prif ddiwygiad oeddent oherwydd eu bod yn rhan o'r dyhead dwfn yn y wlad am adfywiad a arweiniodd at y diwygiad cyffredinol.

Y mae dau sylwebydd yn amau hawl Humphrey Jones i gael ei ystyried fel unig gychwynnydd y diwygiad. Ni wadodd yr un ohonynt ei swyddogaeth allweddol – sut y gallent a'r ffeithiau mor amlwg? Ond wrth geisio dyrchafu eraill i'r un safle, y canlyniad yw lleihau swyddogaeth Humphrey Jones.

Y cyntaf y cyfeiriwn ato yw John Hughes, 'Glanystwyth', a fu'n weinidog gyda'r Wesleaid, ac yn wir a wasanaethodd gylchdaith Aberystwyth, a gynhwysai Tre'r Ddôl, yn 1872. Roedd John Hughes yn

arweinydd dylanwadol oddi fewn i'w enwad, gan gael ei ethol yn llywydd cynhadledd yr enwad yn 1901. Roedd hefyd yn awdur toreithiog ac yn fardd.[1] Cyhoeddodd gyfrol goffa i'w gyd-weinidog, Isaac Jones, ac yn y gyfrol hon mynna fod gan Jones lawn cystal hawl i gael ei alw'n gychwynnydd y diwygiad â Humphrey Jones.[2] Nid bwriad Hughes yw bychanu gwaith Humphrey Jones ond yn hytrach ddyrchafu swyddogaeth gwrthrych ei gofiant. Yn benodol, roedd yn anfodlon fod y Methodistiaid Calfinaidd yn cyfeirio at Dafydd Morgan fel diwygiwr. Cyhoeddodd Hughes ei gyfrol yn 1898, y flwyddyn y dangoswyd cryn ddiddordeb yn y diwygiad yng Nghymru. Cysylltwyd enw Dafydd Morgan yn glos â'r deffroad, ac yn haeddiannol felly. Pryder Hughes, fodd bynnag, oedd na chafodd Isaac Jones ei glodfori yn yr un modd. Ac yr oedd yn amlwg i Hughes, os nad i neb arall, fod Isaac Jones yn haeddu hynny. Meddai:

> Fe welir tra yr oedd y diwygiad wedi dechrau yn niwedd haf 1858 ... ei fod wedi dechrau hefyd tua'r un adeg gyda Mr Isaac Jones ar gylchdaith Dolgelly. Nid ymddengys chwaith, fod Mr Humphrey Jones yn cael fawr mwy i ymuno â'r eglwysi y misoedd hynny yn sir Aberteifi nag a ga'i Mr Isaac Jones yn sir Feirionydd.[3]

Ond yr oedd Hughes yn ffeithiol anghywir yn ei ddau honiad. Yn gyntaf, roedd Humphrey Jones wedi cychwyn ar ei waith yn niwedd Mehefin ac wedi gweld llwyddiant yn syth. Ni chyrhaeddodd Isaac Jones mo Ddolgellau hyd ddiwedd Awst, ac yn ôl yr ystadegau manwl a gynhwysir yn ei gofiant, ni lwyddodd fel diwygiwr hyd ddiwedd Medi.[4] Yn ail, dengys yr ystadegau hyn bod nifer dychweledigion Isaac Jones yn gyfanswm o 29 hyd at Nadolig 1858, tra gwelodd Humphrey Jones o leiaf 60 yn dychwelyd yn Nhre'r Ddôl

[1] Gw. R.T.Jenkins, *Y Bywgraffiadu Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t.361.
[2] J.Hughes, *Bywyd y Parch Isaac Jones, Gweinidog Wesleaidd* (Lerpwl, 1898).
[3] Ibid. t.93.
[4] Ibid. t.91.

ym mis Gorffennaf yn unig, a 76 arall erbyn canol Awst yn Ystumtuen.[5] Prin fod unrhyw gymhariaeth rhwng ffigyrau fel hyn. Ni fynnwn fwrw unrhyw sen ar weinidogaeth Isaac Jones, na lleihau dim ar y llwyddiant a gafodd yn ei gylch yn ystod y diwygiad, ond prin fod y dystiolaeth yn dangos fod ganddo unrhyw hawl i gael ei ganmol fel cyd-gychwynnydd yr adfywiad. Beth oedd cymhelliad John Hughes dros or-ddyrchafu Isaac Jones tybed? Awgrymwn ddau reswm posibl. Yn gyntaf, ymddengys fod culni enwadol yn rhannol gyfrifol. Ni hoffodd y ffaith fod y Methodistiaid Calfinaidd yn hawlio clod i Dafydd Morgan, a oedd yn weinidog gyda'r enwad hwnnw, fel diwygiwr. Yn ail, magwyd Hughes yn yr un ardal ag Isaac Jones, yng ngogledd sir Aberteifi, a chafodd y ddau eu haddysg yn ysgol Llanfihangel y Creuddyn, er ar adegau gwahanol. Tybiwn i gystadleuaeth enwadol a balchder bro ddod rhwng John Hughes a'r ffeithiau am Isaac Jones a'i swyddogaeth yn y diwygiad.

Yr ail i wneud yn fach o safle Humphrey Jones yw'r hanesydd Eifion Evans. Eto, nid oes gwadu yma ychwaith nad oedd gan Jones swyddogaeth allweddol yng nghychwyniad y diwygiad. Yn wir, mae Evans yn hynod ganmoliaethus i Jones yn nau baragraff olaf ei bennod arno yn *Fire in the Thatch*. Meddai:

> His personal godliness and evangelistic zeal are beyond question. He deserves to be honoured as one of the leading benefactors of his country and generation ... He was the 'keen, lively youngster' who 'was given the job of lighting the fuse'. Ultimately, it was that which caused the explosion that is known as the1859 Revival.[6]

Fodd bynnag, yng nghorff y bennod yr argraff sicr a gawn yw bod Evans yn anghymeradwyo dulliau Jones, a hefyd yn awgrymu na chychwynnodd y diwygiad go iawn hyd nes i Dafydd Morgan fwrw i'r gwaith.

---

[5] T.Jones, 'Tre'rddol, Cylchdaith Aberystwyth', yn *Yr Eurgrawn*, 22 (1858), t.356.

Gwrthyd Evans ddulliau'r diwygiwr ieuanc am eu bod yn deillio o ddiwygiadaeth Charles Finney. Fel y gwelwyd eisoes, roedd Finney o'r farn fod gan ddyn allu naturiol i ymateb i Dduw ac felly gwrthododd y syniad fod pechod yn analluogi dyn i ymateb i'r efengyl heb i Dduw yn gyntaf ymyrryd yn ei fywyd. Effeithiodd hyn ar syniadau Finney ar ddiwygiadaeth, gan ei arwain i gredu y gallai pregethwr fynd ati i greu yr awyrgylch a'r amgylchiadau lle byddai Duw yn anfon adfywiad i'w eglwys. Oherwydd ei gynseiliau diwinyddol, gwelodd Eifion Evans beryglon yn y safbwynt hwn. Yn wir, awgryma na allai unrhyw un a brofodd dröedigaeth dan y fath bregethu wrthsefyll pwysau bywyd wedi i emosiwn y diwygiad leihau. Gofynnodd: 'What would be the converts' ground for faith and hope when the elevated feeling and general excitement had been replaced by the burning trials of each day'?[7] Nid oes amheuaeth na ddefnyddiodd Humphrey Jones rai o ddulliau Finney. Credai mewn pregethu apeliadol ac uniongyrchol a gwnaeth ddefnydd helaeth o'r fainc i rai dan wasgfa, gan alw'r rhai a oedd am ymateb i'w bregethu i ddod ymlaen i'r fainc yn nhu blaen y capel. Roedd ei ymgyrchoedd cenhadol hefyd yn ymdebygu i'r cyfarfodydd gohiriedig a ddefnyddiodd Finney, gan gynnal o leiaf un cyfarfod bob dydd o'r wythnos, a dwy neu dair oedfa ar y Sul. I Eifion Evans roedd i'r dulliau hyn 'dangers and weaknesses'.[8] Awgryma hefyd fod y dulliau hyn yn newydd ac yn ddieithr yng Nghymru ar y pryd.

Ceisiodd Evans wneud yn llai o safle Humphrey Jones mewn ail ffordd – trwy led awgrymu fod y gwir ddiwygiad, diwygiad mwy pur a duwiol, wedi cychwyn pan ddaeth Dafydd Morgan i'r gwaith. Gosododd Evans Dafydd Morgan yng nghanol y traddodiad Calfinaidd clasurol yng

---

[6] E.Evans, *Fire in the Thatch: the true nature of religious revivals* (Bridgend, 1996), t.203.
[7] Ibid. t.195.

Nghymru, traddodiad oedd yn ymwrthod, yn nhyb Evans, â diwinyddiaeth Finney. Nododd fel y bu Morgan yn darllen gweithiau'r Piwritaniaid John Owen a Thomas Watson. Nododd fel yr oedd gan Morgan amheuaeth ynghylch dulliau Jones ar y dechrau, ac fel yr aeth ati i newid rhyw gymaint ar y dulliau hynny yn nes ymlaen.[9]

Fodd bynnag, er bod peth gwirionedd i'r honiadau hyn, nid dyna'r gwir i gyd. Bu croeso cyffredinol i gyfrol Finney ar adfywiadau yng Nghymru, fel y gwelsom. Oddi fewn i enwad yr Annibynwyr y bu'r croeso gwresocaf – ond derbyniwyd ei ddulliau gan yr enwadau eraill yn ogystal, gan gynnwys y Methodistiaid Calfinaidd. Rhaid cofio fod cryn gymedroli ar Galfiniaeth wedi digwydd yn ystod degawdau cyntaf y ganrif, a bu'r newid pwyslais yn fodd i sicrhau fod dulliau Finney yn llawer mwy derbyniol i'r Calfiniaid. Mae'n wir hefyd bod amheuon gan Morgan ynghylch dulliau Jones ar gychwyn y diwygiad. Fodd bynnag, nid yn unig y death ef i dderbyn y dulliau hynny, ond fe'u defnyddiodd yn helaeth iawn yn ystod yr adfywiad. Cawsom gyfle i edrych yn fwy manwl ar ei ddulliau mewn pennod flaenorol, ond mae pob disgrifiad sydd ohono, ynghyd â'i ddyddiadur ei hun, yn awgrymu ei fod wedi dod yn feistr heb ei ail ar y defnydd o fainc i'r rhai dan wasgfa. Nid oes unrhyw amheuaeth bod Dafydd Morgan wedi defnyddio rhai o'r dulliau hyn i'w heithaf.

Daw Evans â'i ddau bwynt at ei gilydd i geisio dyddio dechrau'r hyn a awgryma ef oedd y diwygiad go iawn mewn cyfres o gyfarfodydd yn Nhregaron ym mis Tachwedd 1858. Dehongla Evans y cyfarfodydd hyn fel trobwynt yr adfywiad a dywedodd amdanynt, 'Revival had truly come'.[10] Rhoddodd ddau reswm dros awgrymu mai yn Nhregaron yn hytrach na

[8] Ibid.
[9] Ibid. t.198.

Thre'r Ddôl y cychwynnodd yr adfywiad. Yn gyntaf, cafwyd diffyg trefn a pherlewygu digymell yn Nhregaron, lle'r oedd y cyfarfodydd yn Nhre'r Ddôl wedi bod yn fwy trefnus. Awgrymodd fod dilysrwydd diwygiad yn dibynnu ar lefel yr emosiwn sydd yn y cyfarfodydd. Onid gwell, fodd bynnag, fyddai mesur y ffrwyth a ddeilliodd o'r cyfarfodydd? O wneud hynny a sylwi ar nifer y dychweledigion, fel y gwnaethpwyd eisoes, nid oes amheuaeth na fu gwir ddiwygiad yn Nhre'r Ddôl o ddiwedd Mehefin ymlaen. Yn ail, awgryma Evans fod y diwygiad wedi ymledu o Dregaron i bentrefi cyfagos yn gwbl annibynnol, gan awgrymu fod hyn yn arwydd fod mwy nag ymdrech dyn ar waith. Fodd bynnag, ymledodd yr adfywiad yn annibynnol ar Humphrey Jones i fannau megis Machynlleth, Llanbrynmair, Dinas Mawddwy a Dolgellau yn ystod haf a hydref 1858. Ac ar yr ail Sul ym mis Medi dechreuodd Jones ei ymgyrch ym Mynydd Bach, gerllaw Pontarfynach, ond 'aethai'r diwygiad yno o'i flaen'.[11] Os yw Evans yn gywir yn ei awgrym mai un dull o brofi dilysrwydd diwygiad fel offeryn yn llaw Duw yw ei allu i ymledu yn annibynnol ar yr arweinwyr, yna gellid dweud fod yr hyn a gyffyrddodd Tre'r Ddôl yn ddiwygiad go iawn.

Seiliodd Eifion Evans ei ddadleuon ynghylch pwysigrwydd y cyfarfodydd yn Nhregaron yn rhannol ar atgofion llygad dyst. Daeth Daniel Davies yn swyddog pwysig oddi fewn i Gwmni Glo'r Ocean yn Ton, Ystrad, ac yn flaenor dylanwadol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Roedd yn awdur ysgrifau a llyfrynnau. Cafodd ei eni a'i fagu yn Nhregaron, ac roedd oddeutu deunaw oed yn adeg y diwygiad. Mae'n bur debyg mai yn 1905 yr ysgrifennodd ei atgofion o'r cyfnod, gan mai dyna flwyddyn eu cyhoeddi yng *Nghymru*. Mae'r deipysgrif wreiddiol ar gael hyd heddiw, a byddai'n dda

---

[10] Ibid. t.199.
[11] Evan Isaac, *Humphrey Jones a Diwygiad 1859* (Bala, 1930), t.47.

inni gyfeirio at y gwaith yn ehangach er mwyn gosod ei atgofion yn eu cyd-destun cywir. Roedd Davies o'r farn fod hanes crefydd yn digwydd yn ôl patrwm cylchynol, bod cyfnodau o adfywiad yn dilyn cyfnod o aflwyddiant, a bod holl wledydd cred wedi eu bendithio gan adfywiadau, ond bod Cymru ac America wedi eu bendithio yn neilltuol iawn. Y rheswm dros hynny, meddai, oedd bod y ddwy wlad yn disgwyl am adfywiadau yn fwy nag unrhyw wlad arall. Meddai:

> Y mae Cymru ac America yn hiraethu beunydd am ddiwygiadau crefyddol, ac os bydd y naill wlad a'r llall heb ddiwygiadau am dymor lled faith, y maent yn dyheu am danynt fel y mae y ddaear ar ôl hir sychder yn dyheu am y gwlaw, ac nid ydynt yn tewi nac yn gadael llonydd i'r Arglwydd nes eu cael.[12]

Ond er y dyheu hwn, barn Davies yw mai gwaith yr Ysbryd Glân yn unig yw adfywio'r eglwys ac achub y di-gred. Yn wir, mae'n amlwg ei fod yn dirmygu unrhyw ymgais gan ddyn i geisio creu diwygiad. Meddai:

> Gwaith rhwydd fyddai cynhyrchu diwygiad pe gellid gwneud hynny trwy yn unig gynnal cyfres o gyfarfodydd gweddi, ond y mae hynny wedi profi yn fethiant lawer tro. Profodd felly yn y wlad hon yn yr adeg yr ydym yn sôn amdani.[13]

Cyfeirio y mae at rywrai yn Lloegr a'r Alban a geisiodd gynal cyfarfodydd gweddi fel rhai America, ond heb lwyddiant. Mae'r sylw uchod yn dangos ei agwedd at ddiwygiadaeth, sy'n cyd-fynd â barn Eifion Evans.

Cawn ddisgrifiad gan Davies o'r hyn ddigwyddodd yn y cyfarfodydd hynny yn Nhregaron, ac o ychwanegu disgrifiadau eraill o'r un cyfarfodydd cawn ddarlun pur gyflawn o'r hyn ddigwyddodd yno. Yn ôl J.J.Morgan daeth Humphrey Jones a Dafydd Morgan i gychwyn eu hymgyrch yno ar nos Lun, 22 Tachwedd, 1858. Dywed 'H P M' yn y *Fwyell,* mai ar y nos Fawrth y cychwynnodd, ond nid oes modd cadarnhau hynny erbyn heddiw. Cytunir i'r

---

[12] LLGC, CMA 871, 'Atgofion personol Daniel Davies, Ton, o ddiwygiad 1859 yn Nhregaron'.

ddau fod yno am dridiau. Humphrey Jones bregethodd yn y tair oedfa hwyrol, a hynny'n syml, eglur ac yn llawn difrifoldeb,[14] a Dafydd Morgan yn agor yr oedfaon hynny, ac yn gweddïo ar y diwedd. Ymddengys, felly, mai Jones oedd yr uwchbartner rhwng y ddau. Dywedir mai prin iawn oedd y cyffro yn yr oedfa honno. Dilynodd yr ail noson batrwm tebyg, ac eto neb yn ymateb. Cynhaliwyd diwrnod cyfan o oedfaon ar y trydydd dydd, a hynny yng nghapel y Methodistiaid, a theimlwyd y gwres adfywiadol yn codi. Meddai 'H P M' am yr oedfaon hynny, 'Erbyn hyn roedd y lle yn poethi, a'r tân yn ennill tir, y gwirioneddau yn gafael, a'r dylanwad yn codi, a'r bobl grefyddol yn teimlo fod Duw yn llond y lle.[15] Ond yn oedfa'r hwyr y cafwyd yr effeithiau cryfaf. Pregethodd Jones 'gyda difrifwch ac arddeliad mawr' ac yr oedd gweddïau Morgan yn 'fwy taer a gafaelgar nag unwaith o'r blaen'.[16] Canwyd yr emyn 'Mae Seion wan yn griddfan dan y groes' a dyblwyd y ddwy linell gyntaf a'r ddwy linell olaf droeon. Yna,

> O'r diwedd, teimlwn ddirgryniad yn y llawr o dan fy nhraed, yr oedd y gynulleidfa fawr yn canu gyda'r fath wres ac egni, fel nas gellid clywed unrhyw sŵn gwahanol, ond yr oedd y llawr yn dweyd wrthyf fod rhywbeth heblaw canu yn myned ym mlaen yno.[17]

Wrth i'r canu a'r moliannu fynd ymlaen cododd hen wraig o'i sedd i ganol y llawr a dechrau dawnsio. Roedd yn fusgrell iawn wrth ddod i'r cyfarfod, ond,

> ...yn yr odfa, collodd y rheumatism yn llwyr; gorfu i'r boen ildio, a rhoddai lle i deimlad arall, gwahanol, a llawer cryfach, ac nid yn unig adferwyd ei hiechyd iddi am y tro, ond hefyd adnewyddwyd ei hieuengtid, er ei fod ar y pryd heb fod yn mhell o'i phedwar ugain oed.[18]

---

[13] Ibid.
[14] 'H.M.P.', 'Y Diwygiad 1858-60', *Y Fwyell*, 1894, t.109.
[15] Ibid. t.110.
[16] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan a Diwygiad 59 (*Yr Wyddgrug, 1906*)*, t.58-9.
[17] LLGC, CMA 871.
[18] Ibid.

Nid oes cofnod o faint ymatebodd i'r alwad y noson honno, ond un canlyniad gwerthfawr iddo oedd i sawl cyfarfod gweddi gael eu sefydlu yn annibynnol ar ei gilydd, a barhaent am bedair wythnos heb i'r naill gyfarfod wybod am y llall. Yn ôl 'H P M' bu canlyniadau mawr i'r cyfarfodydd gweddi hynny. Meddai:

> Yr oedd y bobl mor daer a ffyddlon yn ei gweddïau, a'r dylanwad yn codi mor gyflyn ac amlwg, fel erbyn y bedwaredd wythnos yr oedd y tân yn llosgi mor ofnadwy trwy y lle nes difa pob dylanwad drwg ac anfoesol, sobreiddio y meddwon a'u dwyn mewn gwir edifeirwch at droed y Groes.[19]

Yr hyn sy'n syndod yw na wnaeth Daniel Davies unrhyw gyfeiriad at y cyfarfodydd hynny. Yn wir, ei asesiad ef o'r tri diwrnod o gyfarfodydd yn Nhregaron oedd iddynt fod yn 'foddion i ddwysáu llawer ar yr hiraeth am ddiwygiad' yno, ond na welwyd torri trwodd gwirioneddol hyd fis Chwefror y flwyddyn ddilynol, er gwaetha'r ffaith ei fod mor frwd ei ganmoliaeth i'r dylanwadau a brofodd yn yr oedfa olaf.[20] Mwy o syndod o bosibl yw bod Eifion Evans wedi peidio â chyfeirio at y sylw hwn o'r eiddo Davies, sylw sy'n chwalu ei honiad mai ym mis Tachwedd y dechreuodd y gwir ddiwygiad. Ni chyfeiriodd Evans ychwaith at swyddogaeth allweddol Humphrey Jones yn yr ymgyrch cyntaf honno yn Nhregaron. Yr unig gyfeiriad a wnaeth at waith Jones yno, fel y sylwasom, oedd at yr oedfa gyntaf siomedig a bregethodd ynddi.

Sut, felly, y mae asesu ymgyrch Tregaron? Yn gyntaf, mynnwn mai parhad o'r diwygiad a gychwynnodd yn Nhre'r Ddôl ydoedd, ac nid cychwyn y diwygiad go iawn. Mae'n ffitio i mewn i batrwm y ddau ddiwygiwr o weithredu, ac er i'r teimladau fod yn fwy dwys o bosibl, nid oedd dim yn sylweddol wahanol yno i'r hyn a brofwyd ynghynt. Yn ail, roedd

[19] 'H.M.P', t.110.
[20] LLGC, CMA 871.

swyddogaeth Humphrey Jones lawn mor allweddol i'r ymgyrch ag eiddo Dafydd Morgan. Profodd y ddau fod yr oedfa gyntaf yn anodd a'r awyrgylch yn drwm, ond gwelodd y ddau effaith mawr i'w gwaith erbyn y diwedd. Yn olaf, ni ddefnyddiwyd dulliau gwahanol o gynnal oedfa, nac o dynnu'r rhwyd, yn Nhregaron i'w gymharu ag unrhyw ardal arall na chynt nac wedyn. Dulliau ym mhatrwm diwygiadaeth Finney oeddent a bu bendith arnynt.

A ninnau wedi trafod y dadleuon dros ddyddio a lleoli dechrau'r diwygiad ar ddyddiadau ac mewn mannau eraill, trown yn awr at yr hyn a ddigwyddodd yn Nhre'r Ddôl yn niwedd Mehefin, 1858, ac olrhain sut yr ymledodd y diwygiad yn ei fisoedd cyntaf yn sir Aberteifi.

*ii. Diwygiad Tre'r Ddôl.*

Cymdeithas wledig, geidwadol a sefydlog oedd yng ngogledd sir Aberteifi yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd mwyafrif llethol y boblogaeth yn dueddol o aros yn eu cynefin, gyda chwech o bob deg oedd yn byw yn y plwyfi gwledig wedi eu geni yno, a dau neu dri arall ond wedi symud yno o blwyfi cyfagos.[21] Amaethyddiaeth oedd prif ddiwydiant yr economi lleol, gyda dwy ran o dair y boblogaeth yn byw ar y tir. Megid anifeiliaid ar y tir uchel, a thyfid cnydau ar y tir isel, gwastad. Ffermydd bychan oeddent ar y cyfan, y mwyafrif ohonynt yn llai na 75 erw.[22] Tir amaethu gwael ydoedd y rhan fwyaf ohono, yn enwedig ar y bryniau, gyda'r pridd yn wael a'r tywydd yn wlyb. Roedd y ffermwyr yn amharod i ddatblygu dulliau newydd o amaethu, yn rhannol oherwydd mai tenantiaid oeddent, heb y sicrwydd y byddent yn cael mwynhau ffrwyth eu llafur.

[21] D.J.V.Jones, *Rebecca's Children: A study of rural society, crime and protest* (Oxford, 1989), t.41.

Oherwydd diffyg yn natblygiad trafnidiaeth yng ngogledd y sir yn y cyfnod hwn, prin iawn oedd yr allforio a wnaed o'r cynnyrch amaethyddol. Roedd y ffermydd yn rhy bell o'r ardaloedd diwydiannol i fanteisio ar y marchnadoedd newydd. Er gwaethaf hyn, parhau i dyfu a wnaeth poblogaeth yr ardal, a hyn yn golygu fod cystadleuaeth fawr am dir. Er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd roedd rhaid i'r rhan fwyaf o'r ffermwyr bychan chwilio am waith ychwanegol. Un o'r diwydiannau poblogaidd yn y cyfnod oedd gweu hosanau. Roedd yr ardaloedd diwydiannol newydd yn galw am ddillad rhad, a manteisiodd y boblogaeth wledig ar hyn. Roedd marchnad dda ar gyfer hosanau gwlân garw, a thyfodd diwydiant bwthyn sylweddol yn y sir. Yn 1851 roedd 176 o wneuthurwyr hosanau yn Nhregaron yn unig, y mwyafrif ohonynt yn ferched. Nid oedd angen cyfalaf er mwyn sefydlu gwaith o'r fath, na fawr o allu, ac yr oedd yn waith y gellid ei wneud mewn amser sbâr - gyda'r nos, wrth ymweld â ffrindiau, neu wrth deithio. Roedd y teuluoedd nad oedd ganddynt ddefaid yn gallu casglu gwlân oddi ar y coed a'r llwyni. Daeth nyddu a gweu hefyd yn ddiwydiant pwysig, gyda phentrefi fel Tal-y-bont yn codi i gwrdd â'r angen yn y cymunedau mwyngloddio.[23]

Diwydiant pwysig yng ngogledd sir Aberteifi oedd mwyngloddio plwm. Roedd yn darparu gwaith llawn amser, a hefyd rhan amser i amaethwyr lleol. Daeth y diwydiant yn bwysig yn yr ardal o 1690 ymlaen pryd y darganfuwyd gwythïen o blwm yn Esgair-hir ar stad Gogerddan gan fugail defaid. Daeth y mwyngloddwyr cyntaf o Gernyw yno yn 1824, ac yn 1834 daeth John Taylor, peiriannydd o Gernyw, i'r ardal, a gwnaeth fwy dros y diwydiant na'r un dyn arall. Ef oedd y cyntaf i godi barics i'r gweithwyr, a hynny yn Lisburne. Sicrhaodd ei gynlluniau fod y mwynglawdd hwn ar waith

[22] Ibid. tt.3-5.

yn rheolaidd rhwng 1834 a 1893. Erbyn canol y 1840au roedd y diwydiant ar i fyny. Datganodd y *Mining Journal* am 1850 na fu mwyngloddiau Aberteifi yn fwy cyfoethog erioed. Ac erbyn 1857 roedd y diwydiant yn yr ardal ar ei uchaf. Yn y 1870au aeth y diwydiant ym Mhrydain ar i lawr, yn bennaf oherwydd cystadleuaeth o dramor. Un o'r rhesymau dros y twf yn y 1840au a'r '50au oedd yr angen am beipiau plwm i'r gweithfeydd carthffosiaeth mawr a adeiledid oherwydd y deddfau iechyd cyhoeddus newydd.[24] Mae'n bwysig ein bod yn sylwi ar y ffaith fod hwn yn ddiwydiant ar ei uchaf yng nghanol y 1850au, oherwydd mae'n cyd-fynd ag amseriad y diwygiad. Er mai cymdeithas dlawd oedd hon ar y cyfan, roedd iddi fuddiannau economaidd, a sicrhâi ryw fath o sefydlogrwydd i'w phoblogaeth. Pentrefi bychan oedd i'r ardaloedd mwyngloddio, megis Cwmystwyth ac Ystumtuen, ac roedd iddynt gymeriad unigryw: 'They had the air of frontier settlements, with their rough-built barracks, scattered stone cottages, and predominantly male populations'.[25]

Roedd y gymdeithas yn un grefyddol ac ysbrydol – ac nid heb ei helfennau gyntefig a chyn-Gristnogol, oherwydd roedd cred gyffredinol mewn tylwyth teg a dewiniaeth. Meddai Ieuan Gwynedd Jones am y grefydd werinol hon: 'Beliefs and usages flowing from the deep past were held with a stubbornness and a kind of reverence which religious leaders deplored but could not exorcise or eradicate'.[26] Cafwyd enghraifft o'r ystyfnigrwydd hwn yn Aberystwyth yn fuan ar ôl diwedd y diwygiad. Mewn cyfarfod eglwysig yn y Tabernacl, capel y Methodistiaid Calfinaidd a brofodd yn helaeth iawn o

---

[23] A.K.Knowles, 'The structure of rural society in north Cardiganshire, 1800-1850', yn Jenkins a Jones (goln) *Cardiganshire County History 3* (Cardiff, 1998), tt.76-93.
[24] W.J.Lewis, 'Lead Mining in Cardiganshire', yn Jenkins a Jones (goln) *Cardiganshire County History 3,* tt.160-181.
[25] Knowles, 'The structure of rural society', t.87.
[26] I.G.Jones, 'Church and chapel in Cardiganshire, 1811-1914', yn G.H.Jenkins a I.G.Jones (gol.) *Cardiganshire County History 3* (Cardiff, 1998), t.479.

fendith yr adfywiad, cyhuddwyd dwy ferch o ymgynghori â 'dynes ddrwg', sef dynes-dweud-ffortiwn, yn y dref.[27]

Serch hyn, profodd yr enwadau Cristnogol dwf sicr yn ystod y ganrif. Yn 1811 roedd 140 o lefydd addoli, ac erbyn 1851 roedd yno 240. Yn ne'r sir y Methodistiaid Calfinaidd oedd gryfaf, ac yn y pentrefi diwydiannol, megis yn yr ardaloedd plwm, ac yn y trefi arfordirol, roedd y Wesleaid yn gymharol gryf. Sefydlwyd Cylchdaith Wesleaidd Aberystwyth, lle cychwynnodd y diwygiad, yn 1807. Ffurfiwyd y cymdeithasau cyntaf yno yn fuan wedi taith genhadol Edward Jones, Bathafarn a William Parry, Llandegai yn 1804. Clywodd Hugh Rowlands, Tre'r Ddôl, hwy yn pregethu ym Machynlleth, ac ef a'u gwahoddodd hwy i'w bentref ei hun. Ffurfiwyd cymdeithas yno, ac agorwyd y capel cyntaf yn 1809. Ym 1845 codwyd capel newydd ar dir Dolcletwr, ac yn y capel hwn y dechreuodd y diwygiad.[28]

Honnodd Evan Isaac, cofiannydd Humphrey Jones, yr argyhoeddwyd y diwygiwr tra roedd yn America y dylai ddychwelyd i Gymru i gynnal cyfarfodydd diwygiadol.[29] Roedd wedi profi o'r tân adfywiadol yn America, ac felly naturiol oedd iddo fod eisiau gweld ei famwlad yn cael ei chyffwrdd yn yr un modd. O bosibl ei fod yn teimlo fod ganddo rywbeth i'w brofi yn yr hen wlad, ac ymhlith ei enwad yn neilltuol, wedi iddo orfod gadael Cymru mewn rhyw gymaint o siom ar ôl iddo gael ei wrthod fel ymgeisydd ar gyfer y weinidogaeth. Glaniodd yn nociau Lerpwl tuag wythnos olaf Mehefin 1858 ac arhosodd o leiaf un noson yno. Cafodd lety gan William Jones, gweinidog gyda'r Wesleaid Cymraeg yn y dref. Dywedodd yn blaen wrth ei letywr mai ei fwriad wrth ddychwelyd adref oedd 'er cychwyn cyfarfod adfywiadol yn

[27] M.I.Williams, *Y Tabernacl, Aberystwyth. Hanes yr Achos – 1785-1985* (Aberystwyth, 1986), t.61.
[28] H.Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig III,* t.1249-50.
[29] Isaac, *Humphrey Jones,* t.33.

Aberystwyth a'r cyffuniau'.[30] Mae'n debyg iddo ddweud rhywbeth tebyg wrth Abel Green, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.[31] Dengys datganiad fel hyn o'i eiddo ei fod yn ddyn llawn hyder yn ei brofiad a'i allu fel arweinydd diwygiad. Efallai y byddai rhai yn ei gyhuddo o falchder, hyd yn oed. Roedd yn fwy gwylaidd mewn llythyr o'i eiddo a gyhoeddwyd yn yr *Herald Cymraeg*. Wrth ysgrifennu ychydig o hanes yr adfywiad yn Nhre'r Ddôl, eglurodd mai bwriad ei ddychweliad a'r ardal oedd ymweld â theulu a chydnabod, ond eu bod hwy

> ... wrth glywed sôn am ddiwygiad mawr yr America, a gweled yn y cyhoeddiadau fy enw innau yn nglyn a'r adfywiad, teimlodd y cyfeillion awydd mawr i mi ymosod ar yr un cynllun yn yr ardal hon, felly y gwneuthum, a mawr fu yr effaith.[32]

Ac ychwanegodd fod sawl eglwys yn anfon amdano i ddilyn yr un cynllun gyda hwy, gan sicrhau y byddai sylw felly yn hysbysu pobl ei fod ar gael i bregethu. Cyhoeddwyd llythyr arall o'i eiddo ym mhen y mis. Gan gyfeirio at farn Finney fod balchder yn siŵr o amharu'n negyddol ar adfywiad, mynnodd nad er mwyn dyrchafu ei enw ei hun ond er mwyn llesâd i ardaloedd eraill yng Nghymru y bwriodd i'r gwaith.[33] Wel efallai, ond tybed na chawn gipolwg ar wneuthuriad clai traed y diwygiwr yn y fan hyn?

Er sicrhau tegwch iddo, fodd bynnag, mae'n iawn i ni hefyd sylwi ar yr hyn a ddysgodd am werth hysbysebu adfywiad yn y wasg. Dangosodd Kathryn Long mai diwygiad 1857 yn America oedd y cyntaf i elwa oddi wrth sylw yn y wasg secwlar, wrth i rai o bapurau poblogaidd a dylanwadol y wlad gario'r stori o ddydd i ddydd. Nid oes amheuaeth fod ymlediad diwygiad yn dibynnu i raddau ar i hanes adfywiad yn un ardal gyrraedd ardal

---

[30] W.Jones, 'Y Diwygiad 1859-60', yn *Y Fwyell,* 1 (1894), t.61.
[31] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.21.
[32] H.Jones, *Yr Herald Cymraeg*, 14 Awst 1858, t.3.
[33] Ibid., 11 Medi 1858, t.4.

arall a chreu awydd yn yr ardal honno am adfywiad tebyg. Gallai'r hanes ymledu trwy ymweliadau personol a llythyru rhwng teuluoedd a chyfeillion. Pam na ddylid defnyddio'r wasg i hybu'r gwaith?

Mae'n bwysig, hefyd, ein bod yn sylwi ar gyfeiriad Jones at Charles Finney oherwydd mae'n amlwg ei fod yn gyfarwydd â'i waith a'i ddulliau. Dengys ei ddatganiad mai dychwelyd i Gymru a wnaeth er mwyn cynnal cyfarfodydd adfywiadol yn null Finney. Cawn olwg ychwanegol ar ei feddwl am ddulliau o gychwyn diwygiad, a'r modd yr edrychai arno'i hun fel diwygiwr, mewn llythyr a ysgrifennodd at Lewis Ellis, a oedd ar y pryd yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth efo'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala. Rhoddodd gyngor i'r myfyriwr ieuanc, a dweud wrtho am ofalu pregethu i argyhoeddi pobl trwy anelu at y galon bob amser. Ni ddylai ei ddangos ei hun na cheisio difyrru ei gynulleidfa. Y peth cyntaf i anelu amdano, cyn meddwl am achub eneidiau, oedd adfywio'r credinwyr. Meddai: 'Ymdrechwch at ddeffro Seion. Pa faint bynnag a bregethwch i'r byd, ni fydd o fawr les heb gael Seion o'i chwsg gyntaf'.[34] Roedd cymeriad personol y pregethwr yn bwysig hefyd, meddai, a dylid gofalu byw'n dduwiol, a threulio amser sylweddol mewn gweddi ddirgel. Hefyd, dylai'r pregethwr barchu pob enwad. Pan yn America, gweinidogaethu ymhlith sawl enwad a wnaeth Jones, ond wedi dychwelyd i Gymru ei fwriad oedd cadw at ei enwad ei hun yn bennaf, a dyna ddigwyddodd. O bosibl nad oedd eciwmeniaeth Cymru mor agored ag America a dywedodd ei gofiannydd i Fethodistiaid Calfinaidd Taliesin gau eu pulpud iddo.[35] Mae'r sylwadau hyn ar bregethu eto yn arddangos pwyslais Finneyaidd. Ymddengys fod y syniadau hynny yn

[34] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.27.
[35] Isaac, *Humphrey Jones*, t.27.

greiddiol iddo ef fel person, ac o'r herwydd yn allweddol i gychwyniad y diwygiad.

Yn yr un llythyr cawn Humphrey Jones yn sôn ychydig am ei yrfa ei hun fel diwygiwr. Dywed iddo gael ei argyhoeddi y dylai fod yn ddiwygiwr ymysg ei gyd-Gymry yn America. Mae sylw felly yn dweud cyfrolau am y syniad oedd ganddo am ddiwygiad. Nid mater o Dduw yn tywallt ei Ysbryd arno ac yn ei ddefnyddio fel diwygiwr, yn unol â'r hen ffordd o edrych ar ddiwygiadau, ond bron na ellid dweud ei bod yn swydd i ymgyrraedd tuag ati, yn waith y dylid ymdrechu tuag at ei gyflawni. Gesyd hyn Humphrey Jones yng nghanol mudiad diwygiadaeth y cyfnod yn America. Yn ôl ei eiriau ei hun cafodd dderbyniad gwresog ymhlith pob enwad Cymraeg yn America, a llwyddiant mawr i'r gwaith. Meddai: 'Pa le bynnag yr awn yr oedd y diwygiadau mwyaf grymus yn torri allan a channoedd yn cael eu dychwelyd'.[36] Clywn eto dinc o falchder, ond ar yr un pryd dywedodd ei fod yn dyheu am weld eraill yn cael eu codi i'r gwaith, fel bod Cymru drwyddi yn cael ei hadfywio. Yn sicr, roedd ganddo feddwl ohono'i hun, ond serch hynny nid oedd am gadw'r gwaith i gyd iddo'i hun. Roedd yn gymeriad cymysg a chymhleth.

Wedi cyrraedd Tre'r Ddôl dechreuodd ar unwaith ar ei waith diwygiadol. Yn ôl J.J.Morgan galwodd Jones heibio i sawl un o'i hen gydnabod yn y pentref ddydd Gwener 25 Mehefin. Gweddïodd efo hwy a sylwasant fod newid wedi bod ynddo ers iddynt ei weld ddiwethaf, bedair blynedd ynghynt. Wrth i'r newydd ymledu drwy'r pentref dechreuodd y t lenwi efo pobl. Dilynwyd ef o dŷ i dŷ wrth iddo barhau â'i ymweliadau. Penderfynwyd agor y capel ar gyfer cynnal oedfa yn yr hwyr, a chafwyd bendith fawr. Meddai J.J.Morgan: 'Cododd y brwdfrydedd mor uchel fel y

buont yno hyd hanner nos'.[37] Ar y dydd Sadwrn cymerodd ran yn angladd gŵr o'r enw William James, Llannerch, gan weddïo y tu allan i'r tŷ. Eto sylwodd pobl fod newid wedi bod ynddo a thybiodd Evan Isaac mai wedi aeddfedu yr oedd tra yn America.[38] Cyffyrddwyd pobl i'r byw yn yr achlysur hwn, a hynny i'r fath raddau nes i Isaac ddatgan: 'Dechreuodd Diwygiad '59 mewn angladd'.[39] Prin fod y sylw hwnnw'n gywir, ond mae'r stori ei hun yn ychwanegu at ramant hanes y diwygiad. Mae'n werth nodi mai'r dechneg gyntaf a ddefnyddiodd Humphrey Jones i geisio deffro'r ardal oedd ymweliadau personol â chartrefi a chyfarfodydd gweddi. Adlewyrcha hyn batrwm y diwygiad yn America yn 1857, lle'r oedd y cyrddau gweddi yn brif gyfarfodydd ynddo, a lle rhoddwyd pwyslais ar ymweliadau. Gwelodd Jones ffrwyth y gwaith hwnnw a daeth â'r dechneg drosodd gydag ef i Gymru.

Pregethodd dair gwaith ar y Sul. Mae anghytuno ynghylch lle yn union y pregethodd, er y gellid dweud i sicrwydd mai yng nghapel Wesleaidd Tre'r Ddôl yr oedd fore a hwyr. Awgrym ysgrif yn y *Fwyell* yn 1894 yw iddo bregethu yno yn y prynhawn hefyd, ond yn ôl J.J.Morgan yn Eglwys-fach ydoedd, rhyw dair milltir i'r gogledd o Dre'r Ddôl.[40] Byddai'n beth od petai tair oedfa mewn un capel ar Sul arferol, felly tybir mai J.J.Morgan sy'n gywir. Dengys ei destunau mai ei fwriad oedd deffro'r eglwys o'i chwsg ysbrydol. Dyma hwy: Amos 6:1, 'Gwae y rhai sydd mewn esmwythyd yn Seion;' Jeremeia 7:24, 'Ond ni wrandawsant nac estyn clust, ond rhodio yn ôl eu barn eu hunain, ac yng nghildynrwydd eu calon ddrwg. Aethant yn ôl ac nid ymlaen;' a Daguddiad 3:15, 'Gwn am dy weithredoedd; nid wyt yn oer

---

[36] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.26.
[37] Ibid. t.23.
[38] Isaac, *Humphrey Jones*, t.34.
[39] Ibid.
[40] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.27.

nac yn boeth. Gwyn fyd na fyddit yn oer neu yn boeth!'[41] Byddai Finney wedi cymeradwyo pregethu fel hyn ar gychwyn ymgyrch, gan mai ei fwriad yntau oedd deffro'r eglwys cyn mynd ati i geisio ennill dychweledigion.

Am yr wythnos ddilynol cynhaliwyd cyrddau gweddi yng nghapel Tre'r Ddôl, a chymhellodd Jones i'r aelodau ddod ag anghredinwyr gyda hwy i'r cyrddau hyn. Ar ddiwedd pob oedfa byddai yntau yn gwneud apêl ar iddynt dderbyn Crist fel eu gwaredwr ac ymuno â'r eglwys. Wedi ychydig nosweithiau o'r fath gyfarfodydd, gwelodd ei ddychweledigion cyntaf.[42] Ar ddechrau'r ail wythnos newidiodd Humphrey Jones natur y cyfarfodydd, ac yn lle cynnal cyfarfodydd gweddi rhoddodd le amlycach i bregethu, ac am rai wythnosau, cyn i Dafydd Morgan ymuno yn y gwaith, Jones ei hun oedd yr unig bregethwr yn y cyfarfodydd hyn. Mae'n deg nodi mai pregethau ac anerchiadau oedd prif erfyn yr arweinwyr yn y diwygiad hwn. Er bod cyfarfodydd gweddi yn hynod bwysig, roedd cyflwyno'r genadwri am Iesu Grist, ac yna apelio am ymateb uniongyrchol i'r pregethu hwnnw, yn greiddiol i ymlediad a llwyddiant y diwygiad.

Parhaodd ymgyrch Humphrey Jones am oddeutu pum wythnos yn Nhre'r Ddôl. Yn ôl ei gofiannydd nodwedd amlycaf y cyfarfodydd yno oedd 'wylo a dwyster llethol'.[43] Roedd y bobl mewn ofn a braw rhag llid Duw gan i Jones bregethu barn iddynt a phwysleisio'u cyflwr pechadurus gerbron Duw. Meddai Isaac, 'Cynhyrchid braw mewn miloedd, eithr nid torri allan mewn llefain cryf a wnâi, ond peri iddynt blygu mewn dagrau dwys'.[44] Cafwyd disgrifiad arall o'r cyfarfodydd cynnar hynny yn Nhre'r Ddôl gan T.Jones, Tre Taliesin. Ef a ddywedodd fod 60 wedi eu hychwanegu at y

[41] Ibid. t.26.
[42] Isaac, *Humphrey Jones*, t.35.
[43] Ibid. t.35.
[44] Ibid. t.36.

Wesleaidd yno yn y cyfnod hwn. Adroddodd fel y bu i gyfarfodydd Humphrey Jones barhau bob Sul, a phob noson waith am y pum wythnos. Synnodd fel yr oedd y cynulleidfaoedd mor niferus â hithau'n adeg mor brysur ar y ffermydd, ond yr oedd 'y capel yn orlawn bob cyfarfod'.[45] Gwnaeth T.Jones sylw neilltuol o'r ffordd yr oedd y 'pechaduriaid yn codi o ganol y gynulleidfa, ac yn dyfod ymlaen at yr allor'.[46] Mae'n bosibl na welodd yr awdur hyn yn digwydd o'r blaen, a bod dulliau'r diwygiwr yn bur newydd, o leiaf i'r rhannau hyn o Gymru. Cynigiodd Humphrey Jones ei ddisgrifiad ei hun o'r cyfarfodydd hynny mewn llythyr a gyhoeddwyd yn yr *Herald Cymraeg*. Nid oedd ganddo amheuaeth pwy oedd yn gyfrifol am yr adfywiad. Meddai, 'Y mae bys Duw i'w weled yn amlwg yn yr ardal hon'.[47] Roedd pobl yr ardal wedi eu heffeithio'n ddwys gan iddynt 'fethu cysgu am nosweithiau ... gan drallod meddwl'.[48] Cymharodd yr hyn a brofwyd yn Nhre'r Ddôl efo'r hyn a brofwyd yn America, 'Ni welsom ni mo'r dylanwadau yn llawer cryfach yn yr America y gauaf diwethaf, yng nghanol y gwres mwyaf'.[49] Amhosibl fyddai profi cywirdeb y sylw. Dywedodd hefyd fod 76 wedi eu dychwelyd yno, a hynny yn y tair wythnos gyntaf. Mae'r ffigwr hwn yn wahanol i'r un a gynigiodd T.Jones, ac eto nid yw'n bosibl erbyn heddiw gwybod pa un sy'n gywir. Hyd yn oed os mai'r ffigwr isaf sydd gywir, yna mae'n dal i arwyddo llwyddiant pur sylweddol.

Ar yr ail Sadwrn ym mis Awst symudodd Humphrey Jones o Dre'r Ddôl i Ystumtuen, pentref mwyngloddio yn y bryniau uwch Aberystwyth. Sefydlwyd yr achos Wesleaidd yno yn 1807, a chodwyd y capel cyntaf yn 1823. Adeiladwyd capel newydd yn 1840 a helaethwyd hwnnw ym

[45] T.Jones, 'Tre'rddol, Cylchdaith Aberystwyth', t.356.
[46] Ibid. t.356.
[47] *Yr Herald Cymraeg*, 11 Medi 1858, t.4.
[48] Ibid.

mlwyddyn y diwygiad.[50] Cynhaliodd Jones ymgyrch ddiwygiadol debyg yno hyd yr ail Sul ym mis Medi 1858 ac am y mis nesaf pregethodd bob Sul a phob noson waith. Am y tair oedfa gyntaf pregethodd er mwyn deffro'r eglwys, ac ni throdd at bregethu i'r byd nes y bedwaredd oedfa.[51] Yn ystod y dydd ymwelodd â phobl na fynychai'r oedfaon yn arferol a'u cymell i ddod i'w gyfarfodydd. Honnodd Evan Isaac fod yr ymweliadau hyn wedi bod mor llwyddiannus nes bod pawb ond pump yn y pentref erbyn diwedd y mis wedi'u dychwelyd. Ar y nos Lun cyntaf, wedi i Jones apelio am ymateb i'r efengyl, bu rhaid gwagio'r blaenoriaid o'r sêt fawr er mwyn gwneud lle i'r dychweledigion. Roedd dros hanner cant wedi dod ymlaen. Cafodd yr adfywiad yno effaith ar natur y gymdeithas. Gwelwyd y gweithwyr yn y gwaith plwm yn gweddïo ar eu ffordd i'r gwaith, ac yn cynnal cyfarfodydd gweddi tan ddaear ar gychwyn y dydd.[52]

Edrydd J.J.Morgan un hanesyn hynod ddiddorol sy'n egluro sut y cafodd y diwygiad gymaint o effaith ar yr ardal. Roedd gŵr ieuanc yn glaf yn ei wely yn Ystumtuen, ac yn agos at farwolaeth. Nid aeth i'r un cyfarfod diwygiadol, ond ar ei wely angau dangosodd edifeirwch a galwodd allan am gyfle i ymateb. Yn annisgwyl i bawb, gan gynnwys ei feddyg, cryfhaodd y bachgen yn sylweddol, a gwelwyd ef yn un o oedfaon olaf Humphrey Jones yn y pentref. Fodd bynnag, yn lle mynd ymlaen mewn ymateb i'r apêl, caledodd ei galon ac aeth allan. Ymhen ychydig ddyddiau gwaethygodd ei gyflwr a bu farw.[53] Ni allai ymlediad hanesyn fel hyn ond ychwanegu at y teimlad fod grymoedd goruwchnaturiol ar waith yn yr ardal ar y pryd. Boed

---

[49] Ibid.
[50] J.H.Griffiths, *Bro Annwyl y Bryniau. Atgofion am Ystumtuen* (Aberystwyth, 1988), t.45.
[51] T.Williams, 'Y Diwygiad 1859-60 yn nghylchdaith Ystumtuen a'r cyffiniau', yn *Y Fwyell*, 1 (1894), t.184.
[52] Isaac, *Humphrey Jones*, t.44.
[53] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.28.

hi'n stori wir neu beidio, cafodd effaith ar yr ardal yn ddi-os, gan, o bosibl, greu ofn mewn llawer. Cododd aelodaeth capel Ystumtuen i 156 yn 1858 ynghyd â 'nifer fawr o wrandawyr'.[54] Aethpwyd ati i blannu eglwysi newydd yn Cwmbrwyno a Chwmrheidiol, ac yn 1861 ffurfiwyd cylchdaith newydd o chwe eglwys a gweinidog drostynt. Dyma ffrwyth uniongyrchol y diwygiad ar yr ardal fynyddig, wledig hon. Nid peth dros dro oedd hyn, ond gellid dweud bod y dylanwad yn un tymor hir a effeithiodd ar bobl ac ardal am oes.

*iii. Jones a Morgan ynghyd.*

Pentref cyfagos oedd Mynydd Bach, a chodwyd y capel Wesleaidd cyntaf yno yn 1811. Nid oedd fawr o lewyrch ar yr achos yn y dyddiau hynny, ac yn ôl Hugh Jones, roedd ansawdd yr addoli yn bur symol, gan i'r 'emyn a'r dôn heb fod yn perthyn yn bur fynych'.[55] Ond gwelodd yr eglwys fechan ddyddiau gwell, a phrofodd ddiwygiad pur rymus yn 1832, er i bethau grebachu rhwng 1835 ac 1844. Yno y daeth Humphrey Jones ar yr ail Sul ym Medi, 1858 - ond y tro hwn, fel y sylwyd eisoes, roedd y diwygiad wedi cyrraedd yno o'i flaen, ac yn wir wedi ymledu i fannau eraill yn ogystal. Roedd rhywrai o aelodau Mynydd Bach wedi bod yn gwrando yn Ystumtuen ac wedi cludo'r tân gartref gyda hwy. Cwta dair wythnos y bu Jones yno yn bwrw ati i'r un cynllun: deffro'r eglwys ac apelio at bechaduriaid i droi. Er nad oes ffigyrau bellach ar gael, bu nifer y dychweledigion yn fawr yma hefyd. Mae datblygiadau Mynydd Bach yn bwysig. Dengys nad oedd ymlediad y diwygiad yn dibynnu ar ddoniau nac ymdrech un person yn gweithredu ac ymarfer dulliau arbennig. Er bod dulliau Finneyaidd ar waith

---

[54] Griffiths, *Bro Annwyl*, t.45.
[55] Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig IV*, t.1749.

ar gychwyn ac yn ystod y diwygiad hwn, mae Mynydd Bach yn brawf nad trwy'r dulliau hyn yn unig y cynheuwyd y tân adfywiadol.

Dydd Iau, 30 Medi daeth Humphrey Jones i Bontrhydygroes. Bu ei gofiannydd yn hynod hael wrth ddatgan pwysigrwydd y lleoliad a'r achlysur. Meddai, 'Ac eithrio Tre'r Ddôl ... ym Mhontrhydgroes y gwnaed y gwaith mwyaf a phwysicaf ym mob man yng Nghymru, oblegid yno y gafaelodd nerth y diwygiad ym mhersonoliaeth gref y Parch. Dafydd Morgan, Ysbyty'.[56] Ychydig iawn o fanylion sydd ar gael ynghylch cychwyniad yr achos Wesleaidd yn y pentref hwn, ond nid oes amheuaeth nad cywir oedd asesiad Evan Isaac o bwysigrwydd y lle yn hanes diwygiadol Cymru. Ni fyddai'n gywir honni mai Humphrey Jones oedd yr unig ddiwygiwr yng Nghymru pan gyrhaeddodd y pentref hwn, oherwydd roedd y diwygiad wedi ymledu i fannau eraill a gweinidogion y mannau hynny yn cael eu defnyddio fel diwygwyr. Ond ar ei ben ei hun y daeth Jones i Bontrhydygroes, ac ymhen wythnos wedi iddo gyrraedd yno yr oedd un arall, o bosibl mwy nag ef, wedi ei godi i'r gwaith, un a ddefnyddiwyd i gario'r diwygiad i ardal letach na sir Aberteifi. Mae'n bwysig, felly, fod galwad ac eneiniad Dafydd Morgan yn cael sylw teilwng.

Pregethodd Jones ei bregeth gyntaf yn y pentref ar y nos Iau y cyrhaeddodd yno. Roedd tân y diwygiad i'w brofi yno yn helaeth, yn rhannol oherwydd bod rhywrai wedi dilyn y diwygiwr yno o Fynydd Bach. Ar yr ail noson pregethodd bregeth a ddefnyddiodd eisoes yn ei ymgyrch, sef Datguddiad 3:15, 'Gwn am dy weithredoedd; nid wyt yn oer nac yn boeth. Gwyn fyd na fyddit yn oer neu yn boeth!' Yn y gynulleidfa'r noson honno yr oedd Dafydd Morgan, a chlwyfwyd ef gan y bregeth. Roedd eisoes wedi cael adroddiad am ddulliau'r diwygiwr o Wesle, ac nid oedd yn or-hoff o'r hyn a

glywodd amdano. Yn wir mae Thomas Phillips yn dweud fod gan Morgan 'ragfarn' yn erbyn y cwbl.[57] Gan fod J.J.Morgan yn cyfeirio at y peth hefyd, gallwn fod yn hyderus fod hynny wir. Awgrymodd y mab mai'r dylanwadau Americanaidd oedd achos ragfarn ei dad. Beth bynnag am hynny cafodd pregethu syml, uniongyrchol Jones effaith fawr arno. Teimlodd nad oedd ef ei hun yn ddigon 'poeth' na brwd dros yr efengyl, a mynnodd gyfarfod â'r diwygiwr. Gan fod Jones wedi bod yn chwilio am sbel am rywun i gydweithio ag ef, derbyniodd Morgan yn llawen. Yr oedd yn ddeg o'r gloch yr hwyr ar nos Wener a bu'r ddau yn trafod cyflwr isel yr eglwys hyd oriau mân y bore. Am y deuddydd dri nesaf treuliodd y ddau gryn amser efo'i gilydd yn siarad a gweddïo. Rhannodd Jones ei syniadau am gynnal diwygiad a digon posibl iddo rannu llawer ar ei brofiadau yn America. Os oedd gan Morgan sgeptigaeth ynghynt am ddulliau Jones, diflannodd y cwbl yn fuan iawn. Mae J.J.Morgan yn cofnodi ei dad yn dweud, 'Fyddai hi yn niwed yn y byd i ni geisio deffroi eglwysi'r cylch yma, a chynnal cyfarfodydd gweddïau; rwy'n fodlon gwneud fy ngore; wnawn ni ddim niwed drwy hynny, pe na bae dim ond dyn yn y cwbl yn y diwedd.' Atebwyd ef gan Jones, 'Gwnewch chi hynny, a mi a'ch sicrhaf y bydd Duw gyda chi yn fuan iawn'.[58]

Mae nodi'r sylwadau hyn o'r eiddo Morgan, a'r hyn arweiniodd atynt, yn bwysig inni. Daeth i dderbyn y syniad ei bod hi'n bosibl cynnal cyfarfodydd er mwyn adfywio'r eglwys. Ni wyddom i unrhyw sicrwydd beth oedd ei farn ynghylch diwygiadaeth a Finneyiaeth cyn y dyddiau hyn, ond os oedd ganddo wrthwynebiad mawr a ddeilliai o'i Galfiniaeth, yna bu'n fodlon gollwng y cwbl yn bur sydyn. Mae'n bosibl nad oedd ei ddiwinyddiaeth yn bell iawn o'r safbwynt hwn eisoes, ac wrth rannu ei bryder ynghylch cyflwr

---

[56] Isaac, *Humphrey Jones*, t.50.
[57] Phillips, *The Welsh Revival. Its origin and Development* (Southampton, 1860), t.7.

yr eglwysi efo Jones, a chlywed am y llwyddiant a gafodd hwnnw drwy ymarfer y dulliau diwygiadol, mater bychan oedd penderfynu eu harddel a'u hymarfer ei hun.

Ar Sul cyntaf mis Hydref, roedd Morgan mewn cryn drallod oherwydd ei ddiffyg brwdfrydedd, ac yn hytrach na chadw at ei gyhoeddiad mewn capel cyfagos, aeth i wrando ar Humphrey Jones oedd yn pregethu efo'r Methodistiaid Calfinaidd yn Ysbyty Ystwyth. Dyma'r tro cyntaf i Jones groesi'r ffiniau enwadol ers iddo ddychwelyd i Gymru. Pregethodd ar destun cyfarwydd iddo, Amos 6:1, 'Gwae y rhai sydd mewn esmwythyd yn Seion.' Ond oedfa galed a gafodd ac ar ddiwedd y bregeth mynnodd ddweud y drefn am ddiffyg sêl y gynulleidfa. Atebwyd ef gan flaenor a ddywedodd ei bod yn anodd porthi a'r pregethwr mor gondemniol o'i gynulleidfa. Wrth eistedd torrodd y blaenor i lawr ac wylo, ac wrth ei glywed yn ochneidio felly, aeth y gynulleidfa yn foddfa o ddagrau ar ei ôl. Bu hynny'n ddigon i greu teimladau dwys ymhlith y gynulleidfa, a dylifodd afon y diwygiad i mewn. Cyffyrddwyd Morgan hefyd, i ryw raddau, ond roedd mwy i ddod. Ar y dydd Llun pregethodd yn Llangurig, ac er nad oedd grym yr Ysbryd wedi cydio ynddo erbyn hynny, fe sylweddololodd fod rhywbeth ar dorri yn ei fywyd yntau. Am bedwar o'r gloch fore Mercher, deffrodd a gwybu fod rhyw gyfnewidiad wedi digwydd iddo yn ystod y nos.

Gwelwyd yr effaith ar Dafydd Morgan mewn dwy ffordd. Yn y lle cyntaf, bu newid mawr yn ei bregethu. Mae lle cryf i gredu nad oedd Morgan yn un o bregethwyr mawr ei enwad yn y sir cyn y diwygiad. Dywedodd Glanystwyth yn ei gofiant i Isaac Jones, iddo glywed mai Morgan oedd 'un o'r pregethwyr gwanaf a berthynai i'r sir'.[59] Fel y sylwyd uchod, nid un o

---

[58] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan,* t.31.
[59] J.Hughes, *Isaac Jones*, t.90.

gefnogwyr cryfaf Dafydd Morgan oedd Glanystwyth, ond cawn sylw arall sy'n cadarnhau gwendid Morgan fel pregethwr. Mewn llythyr at gyfaill iddo yn Llundain yn adrodd peth o hanes y diwygiad yn y sir, mae John Mathews, Aberystwyth, yn synnu fod tyrfaoedd yn dilyn Dafydd Morgan o un capel i'r llall er mwyn ei glywed yn pregethu.

> The verse 'Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi ...' is very plainly illustrated to us in the choices the Lord has made of workmen on the present occasion ...who would have thought that our chapels would be cramed full to hear them, especially Dd Morgan, think of his drawing people after him from town to Penparciau ... and even some went on Friday last week as far as Tregaron to hear him![60]

Yr argraff a gawn yw na fyddai neb wedi dymuno dilyn Dafydd Morgan cyn y diwygiad. Ond daeth tro ar fyd. Wedi blynyddoedd o fod yn bregethwr digon cyffredin, daeth Dafydd Morgan yn bregethwr grymus dros nos. Fodd bynnag, ni pharhaodd y ddawn wedi i'r diwygiad ddod i ben.

Yr ail gyfnewidiad a ddaeth arno oedd ei allu rhyfeddol i gofio enwau pobl. Ar ddiwedd pob oedfa, wedi gwneud apêl, byddai rhes hir o ddychweledigion yn sefyll o'i flaen. Siaradodd efo pob un ar wahân, yn gofyn eu henw, eu sefyllfa, enw ambell i aelod o'r teulu oedd heb eu dychwelyd, ac yn y blaen. Ar ôl siarad efo pob un ohonynt, gweddïodd drostynt, gan gofio enw pob un, a'r hyn yr oeddent wedi ei ddweud wrtho, gan droi'r cwbl yn weddi drostynt. Yr oedd yn rhyfeddod yng ngolwg pawb a'i clywai. Eto, wedi i'r diwygiad ddod i ben, dychwelodd cof Morgan i'r hyn oedd ganddo ynghynt.[61]

Sut mae egluro peth fel hyn? Ai emosiwn y cyfnod oedd wedi ei gyffwrdd ac wedi bod yn fodd i'w godi i dir uwch? Ynteu a oedd rhyw gyffyrddiad dwyfol wedi bod arno, ac wedi rhoi dawn fwy effeithiol iddo?

---

[60] LLGC, CMA1, 12,684.
[61] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan,* t.33.

Barn Evan Isaac oedd mai cyffyrddiad yr Ysbryd Glân oedd yn gyfrifol, a'i fod wedi ei fedyddio â'r Ysbryd.[62] Canfyddwn yn nyddiadur Dafydd Morgan am 1858-59, y sylwasom arno eisoes, ei fod wedi pregethu bron iawn bob un dydd yn y cyfnod hwnnw, yn aml ddwywaith a thair y dydd, ac wedi profi'r lefel uwch o bregethu a'r atgofio ar hyd y cyfnod. A allai emosiwn yn unig fod wedi ei gynnal i gyflawni'r fath gamp? Credwn mai asesiad Isaac sydd agosach at y gwir, a bod Dafydd Morgan wedi ei eneinio mewn ffordd arbennig, os dros dro, ar gyfer y diwygiad.

Tra oedd Jones ym Mhontrhydygroes yr unodd y Wesleaid yno a'r Methodistiaid Calfinaidd yn Ysbyty Ystwyth i gynnal cyfarfodydd gweddi ar y cyd am yn ail yn y ddau gapel. Byddai Jones a Morgan yno i annerch y gynulleidfa ac i dynnu'r rhwyd. Dyma'r cyfnod pryd, yn ôl J J Morgan, i gyfeillgarwch agos i dyfu rhwng y ddau ddiwygiwr.[63] Fodd bynnag, nid yw Dafydd Morgan yn cyfeirio unwaith yn ei ddyddiaduron at Humphrey Jones.

Nid yw'r nifer a ddychwelwyd ym Mhontrhydygroes ac Ysbyty Ystwyth ar gael erbyn heddiw i allu mesur y llwyddiant yno. Nid oes amheuaeth fodd bynnag na fu'r ychwanegiad at yr eglwys yn sylweddol. Erbyn dechrau mis Tachwedd daeth yr ymgyrch yno i ben, ac er fod y ddau wedi cydweithio gyda'i gilydd am y mis hwnnw mewn gwahanol lefydd, ni chynhaliwyd ymgyrchoedd gohiriedig gan y ddau wedi ymgyrch Pontrhydygroes. Gwasanaethodd y ddau gyda'i gilydd ym Mhontrhydfendigaid, Tregaron, Blaenpennal, a Swyddffynnon. Mae'n debyg mai'r oedfa honno ym Swyddfynnon ar 25ain Tachwedd 1858 oedd yr olaf i'r ddau weinidogaethu ar y cyd. Bu'n bartneriaeth fer ond hynod lwyddiannus. Bu'n fodd hefyd i Humphrey Jones drwytho Dafydd Morgan

---

[62] Isaac, *Humphrey Jones,* t.53.
[63] Morgan, *Hanes Dafydd Morgan,* t.33.

yn y dulliau diwygiadol a ddysgodd yn America. Nid oes tystiolaeth o fath yn y byd i awgrymu fod unrhyw anghydweld wedi bod rhwng y ddau, ac mai dyna pam y penderfynasant ddilyn eu trywydd eu hunain. Penderfynodd Jones weinidogaethu gyda'r Wesleaid yng nghapel Queen Street, Aberystwyth am weddill ei gyfnod ef fel diwygiwr, ond teithio o un capel i'r llall a wnaeth Morgan, a hynny'n bennaf efo'i enwad ei hun.

Erbyn diwedd mis Tachwedd roedd diwygiad 1858-60 wedi hen afael. Cychwynnodd yn eirias a dwys ym mhentref bychan Tre'r Ddôl dan arweiniad gŵr a ddychwelodd i'w gartref efo un bwriad yn unig – sef cludo'r adfywiad a brofodd yn America yn ôl i Gymru gydag ef. Er gwaethaf y ffaith iddo arddangos cryn falchder ynghylch ei swyddogaeth fel diwygiwr, ei obaith oedd y byddai Duw yn codi eraill i'r gwaith, ac y byddai'r diwygiad yn ymledu trwy Gymry benbaladr. Ni chafodd mo'i siomi yn hyn o beth. Defnyddiwyd llawer iawn o weinidogion ac arweinwyr eglwysig eraill yn y cyfnod hwn i ddeffro'r eglwys ac i ennill dychweledigion at Grist. Yr enw mwyaf a gysylltir a'r mudiad yw Dafydd Morgan, un a ddaeth dan ddylanwad uniongyrchol Humphrey Jones. Haedda Jones ei le fel cychwynnydd y deffroad, a Morgan ei le fel ei brif arweinydd wedi hynny.

Yn ganolog i'r gwaith hwn oedd diwygiadaeth: y syniad y gellid defnyddio rhai moddion dan arweiniad a bendith Duw, i sicrhau adfywiad. Nid oes amheuaeth nad oedd Humphrey Jones wedi ei effeithio gan y syniadau hynny, a bod syniadau Charles Finney wedi cael effaith arno. Nid yw hynny'n syndod o gofio mai Wesle ydoedd ac mai Arminiaeth oedd ei ddiwinyddiaeth waelodol. Mwy o syndod o bosib yw parodrwydd Morgan i dderbyn y syniadau hynny. Gwelwyd fel yr oedd ganddo amheuaeth gynnar yn eu cylch, ond oherwydd ei gonsýrn am gyflwr yr eglwys, a than

gymhelliad a dysgeidiaeth Jones, aeth yn frwd dros eu defnyddio, a daeth yn feistr yn neilltuol wrth ddefnyddio'r fainc i'r rhai dan wasgfa. Er mai oddi fewn i enwad Calfinaidd y magwyd ef, ac yr arhosodd weddill ei oes, rhaid gosod Dafydd Morgan yntau yng nghanol traddodiad diwygiadaeth, ac ef, yn fwy nag unrhyw berson dynol arall, a sicrhaodd fod y diwygiad yn ymledu drwy Gymru gyfan.

*iv. Hanes 'machlud haul' y diwygwyr.*

Os yw hi'n bosibl dyddio dechrau'r diwygiad gyda pheth sicrwydd, nid yw mor hawdd dyddio ei ddiwedd. Mae cofianwyr y ddau ddiwygiwr yn adrodd hanes y 'machlud haul'[64] a fu ar eu gyrfa, ac er nad yw'r hanes am Dafydd Morgan mor ddramatig ag am Humphrey Jones, nid yw'n llai trist.

Parhau i gynnal ymgyrchoedd a wnaeth Morgan yn ystod 1860, ond er bod y tyrfaoedd yn ei ddilyn nid oedd yr un eneiniad ar ei weinidogaeth. Parodd hynny gryn anfoddhad a phryder iddo.[65] Nid yw ei ddyddiadur am 1860 ar gael heddiw ac felly ni wyddom yn union sut y daeth y trai ar ei alluoedd. Gan na cheir yn nyddiadur 1859 unrhyw sylw ynghylch ei deimladau ynglŷn â llwyddiant y flwyddyn honno, efallai na ddylem ddisgwyl iddo fod wedi cofnodi ei deimladau ynghylch methiannau'r flwyddyn ganlynol. Cyfeiriodd ato'i hun fel 'cennad mewn cadwyn' oedd yn gweddïo ar iddi gael ei hymestyn.[66] Awgryma hyn iddo gredu mai Duw oedd yn ei atal rhag parhau â'r gwaith a'i fod wedi cymryd yr eneiniad oddi arno. Yn un o gyfarfodydd cymdeithasfa'r gogledd yng Nghaernarfon yn 1872 datganodd mai diffyg ffydd ar ei ran ei hun ac eraill oedd yn egluro diffyg llwyddiant y weinidogaeth. Yng nghyfnod y diwygiad, meddai, byddai'n

[64] J.J.Morgan, *Hanes Dafydd Morgan*, t.612.
[65] Ibid.

argyhoeddedig yr achubai Duw eneidiau trwy ei weinidogaeth, a dyna a ddigwyddodd bron bob tro. Ond collodd yr argyhoeddiad hwnnw, ac o'i golli diflannodd y dylanwadau.[67]

Ymddengys felly fod Dafydd Morgan mewn peth dryswch ynghylch pam y collodd yr eneiniad. Ar un llaw credodd fod Duw yn ei atal, ac ar y llaw arall credodd mai ei ddiffyg ffydd ei hun oedd yn ei atal. Gellid gosod yr eglurhad cyntaf oddi fewn i'r dehongliad Calfinaidd o ddiwygiad: y Duw sofran sy'n eneinio'r pregethwr ac yn anfon diwygiad i'w eglwys, a thrwy'r un sofraniaeth y gall gymryd y ddawn yn ei hôl. Ond dehongliad diwygiadol yw'r ail eglurhad: sicrheir adfywiad trwy weithgarwch dyn yn ymarfer y moddion pwrpasol, a chlywir pwyslais Finney ar bwysigrwydd gweddi ffydd ac argyhoeddiad y gweinidog yn atsain yng ngeiriau Morgan. I ba raddau y mae'r dryswch hwn yn arwydd o densiwn ym meddwl Morgan ei hun ynghylch y moddion diwygiadol? Nid diwinydd ydoedd wedi'r cwbl, ac o bosibl nad o argyhoeddiad diwinyddol y derbyniodd y system newydd, ond ei fod wedi eu defnyddio - a hynny gyda chryn sêl - yn unig am eu bod yn llwyddo'n ymarferol.

Parhau yn y weinidogaeth a wnaeth Dafydd Morgan ar ôl y diwygiad ac yn 1868 cafodd alwad gan eglwys Ysbyty Ystwyth i'w bugeilio'n llawn amser. Dyma ei ofal bugeiliol cyntaf ac olaf. Bu ar ambell daith bregethu hefyd. Ond ar y cyfan tawel oedd ei yrfa ar ôl blwyddyn fawr 1859. Bu'n ymhél â gwleidyddiaeth a chafodd ei ddal mewn ambell i storm nad yw ei gofiannydd yn rhoi ond ychydig fanylion amdanynt.[68] Bu farw fore Sadwrn

---

[66] Ibid. t.613.
[67] Ibid. t.619.
[68] Ibid. t618-20.

27 Hydref 1883.[69] Bu'n uchel ei barch hyd ddiwedd ei fywyd, ac enwyd y diwygiad ar ei ôl.

Llawer mwy dramatig oedd diwedd gyrfa ddiwygiadol Humphrey Jones. Ar y trydydd Sul ym mis Rhagfyr 1858 cychwynnodd ymgyrch gyda Wesleaid Aberystwyth. Hyd at y cyfnod hwn dilyn un patrwm neilltuol a wnaeth Jones, sef cynnal cyfarfodydd pregethu diwygiadol a thynnu'r rhwyd ar ddiwedd pob oedfa. Fodd bynnag, newidiodd y cynllun hwn yn Aberystwyth a chynhaliodd gyfarfodydd gweddi yn unig. Credai fod eglwys Queen Street mewn 'trwmgwsg' a bod angen ei deffro cyn gwneud dim byd arall.[70] Roedd angen gweddïo y byddai'n derbyn mesur llawnach o'r Ysbryd Glân. Dilynodd y cynllun hwn am oddeutu chwe mis heb bregethu unwaith. Roedd Jones yn argyhoeddedig nad oedd yr eglwys yn barod i dderbyn dychweledigion am nad oedd yn addas i ofalu amdanynt. Ac yn wir oeri fu hanes cyflwr ysbrydol yr eglwys dros y misoedd hyn a hynny oherwydd patrwm gwaith y diwygiwr.[71]

Ym mis Mehefin 1859 gwnaeth Humphrey Jones ddatganiad hynod ddramatig: roedd yn derbyn datguddiadau gan Dduw, meddai, ynghylch bywyd Cymru, Prydain ac Ewrop. Cyrhaeddodd y datguddiadau hyn uchafbwynt wrth iddo gyhoeddi fod y milflwydd ar wawrio, ac y byddai'r Ysbryd Glân yn disgyn am un ar ddeg o'r gloch ar ddiwrnod penodedig. Ar y dyddiad hwnnw llanwyd capel Queen Street i'r ymylon ac ar yr awr disgynnodd Jones ar ei liniau gan waeddi, 'Mae E'n dyfod'. Gan na ddigwyddodd dim byd, enciliodd y diwygiwr yn llwyr o lygaid y cyhoedd a phrin iawn fu ei gyfraniad i'r weinidogaeth Gristnogol yng Nghymru wedi hynny. Yn 1869 treuliodd ddeg mis yn ysbyty'r meddwl yng Nghaerfyrddin,

---

[69] Ibid, t.623.
[70] E.Isaac, *Humphrey Jones,* t.60.

ac er ei fod wedi gwella ychydig, cafodd fwy o driniaeth seiciatrig yn America ymhen rhai blynyddoedd, gan dreulio dros bum mlynedd mewn ysbyty yn Winnebago. Ar ôl y cyfnod hwn cryfhaodd ei iechyd yn sylweddol a bu'n gweinidogaethu ymhlith y Cymry mewn sawl cylch yn America.[72] Bu farw ar 8 Mai 1895.

Mae'n amlwg mai torri a wnaeth iechyd meddwl Humphrey Jones, ac er y gellid dyfalu bod iselder yn rhan o'r afiechyd, nid lle'r traethawd hwn yw olrhain y rhan yma o'i hanes na'i esbonio. Fodd bynnag, awgrymir fod y ffeithiau a ganlyn wedi cyfrannu at ei ddryswch. Yn gyntaf, daeth y bartneriaeth glós rhyngddo ef a Dafydd Morgan i ben cyn i Jones gychwyn ei ymgyrch yn Aberystwyth. Nid oes tystiolaeth ar gael sydd yn egluro'r gwahanu hwn, ond gadawyd Humphrey Jones ar ei ben ei hun fel diwygiwr yn y dref. Yn ail, trosglwyddwyd yr awenau eglwysig yng nghapel Queen Street yn llwyr i'w ddwylo gan weinidog yr eglwys, sef William Rowlands (Gwilym Llŷn).[73] Yn drydydd, oherwydd llwyddiant ysgubol Jones ers haf 1858, roedd pobl yn fwy na pharod i dderbyn yn ddigwestiwn bob syniad o'i eiddo. Golygodd y ffeithiau uchod nad oedd gan Jones neb i droi ato er mwyn derbyn cyngor cyn gwneud penderfyniad. Yn bedwerydd, daeth i Gymru efo'r bwriad o gychwyn diwygiad. Roedd ei ddisgwyliadau yn uchel ac ni leihawyd dim arnynt wrth brofi llwyddiant yn ystod haf a hydref 1858. Cafodd siom enfawr yn Aberystwyth. Yn bumed, daeth o dan ddylanwad syniadau miflwyddol yn America, syniadau, fel y gwelsom, a gysylltid yn agos â'r diwygiad a brofwyd yno yn 1857. Roedd rhai o'r arweinwyr yno yn disgwyl i'r adfywiad Americanaidd arwain at y milflwyddiant, ac ymddengys fod Jones yn rhannu'r gred. Ac yn olaf, rhaid cofio fod diwygiadaeth

[71] Ibid. t.61.
[72] Am y cyfnod hwn gw. E.Isaac, *Humphrey Jones*, tt.88-90.

Finneyaidd yn rhoi pwyslais mawr ar swyddogaeth yr arweinydd oddi fewn i'r ymdrech i sicrhau diwygiad. Hawdd credu y byddai Hmphrey Jones yn ei feio'i hun wrth iddo fethu â chreu'r adfywiad yr oedd am ei weld yn y dref. Aeth y technegau a'r ddiwinyddiaeth oedd yn gysylltiedig â hwy yn boen i'r diwygiwr, a thorrodd ei iechyd meddwl yn llwyr.

[73] Ibid. t.59.

Pennod 7.

## Diwygiad Richard Owen a pharhad y traddodiad diwygiadol.

Er mwyn canfod ai ffenomen dros dro ydoedd diwygiadaeth yng Nghymru ynteu a ydoedd yn rhywbeth hir dymor ei barhad astudir yr adfywiad mawr nesaf i gyffwrdd â Chymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef 'Diwygiad Richard Owen'. Rhwng 1882 ac 1885 teithiodd Richard Owen o Fôn o amgylch rhannau helaeth o ogledd Cymru yn cynnal cyfres o gyfarfodydd diwygiadol ac ymddengys iddo brofi cryn lwyddiant. Bwriad y bennod hon yw cymryd cipolwg ar yr adfywiad hwn a sylwi ar y dylanwad a gafodd y technegau Finneyaidd arno. Ceisiwn ddangos nad dylanwad dros dro yn unig a gafodd diwygiadaeth ar eglwysi ymneilltuol Cymru, ond bod y dylanwad hwnnw wedi gwreiddio yn bur ddwfn. Wrth i ddiwygiadaeth ddatblygu ac addasu yn nwylo diwygwyr proffesiynol megis D.L.Moody, gwelwn ddatblygiadau tebyg yng Nghymru hefyd. Cychwynwn yr astudiaeth trwy sylwi ar ddiwygiadaeth Moody a'r modd y cafodd ei ymgyrch genhadol yn yr Alban a Lloegr sylw yng Nghymru. Yn ail, byddwn yn cymryd cipolwg fer ar rai o'r diwygwyr eraill a deithiai Cymru yn y cyfnod. Ac yn olaf astudiwn fywyd a gwaith Richard Owen ei hun.

### *i. Cenhadaeth D.L.Moody.*

Ganed Dwight Lyman Moody yr ieuengaf o dri ar ddeg o blant i Edwin a Betsy Moody ar fferm fechan yn Lloegr Newydd. Pan fu farw Edwin yn ŵr ieuanc daeth Dwight dan ddylanwad ei ewythr a oedd yn weinidog gyda'r Undodiaid, a chafodd ei fedyddio pan oedd yn bum mlwydd oed. Yr oedd yn ddwy ar bymtheg cyn iddo ddod i gyffyrddiad â Christnogaeth uniongred, a hynny dan

ddylanwad ewythr arall iddo yn Boston. Oddeutu 1855 aeth Moody trwy brofiad ysbrydol dwys a chafodd dröedigaeth efengylaidd. Cafodd gryn lwyddiant fel athro ysgol Sul ac yn 1861 daeth yn genhadwr gyda'r Y.M.C.A. Fel llywydd y mudiad yn Chicago y cynhaliodd ei ymgyrch ddiwygiadol gyntaf a hynny yn Philadelphia. O'r adeg hon ymlaen tyfodd ei ddylanwad fel diwygiwr a chafodd peth llwyddiant. Ni ellid dweud fod ei enw yn adnabyddus ym Mhrydain cyn iddo lanio yn Lerpwl ym Mehefin 1873. Fodd bynnag, erbyn Hydref 1875, ac yntau wedi cynnal ymgyrchoedd hynod lwyddiannus yn rhai o ddinasoedd mawr Lloegr, yr Alban, ac Iwerddon, roedd iddo enw fel efengylydd a diwygiwr hynod effeithiol.[1]

Mewn astudiaeth o'i genhadaeth yn Lloegr mynnodd John Kent mai Calfin ydoedd Dwight Moody.[2] Os mai Calfin ydoedd yna roedd yn un isel rhyfeddol. Fel y dangosodd Kent rhoddodd Moody bwyslais mawr ar ewyllys rydd dyn a'i allu i blygu'r ewyllys honno a bod yn ufudd i Dduw er mwyn bod yn gadwedig. Gorffennai bob pregeth trwy roi dewis i'w wrandawyr annychweledig: roeddent i dderbyn ei genadwri ac ildio i Dduw neu roeddent i wrthod y neges ac felly osod eu bywyd mewn perygl o gosbedigaeth dragwyddol. Wrth osod y dewis o flaen ei gynulleidfa fel hyn dangosodd Moody ei fod yn credu fod y pechadur yn gallu ymateb ac yn gallu gwneud y dewis hwnnw drosto'i hun. Roedd hyn yn bell o fod yn Galfiniaeth draddodiadol. Un o'i feirniaid oedd J.K.Popham, gweinidog efo'r Bedyddwyr Neilltuol yn Stryd Shaw, Lerpwl, ac uchel-Galfin. Yn amlwg nid oedd Popham yn hoff o'r pwyslais ar ewyllys rydd nac ar allu naturiol pechadur i ddewis achubiaeth. Iddo ef Duw yn unig sy'n achub ac yn cadw pechadur. Nid oedd

[1] Am Moody gw. L.W.Dasset, *A Passion for Souls: the life of D.L.Moody*, (Chicago, 1997); J.F.Findlay, *Dwight L.Moody: American evangelist 1837-1899*, (Chicago, 1969).
[2] John Kent, *Holding the Fort: Studies in Victorian Revivalism* (London, 1978), t.136.

Moody'n deall hyn, meddai Popham, a dyna pam y gallai bryderu y byddai nifer o'r pum mil a ymatebodd i'r apêl yn Birmingham yn troi cefn ac yn colli eu ffydd newydd.[3] I uchel-Galfin fel Popham, ac i'r Calfiniaid cymedrol hefyd, nid oedd posibl i hynny ddigwydd gan fod Duw yn gofalu am barhad y saint mewn gras a hynny yn ddiamodol. Gan fod ei ddiwinyddiaeth mor ddiffygiol i Popham, nid rhyfedd ei weld yn ymosod ar ei ddulliau diwygiadol yn ogystal. Dyma ei farn am dechnegau Moody:

> Assuming that it is in the will of God that every creature should be saved, which is not true, men have made the conversion of sinners an art, and have resorted to all sorts of unscriptural methods to compass their ends. Sadly forgetful of him who said, I kill and make alive, they are madly bold in their efforts to wrest God's special work out of his hands. We have the new doctrine of regeneration by faith, singing theology, sudden conversions, the inquiry room, sensational advertisments, ... etc.[4]

Beirniadwyd Moody hefyd ar ei ddiffyg pwyslais ar edifeirwch. Dadleuodd Kent nad oedd ganddo ddiddordeb mewn edifeirwch ac mai'r hyn oedd yn bwysig iddo oedd yr angen i blygu ewyllys a bod yn ufudd i Dduw. Symleiddiodd y penderfyniad oedd ei angen gan y pechadur i droi at Dduw, ac aeth tröedigaeth yn rhywbeth niwlog ganddo gan wahodd pobl i 'ddod at Grist' neu i 'ddod i mewn i'r Deyrnas'.[5]

Er ei fod yn bregethwr hynod effeithiol, nid pregethau o sylwedd diwinyddol oeddent. Yn hytrach, straeon am eraill yn derbyn neu wrthod yr efengyl oeddent gydag apeliadau syml at galon ac emosiwn y gwrandawyr. Teitl un stori a ddefnyddiodd oedd, 'The man who lost his dog and found his saviour'.[6] Craidd y stori oedd bod rhywun wedi troi i mewn i un o gyfarfodydd Moody mewn cryn bryder meddwl oherwydd ei fod wedi colli ei gi anwes, ond

---

[3] Ibid. t.180.
[4] Ibid. t.182.
[5] Ibid. t.180.
[6] Ibid. t.143.

yn lle dod o hyd i'w gi, dod o hyd i'w waredwr a wnaeth. I rai, yn enwedig yr Anglicaniaid, roedd rhai o'r straeon hyn yn amrwd. Heb amheuaeth roedd y dull hwn o bregethu yn bell o ymdebygu i bregethu sylweddol yr hen dadau Calfinaidd. Ond ymddengys ei fod yn llwyddo gan fod tyrfaoedd yn mynd i wrando Moody ac yn ymateb i'w apêl. Awgrymodd Kent mai un rheswm dros y llwyddiant oedd pwyslais Moody ar uffern ac ar y gosb dragwyddol a oedd yn disgwyl yr anedifeiriol. Roedd codi ofn ar ei gynulleidfa yn rhan o'i dechneg yn ogystal â phwysleisio breuder bywyd a'r angen i ymateb i'r efengyl ar yr achlysur hwnnw.

Roedd cydweithiwr Moody, Ira Sankey, hefyd yn rhannu yn llwyddiant y gwaith. Ef fyddai'n 'canu'r efengyl' (*singing the gospel*) ar ddiwedd apêl Moody, a hynny'n creu awyrgylch hyfryd yn y neuadd. Disgrifiodd newyddiadurwr un amgylchiad o'r fath fel hyn:

> Concluding his sermon abruptly Mr Moody called for a moment or two of silent prayer. Presently, while all heads were bowed, the faint notes of the organ, scarcely louder than the silence, were heard, and before one could decide for certain whether it was actual music or not, Mr Sankey, in the softest pianissimo, was singing "Come home, come home" ... and at the end of each verse the well-trained choir, in little more than whispered melody, took up the refrain ... Organ, soloist and the choir in the most skilful manner, gradually increased their force of sound until the last verse poured forth in full volume. It is difficult to describe the effect the music had on the faces of the congregation who, still retaining their bowed position, were with one accord looking with transfixed eyes towards the platform.[7]

Er nad oedd cyfarfodydd Moody yn rhai neilltuol o emosiynol yn yr ystyr fod y gynulleidfa yn dangos eu teimladau yn gwbl agored, roedd y diwygiwr yn chwarae llawer ar deimlad pobl, ac enghraifft o hynny a geir yn yr adroddiad uchod.

---

[7] Dyfynnwyd yn Kent, *Holding the Fort*, t.152.

Nodwedd bwysig o dechneg Moody oedd ei ddefnydd o'r 'ystafell ymholi' *(inquiry room)*. I'r fan honno yr aethai'r rhai dan wasgfa ysbrydol wedi ymateb i apêl yr efengylydd. Yno cynghorid hwynt ar eu cyflwr ysbrydol gan ddefnyddio adnodau o'r Beibl ac yna gweddid drostynt. Beirniadwyd Moody am y dechneg hon a chyhuddwyd ef o ddod â'r gyffesgell yn ôl i mewn i fywyd yr eglwys. Fodd bynnag, fersiwn arall o'r sedd i'r rhai dan wasgfa a ddefnyddid gan Finney ydyw. Yn wir, rhaid gosod Moody a'i ddulliau yn y traddodiad diwygiadol Americanaidd. Fel Finney, diwygiwr proffesiynol ydoedd. Ac fel Finney, hefyd, cafodd ddylanwad diamheuol ar Ymneilltuwyr Cymru.

*ii. Dylanwad Moody ar Gymru.*

Rhwng Mehefin 1873 a Hydref 1875 teithiodd Moody a Sankey o amgylch rhai o ddinasoedd mawr Prydain a chynnal cyfresi o gyfarfodydd diwygiadol. Cafodd y genhadaeth hon sylw gan y wasg grefyddol Gymraeg ac ar y cyfan sylwebaeth hynod gadarnhaol a gaed amdani. Yn *Y Drysorfa* yn 1874, er enghraifft, cafwyd dim llai na deg ysgrif am waith Moody ym Mhrydain. Yn amlach na pheidio, cyfeirid at y genhadaeth fel 'adfywiad crefyddol'.[8] Yn amlwg, creodd hyn gryn ddiddordeb yn y ddau ymwelydd Americanaidd a buan y trowyd y sylw at gyflwr ysbrydol Cymru wrth i awdur ysgrif ar y genhadaeth yng Nghaeredin ofyn ai difaterwch y Cymry oedd yn sicrhau nad oedd awydd am ymweliad o'r Ysbryd Glân yng Nghymru.[9] Cafwyd adroddiadau manwl am y niferoedd a ymatebai i apêl Moody. I eglwysi oedd heb weld adfywiad ers 1860 roedd adroddiadau o'r fath yn siŵr o ddeffro rhyw awydd ynddynt am rywbeth tebyg yn eu gwlad eu hunain.

[8] 'Golwg ar Grefydd yn Gyffredinol', yn *Y Drysorfa*, 28 (1874), t.24.
[9] 'Yr adfywiad crefyddol yn Scotland a Lloegr', yn *Y Drysorfa*, 28 (1874), t.151.

Ym mis Chwefror 1875 cafwyd ysgrif yn ceisio amlinellu'r gwersi y gellid eu dysgu oddi wrth waith Moody. Roedd chwech ohonynt: yn gyntaf nid oedd gwastraffu amser yn yr oedfaon. Parhâi oedfa am awr a dim mwy. Hawdd oedd cadw at hynny, wrth gwrs, a Moody ei hun yn pregethu am ddim mwy nag ugain munud. Yn ail, roedd y Beibl yn ganolog i'r cwbl ac mewn sylw sy'n dadlennu un o bryderon Cristnogion y cyfnod, adroddodd y gohebydd nad oedd unrhyw feirniadaeth o'r Beibl na'i gywirdeb fel gair Duw yn cael ei chyflwyno. Ffydd syml oedd hon a dim lle ynddi i gwestiynu nac amau. Yn drydydd, roedd undeb enwadol yn bwysig. Deuai pawb o bob enwad Cristnogol at ei gilydd i gefnogi menter Moody. Fodd bynnag, dangosodd John Kent nad dyma'r gwir plaen. Methodd Moody ag apelio at y blaid Uchel Eglwysig ymhlith Eglwys Loegr, ac roedd ganddo gefnogwyr hynod sectyddol a oedd yn daer o blaid datgysylltu Eglwys Loegr oddi wrth y wladwriaeth. Yn bedwerydd, roedd emynau atyniadol Sankey yn hynod bwysig. Yn bumed, canolbwyntiodd Moody yn llwyr ar y gwaith. Nid oedd amser i'w wastraffu na chyfle i grwydro oddi wrth brif nod y genhadaeth, sef achub eneidiau. Ac yn olaf, roedd pwysigrwydd gweddi yn uchel iawn gan yr efengylydd. Yn wir, roedd cyfarfodydd gweddi yn rhan annatod o'r ymgyrch. Nid yn unig yr oedd cwrdd gweddi i'w gynnal bob prynhawn yn ystod yr ymgyrch, ond cynullai yr eglwysi at ei gilydd am o leiaf wythnos cyn i Moody gyrraedd.[10] Yn *Y Goleuad* cafwyd adroddiad am ddydd gweddi yn Lerpwl cyn i Moody ddod yno i gychwyn ar y genhadaeth yn y ddinas. Cafwyd pedair oedfa'r diwrnod hwnnw gyda rhai miloedd yn bresennol trwy'r dydd.[11]

---

[10] 'Meistri Moody a Sankey', yn *Y Traethodydd*, 29 (1875), t.307.
[11] *Y Goleuad*, 13 Chwefror 1875, t.10.

Os oedd *Y Drysorfa* yn cynnwys adroddiadau bob mis yna roedd *Y Goleuad* yn gwneud hynny bron bob wythnos. Dengys hyn gymaint yr oedd y Methodistiaid Calfinaidd wedi eu gwefreiddio gan Moody. Calfin isel neu beidio, roedd Methodistiaid Cymru yn cael gwybod ei hanes yn bur fanwl. Cafwyd adroddiadau neilltuol o fanwl am yr ymgyrch yn Lerpwl. Adroddodd 'Ab Risiart' fel yr oedd Moody yn gwasgu'n 'ddwys a difrifol arnynt oll dderbyn Crist'. Wedi i dros ddeg ar hugain ymateb 'gweddïwyd yn daer ar eu rhan' ac aethant i 'ystafell yr ymofynwyr' pryd y siaradodd Moody â hwy unwaith yn rhagor.[12] Roedd technegau Moody yn amlwg i bawb felly, ac er bod 'Ab Risiart' yn gadarnhaol ar y cyfan roedd ganddo un pryder. Meddai, 'Er nad ydym yn cydweled yn hollol ar eu gwaith yn gwasgu ar yr ymofynwyr i broffesu ar unwaith eu bod wedi eu dychwelyd a chredu yng Nghrist, ac yn gwasgu yn lled galed arnynt oni wnânt hynny'.[13] Yn amlwg, nid oedd y Galfiniaeth draddodiadol wedi diflannu o'r tir yn llwyr. Ddiwedd Mawrth 1875, fodd bynnag, cafodd ymgyrch Moody, ei ddulliau a'i dechnegau, y gefnogaeth orau bosibl yng Nghymru pryd y cefnogodd Dr Lewis Edwards y gwaith mewn anerchiad i Fethodistiaid Sir Feirionydd. Meddai, 'Mae yn eglur fod yr Arglwydd gyda hwynt'.[14] Yr oedd pennaeth Coleg y Bala yn un o arweinwyr mwyaf dylanwadol yr enwad, a phetai angel o'r nef wedi cynnig tystlythyr i'r efengylydd o America prin y byddai wedi cael gwell derbyniad na geiriau Edwards. Dyma gadarnhad fod Moody yn dderbyniol i Galfiniaid Cymru. Roedd ei ddulliau dan wenau'r nef, a'r ddiwinyddiaeth anghalfinaidd oedd yn sail iddynt yn cael croeso twymgalon. Dengys hyn i ba raddau yr oedd y

[12] *Y Goleuad*, 20 Chwefror 1875, t.13.
[13] *Y Goleuad*, 6 Mawrth 1875, t.12.
[14] *Y Goleuad*, 20 Mawrth 1875, t.7.

System Newydd wedi gwreiddio yn naear ymneilltuol Cymru. Nid dros dro yr oedd y cymedroli ar Galfiniaeth i barhau, ond rhywbeth oedd i aros.

Yr oedd y cyfarfodydd hynny yn Neuadd Victoria, Lerpwl, i gael dylanwad mwy uniongyrchol ar Gymru nag adroddiadau yn y wasg yn unig, oherwydd teithiodd nifer o weinidogion Ynys Môn i'r ddinas yn bwrpasol er mwyn gwrando ar Moody. Prin iawn yw'r manylion am y daith honno ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw gofnod manwl amdani. Tebygol mai gweinidogion y Methodistiaid Calfinaidd yn unig, a Richard Owen yn eu plith, a fu yno. Yn sicr, un o ffigyrau amlwg yr enwad ar yr Ynys a dalodd y gost drostynt, sef Ann Davies, priod Richard Davies, masnachwr cefnog, aelod seneddol y sir, a blaenor gyda'r Methodistiaid. Roedd Mrs. Davies yn noddwr hael i weithgarwch Cristnogol a chymdeithasol yr Ynys. Yr oedd hi hefyd yn ferch i Henry Rees, Lerpwl, un arall o arweinyddion dylanwadol yr enwad yn genedlaethol cyn ei farw yn 1869. Yn ei farwnad iddi dywedodd ei gweinidog Thomas Charles Williams, 'at the time of the marriage it was often jokingly said to Mrs. Davies that in the Welsh Free Church world she was the Archbishop's daughter and the Archdeacon's wife'.[15] Nid mater bach, felly, oedd iddi gefnogi ymgyrch Moody mewn ffordd mor gyhoeddus, ac os oedd yr enwad angen mwy o gymeradwyaeth i'r dulliau diwygiadol gan yr hierarchi Methodistaidd, dyma fo.

Er na wyddom i sicrwydd pwy i gyd deithiodd i Lerpwl, bu'r dylanwad arnynt yn fawr. Mewn cofnod o Gyfarfod Misol Môn ym Mawrth 1875 dywedwyd:

---

[15] Thomas Charles Williams, *In Memoriam: Mrs. Richard Davies of Treborth* (dim man cyhoeddi, 1918), t.6.

> Cafwyd adroddiad gan amryw frodyr a fu yn Lerpwl, o'r Cyfarfodydd yn y Victoria Hall, y rhai a gynhaliwyd gan Meistri Moody a Sankey ...Tystiai amryw eu bod wedi cael adnewyddiad i'w hysbrydoedd yn y cyfarfodydd rhyfedd hyn, a bod yr olygfa yn yr *inquiry-room* yn hynod effeithiol. Gweld pechaduriaid caled, o bob gradd, ac oedran, wedi eu toddi fel y cwyr, yn "wylo dagrau o edifeirwch pur" yr oedd yn ofnadwy. Nis gellid byth ei anghofio.[16]

Gyda chymeradwyaeth prif arweinwyr yr enwad yn atseinio yn eu clyw ac wrth weld llwyddiant ymarferol Moody roedd y ffordd bellach yn rhydd i'r dulliau gael eu hymarfer yng Nghymru.

*iii. Cenhadon y cyfnod.*

Er mai ag enw Richard Owen y cysylltir yr adfywiad a gyffyrddodd Cymru yn y cyfnod hwn, a phriodol yw hynny, nid ef oedd yr unig un i ddefnyddio technegau diwygiadol i geisio deffroi'r eglwysi. Rhwng 1882 ac 1885 y bu Owen wrth ei waith mawr, ond roedd mân adfywiadau'n cyffwrdd eglwysi Cymru yma ac acw rai blynyddoedd cyn hynny. Cafwyd y cynharaf o'r rhai hyn yn ystod mis Chwefror 1875 a hynny dan arweiniad Hugh Hughes, gweinidog Wesleaidd.[17] Ceir adroddiad byr o gyfres o gyfarfodydd pregethu yn parhau am wythnos yn eglwys y Wesleaid yn Aberffraw, Ynys Môn. Ymatebodd pum deg a phump i'r apêl.[18] Arweiniodd Hughes gyfarfodydd tebyg yn yr eglwys Wesleaidd yng Nghaergybi ym mis Mawrth hefyd. Ni cheir nifer unrhyw ddychweledigion yno ond cadarnheir dylanwad Moody gan newyddiadurwr wrth ddweud, 'The meetings held at the Wesleyan chapel were announced by fly-leaves drawn out with a smack of "Moody-ism"'.[19] Mae'n eithaf posibl mai

---

[16] *Yr Herald Cymraeg*, 12 Mawrth 1875, t.5.
[17] Am Hughes gw. R.Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristnogaeth a Diwylliant yng Nghymru, Cyfrol 1* (Abertawe, 1981), t.116.
[18] *Yr Herald Cymraeg*, 26 Chwefror a 5 Mawrth 1875.
[19] *North Wales Chronicle*, 20 Mawrth 1875, t.3.

at yr un Hugh Hughes y cyfeirir yn *Y Drysorfa* ym Mai 1882 mewn adroddiad ar adfywiad yng nghyffiniau Caernarfon. Cynhaliodd Hughes gyfarfodydd diwygiadol efo'r Wesleaid yn y dref ym mis Ionawr a Chwefror. Fodd bynnag, cynyddodd y gynulleidfa gymaint yn ystod y pythefnos cyntaf nes y bu'n rhaid symud i'r pafiliwn. Rhoir un manylyn diddorol yn yr adroddiad am ddull Hughes: arferai ddiweddu pob pregeth trwy ganu unawd. Tybed nad oedd yntau wedi bod yn gwrando Moody a Sankey yn Lerpwl? Credai'r gohebydd fod a wnelo'r 'newydd-deb dull oedd yn nodweddu y moddion' rhywbeth â llwyddiant y cyfarfodydd.[20] Enillwyd niferoedd da at eglwysi'r cylch trwy weinidogaeth Hughes yn ystod y misoedd hynny.

Rhaid cyfeirio at arweinwyr eraill, yn ogystal, oedd yn cynnal cyfarfodydd diwygiadol tebyg. Ym Môn, ynghyd â Richard Owen, roedd tri arall o weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd yn teithio o amgylch yr eglwysi fel hyn: Thomas Jones, James Donne (1822-1908), a John Richard Hughes (1828-1893). Ychydig iawn o fanylion a geir am Jones. Lleygwr ydoedd wrth i'r gwaith hwn gychwyn yn y 1870au. Ond credir iddo gael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth yn nes ymlaen. Ganed Donne yn y Bala yn fab i feddyg. Bu'n was i siopwr am bum mlynedd yn Ffestiniog, ond yn 1840 dechreuodd bregethu ac aeth i Goleg y Bala, ac oddi yno i Goleg y Presbyteriaid yn Llundain.. Daeth i agor siop i Fôn yn 1847, ac yno y cafodd ei ordeinio yn 1851. Treuliodd ei amser yn rhedeg y siop, pregethu, a bugeilio'r eglwys yn Llangefni. Anrhydeddwyd ef efo llywyddiaeth Cymdeithasfa'r Gogledd yn 1880. Fodd bynnag, fel efengylydd y cofir John Donne a chredir iddo feddu ar ddoniau disglair yn y gwaith. Yn ystod diwygiad 1858-60 aeth ar

[20] Francis Jones, 'Yr adfywiad crefyddol yn Arfon', yn *Y Drysorfa*, 36 (1882), t.191.

daith bregethu drwy Sir Aberteifi a mab John Elias yn gyd-deithiwr ag ef. Roedd Donne ymhlith y nifer a wrandawodd Moody yn Lerpwl a 'derbyniodd ... gyfran helaeth o'i ysbryd'.[21] Dirwestwr mawr oedd John Richard Hughes. Ganed ef yn Nhrefeca ond symudodd y teulu i Aberbig ac yna Abercarn. Bu'n fyfyriwr yng ngholeg Aberhonddu ac yna cadwodd ysgol yn Llanboidy a Goginan, Ceredigion. Yno y dechreuodd bregethu. Treuliodd amser yng Ngholeg y Bala a chafodd ei ofalaeth gyntaf yn Birmingham a Bilston. Wedi treulio peth amser yng Nghemmaes, Maldwyn, daeth i Ynys Môn. Cychwynnodd yn Armenia, Caergybi, cyn symud i'r Tabernacl, Llanfair Mathafarn Eithaf.[22] Meddai ei farw-gofnod yn *Y Drysorfa* amdano,

> Er ys blynyddoedd bellach, yr oedd wedi ymgymryd a gwaith "Diwygiwr" ac Efengylydd ... Pa un bynnag a yw hynny yn ateb dyben rhagorach neu beidio, credai efe fod eisiau troi o'r ffordd gyffredin weithiau a defnyddio moddion eithriadol i ennill dynion at Grist.[23]

Mor ddadlennol ydyw'r sylw am waith diwygiwr! Roedd Hughes yntau ymhlith y rhai a fanteisiodd ar haelioni Ann Davies a bu'r profiad o wrando'r Americanwr yn sylweddol: 'Cadd Mr. Moody ddylanwad neilltuol arno. Credai'n gryf mewn cyrddau diwygiadol, ac ai'n fynych drwy dde a gogledd i'w cynnal'.[24]

Mae'n debyg mai syniad J.R.Hughes a Thomas Jones oedd ymweld â rhai o eglwysi llai'r Methodistiaid ym Môn er mwyn cynnal cyfarfodydd diwygiadol ynddynt, a gofynnwyd i Donne a Richard Owen ymuno â hwy.[25] Mae anghytundeb ynghylch lle y cychwynnwyd y gwaith - un ai yng Nghaersalem, Mynydd Bodafon, neu yn Llaingoch, Caergybi. Fodd bynnag,

[21] R.Hughes, *Enwogion Môn* (Dolgellau, 1913), t.28.
[22] Ibid. t.62-3.
[23] 'Marwolaeth y Parch. John Richard Hughes, Brynteg, Môn', yn *Y Drysorfa*, 48 (1894), t.26.
[24] Hughes, *Enwogion Môn*, t.62-3.
[25] William Pritchard, *Cofiant y Parch. Richard Owen, y Diwygiwr* (Amlwch, 1889), t.100.

mae patrwm y gwaith yn amlwg; cynnal cyfres o gyfarfodydd am wythnos gyfan ym mhob lleoliad. Roedd cyfarfodydd gweddi i'w cynnal yn y prynhawn a phregethu i fod yn yr hwyr. Er na cheir unrhyw fanylion ynghylch sut y tynnid y rhwyd ar ddiwedd oedfa, mae'n amlwg fod dylanwad cynllun Moody yn bur sylweddol a than bennawd yn dwyn y teitl 'Yr adfywiad crefyddol ym Môn' ceir y sylw hwn yn *Y Goleuad* am yr arweinwyr,

> Y mae y naill a'r llall, yn enwedig ein hannwyl frawd Mr. Donne, wedi eu harddel i raddau mawr. Cyffrowyd ysbryd Mr.Donne wrth wrando yr efengylwr Americanaidd yn Liverpool flwyddyn yn ôl. Yn fuan teimlodd y cynulleidfaoedd hynny yn ei weinidogaeth.[26]

Dychwelwyd dros 300 yng Nghaergybi yn unig, ac oddi yno teithiodd y pedwar o amgylch yr Ynys gan brofi llwyddiant mawr ym mhobman. Erbyn ail wythnos mis Mawrth roeddent wedi cyrraedd Niwbwrch. Yno roedd dau ohonynt yn cymryd at yr awenau mewn oedfa: y naill yn ei hagor, y llall yn pregethu, ac yna'r ddau yn rhoi anerchiad byr ar y diwedd cyn galw seiat. Eto ceid oedfa weddi am ddau yn y prynhawn, a gofelid gorffen erbyn tri – hyn eto'n adlewyrchu prydlondeb Moody. Dychwelwyd 62 yn Niwbwrch yr wythnos honno.[27]

Er bod llwyddiant anghyffredin wedi dilyn yr ymgyrch hon ym Môn, nid pawb oedd yn hapus efo pethau. Mewn llythyr yn *Y Goleuad* ar bwysigrwydd dysgu athrawiaeth iach a chael athrawon cymwys i'w dysgu, meddai 'Timotheus',

> Nid wyf yn teimlo awydd dweyd dim yn erbyn yr efengylwyr sydd yn gwneyd gryn sôn am danynt eu hunain mewn rhai mannau, gan ddwyn lliaws o ddynion rhyfedd i mewn i eglwys Dduw o dan gynhyrfiad y foment, a'r eglwysi eto heb eu twymo, ond yr wyf yn meddwl y buasai yn well iddynt, ac yn well i'r

[26] *Y Goleuad*, 18 Mawrth 1876, t.15.
[27] *Y Goleuad,* 25 Mawrth, 1876, t.12-3.

> achos yn y pen draw hefyd, pe cynhesent yr eglwys trwy agor eu llygaid ar wirioneddau ac athrawiaethau mawr y Beibl i ddechrau cyn y cynhyrfient.[28]

Yn amlwg, nid oedd cynnwys pregethu y diwygwyr yn mynd â bryd 'Timotheus'. Roeddent yn dlawd o athrawiaeth i'w fryd ef, os nad yn gyfeiliornus. Mae'n amlwg hefyd nad oedd yr arfer o apelio am ymateb unionsyth i'r efengyl yn ei blesio. Yn y feirniadaeth hon gwelwn mai cynllun Moody oedd ar waith. Ym mhen pythefnos daeth ateb gan 'Caradog'. Roedd yntau unwaith yn feirniadol, meddai, ond wedi bod yn eu gwrando newidiodd ei feddwl a chymeradwyodd y gwaith.[29] Parhaodd yr ymgyrch honno am oddeutu blwyddyn ac ymledodd rhyw gymaint ym mhellach na'r ynys wrth i rai ohonynt deithio i'r de i ymgyrchu. Fodd bynnag, rhaid oedd disgwyl hyd 1882 cyn i Richard Owen ymgymryd â'i waith mawr.

*iv. Gyrfa Richard Owen.*

Ganed Richard Owen yn ffermdy Ystum-Werddon, ym mhlwyf Llangristiolus, Ynys Môn, i John a Mary Owen. Ef oedd y pedwerydd o saith o blant. Er bod y tad yn grediniwr cadarn, y fam sy'n cael clod Richard am ddysgu crefydd iddo ef a'r plant eraill pan oedd yn ieuanc. Gwraig yn llawn angerdd ffydd ydoedd a gallai dorri allan i orfoleddu ganol nos. Cafodd Richard ei brofiad ysbrydol cyntaf pan oedd yn dair oed, ac ni chofiai amser pan nad ydoedd yn credu. Fel ei fam gallai Richard hefyd deimlo angerdd crefydd a dywedodd amdano'i hun na allai ddal ar brydiau rhag gwaeddi 'diolch' mewn oedfa.[30] Meddai,

> Byddwn yn synnu wrth glywed ambell un yn dywedyd mai pethau wedi myned heibio oedd gwaeddi a gorfoleddu, ac na fyddai y fath beth yn bod wedi i'r bobl ddyfod yn fwy goleuedig.

[28] *Y Goleuad*, 20 Mehefin 1876, t.5.
[29] *Y Goleuad*, 3 Mehefin 1876, t.5.
[30] Pritchard, *Cofiant Richard Owen*, t.21.

> Nid oeddwn yn hoffi y syniad mewn un modd, ac amheuwn ei gywirdeb, gan nas gallwn ddygymod a'r syniad i hyny gael ei golli yn llwyr ... Byddwn yn teimlo yn y bregeth yn aml nes wylo, a da fuasai gennyf allu peidio, gan nad oeddwn uwchlaw cywilyddio am hyny.[31]

Sylw dadlennol ydyw hwn. Dengys i ba raddau yr oedd parchusrwydd oes Victoria wedi llithro i mewn hyd yn oed i fywyd eglwysi diarffordd cefn gwlad. Hefyd mae'n darlunio cyflwr oeraidd crefydd ysbrydol yr eglwysi.

Derbyniwyd Richard Owen yn gyflawn aelod yn eglwys Fethodistaidd Llangristiolus pan ydoedd yn ddeg oed. Yr oedd hynny yn gryn gamp oherwydd yr arfer oedd disgwyl nes oedd yr ymgeisydd oddeutu pedair ar ddeg. Er mwyn cael ei dderbyn dysgodd Richard ychydig am ddysgeidiaeth ei enwad ar Swper yr Arglwydd, yn ogystal â dysgu'r Gyffes Ffydd a *Hyfforddwr* Charles. O fewn blwyddyn i gael ei dderbyn daeth profedigaeth enbyd i fywyd y teulu pan fu farw'r tad. Gorfu i Richard adael ysgol Henblas er mwyn cynorthwyo William, ei frawd hŷn, ar y fferm. Ond ymhen blwyddyn arall bu farw William hefyd, gan adael Richard y mab hynaf yn y teulu. Ef bellach fyddai'n gyfrifol am arwain y ddyletswydd deuluaidd. Pan oedd yn bymtheg oed daeth yn athro ysgol Sul yng nghapel Cana, a than arweiniad Owen Jones, un o flaenoriaid yr eglwys, dechreuodd gynnig ambell i sylw ar adnodau wrth agor yr ysgol. O'r fan honno y dechreuodd bregethu. Tybir fod yr awydd i bregethu ynddo er pan oedd yn ieuanc, ac roedd ganddo arwyr i'w hefelychu. Y mwyaf o'r rhai hyn oedd John Jones, Talysarn. Nodwedd amlycaf Jones oedd ei bregethu apeliadol, ymarferol,[32] ac os mai'r dull hwnnw oedd yn apelio yna gallwn roi Owen oddi fewn i'r blaid Galfinaidd gymedrol yn syth.

---

[31] Ibid. t.21 a 34.

[32] Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, mewn cysylltiad a hanes duwinyddiaeth a phregethu Cymru* (Wrecsam, 1874), passim.

Yn ystod blwyddyn fawr diwygiad 1859 daeth Dafydd Morgan i bregethu i Langristiolus, a chafodd Owen ei fendithio'n fawr. Meddai ei gofiannydd, 'Dyfnhawyd ei argyhoeddiadau fel ag i'w gwneyd yn alluoedd parhaus yn ei fywyd. Ennynwyd tân ynddo'.[33] Cynyddodd yr awydd i bregethu. Fodd bynnag, amharod oedd y cyfarfod misol i roi'r hawl iddo bregethu y tu allan i'w gylch ei hun hyd nes iddo dderbyn mwy o addysg, ac yn 1860 penderfynwyd cyfrannu ychydig at iddo fynd i'r ysgol yn Llangefni. Wedi bod yno flwyddyn rhoddwyd hawl iddo bregethu mewn tair taith sabothol, sef Llangristiolus, Llangefni, a Thalwrn.

Cawn gipolwg arall ar ddaliadau diwinyddol Richard Owen wrth sylwi ar ei ateb i gwestiynau James Donne wrth iddo geisio caniatâd y cyfarfod misol i fod yn bregethwr yn y sir drwyddi draw. Gofynnwyd iddo a ydoedd yn Galfin da. Wedi ateb yn gadarnhaol gofynnwyd pa fath o Galfin ydoedd, ai un uchel ynteu isel. 'Calfin tebyg i chi, Mr. Donne,' oedd yr ateb![34] Gan fod Donne mor barod i gefnogi'r dulliau diwygiadol rhaid cymryd yn ganiataol mai isel oedd ei Galfiniaeth ac ni ellid credu'n ddim gwahanol am Richard Owen. Rhaid tanlinellu, fodd bynnag, nad ydoedd Owen yn ddiwinydd o fath yn y byd. Prin oedd manteision ei addysg ar y cyfan, a hyd yn oed pan gafodd ei mantais, yr oedd galwadau'r fferm a gofal y teulu yn gallu bod yn rhwystr. Treuliodd flwyddyn a hanner yng Ngholeg y Bala ond yr un oedd yr hanes yn y fan honno hefyd.

Wedi priodi yn 1867 symudodd i Bentraeth i fyw ac yno y cadwodd siop Penrhos House. Ond yr oedd galwad y weinidogaeth lawn amser yn ormod iddo a symudodd i Lundain o bobman a derbyn galwad gan eglwys Holloway.

---

[33] Ibid. t.45.
[34] Ibid. t.55.

Ni fu yno'n hir cyn dychwelyd i Fôn ac yn ôl i'w gynefin yn Llangristiolus. Symudodd unwaith yn rhagor a chyrraedd fferm Pensychnant, ger Penmaenmawr, ac oddi yno y teithiodd o amgylch y gogledd fel diwygiwr. Er na cheir rhyw lawer o'i hanes rhwng 1876 ac 1882 tybir iddo barhâu i bregethu ac o bosibl i gynnal cyfarfodydd diwygiadol hefyd. Mae'n debyg mai prin oedd ei lwyddiant i sicrhau dychweledigion yn y cyfnod hwn oherwydd ni cheir adroddiadau am hynny, a chan fod y wasg grefyddol mor barod i adrodd hanesion am dwf eglwysig yna mae'n deg casglu na fu rhyw lawer ohono. Ac yr oedd y diffyg llwyddiant hwn yn bryder i Owen: 'Byddai ar adegau yn dra isel ei feddwl, ac mewn pryder mawr o blegid aneffeithiolrwydd ei bregethu i ddwyn eneidiau at Grist'.[35] Wrth gwrs yr oedd y pryder hwnnw bron yn sicr o godi mewn dyn oedd yn credu bod posibl perswadio pechaduriaid i droi at grefydd. Roedd y ddiwinyddiaeth oedd yn sail i'w waith yn ei hysbysu y byddai ymarfer moddion neilltuol a phregethu effeithiol yn sicr o arwain at ganlyniadau llwyddiannus. Byddai profi methiant i ddyn felly yn gryn ergyd, fel ag yr oedd i Humphrey Jones yn Aberystwyth.

Er bod Richard Owen yn un o'r rhai a aeth i Lerpwl i wrando Moody ac er ei fod wedi cael ei effeithio ganddo, nid oedd yn gwbl grediniol mai cynllun Moody oedd orau i Gymru. Wedi'r cwbl roedd cymunedau cefn gwlad Cymru yn bur wahanol i ddinasoedd mawr yr Alban a Lloegr. Y mae ei gofiannydd yn rhoi'r clod i Owen am feddwl am y problemau hyn[36] ond gan fod cynifer wedi amau ei allu academaidd efallai bod William Pritchard yn rhy hael ag ef. Fodd bynnag, byddai'n deg casglu fod y pedwar a gychwynnodd gyfarfodydd diwygiadol ym Môn, ac Owen yn un ohonynt, wedi trin a thrafod gwahanol

[35] Ibid. t.106.
[36] Ibid. t.112.

ddulliau ac mai dyma'r casgliad y daethant iddo. Er eu bod yn gweld trafferthion defnyddio dulliau Moody yn llwyr, cytunasant fod dull Dafydd Morgan yn gweddu i'r dim, sef y bregeth ddwbl ac yna galw seiat ar ôl. Dyma'r cynllun felly a fu'n batrwm i waith Owen a'i gyfeillion, cynllun a ddisgynnai oddi fewn i draddodiad diwygiadol America ac a ddaeth yn rhan o draddodiad newydd Cymru. Newidiodd Owen ychydig arno, sef peidio â chanu emyn cyn y seiat. Hynny yw, ar ôl galw seiat yr arfer oedd canu emyn a thrwy hynny roi cyfle ychwanegol i'r rhai oedd am adael y cyfarfod i wneud hynny. Ni cheir eglurhad pam y dilynodd y patrwm hwn ac anodd yw peidio â chytuno a'i feirniaid pan ddywedasant iddo roi gormod o le i deimladrwydd yn y rhan honno o'r oedfa. Wrth gyrraedd nodyn pur uchel yn yr apêl dadl y beirniaid oedd y dylai fod wedi rhoi cyfle i deimladau pobl oeri ychydig cyn iddynt benderfynu aros neu adael. Roedd canu emyn yn rhoi'r cyfle hwn iddynt. Ond o hepgor yr emyn sicrheid fod y teimladau yn parhau yn uchel, ac ofnid fod drws aelodaeth yn rhy llydan agored a bod perygl i bobl heb eu gwir ddychwelyd ymuno â'r eglwys. I Richard Owen roedd penderfynu'n unionsyth i ymateb i alwad yr efengyl nid yn unig yn bosibl ond hefyd yn bwysig:

> Disgwyliai weled effeithiau uniongyrchol, a phechaduriaid yn cael eu hachub yn y fan. Ystyriai ei wrandawyr annychweledig, pan yn yr odfa, mewn argyfwng - bywyd ac marwolaeth yn cael eu gosod o'u blaenau - ac mewn sefyllfa arswydus beryglus i ddim eu cam-dueddu a'u camgyfeirio, neu leihau argraph y gwirionedd ar eu meddyliau.[37]

Gallai oedi fod yn beryglus, felly, ac efallai mai dyma'r rheswm pam y bu hepgor ar yr emyn. Dilyn y cynllun diwygiadol i'r llythyren a wnaeth pan

---

[37] Ibid. t.116.

wnaeth hi'n amod cynnal cyfarfodydd gweddi cyn iddo ddod i ardal i bregethu. Roedd y cwrdd gweddi yn gyfle i baratoi'r gynulleidfa cyn yr ymgyrch.[38]

Gyda'r cynllun hwn wedi llwyddo cystal yn y 1870au hwyr, nid annisgwyl yw gweld Richard Owen yn profi llwyddiant tebyg yn yr '80au. Bu 1882-83 yn gyfnod o ymdrechu mawr ar ei ran yn bennaf yn Llŷn ac Eifionydd. Parhaodd â'r gwaith hyd 1885 ond yn ystod y ddwy flynedd gyntaf y cafodd ei lwyddiant mawr. Treuliodd gyfnod o bum niwrnod mewn pentrefi unigol yn cynnal cyrddau gweddi yn y prynhawn a chyrddau pregethu yn yr hwyr. Dylifai pobl i wrando arno ac ymunodd rhai cannoedd â'r eglwysi o'r newydd. Yn wir, prin iddo gael yr un oedfa bregethu heb i rywrai gael eu dychwelyd. Amcangyfrifir i 680 ymuno ag eglwysi'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llŷn ac Eifionydd yn 1882, a 784 yn 1883. Tebygol ydyw bod yr enwadau eraill wedi derbyn peth cynhaeaf hefyd. Synnodd rai at allu pregethu Owen. Dyfynnir un sylw yn ei gofiant:

> Yr oeddwn i yn meddwl, pan glywais i o'r blaen, na chlywais i bregethwr â salach erioed; ond heno, yr o'n i'n meddwl na chlywais i'r fath bregethwr a'r fath bregeth yn fy oes; ac eto, yr un bregeth yn union oedd ag a glywais i ganddo o'r blaen.[39]

Wrth gwrs, fe allai mai emosiwn yr oedfa a effeithiodd ar y gwrandäwr iddo gredu bod gwahaniaeth yn y pregethwr, ond y mae'r ffaith fod y tyrfaoedd wedi dilyn Richard Owen yn siŵr o fod yn brawf digonol i'r cynnydd fu yn ei allu fel pregethwr yn y cyfnod hwn.

Un o'r gwahaniaethau mawr rhwng cyfarfodydd Owen a rhai Moody oedd bod emosiwn agored i'w weld yng Nghymru. Roedd agwedd y Saeson at deimladrwydd o'r fath yn un rheswm pam fod cyfarfodydd Lloegr yn brin

---

[38] Ibid. t.117.
[39] Ibid. t.138.

ohono. Ond efallai bod y ffaith y cynhaliwyd cyfarfodydd Owen mewn cymunedau clòs yn rheswm arall. Mewn oedfa nos Nadolig yn Llanbedrog, er enghraifft, torrodd un blaenor i lawr yn llwyr wrth weld pwy a arhosodd yn y seiat: 'Wrth enwi ei hen gymdogion y naill ar ôl y llall, yr oedd ei deimlad yn methu dal. Pan ddaeth at un hen gymydog, methodd yn lân a dywedyd ei enw, a bu gorfod iddo eistedd i lawr yn wylo'.[40] Prin y gallai hyn ddigwydd mewn cynulleidfa amhersonol o rai miloedd mewn dinas fawr. Mae'r ffaith fod yr emosiwn hwn mor agored yn bwysig. Sylwasom eisoes fel yr oedd y dull o orfoleddu, megis gwaeddi 'diolch' neu 'bendigedig', yn dechrau diflannu o eglwysi ymneilltuol Cymru a bod parchusrwydd a threfn oes Victoria yn gwneud eu hôl hyd yn oed ar eglwysi cefn gwlad. Tybed nad oedd rhai yn gweld yr adfywiad hwn fel cyfle i ddychwelyd at hen grefydd y tadau? Ceir sawl cyfeiriad yng nghofiant Richard Owen at y dyddiau pryd yr oedd lle i deimlad ac emosiwn mewn oedfa. Er enghraifft, dyma sylw R.Williams, Corwen, oedd am waeddi mewn oedfa ddiwygiadol yn Llanllyfni yng Ngorffennaf 1883. Ofnodd,

> gwneud "fool" ohonof fy hun ... Pan oedd y llanw yn parhau i godi, ac wedi dyfod hyd at y lwynau, ac yn bygwth myned yn ddyfroedd nofiadwy, y mae y pregethwr yn tewi. Ac y mae aml un yn teimlo, fel yr ysgrifennydd, eu bod wedi cael diangfa gyfyng rhag gwaeddi, yn ôl dull yr amser gynt.[41]

A dyma enghraifft arall yn codi o gyfarfodydd yn Llanberis: 'Ynddynt hwy yr oedd y "gorfoleddu" a'r "neidio" fwyaf cyffredinol. Gwelsom y noson hon enghreifftiau teg o'r "neidio" dan ddylanwad gwirionedd yr efengyl oedd mor gyffredin yn hen adfywiadau blaenorol Cymru'.[42] Mewn anerchiad wrth ymadael â chadair cymanfa ei enwad yn 1889 mynegodd Owen Thomas yntau

---

[40] Ibid. t.138.
[41] Ibid. t.152.
[42] Ibid. t.215.

ei bryder ynghylch cyflwr oeraidd crefydd y cyfnod i'w gymharu â dyddiau cynnar Methodistiaeth. Ar ôl rhestru rhagoriaethau'r dyddiau hynny dywedodd,

> Erbyn hyn, y mae yn ddrwg gennyf ddywedyd, y mae pethau wedi newid yn ddirfawr yn ein plith. Y mae ein cyfarfodydd yn gyffredin wedi myned yn hynod o ddistaw, yn fynych yn dra marwaidd, ac weithiau, yn oerion iawn. Y mae hyd yn oed yr 'Amen' wedi ei golli braidd yn gwbl o'n cynulleidfaoedd, a rhywbeth tebyg i fel pe byddai cywilydd arnynt arddangos unrhyw deimlad neilltuol, wedi meddiannu llawer o'n pobl.[43]

1882 oedd blwyddyn dechrau cyhoeddi *Hunangofiant Rhys Lewis*, nofel Daniel Owen, yn *Y Drysorfa.*[44] Darlunio peth o ragrith y capel a wnaeth Daniel Owen yn llawer o'i waith, a chymharu to hŷn defosiynol a duwiol y capel efo'r to ieuengach nad oeddent wedi profi tröedigaeth o gwbl. Meddai T.J.Morgan am y nofel ac un o'i chymeriadau,

> Cynnyrch y dadrithiad yw Bob; y trai ar ôl penllanw'r achub-enaid. A dengys ei sgwrs a'i fam ei fod wedi ymgolli yn nyfroedd yr amhendantrwydd hwnnw a ddaeth dros feddwl ail hanner y ganrif ddiwethaf, y dymer a ddaeth *honest-doubt* i fod yn ddisgrifiad ohoni ac yn arwyddair iddi.[45]

I ba raddau, tybed, yr oedd diwygiad Richard Owen yn ymateb i'r cynnydd mewn amheuaeth ac i'r rhagrith a ymdreiddiodd i'r eglwysi? Ac a fu gwaith Daniel Owen yn fodd i sbarduno'r credinwyr i geisio crefydd ysbrydol ddyfnach? Ym mis Mawrth 1884 cafodd y diwygiwr un o wythnosau mwyaf ei ymgyrch a hynny yn nhref yr Wyddgrug. Gorlenwyd capel y Methodistiaid bob nos, ac ymunodd dros 200 o'r newydd efo'r gwahanol enwadau.[46]

---

[43] Dyfynir yn J.J.Roberts, *Cofiant y Parchedg Owen Thomas, D.D., Liverpool* (Caernarfon, 1912), t.388.

[44] Daniel Owen, 'Hunangofiant Rhys Lewis, gweinidog Bethel', yn *Y Drysorfa*, 36 (1882), t.13; am ymdriniaeth feirniadol o'r nofel gw. Robert Rhys, *Daniel Owen* (Caerdydd, 2000), tt.105-29.

[45] T.J.Morgan, *Diwylliant Gwerin ac Ysgrifau Eraill* (Gomer, 1972), t,174.

[46] 'Y Parch. Richard Owen, Penmaenmawr', yn *Y Drysorfa*, 38 (1884), t.153.

Erbyn 1885 roedd iechyd Richard Owen yn dechrau torri a chafwyd adroddiad o'i salwch yn *Y Drysorfa*.[47] Yr oedd erbyn hynny wedi symud i Ddinbych i fyw, ac aeth oddi yno i Aberystwyth. Yn Chwefror 1887 daeth i Fôn i bregethu drachefn ac yno y bu farw.

Rhaid gosod diwygiad Richard Owen a'r adfywiadau eraill o'r cyfnod yng nghanol y traddodiad diwygiadol. Er bod y technegau wedi eu newid a'u datblygu dros amser, gwelir ynddynt olion amlwg o ddulliau Finney a Moody. Roedd diwinyddiaeth yr Ymneilltuwyr wedi datblygu i'r graddau y caed derbyniad gwresog gan y mwyafrif i'r technegau hyn. Ac nid dall oedd sylwebyddion y cyfnod i dechnegau ychwaith. Gallent adnabod 'diwygiwr' oddi wrth y dulliau a ddefnyddid ganddo yn ogystal ag oddi wrth y llwyddiant a ddilynai'r gwaith. Meddai J.Meyrick Jones, Dolgellau, am Richard Owen, 'Nid oeddym yn cael ein temtio i feddwl mai diwygiwr oedd yn siarad wrthym. Felly, ysywaeth, y mae yn rhy aml. Gorfodir ni, wrth wrandaw ar y diwygiwr, i deimlo mai un wrth ei swydd yn ceisio gwneud diwygiad ydyw'.[48] Yn y sylw hwn deallwn fod rhai o sylwebyddion craff y cyfnod wedi deall fod gwahaniaeth rhwng y diwygiwr a geisiai gynhyrchu cyffroad, a'r diwygiwr oedd yn cael ei fendithio gan Dduw. Perthyn i'r ail gategori yr oedd Richard Owen, meddai Jones. Ond mewn sylw arall ar y modd yr oedd Owen yn caniatáu i wres y cyfarfodydd godi o un cyfarfod i'r llall yn ystod wythnos o ymgyrch dywedodd, 'Gwelid "tact" y diwygiwr yn eglur iawn fan hyn'.[49] Roedd hyd yn oed diwygiwr dan fendith Duw yn gallu defnyddio technegau, felly, ac i Jones nid oedd dim o'i le yn hynny. A chofier fod Jones yn cynrychioli barn fwyafrifiol y cyfnod. Yr oedd barn leiafrifol hefyd, a cheir

[47] 'Anhwyldeb y Parch. Richard Owen', yn *Y Drysorfa*, 39 (1885), t.153.
[48] Pritchard, *Cofiant Richard Owen,* t.169.
[49] Ibid. t.169.

enghraifft ohoni yng nghyfrol John Pritchard, *Methodistiaeth Môn, o'r Dechreuad hyd y flwyddyn 1887.* Meddai am Richard Owen,

> Ennillodd, fel pregethwr, ein serch; ond methodd, fel diwygiwr, ag ennill ein cymeradwyaeth. Nis gallwn ystyried pob math o chwanegiad at yr eglwysi yn wir ddiwygiad. Cyfaddefwn fod ein hannwyl frawd, Richard Owen, yn fwy goddefol gennym nag ydoedd yr un o'r brodyr o'r un dosbarth ag ef.[50]

Ni chynigiodd Pritchard resymau pam ei fod yn anghymeradwyo Owen y diwygiwr, ond gwelsom eisoes fod olion o'r Galfiniaeth draddodiadol yn dal yn y tir. Fodd bynnag, roedd y grymoedd a gymedrolodd y system ddiwinyddol honno yn rhy gryf iddi, ac y mae adfywiad Richard Owen a'i diwygiadaeth yn brawf pendant fod Ymneilltuaeth Cymru wedi newid yn bur sylweddol ers cychwyn y ganrif.

[50] John Pritchard, *Methodistiaeth Môn, o'r Dechreuad, hyd y flwyddyn 1887* (Amlwch, 1888), t.375.

Pennod 8.

## Casgliadau.

Prif osodiad y traethawd hwn yw bod diwygiadaeth Charles Finney wedi bod yn greiddiol i ddiwygiad 1858-60 yng Nghymru. Ceisiwyd profi'r gosodiad trwy ddangos fel yr oedd Calfiniaeth draddodiadol Ymneilltuwyr Cymru wedi ei chymedroli i'r fath raddau nes yr oedd syniadau Finney yn dderbyniol gan fwyafrif yn yr eglwysi a bod hynny wedi agor y drws i'r defnydd o dechnegau diwygiadol. Dangoswyd hefyd fel y defnyddiwyd y technegau hynny gan bobl oedd yn allweddol i gychwyniad a pharhad yr adfywiad. Er mwyn canfod ai ffenomen dros dro oedd hyn sylwyd ar ddiwygiad Richard Owen (1882-85), a cheisiwyd dangos bod y dulliau wedi eu defnyddio bryd hynny yn ogystal.

Hyd yma nid yw'r dylanwad hwn wedi'i dafoli, nac ychwaith prin wedi'i gydnabod, gan haneswyr. Yn wir, gwadodd yr hanesydd Calfinaidd Seisnig Iain Murray ei fod yno o gwbl. Ond er mwyn i hynny fod yn gywir byddai'n rhaid i Gymru fod wedi ei hynysu yn llwyr oddi wrth y byd a'i ddylanwadau. Fodd bynnag, nid gwlad arunig ydoedd ac roedd yn anochel i Gristnogion Cymreig a Chymraeg deimlo'r dylanwadau hynny. Mae hanes y wlad yn frith o enghreifftiau o sut y daeth o dan ddylanwad estron, ac yn neilltuol felly ei hanes diwygiadol. Yng nghyfnod cynnar y Diwygiad Efengylaidd bu cydweithio rhwng George Whitefield a John Wesley a'r arweinwyr Cymreig. Ac yr oedd darllen brwd yng Nghymru ar waith Jonathan Edwards. Wrth i Galfiniaeth draddodiadol ddatblygu a newid mewn gwledydd eraill, ac yn America yn neilltuol, nid rhyfedd i'r datblygiadau hynny gyrraedd eglwysi Cymru yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Nid Cymru oedd yr unig wlad i'w heffeithio gan ddiwygiad 1858-60. Un wlad ymhlith nifer oedd Cymru a effeithiwyd gan adfywiad a ymledodd yn eang o amgylch y byd. Nid yng Nghymru y cychwynnodd ac nid yma y gorffennodd. Roedd yn ffenomen mwy na 'diwygiad Cymreig', a naturiol, felly, yw sylwi ar ambell i debygrwydd rhwng un wlad a'r llall. Yn yr astudiaethau hynny o'r diwygiad yn Ulster a'r Alban sylwyd mai un tebygrwydd amlwg rhyngddynt hwy a Chymru oedd fel yr oedd y technegau diwygiadol ar waith. Yn Aberdeen, er enghraifft, caed adfywiad a drefnwyd yn ofalus ac a arweiniwyd gan efengylwyr proffesiynol. Tebygrwydd pwysig arall oedd y modd y defnyddiwyd yr hanes am yr adfywiad yn America i gyffroi eglwysi'r tair gwlad i geisio a gweddïo am eu hadfywiad eu hunain. Defnyddiwyd darlithiau cyhoeddus, adroddiadau yn y wasg, a hyd yn oed gyhoeddiadau arbennig i wneud hynny. Yn Ulster a Chymru roedd y ffenomenau teimladol hefyd yn debyg, wrth i bobl wylo, chwerthin, gwaeddi eu moliant, a llewygu yn yr oedfaon. Wrth astudio'r diwygiad hwn, felly, ni ellir ystyried Cymru fel endid ar ei phen ei hun. Rhaid gosod yr hanes Cymreig yn y cyd-destun rhyngwladol ac wrth wneud hynny, gwelwn yn syth sut yr effeithiwyd ar yr eglwysi Cymraeg gan ddylanwadau estron a'r rheini yn rhannol yn ddylanwadau diwygiadol a Finneyaidd.

Caed yn niwinyddiaeth Finney, Andrew Fuller, ac eraill a oedd yn cymedroli Calfiniaeth, ymgais i ddarganfod cydbwysedd yn nhrefn y cadw rhwng swyddogaeth Duw ar un llaw a swyddogaeth dyn ar y llaw arall. Mewn Calfiniaeth glasurol rhoed y pwyslais ar Dduw, gan y credid fod dyn yn llwyr lygredig ac na allai wneud unrhyw beth i sicrhau ei achubiaeth. Ond wrth ddarllen yr ysgrythurau gwelodd Fuller, er enghraifft, fod pwyslais yno ar

gyfrifoldeb dyn yn wyneb yn yr efengyl. Ef oedd yn gyfrifol am edifarhau a chredu. Yn wir, roedd Iesu yn galw ar i ddyn i wneud y pethau hyn. Prin y gwnaethai hynny os nad oedd dyn yn gallu cyflawni'r alwad - dyna ddadl y blaid gymedrol. Ond gan fod dyn mor llygredig wedi'r cwymp sut oedd hyn yn bosibl? Rhan o'r ateb oedd trwy leihau'r pwyslais ar ei lygredigaeth. Cawn yng ngwaith John Roberts, Llanbrynmair, er enghraifft, y farn fod dyn yn alluog i droi at Dduw, nad oedd y cwymp wedi dwyn oddi arno'r gallu naturiol i gredu yn Nuw. Yr hyn nad oedd gan ddyn oedd yr ewyllys i gredu. Trwy newid y pwyslais hwn gwelir fod un o seiliau pwysig y Galfiniaeth glasurol wedi ei dryllio.

Wrth adfer i ddyn y gallu naturiol hwn roedd y ffordd yn glir i roi llawer mwy o bwyslais ar swyddogaeth dyn yn nhrefn y cadw. Roedd cyfrifoldeb arno i blygu ei ewyllys rydd a chydymffurfio efo galwad Duw. Rhaid oedd iddo gredu yn Iesu, ac edifarhau. O fod mewn sefyllfa lle'r oedd yn gwbl analluog i wneud dim, gwelodd bellach fod ganddo gyfrifoldebau mawr os oedd am dderbyn yr iachawdwriaeth roedd Duw wedi'i bwriadu ar ei gyfer. Ond a lwyddwyd i ddod â chydbwysedd i mewn, ynteu ai'r unig beth a lwyddwyd oedd symud y cam-bwyslais oddi ar Dduw ac ar ddyn? Yn y traethawd hwn ceisiwyd mesur diwinyddiaeth y Calfiniaid clasurol a'r cymedrol wrth bwyslais T.F.Torrance ar natur ddwyfol a dynol Iesu, a'r modd y mae'r dwyfol a'r dynol yn gweithio mewn cytgord perffaith yn yr un person. Yn y pwyslais hwn credwn y ceir y gwir gydbwysedd y ceisiodd y blaid gymedrol ymgyrraedd ato, oherwydd nid mater o gydbwyso rhwng Duw a dyn a geir yn nhrefn y cadw yn ôl Torrance. Yn hytrach mae'n cynnwys yr oll o Dduw a'r oll o ddyn, gan fod Iesu yn cynnwys y dwyfol a'r dynol yn eu cyflawnder.

Sut bynnag am hynny, roedd y symud pwyslais oddi ar Dduw ac ar ddyn yn nhrefn y cadw yn greiddiol i'r ffaith bod derbyniad pur wresog wedi bod yng Nghymru i syniadau Finney ar sut i gynnal diwygiad. Yn wir, heblaw'r pwyslais hwn ar allu dyn yn wyneb galwad yr efengyl trwy'r pregethwr, ni fyddai'r technegau wedi bod yn dderbyniol o gwbl. Roedd datblygiadau diwinyddol Ymneilltuaeth Cymru, felly, yn hynod bwysig. Er eu bod yn ddadleuon ynghylch manion sy'n ymddangos ar un olwg yn ddibwys heddiw, ar y pryd trinnid hwy gyda'r pwys mwyaf. I'r rhai a ddadleuai, roedd purdeb yr efengyl yn y fantol ac felly eneidiau dynion. Nid mater bach ydoedd iddynt hwy. Er y gellid credu fod peth cenfigen ac ysbryd cystadleuaeth yn perthyn i Galfiniaid Cymru yn wyneb twf graddol ond sicr y Wesleaid ym mlynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oes amheuaeth nad oedd purdeb y neges Gristnogol yn rhan o'u consýrn hefyd. Fel y gwelsom, un ymateb diwinyddol i Wesleaeth yng Nghymru oedd gweld datblygu uchel-Galfiniaeth dan law gweinidogion megis John Jenkins, Hengoed. Yr eironi yw bod y dadlau ynghylch yr uchel-Galfiniaeth hon wedi sicrhau fersiwn llawer mwy cymedrol o'r Galfiniaeth glasurol, a bod y System Newydd, neu Ffwleriaeth, wedi ymledu'n bur gyffredinol. Ac yn y tir a baratowyd gan y System Newydd y gwreiddiodd Finneyiaeth cystal.

Diddorol yw sylwi ar y modd yr effeithiodd y newid diwinyddol ar y ffordd yr oedd gweinidogion ac efengylwyr yn gwneud eu gwaith. O gredu yng nghyfrifoldeb dyn i ymateb ac mai'r unig beth oedd yn ei atal oedd ei ewyllys ei hun, daeth yr arweinwyr i gredu fod cyfrifoldeb arnynt hwy i berswadio dyn i blygu ei ewyllys tuag at Dduw. Gwelwyd effeithiau hyn ar bregethu Ymneilltuol Cymru yn arbennig. O fod yn bregethu athrawiaethol, datblygodd i

fod yn bregethu ymarferol ac apeliadol, gan gynnwys cryn bwysau ar y gwrandawyr i gredu yn Iesu ac edifarhau. Deillio o'r un datblygiadau diwinyddol, wrth gwrs, a wnaeth y technegau diwygiadol, neu'r moddion. Roedd y bregeth ddwbl, y fainc i'r rhai dan wasgfa, yr ystafell i ymholwyr a sawl techneg arall i gyd yn ddefnyddiol i sicrhau fod y pechadur yn penderfynu o blaid Crist. Er i Finney wadu bod dim yn fecanyddol yn y moddion a bod bendith Duw yn angenrheidiol iddynt lwyddo, wrth eu hymarfer mor gyson â'u hannog i eraill, gwelwn fod y pwyslais ar gyfrifoldeb dyn yn nhrefn y cadw wedi mynd yn rhy bell. Wrth ddarllen ei ddarlithiau, yn aml cawn yr argraff mai dim ond wrth fynd heibio y crybwyllodd yr angen am fendith Duw, ac mai ar ddyn y gosododd y pwyslais bron yn llwyr lle'r oedd cynnal diwygiad mewn cwestiwn. Gwelsom fel y nododd sawl sylwebydd eu hanfodlonrwydd ynghylch y pwysau a roddid ar wrandawyr i ymateb i'r apêl. Credwn fod hyn yn fwy gwir am chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg nag ynghynt. Ond cofier mai datblygu gwaith cynharach a wnaethpwyd yn y cyfnod hwnnw. Roedd yr egwyddorion wedi eu gosod gan genhedlaeth Finney.

Os oedd cam-bwyslais ar swyddogaeth dyn mewn Calfiniaeth gymedrol, ac os ymddangosai'r technegau yn fecanyddol ar adegau, credwn mai o gymhellion cwbl dda y gwnaeth Finney a'r diwygwyr Cymraeg eu gwaith. Eu hawydd pennaf oedd gweld pechaduriaid yn cael eu dychwelyd a chyflwr moesol cymdeithas yn gwella, a chariad Crist at ddyn oedd y sbardun a'u gyrrai ymlaen.

Er pwysiced y datblygiadau diwinyddol hyn, ni chredwn y byddent ar eu pen eu hunain wedi arwain at ddiwygiad yn 1858. Yr hyn a sicrhaodd fod Ymneilltuwyr Cymru yn defnyddio'r moddion diwygiadol oedd y consýrn

gwirioneddol a deimlent ynghylch cyflwr ysbrydol yr eglwysi. Roedd yr ymdeimlad o argyfwng yn dwysáu ar hyd y 1850au cynnar. Deilliai'r ymdeimlad hwn ymhlith yr arweinwyr oddi wrth y diffygion ysbrydol y credent iddynt eu gweld yn aelodau'r eglwysi. Ni ellir profi pa mor real oedd y diffygion hyn mewn gwirionedd, ond dyma ganfyddiad yr arweinwyr. Dengys yr ymchwil, yn bennaf mewn llu o ysgrifau yn y cyfnodolion, fod Ymneilltuaeth fel corff yn hynod hunan-ymchwilgar a hunan-feirniadol. Cynyddodd yr argyhoeddiad fod calon Ymneilltuaeth yn oer, a bod ei chrefydd yn bell o fod yn iach, a hynny er gwaethaf y bwrlwm a'r cynnydd a oedd yn nodweddu'r oes. Arweiniodd yr hunan-feirniadaeth at ddiffyg hunan-hyder, yn enwedig yn wyneb bygythiad tybiedig Anglicaniaeth uchel-eglwysig. Nid arwydd o sectyddiaeth y cyfnod yn unig yw'r ymosod ffyrnig a fu ar Eglwys Loegr, ond hefyd arwydd o ddiffyg hyder yr Ymneilltuwyr yn wyneb dadeni'r Eglwys mewn rhannau o'r wlad o dan arweiniad Mudiad Rhydychen. Hawdd deall y diffyg hyder hwn yng ngoleuni eu consýrn ynghylch eu gwendidau ysbrydol eu hunain. Roedd pryder hefyd ynghylch effaith y byd ar yr eglwysi, er bod hwn yn llai o bryder na'r gwendidau hynny y tybid iddynt fodoli yn fewnol.

Nid arwain at hunan-dosturi ac iselder a wnaeth yr ymdeimlad o argyfwng, fodd bynnag, ond at waith a gweddi. Os oedd hi'n argyfwng ar Ymneilltuaeth Cymru yna'r ateb oedd diwygiad ac i Dduw dywallt yn helaethach o ddawn ei Ysbryd Glân. Rhaid tanlinellu mai canlyniad yr argyfwng oedd i'r arweinwyr weld yr angen am ddiwygiad. Nid dymuniad oedd ganddynt am weld Duw yn symud mewn nerth o'r newydd - ond roeddent wirioneddol angen hynny. Roedd yr eglwysi mewn perygl o gael eu tanseilio

gan grefydd arwynebol, ddideimlad. Roedd y cwrdd gweddi yn colli ei rym a phobl yn cadw draw oddi wrtho. Roedd cadw dyletswydd ar yr aelwyd yn prysur ddiflannu. Er mwyn gweld y llanw'n troi roedd rhaid cael adfywiad. Roedd y dyhead, felly, yn hynod o gryf.

Wrth alw am adfywiad yr oeddent yn pwyso nid yn unig ar addewidion Duw yn y Beibl, ond hefyd ar eu profiad eu hunain. Roedd astudiaeth o hanes eu henwadau a'u heglwysi yn dysgu iddynt fod Duw yn ymateb i gri ei bobl ac yn anfon ei Ysbryd i adfywio'r eglwys. Gwelodd sawl sylwebydd batrwm cylchynol ym mywyd yr eglwysi, gyda chyfnodau o drai a llanw. Roedd arnynt angen y llanw erbyn y 1850au. Yn amlwg, roedd gweddïo amdano yn hynod bwysig. Er gwaethaf y pwyslais ar swyddogaeth dyn, Duw fyddai'n gyfrifol am anfon diwygiad. Anhepgorol oedd gweddïo ar Dduw, felly. Ond yn hytrach na disgwyl i Dduw symud yn ei sofraniaeth, roedd pwyslais newydd gan nifer: roeddent bellach yn credu y gallent ymarfer rhai moddion arbennig a fyddai'n siŵr o ddwyn bendith Duw, ac felly'n arwain at adfywiad. Enghraifft o'r pwyslais newydd hwn yw eiddo Thomas Aubrey, y gweinidog Wesleaidd. Yn ei weinidogaeth gwelir defnydd helaeth o'r moddion Finneyaidd, a chafwyd cryn lwyddiant trwyddynt mewn sawl cylch yng Nghymru. Trwy ei arweiniad ymarferol fel cadeirydd talaith gogledd Cymru a thrwy gyfres o ysgrifau yn yr *Eurgrawn,* bu Aubrey yn arloeswr yn y dulliau newydd a gwnaeth lawer i baratoi Cymru yn y blynyddoedd cyn y diwygiad.

I ganol y dyheu, y gweddïo, y paratoi hwn am adfywiad y daeth y newydd yn 1857 am ddiwygiad grymus yn America. Trwy gyfres o lythyrau personol, erthyglau yn y wasg, a darlithiau cyhoeddus, daeth y newydd am y diwygiad yn fyw yn nychymyg Cymru. Bellach, trodd y dyhead am ddiwygiad

yn ddisgwyliad. Byddai Duw yn cadw ei addewid i Gymru fel ag y gwnaeth i America. Ond prin y disgwyliodd unrhyw un y byddai'r cysylltiad â'r wlad newydd yn cael ei gorffoli mewn un dyn, sef Humphrey Jones.

Nid dysgu am y dulliau diwygiadol Americanaidd o lyfrau a wnaeth Jones, ond cael ei drwytho ynddynt mewn ffordd gwbl ymarferol wrth weinidogaethu yn y wlad ei hun. Gadawodd Gymru yn ŵr siomedig, ac yntau wedi ei wrthod fel ymgeisydd am y weinidogaeth lawn amser gyda'r Wesleaid. Mae'n bur debyg iddo deimlo fod ganddo rywbeth i'w brofi pan ddychwelodd adref yn haf 1858. Cyrhaeddodd ddociau Lerpwl yn llawn tân adfywiadol ac ar aelwyd cyd-weinidog yno y mynegodd pam y dychwelodd i'w famwlad, sef er mwyn cychwyn diwygiad yng Nghymru. Mae'r ffaith ei fod yn meddu ar fwriad o'r fath ynddo'i hun yn ddigon i osod Humphrey Jones yn y traddodiad diwygiadol. Dyma swydd i'w chyflawni a gwaith i'w gwblhau. Nid oedd disgwyl i'r Duw sofran symud ohono'i hun, bellach, yn ddigon. Gellid bwrw ati i ddefnyddio moddion arbennig oedd yn sicrhau bendith Duw. A dyna a wnaeth Jones gyda llwyddiant mawr. Er bod ei hanes o gyfnod y genhadaeth yn Aberystwyth ymlaen yn un trist ryfeddol, nid oes amheuaeth nad ydoedd mewn ychydig fisoedd wedi bod yn sbarc a roddodd Cymru ar dân.

Wrth lwyddo i berswadio Dafydd Morgan o ddaioni'r moddion, sicrhaodd Jones y byddai'r gwaith a gychwynnodd yn parhau. Er ei amheuaeth gynnar o'r dulliau, o bosibl oherwydd ei gefndir Calfinaidd, taflodd Morgan ei hun i ganol y gwaith. Sylwyd fel y daeth rhyw eneiniad arno ac i effaith hynny fod yn amlwg ar ei bregethu. Cafodd y pregethu hwnnw ddylanwad ar rai miloedd o bobl wrth i Morgan deithio o amgylch y wlad yn ystod y diwygiad. Rhoddodd dymor o wasanaeth caled i'r eglwys yn y cyfnod hwn, gan bregethu

ddwywaith a thair y dydd am ddyddiau lawer, a byddai oddi cartref am wythnosau ar y tro. Nid oes amheuaeth na roddodd Morgan o'i orau i'r gwaith. Ac eto codir amheuon yn ein meddwl wrth ddarllen ei ddyddiadur am 1859. Y pwyslais mawr ynddo yw faint o bobl a ymatebodd i'w apêl. Mae'r diffyg clodfori Duw yn y dyddiadur, i'w gymharu â William Morgan, un arall a brofodd lwyddiant yn y diwygiad, yn awgrymu inni fod y diwygiwr wedi ei ddallu yn ysbrydol gan ei lwyddiant. Rhaid pwysleisio nad oes unrhyw dystiolaeth i Dafydd Morgan gymryd y clod iddo'i hun am y gwaith, yn gyhoeddus nac yn breifat, ac na phregethai ddim ond Crist, ei groes, a'r angen am achubiaeth. Ond serch hynny mae'r amheuon yn aros.

Mae'r defnydd o'r bregeth ddwbl, y sedd i rai dan wasgfa, y disgwyliad am ymateb unionsyth i'r efengyl i gyd yn gosod Dafydd Morgan yn y traddodiad diwygiadol. Cafodd gystal llwyddiant efo'r technegau hyn nes i arweinwyr genhedlaeth yn ddiweddarach eu defnyddio ar gyfer eu cyfarfodydd diwygiadol eu hunain. Er bod Richard Owen a'i gyfeillion o Fôn wedi profi a chymeradwyo dulliau'r diwygiwr proffesiynol Dwight L.Moody, patrwm y diwygiwr o Ysbyty Ystwyth aeth â'u bryd. Roeddent yn chwilio am dechnegau y gellid eu defnyddio i ddeffroi'r eglwysi yng nghefn gwlad Môn, a darganfuasant y dulliau mwyaf addas yng ngwaith Morgan. Os methodd haneswyr ag adnabod ei ddiwygiadaeth, ni wnaeth y diwygwyr o Fôn yr un camgymeriad.

Ym misoedd cyntaf y diwygiad y gosodwyd stamp diwygiadol ar adfywiad 1858-60, a chredwn fod y dulliau a ddefnyddid ar ei gychwyn wedi eu defnyddio drwyddo draw. Credwn hefyd bod y ffaith i ddiwygiadaeth fod mor amlwg yn niwygiad Richard Owen yn brawf eglur nad rhywbeth a fodolodd

dros dro ydoedd. Roedd wedi bwrw ei wreiddiau yn nhir Ymneilltuaeth Gymraeg cyn 1858, ac erbyn 1882, aeth y gwreiddiau hynny yn bur ddwfn. Er na chynhaliodd Charles Finney'r un cyfarfod diwygiadol mewn capel Cymraeg, taflodd gysgod hir dros Ymneilltuaeth Cymru. Ai er gwell neu er gwaeth? O bwyso a mesur diwygiad 1858-60 credwn i'r dylanwad fod er gwell - er gwaethaf ei holl wendidau. Credwn i'r diwygiad hwnnw fod yn rhodd o law Duw i'r eglwysi, ac mai dyna'r ffrwyth sy'n dangos daioni'r pren.

# Llyfryddiaeth.

*i. Llawysgrifau.*

Llawysgrifau y cyfeiriwyd atynt yn y traethawd:

*Llyfrgell Genedlaethol Cymru:*

LLGC, CMA 13809-24, Blwyddlyfr Dafydd Morgan 1859-1862.

LLGC, CMA 1(G), 8,716, Dyddiadur Dafydd Morgan 1859.

LLGC, CMA 12,684, llythyr gan John Mathews, Aberystwyth at Robert J.Davies, Llundain, 1 Mawrth 1859.

LLGC, CMA 1(B), 871, Daniel Davies, 'Atgofion personol Daniel Davies, Ton, o ddiwygiad 1859 yn Nhregaron'.

*Bangor:*

Bangor, Prifysgol Cymru, Bangor MSS 2,338, dyddiadur William Morgan.

Llawysgrifau na chyfeiriwyd atynt:

*Llyfrgell Genedlaethol Cymru:*

LLGC, CMA 2, 14,703, Abraham Morris, 'Calvinistic Methodism in Monmouthshire', tt.119-168.

LLGC, CMA 3, 17,008, John Williams, 'Y diwygiad yn Rhostryfan', 1898.

*ii. Erthyglau.*

'Aberorian', 'Diwygiad crefyddol yn mhlith y Wesleyaid', yn *Yr Eurgrawn*, 22 (1858), tt.214-5.

Aubrey, T., 'Adfywiad Crefyddol', yn *Yr Eurgrawn*, 1858, tt.20-3.

Aubrey, T., 'Dylanwadau yr Ysbryd Glân – ei gyfoeth a'i gyflawnder', yn *Yr Eurgrawn*, 28 (1865), tt.95-100.

Barnes, A., 'Pa niwaid sydd mewn dawnsio?', yn *Yr Eurgrawn*, 18 (1855), tt.229-33.

Callbeck, K.L., 'The Many Millenniums', yn *Quodlibet*, 5 (2003).

Carwardine, Richard, 'The Welsh Evangelical Community and "Finney's Revival"', yn *Journal of Ecclesiastical History*, 29 (1978), tt.463-80.

Charles, D., 'Addewid yr Ysbryd', yn *Y Drysorfa*, 12 (1858), tt.109-17.

Davies, Delta, 'Chwareuon', yn *Yr Eurgrawn*, 18 (1855), tt.271-2.

Davies, D.J., 'Camdybiau ar Swper yr Arglwydd', yn *Seren Gomer*, 40 (1857), tt210-6.

Davies, H., 'Yr Ysbryd Glân', yn *Y Diwygiwr*, 21 (1856), tt.5-9.

'D.E.', 'Ein cyfundeb', yn *Y Drysorfa*, 12 (1858), tt.117-9.

Di-enw, 'Anhwyldeb y Parch. Richard Owen', yn *Y Drysorfa*, 39 (1885), t.153.

Di-enw, 'Golwg ar Grefydd yn Gyffredinol', yn *Y Drysorfa*, 28 (1874), t.24.

Di-enw, 'Marwolaeth y Parch. John Richard Hughes, Brynteg, Môn', yn *Y Drysorfa*, 48 (1894), t.26.

Di-enw, 'Meistri Moody a Sankey', yn *Y Traethodydd*, 29 (1875), tt.301-18.

Di-enw, 'Pabyddiaeth', yn *Y Dysgedydd*, 32 (1853), tt.61-2.

Di-enw, 'Pregethu', yn *Yr Eurgrawn*, 19 (1856), t.346.

Di-enw, 'Y Parch. Richard Owen, Penmaenmawr', yn *Y Drysorfa*, 38 (1884), t.153.

Di-enw, 'Yr adfywiad crefyddol', yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, 21 (1858), tt.195-8.

Di-enw, 'Yr adfywiad crefyddol yn Scotland a Lloegr', yn *Y Drysorfa*, 28 (1874), tt.149-51.

'Disodlwr', 'Pethau anweddus yn y moddion gras', yn *Y Greal,* 3 (1854), tt.84-5.

'D.R.', 'Yr Eilun-dduw tobaco', yn *Yr Eurgrawn,* 19 (1856), t.128.

'E.A.G.', 'Ymddiddan am gyfarfodydd gweddi', yn *Yr Eurgrawn*, 19 (1856), tt.414-5.

'G ap Ioan', 'Chwaneg o waith i'r ysgol sabothol', yn *Yr Eurgrawn*, 18 (1855), t.195-7.

'G ap Ioan', 'Pregethu Crist wedi marw dros bawb', yn *Yr Eurgrawn,* 19 (1856), tt.92-5.

'G ap Ioan', 'Y Darn Saboth', yn *Yr Eurgrawn*, 19 (1856), tt.125-8.

'Glan Alun', 'Tridiau yn Llandrindod eto', Y *Traethodydd* (1859), tt.367-84.

'G.O.', 'Seilo, Bangor', yn *Yr Eurgrawn*, 19 (1856), t.105.

Golygydd, yn William Williams, 'Cynhyrfiadau Crefyddol' yn *Y Drysorfa*, 9 (1855), tt.39-42.

Griffiths, W., 'Crefydd y teulu', yn *Y Drysorfa,* 11 (1857), tt.293-7.

'Hiraethlon', 'Awgrym i wrandawyr a phregethwyr', yn *Y Drysorfa*, 9 (1855), tt.6-7.

'H.M.P.', 'Y Diwygiad 1858-60', *Y Fwyell*, 1894, tt.109-12.

Hughes, J., 'Rhodd-ewyllys y cybydd', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), tt.200-2.

'J.H.', 'Y dylai pregethu yr efengyl fod yn ymarferol a chymwysiadol', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.93-4.

Ieuan Ddu Glan Sorwy, 'Puseyaeth', yn *Seren Gomer,* 27 (1844), tt.184-5.

Jones, G.Penrhyn, 'Cholera in Wales', yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 10 (1958), tt.281-300.

Jones, Francis, 'Yr adfywiad crefyddol yn Arfon', yn *Y Drysorfa*, 36 (1882), tt.190-2.

Jones, John, 'Paham y meddwi?', yn *Y Greal*, 6 (1857), tt.154-6.

Jones, L., 'Pregethu yr oes o'r blaen a'r oes hon', yn *Y Drysorfa,* 9 (1855), tt.12-3.

Jones, T., 'Tre'rddol, Cylchdaith Aberystwyth', yn *Yr Eurgrawn*, 22 (1858), t.356.

Jones, W., 'Y Diwygiad 1859-60', yn *Y Fwyell,* 1 (1894), tt.59-64.

'J.R.', 'Y Diwygiad yn America', yn *Y Diwygiwr*, 23 (1858), tt.160-2.

'J.W.', 'Ymddiddanion rhwng gŵr ieuanc crefyddol, a hen ŵr digrefydd', *Yr Eurgrawn*, 19 (1856), tt.48-51.

'Lewis', 'Esgeuluso moddion gras', yn *Y Drysorfa*, 11 (1857), tt.113-6.

Lewis, Evan, 'Rhag-gyfeillachu a phriodi', yn *Y Diwygiwr,* 20 (1855), tt.5-7.

Morgan, William, 'Addoliad teuluoedd', yn *Y Greal,* 6 (1857), tt.245-9.

Morris, W., 'Drwg claurineb mewn crefydd', yn *Y Drysorfa*, 12 (1858), tt.289-96.

Noll, Mark A., 'How we remember revivals: the virtues and vices of tribal history', *Christianity Today*, 24 Ebrill 1995, tt.31-4.

Owen, Daniel, 'Hunangofiant Rhys Lewis, gweinidog Bethel. Rhagarweiniad', yn *Y Drysorfa*, 36 (1882), tt.19-20.

Owen, J.G., 'Bywyd-fesurydd yr eglwys', yn *Y Greal,* 6 (1857), tt.166-7.

Idem, 'Dylanwad gweddi', yn *Y Greal,* 6 (1857), tt.123-7.

Phillips, J.G., 'Puseyaeth', yn *Seren Gomer,* 40 (1857), tt.193-200, 241-246.

Phillips, T., 'Adfywiad Crefyddol', yn *Y Drysorfa*, 12 (1858), tt.361-7.

Roberts, L, 'Oerfelgarwch a gwrthgiliad crefyddol', yn *Y Greal,* 5 (1856), tt.248-53.

Roberts, M., 'Adfywiad Crefyddol yn Steuben a Remsen, Swydd Oneida', yn *Y Cenhadwr Americanaidd*, 19 (1858), tt.192-3.

'Rhywun', 'Iawn ymddygiad mewn tŷ addoliad', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), t.267.

'Simon', 'Cybyddion crefyddol', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), tt.344-6.

Thomas, I., 'Yr achos o'r marweidd-dra crefyddol,', yn *Yr Eurgrawn,* 19 (1856), tt.119-25; 154-8.

Thomas, O., 'Cristnogaeth yn grefydd y galon', yn *Y Drysorfa,* 9 (1855), tt.157-8.

Thomas, R.W., 'Yr Adfywiad Crefyddol', yn *Y Cenhadwr Americanaidd,* 19 (1858), tt.166-70.

Walker, R.B, 'The Growth of Wesleyan Methodism in Victorian England and Wales' yn *Journal of Ecclesiastical History,* 24 (1973), tt.267-84.

Wilcox, H., 'Y ddyledswydd o gyfrannu at achos Duw', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), tt.88-91.

Williams, O., 'Hir gysgu boreu Saboth', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), tt.53-4.

Williams, T., 'Y Diwygiad 1859-60 yn nghylchdaith Ystumtuen a'r cyffiniau', yn *Y Fwyell,* 1 (1894), tt.180-7.

Williams, W., 'Rhagoriaethau a diffygion yr enwad Annibynol', yn *Y Diwygiwr,* 20 (1855), tt.261-70.

'W.R.', 'Esgeuluso oedfaon noson waith', yn *Yr Eurgrawn,* 18 (1855), tt.336-8.

'Ymofynnydd', 'Cyfrannu at gynnal crefydd', yn *Y Greal*, 3 (1854), tt.55-7.

Erthyglau a ddarllenwyd fel cefndir:

Carwardine, Richard, 'An examination of Methodism and the "new measures"' yn *The Journal of American History,* 59 (1972), tt. 327-40.

Hill, Myrtle, 'Ulster awakened: the '59 revival reconsidered', yn *The Journal of Ecclesiastical History,* 41 (1990).

Horridge, G., 'The Salvation Army in Wales. 1878-1900', yn *The Journal of Welsh Ecclesiastical History*, 6 (1989), tt.51-70.

Jones, Ieuan Gwynedd, 'Smoke and prayer: industry and religion in Cwmafan in the nineteenth century', yn *The Journal of Welsh Religious History*, 6 (1998), tt.13-44).

*iii. Traethodau ymchwil.*

Jones, Tom Ellis, 'Ffwleriaeth yng Nghymru' (traethawd M.A. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Bangor, 1934).

Richards, Glyn, 'A Study of the Theological Developments among Nonconformisits in Wales during the nineteenth century' (traethawd B.Litt. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Rhydychen, 1956).

Tudur, Alun, 'O'r sect i'r enwad. Datblygiad enwadau Ymneilltuol Cymru, 1840-1870' (traethawd Ph.D. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Bangor, 1992).

Turner, C.Ben, 'Revivals and Popular Religion in Victorian and Edwardian Wales' (traethawd Ph.D. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1979).

*iv. Cyfnodolion.*

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.*

*North Wales Chronicle.*

*Quodlibet* (ar y we).

*Seren Gomer.*

*Y Cenhadwr Americanaidd.*

*Y Cyfaill o'r Hen Wlad.*

*Y Diwygiwr*

*Y Drych a'r Gwyliedydd.*

*Y Drysorfa*

*Y Dysgedydd*

*Yr Eurgrawn.*

*Y Fwyell.*

*Y Goleuad.*

*Y Greal.*

*Yr Herald Cymraeg.*

Y *Traethodydd.*

*Y Tyst a'r Dydd.*

*v. Llyfrau.*

Athanasiws, *De incarnatione: Ymgnawdoliad y Gair,* cyf. Gan Euros Bowen (Caernarfon, 1976).

Bebbington, D.W., *Evangelicalsim in Modern Britain. 1730's – 1980's* (London, 1989,).

Idem. (gol.), *The Gospel in the World: international Baptist studies* (Carlisle, 2002).

Beck, G.A., *The English Catholics* (London, 1950).

Bevan, J., *Y Cwrdd Gweddi a'r Diwygiad Americanaidd ynghyd a pheryglon a manteision y diwygiad i'r eglwys a'r byd* (Llandilo, 1860).

Boles, J.B., *The Great Revival: Beginnings of the Revival Belt* (Kentucky, 1996).

Carwardine, Richard, *Popular Evangelicalsim in Britain and America, 1790-1865* (London, 1978).

Chadwick, Owen, *The Mind of the Oxford Movement* (London, 1960).

Colyer, Elmer M., *How to Read T.F.Torrance. understanding his trinitarian and scientific theology* (Downers Grove, 2001).

Dasset, L.W., *A Passion for Souls: the life of D.L.Moody*, (Chicago, 1997).

Davies, D. (gol.), *Hanes y Cymry yn Swyddau Winnebago a Fond du Lac, Wisconsin* (Wisconsin, 1898).

Davies, E. (gol.), *Revivals in Wales* (London, 1859).

Davies, S., *Cofiant y Parch Thomas Aubrey* (Bangor, 1887).

Davies, W.D., *America a Geweledigaethau Bywyd* (4ydd arg., Merthyr Tudful, 1899).

Evans, D., *Y Diwygiad Crefyddol Mawr yn America, neu Fuddugoliaeth Duw ar Fammon yn y byd newydd yn 1858* (Aberdar, 1858).

Evans, Eifion, *Fire in the Thatch: the true nature of religious revivals* (Bridgend, 1996).

Idem, *When He is Come* (Dinbych, 1959).

Evans, John, *Byr-gofiant 49 o weinidogion Sir Aberteifi* (Dolgellau, 1894).

Evans, J., *Cofiant y Parch Thomas Edwards, Cwmystwyth* (Dolgellau, dim dyddiad).

Festinger, L., et.al., *When Prophecy Fails* (Minneapolis, 1956).

Findlay, J.F., *Dwight L.Moody: American evangelist 1837-1899,* (Chicago, 1969).

Finney, Charles G., *Darlithiau ar Adfywiadau Crefyddol* (Abertawe, 1839).

Griffith, D., *Yr Ysgol Sabbathol a'r Oes* (Wrecsam, 1858).

Griffiths, J.H., *Bro Annwyl y Bryniau. Atgofion am Ystumtuen* (Aberystwyth, 1988).

Hambrick-Stowe, C.E., *Charles G. Finney and the Spirit of American Evangelicalsim* (Grand Rapids, 1996).

Herring, G., *What was the Oxford Movement*? (London, 2002).

Holifield, E.Brooks, *Theology in America: Christian thought from the age of the Puritans to the Civil War* (Yale, 2002).

Hobley, W., *Hanes Methodistiaeth Arfon: Dosbarth Bangor* (Arfon, 1924).

Holmes, J., *Religious Revivals in Britain and Ireland. 1859-1905* (Dublin, 2000).

Hughes, J., *Bywyd y Parch Isaac Jones, Gweinidog Wesleaidd* (Lerpwl, 1898).

Hughes, R., *Enwogion Môn* (Dolgellau, 1913).

'Iorthryn Gwynedd', *Hanes Cymry America* (Utica, 1872).

Isaac, Evan, *Humphrey Jones a Diwygiad 1859* (Bala, 1930).

Jeffrey, K.S., *When the Lord Walked the Land. The 1858-62 Revival in the North East of Scotland* (Carlisle, 2002).

Jenkins, R.T., *Hanes Cynulledifa Hen Gapel Llanuwchlyn* (Bala, 1937).

Jenkins a Jones (goln) *Cardiganshire County History 3* (Cardiff, 1998).

Idem. (Gol.), *Y Bywgraffiadur Cymreig at 1945* (Llundain, 1953).

Jones, D.J.V., *Rebecca's Children: A study of rural society, crime and protest* (Oxford, 1989).

Jones, Ieuan Gwynedd, *Explorations and Explanations: essays in the social history of Victorian Wales* (Llandysul, 1981).

Jones, H., *Hanes Wesleyaeth Gymreig, Cyfrol 4* (Bangor, 1913).

Jones, R Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl. Cristnogaeth a diwylliant yng Nghymru 1890-1914. Cyfrol II. Dryswch a Diwygiad* (Abertawe, 1982).

Idem. (Gol.), *Ffynonellau Hanes yr Eglwys: y cyfnod cynnar* (Caerdydd, 1979).

Idem. *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966).

Kelly, J.N.D., *Early Christian Doctrines* (London, 1977).

Kent, John, *Holding the Fort: Studies in Victorian Revivalism* (London, 1978).

Long, K.T., *The Revival of 1857-58: Interpreting an American Religious Awakening* (Oxford, 1998).

Morden, Peter J, *Offering Christ to the World. Andrew Fuller (1745-1815) and the Revival of Eighteenth Century Particular Baptist Life* (Carlisle, 2003).

Morgan, D.Densil, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul, 1991).

Idem, (gol.), *Grym y Gair a Fflam Ffydd* (Bangor, 1998).

Morgan, Derec Llwyd, *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul, 1981).

Idem, *Pobl Pantycelyn* (Llandysul, 1986).

Morgan, T.J., *Diwylliant Gwerin ac Ysgrifau Eraill* (Llandysul, 1972).

Morris, A., *The Story of Ebenezer Calvinistic Methodist Church* (Newport, 1916).

Murray, Iain H., *The Puritan Hope: revival and the interpretation of prophecy* (Edinburgh, 1971).

Noll, Mark A., *America's God: from Jonathan Edwards to Abraham Lincoln* (Oxford, 2002).

Idem, *The Old Religion in the New World* (Cambridge, 2002).

Noll, M.A., Bebbington, D.W., a Rawlyk, G.A. (goln), *Evangelicalism: comparative studies of popular Protestantism in North America, the British Isles, and beyond, 1700-1990* (Oxford, 1994).

Prime, S.I., *Nerth Gweddi: yn cael ei arddangos yn yr amlygiadau rhyfeddol o ddwyfol ras mewn cysylltiad a'r Diwygiad Crefyddol yn America;* Cyfieithiwyd gan T.Thomas, O.Jones, J.Pritchard, D.Roberts, a W.Davies. (Caernarfon, 1859).

Pritchard, John, *Methodistiaeth Môn, o'r Dechreuad, hyd y flwyddyn 1887* (Amlwch, 1888).

Pritchard, O.J., *Hanes Eglwys Horeb, Llanfairfechan* (Llanfairfechan, 1962).

Pritchard, William, *Cofiant y Parch. Richard Owen, y Diwygiwr* (Amlwch, 1889).

Rees, Thomas, *A History of Protestant Nonconformity in Wales* (London, 1861).

Rhys, Robert, *Daniel Owen* (Caerdydd, 2000).

Roberts, John, *Galwad Ddifrifol ar Ymofynwyr am y Gwirionedd* (Dolgellau, 1820).

Roberts, J.J., *Cofiant y Parchedg Owen Thomas, D.D., Liverpool* (Caernarfon, 1912).

Roberts, O.M., *Cofiant y Parch Hugh Jones DD* (Bangor, 1934).

Sprague, W., *Lectures on Revival of Religion* (Alany, 1832).

Thomas, Owen, *Cofiant John Jones, Talsarn* (Wrecsam, 1874).

Thomas, R.S., (Abercynon), *Undod Personol y Duw-ddyn* (Merthyr Tudful, 1900).

Thompson, E.P., *The Making of the English Working Class* (London, 1991).

Torrance, J.B., 'The vicarious humanity of Christ' yn T.F.Torrance (gol.), *The Incarnation: ecumenical studies in the Nicene Creed* (Edinburgh, 1981).

Torrance, T.F., *God and Rationality* (Oxford, 1971).

Idem, *The Mediation of Christ* (Edinburgh, 1992).

Walker, D., *A History of the Church in Wales* (Penarth, 1976).

Williams, A.H., *Welsh Weseyan Methodism. 1800-1858. Its Origins, Growth and Secessions* (Bangor, 1935).

Williams, A. Tudno, *Mudiad Rhydychen a Chymru* (Dinbych, 1983).

Williams, D.D., *Thomas Charles Edwards* (Llundain, 1922).

Williams, M.A., *Y Tabernacl, Aberystwyth. Hanes yr Achos - 1785-1985* (Aberystwyth, 1986).

Williams, Thomas Charles, *In Memoriam: Mrs. Richard Davies of Treborth* (1918).

Venn, J., *The Revival in Wales* (Hereford, 1860).

Llyfrau a ddarllenwyd fel cefndir:

Bebbington, D.W., *Victorian Nonconformity* (Bangor, 1992).

Chadwick, O., *The Victorian Church* (London, 1971).

Crawford, M.J., *Seasons of Grace: Colonial New England's revival tradition in its British context* (Oxford, 1991).

Currie, R., Gilbert, A., Horsley, L., *Churches and churchgoers : patterns of church growth in the British Isles since 1700* (Oxford, 1977).

Evans, Eifion, *Revival comes to Wales: the story of the 1859 Revival in Wales* (Bridgend, 1986).

Idem, *Two Welsh revivalists : Humphrey Jones, Dafydd Morgan, and the 1859 revival in Wales* (Bridgend, 1985).

Davies, Evan (gol.), *Revivals in Wales: facts and letters from the 1859 revival* (Cwmbran, ail gyhoeddwyd 2002).

Evans, S., a Roberts, G.M., (goln), *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905* (Caernarfon, 1954).

George, Thomas M., *Revivalsim and cultural change: Christianity, nation building and the market in the nineteenth-century United States* (Chicago, 1989).

Hughes, J.R.T., *Fluctuations in Trade, Industry, and Finance: a study of British economic development, 1850-1860* (Oxford, 1960).

Jenkins, G.H. a Smith J.Beverly (goln), *Politics and society in Wales, 1840-1922: essays in honour of Ieuan Gwynedd Jones* (Cardiff, 1988).

Jones, Ieuan Gwynedd, *Communities: essas in the social history of Victorian Wales* (Llandysul, 1987).

Idem, *Mid-Victorian Wales: the observers and the observed* (Cardiff, 1992).

Idem (gol.), *The Religious Census of 1851, a calendar of the returns relating to Wales* (Cardiff, 1976-81).

Idem, *The Valleys in the mid-nineteenth century – a lecture* (Pontypool, 1981).

Lambert, W.R., *Drink and Sobriety in Victorian Wales, c.1820-c.1895* (Cardiff, 1983).

MacLoughlin, W.G., *Modern Revivalsim: Charles Grandison Finney to Billy Graham* (New York, 1959).

Maddox, R.L. (gol.), *Aldersgate Reconsidered* (Nashvill, 1990).

Orr, J.Edwin, *The Light of the Nations: evangelical renewal and advance in the nineteenth century* (Exeter, 1965).

Peace, R.V., *Coversion in the New Testament: Paul and the twelve* (Grand Rapids, 1999).

Roberts, J.P. a Hughes, T., *Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach: yn cynnwys ei 'adgofion'* (Bangor,1903).

Rubin, J.H., *Religious Melancholy and Protestant Experience in America* (Oxford, 1994).

Schmithals, W., *The Theology of the first Christians* (Louisville, 1997).

Thomas, T., *Poor relief in Merthyr Tydfil Union in Victorian times* (Bridgend, 1992).

Underwood, A.C., *Conversion: Christian and non-christian; a comparative and psychological study* (London, 1925).